



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 26 Ionawr 2011
Wednesday, 26 January 2011**

Cynnwys
Contents

| | |
|-----|--|
| 3 | Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol Questions to the Counsel General |
| 14 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions to the Minister for Social Justice and Local Government |
| 34 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Children, Education and Lifelong Learning |
| 56 | Cwestiwn Brys Urgent Question |
| 62 | Pwynt o Drefn Point of Order |
| 64 | Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i Hygyrchedd Gorsafoedd Rheilffordd yng Nghymru The Committee on Equality of Opportunity's Inquiry into the Accessibility of Railway Stations in Wales |
| 86 | Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Leihau Allyriadau Carbon yng Nghymru The Sustainability Committee's Report into Carbon Reduction in Wales |
| 104 | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: System Parth Glas Welsh Conservatives Debate: Blue Belt System |
| 128 | Cyfnod Pleidleisio Voting Time |
| 130 | Dadl Fer: Sir Benfro: Y Prif Gyrcfan ar gyfer Twristiaeth Bwyd a'r Lleoliad ar gyfer Cynnyrch Lleol Short Debate: Pembrokeshire: The Food Tourism Capital and the Place for Local Produce |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Counsel General.

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol Questions to the Counsel General

Rhaglen Ddeddfwriaethol Flynyddol

Annual Legislative Programme

1. Alun Davies: Beth fydd y Cwnsler Cyffredinol yn ei ystyried yng nghyswllt rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU wrth lunio Rhaglen Ddeddfwriaethol Flynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)0160(CGE)

1. Alun Davies: What does the Counsel General take into account with regard to the UK Government's legislative programme when formulating the Welsh Assembly Government's Annual Legislative Programme. OAQ(3)0160(CGE)

The Counsel General and Leader of the Legislative Programme (John Griffiths): The UK Government's legislative programme remains an important source of legislation for Wales, and Welsh Ministers continue to consider possibilities for Welsh provisions in UK Bills. Through our own legislative programme, we continue to deliver our 'One Wales' commitments and important change for Wales.

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol (John Griffiths): Mae rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn ffynhonnell bwysig o ddeddfwriaeth i Gymru, ac mae Gweinidogion Cymru yn parhau i ystyried posibiladau ar gyfer darpariaethau Cymreig ym Miliâu'r DU. Drwy ein rhaglen ddeddfwriaethol ein hunain, rydym yn parhau i gyflawni ein hymrwymiaidau 'Cymru'n Un' a newid pwysig i Gymru.

Alun Davies: One issue to which we have returned on several different occasions during this Assembly is the Welsh Assembly Government's ability to influence the UK Government's legislative programme, and then to secure appropriate provision for, for example, Measure-making powers for the National Assembly in new areas. I therefore welcome the work that has been done by the Assembly Government on the Localism Bill, which has secured provision in three new areas, I believe. However, many Assembly Members from all political parties here would also like to ensure that they are able to scrutinise Measure-making powers contained in UK legislation. Are you and the Welsh Assembly Government prepared to consider how that can be best facilitated?

Alun Davies: Un mater rydym wedi dychwelyd ato sawl gwaith yn ystod y Cynulliad hwn yw gallu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddylanwadu ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, ac yna sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer, er enghraifft, pwerau i wneud Mesurau i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn meysydd newydd. Rwyf felly'n croesawu'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad ar y Bil Lleoliaeth sydd wedi sicrhau darpariaeth mewn tri maes newydd, mi gredaf. Fodd bynnag, byddai llawer o Aelodau'r Cynulliad o bob plaid wleidyddol yma hefyd yn hoffi sicrhau eu bod yn gallu craffu ar bwerau gwneud Mesur yn neddfwriaeth y DU. A ydych chi a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn barod i ystyried sut y gellir hwyluso hynny orau?

John Griffiths: These are important matters. We always want to maximise the Assembly's ability to scrutinise effectively. Obviously,

John Griffiths: Mae'r rhain yn faterion pwysig. Rydym bob amser am wneud y mwyaf o allu'r Cynulliad i graffu'n effeithiol.

UK Bills are a matter for the UK Parliament and its scrutiny process. However, the Assembly has an interest in those Bills and a role to play. We have an annual debate on the Queen's Speech, and any Assembly Committee, including the Constitutional Affairs Committee, can decide to discuss Welsh provisions in UK Bills, particularly Measure-making powers. Welsh Ministers also make statements regarding the introduction of any Bill that would contain Measure-making powers. Therefore, there are important processes already in place. However, as I am sure Assembly Members will know by now, I am conducting a review on our legislative processes, and, as part of that, I hope to give some attention to how we could have greater scrutiny of Measure-making powers in UK Bills. I hope to make a statement on the result of my review soon.

Nick Ramsay: I concur with the sentiments expressed by Alun Davies. I also welcome the Counsel General's recognition that, if something is being done at the UK level that would be beneficial to Wales, then it is right that the Assembly Government, and, indeed, the Assembly, look at ways in which we can benefit from that. It does not necessarily mean the Assembly doing something totally different; it makes more sense, efficiency wise, for us to follow legislation that we like at the UK level. Beyond that, the referendum on the Assembly's remit powers is coming up in March, which is only a few weeks away. I hope that there will be a 'yes' vote in that referendum. If there is a 'yes' vote, and that change occurs, what work is being done by the Government with regard to what Alun asked about? At that point, we would no longer have the legislative competence Order system; we would simply have a Measure system. Would it still be the Government's intention to look closely at this, and to continue working with the UK Government at times in a way that is appropriate to what we want to do here for the benefit of Wales?

John Griffiths: I agree with what I take to be

Yn amlwg, mae Biliau'r DU yn fater i Senedd y DU a'i phroses graffu hi. Fodd bynnag, mae gan y Cynulliad ddiddordeb yn y Biliau hynny a rôl i'w chwarae. Mae gennym ddadl flynyddol ar Araith y Frenhines, a gall unrhyw bwyllgor yn y Cynulliad, gan gynnwys y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, benderfynu trafod darpariaethau i Gymru ym Miliâu'r DU, yn enwedig pwerau i wneud Mesurau. Gall Gweinidogion Cymru hefyd wneud datganiadau ynghylch cyflwyno unrhyw Fil a fyddai'n cynnwys pwerau i wneud Mesurau. Felly, mae prosesau pwysig eisoes ar waith. Fodd bynnag, fel rwyf yn siŵr y bydd Aelodau'r Cynulliad yn gwybod erbyn hyn, rwyf yn cynnal adolygiad ar ein prosesau deddfwriaethol, ac, fel rhan o hynny, rwyf yn gobeithio rhoi peth sylw i sut y gallem graffu mwy ar bwerau i wneud Mesurau ym Miliâu'r DU. Rwy'n gobeithio gwneud datganiad ar ganlyniad fy adolygiad cyn bo hir.

Nick Ramsay: Rwyf yn cytuno â'r safbwynt a fynegwyd gan Alun Davies. Croesawaf hefyd gydnabyddiaeth y Cwnsler Cyffredinol sef, os yw rhywbeth yn cael ei wneud ar lefel y DU a fyddai o fudd i Gymru, ei bod yn iawn fod Llywodraeth y Cynulliad, ac, yn wir, y Cynulliad, yn edrych ar ffyrdd y gallwn elwa o hynny. Nid yw'n golygu o reidrwydd fod y Cynulliad yn gwneud rhywbeth hollol wahanol; mae'n gwneud mwy o synnwyr, o ran effeithlonrwydd, i ni ddilyn deddfwriaeth ar lefel y DU yr ydym yn ei hoffi. Tu hwnt i hynny, bydd y refferendwm ar bwerau cylch gwaith y Cynulliad yn cael ei gynnal ym mis Mawrth, sydd ond ychydig wythnosau i ffwrdd. Gobeithiaf y bydd pleidlais 'ie' yn y refferendwm. Os bydd pleidlais 'ie', a bod newid yn digwydd, pa waith sy'n cael ei wneud gan y Llywodraeth o ran yr hyn y gofynnodd Alun amdano? Pe bai hynny'n digwydd, ni fyddai gennym y system Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol mwyach; byddai gennym system Mesur. A fyddai'n dal yn fwriad gan y Llywodraeth i edrych yn ofalus ar hyn, a pharhau i weithio gyda Llywodraeth y DU o bryd i'w gilydd mewn ffordd sy'n briodol i'r hyn a wnawn yma er budd Cymru?

John Griffiths: Rwyf yn cytuno â'r hyn y

your view, as expressed in your question. It will remain important for us in Wales to understand what is proposed in UK Government Bills, and to have the usual Government-to-Government communication around those UK Government Bills, while, at the same time, taking forward our own legislative programme, as we do now. I very much think that that will remain the picture, although we will have a streamlined process here, which will avoid the wasteful duplication involved in the LCO process now. I very much join you, Nick, in hoping that we get a 'yes' vote in the referendum, but, nonetheless, I recognise that UK Bills will still be very significant for Wales. We still need to communicate very closely on a Government-to-Government level, as well as having effective scrutiny around those processes.

Leanne Wood: Counsel General, we have a Westminster coalition Government, which has no mandate here in Wales, delivering policy after policy that is hurting Wales. Apart from the scythe being taken to public sector services, such as in the closure of the Newport Regional Passport Office and the Driving Standards Agency office in Cardiff, the slashing of the welfare budget will hurt people in Wales very deeply indeed. Thousands of people will be adversely affected by cuts to disability living allowance and housing benefit. Given that the Assembly is committed to reducing poverty, and, in particular, to reducing child poverty, has any assessment been made of the way in which the regressive legislative decisions of David Cameron and his Lib-Dem cronies in London will undermine Welsh Government efforts to promote social equality?

The Presiding Officer: Order. Legislative decisions are not taken by Liberal Democrats or Conservatives; they are taken by Parliament.

John Griffiths: The welfare reform Bill, which I understand is to be introduced in Parliament in early February, has important implications for Wales and, indeed, the responsibility of Welsh Ministers around social services, housing and the economy, for example. I know that Welsh Ministers are

tybiaf yw eich safbwynt, fel y mynegwyd yn eich cwestiwn. Bydd yn parhau i fod yn bwysig i ni yng Nghymru ddeall yr hyn a gynigir ym Miliâu Llywodraeth y DU, ac i gael y drafodaeth Llywodraeth-i-Llywodraeth arferol am y Biliau Llywodraeth y DU hynny, tra ein bod, ar yr un pryd, yn datblygu ein rhaglen deddfwriaethol ein hunain, fel y gwnawn ar y funud. Ni thybiaf y bydd hynny'n newid, er y bydd gennym broses symlach yma, a fydd yn osgoi'r dyblygu gwastraffus sy'n ffactor yn y broses LCO ar y funud. Fel chi, Nick, rwyf yn mawr obeithio y cawn bleidlais 'ie' yn y refferendwm, ond, er hynny, rwyf yn cydnabod y bydd Mesurau'r DU yn dal i fod yn arwyddocaol iawn i Gymru. Rydym yn dal i fod angen cyfathrebu yn agos iawn ar lefel Llywodraeth-i-Llywodraeth, yn ogystal â chraffu'n effeithiol ar y prosesau hynny.

Leanne Wood: Gwnsler Cyffredinol, mae gennym Lywodraeth glymblaid yn San Steffan, sydd heb unrhyw fandad yma yng Nghymru, yn cyflwyno polisi ar ôl polisi sy'n brifo Cymru. Ar wahân i'r toriadau sy'n cael eu gwneud i wasanaethau sector cyhoeddus, megis cau Swyddfa Basbort Ranbarthol Casnewydd a swyddfa'r Asiantaeth Safonau Gyrru yng Nghaerdydd, bydd torri'r gyllideb lles yn brifo pobl yng Nghymru yn ddwfn. Bydd miloedd o bobl yn cael eu heffeithio'n andwyol arnynt gan doriadau i'r lwfans byw i'r anabl a budd-dal tai. O gofio bod y Cynulliad wedi ymrwymo i leihau tlodi, ac, yn benodol, i leihau tlodi plant, a wnaed unrhyw asesiad o'r ffordd y bydd penderfyniadau deddfwriaethol anflaengar David Cameron a'i ffrindiau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain yn tanseilio ymdrechion Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb cymdeithasol?

Y Llywydd: Trefn. Nid yw penderfyniadau deddfwriaethol yn cael eu gwneud gan y Democratiaid Rhyddfrydol na'r Ceidwadwyr; maent yn cael eu gwneud gan y Senedd.

John Griffiths: Mae gan y Bil diwygio lles, yr wyf ar ddeall y bydd yn cael ei gyflwyno yn y Senedd ddechrau mis Chwefror, oblygiadau pwysig i Gymru ac, yn wir, i gyfrifoldeb Gweinidogion Cymru o ran gwasanaethau cymdeithasol, tai a'r economi, er enghraifft. Gwn fod Gweinidogion Cymru

involved in considering the implications, along with officials, and no doubt, in the usual Government-to-Government way, any concerns will be expressed and, hopefully, addressed.

Rhaglen Ddeddfwriaethol

2. Christine Chapman: *A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)0158(CGE)*

John Griffiths: We have now introduced all items contained in the Welsh Assembly Government's legislative programme. We will continue to progress items currently going through the legislative process with the aim of delivering all items before the end of this Assembly.

Christine Chapman: I welcome the fact that you have now introduced all items in this programme for this Assembly, and that a number of Measures have been approved and agreed, including, for example, the Proposed Rights of Children and Young Persons Measure. Do you agree that this legislation will deliver significant benefits as it is implemented, and do you think that we need to consider the experience of how the legislative process has operated over the past four years?

John Griffiths: I very much agree that the Proposed Rights of Children and Young Persons Measure will deliver very important benefits for our children and young people here in Wales. It is one example of the Welsh Assembly Government legislating very effectively in terms of ensuring practical benefits that matter to the people of Wales. I would also very much hope that, in the statement that I hope to make shortly on my review of our legislative processes, I will be able to show that we have looked at the experience of the first four years of the Government of Wales Act 2006 and how we have legislated and conducted our processes under that Act in order to learn the lessons that should be learned, and to also make improvements for the future, which will be relevant not just before the referendum, but

yn rhan o'r broses o ystyried y goblygiadau, ynghyd â swyddogion, ac mae'n debyg y bydd unrhyw bryderon yn cael eu mynegi, a'u datrys, gobeithio, yn y ffordd Llywodraeth-i-Llywodraeth arferol.

Legislative Programme

2. Christine Chapman: *Will the Counsel General make a statement on the Welsh Assembly Government's Legislative Programme. OAQ(3)0158(CGE)*

John Griffiths: Rydym bellach wedi cyflwyno'r holl eitemau a gynhwyswyd yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwn yn parhau i symud ymlaen â'r eitemau sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy'r broses ddeddfwriaethol gyda'r nod o gyflwyno pob eitem cyn diwedd y Cynulliad hwn.

Christine Chapman: Croesawaf y ffaith eich bod bellach wedi cyflwyno pob eitem yn y rhaglen hon ar gyfer y Cynulliad hwn, a bod nifer o Fesurau wedi cael eu cymeradwyo a'u cytuno, gan gynnwys, er enghraifft, y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc. A ydych chi'n cytuno y bydd y ddeddfwriaeth hon yn sicrhau manteision sylweddol wrth iddi gael ei gweithredu, ac a ydych yn credu bod angen i ni ystyried y profiad o sut mae'r broses ddeddfwriaethol wedi gweithredu dros y pedair blynedd diwethaf?

John Griffiths: Rwyf yn cytuno y bydd y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn sicrhau manteision pwysig iawn i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'n enghraifft o ddeddfu effeithiol iawn ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau manteision ymarferol sydd o bwys i bobl Cymru. Byddwn hefyd yn mawr obeithio, yn y datganiad yr wyf yn gobeithio ei wneud yn fuan ar fy adolygiad o'n prosesau deddfwriaethol, y byddaf yn gallu dangos ein bod wedi edrych ar brofiad y pedair blynedd gyntaf o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a sut rydym wedi deddfu a chynnal ein prosesau o dan y Ddeddf honno er mwyn dysgu'r gwersi y dylid eu dysgu, a hefyd i wneud gwelliannau ar gyfer y dyfodol, a fydd yn berthnasol nid yn unig cyn y refferendwm, ond ar ei ôl, os yw'n sicrhau canlyniad 'ie'

after it, if it produces a 'yes' result, as I very much hope that it will. So, I hope that that statement will be forthcoming shortly. It will also show that, as a result of the meetings that I have held with Assembly committee Chairs, Assembly Members, Ministers and external stakeholders, we have listened and we will be seeking to introduce the expected improvements.

1.40 p.m.

Jonathan Morgan: Counsel General, on Wednesday, 12 January, the Minister for Health and Social Services brought a statement to the Assembly outlining a proposed legislative competence Order that would devolve powers in the field of organ donation and, in particular, allow the Government to alter the legal framework of Wales to one of presumed consent. However, I understand that, on the Monday of that week, the Secretary of State for Wales informed the First Minister in one of their regular meetings that the UK Government had some concerns as to whether or not that proposed LCO could proceed. Could you tell me, therefore, why it took two days for the Assembly Government to contact the UK Government to find out the nature of its concerns, resulting in the Minister expressing great concern that an e-mail had been received that afternoon, at the time that she was making the statement? Perhaps you could outline to the Assembly what role you have played as the Government's chief legal officer in finding out the nature of those concerns as to whether the proposed competence Order could devolve those powers to the National Assembly.

John Griffiths: There are Government-to-Government communications and that relationship is conducted on a confidential basis, although, occasionally, matters are necessarily and properly brought into the public domain. Nonetheless, there are protocols and agreed ways of conducting that relationship between the UK Government and the Welsh Assembly Government, which I certainly intend to observe. I can say that, as part of the LCO process, there is a referral to the UK Attorney-General as a matter of

fel yr wyf yn gobeithio'n fawr y bydd. Felly, rwyf yn gobeithio y bydd y datganiad hwnnw'n cael ei wneud cyn bo hir. Bydd hefyd yn dangos, o ganlyniad i'r cyfarfodydd a gefais gyda Chadeiryddion pwyllgorau'r Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad, Gweinidogion a rhanddeiliaid allanol, ein bod wedi gwrandao a byddwn yn ceisio cyflwyno'r gwelliannau disgwylidig.

Jonathan Morgan: Gwnsler Cyffredinol, ddydd Mercher, 12 Ionawr, gwnaeth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad i'r Cynulliad yn amlinellu Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig a fyddai'n datganoli pwerau ym maes rhoi organau ac a fyddai, yn benodol, yn caniatáu i'r Llywodraeth newid y fframwaith cyfreithiol yng Nghymru i un o ganiatâd tybiedig. Fodd bynnag, rwyf yn deall, ar ddydd Llun yr wythnos honno, bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi dweud wrth y Prif Weinidog yn un o'u cyfarfodydd rheolaidd bod gan Lywodraeth y DU rai pryderon ynghylch a allai'r Gorchymyn arfaethedig fynd yn ei flaen. A allwch ddweud wrthyf, felly, pam y cymerodd ddau ddiwrnod i Lywodraeth y Cynulliad gysylltu â Llywodraeth y DU i gael gwybod am natur ei phryderon, gan arwain at y Gweinidog yn mynegi pryder mawr fod e-bost wedi ei dderbyn y prynhawn hwnnw, ar yr adeg yr oedd yn gwneud y datganiad? Efallai y gallech amlinellu i'r Cynulliad pa rôl rydych wedi ei chwarae fel prif swyddog cyfreithiol y Llywodraeth o ran dod i wybod am natur y pryderon hynny ynghylch a allai'r Gorchymyn cymhwysedd arfaethedig ddatganoli'r pwerau hynny i'r Cynulliad Cenedlaethol.

John Griffiths: Mae trafodaethau Llywodraeth-i-Llywodraeth yn digwydd ac mae'r berthynas honno yn cael ei chynnal yn gyfrinachol, er, o bryd i'w gilydd, bydd angen tynnu materion yn briodol at sylw'r cyhoedd. Serch hynny, rydym wedi cytuno ar brotocolau a ffyrdd o gynnal y berthynas rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac rwyf yn sicr yn bwriadu cadw atynt. Gallaf ddweud, fel rhan o'r broses LCO, fod y mater yn cael ei gyfeirio at Dwrnai Cyffredinol y DU fel mater o drefn, a

course, and that, obviously, would have occurred in this instance. I note that the Attorney-General is satisfied that the proposed LCO on organ donation should proceed to pre-legislative scrutiny at Westminster. Similarly, an Assembly committee is conducting pre-legislative scrutiny on the proposed LCO currently. My role, as Counsel General, is to seek to ensure that everything that the Welsh Assembly Government does is within our competence. Before a proposed legislative competence Order proceeds as this one has, it is referred to me so that I may give an opinion as to whether it is within our competence. The proposed LCO is proceeding and I am content that it should proceed.

Gweinyddiaethau Datganoledig

3. Lorraine Barrett: *Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael yn ddiweddar gyda'r gweinyddiaethau datganoledig. OAQ(3)0161(CGE)*

John Griffiths: I regularly discuss a range of issues with the other devolved administrations.

Lorraine Barrett: In any future discussions with other devolved administrations, will you be raising any concerns that you might have about the implications of the UK Government's Public Bodies Bill, which, as you know, could give Ministers the power to merge or even abolish a vast range of statutory bodies across the UK, which could impact adversely on their activities in Wales?

John Griffiths: We are continuing to liaise with the UK Government on this Bill, as we always do, in line with the usual Government-to-Government process of dealing with UK Bills. An appropriate part of that discussion deals with the basis for a legislative consent motion in the Assembly and that is one matter that will be discussed. I am happy to confirm, Lorraine, that there are ongoing talks on this important Bill and they will proceed as the Bill goes through Parliament.

Darren Millar: Counsel General, one area

byddai hynny, yn amlwg, wedi digwydd yn yr achos hwn. Nodaf fod y Twrnai Cyffredinol yn fodlon y gall y Gorchymyn arfaethedig ar roi organau fynd ymlaen i'r broses craffu cyn deddfu yn San Steffan. Yn yr un modd, mae un o bwyllgorau'r Cynulliad yn cynnal gwaith craffu cyn deddfu ar y Gorchymyn arfaethedig ar hyn o bryd. Fy rôl i, fel Cwnsler Cyffredinol, yw ceisio sicrhau bod popeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud o fewn ein cymhwysedd. Cyn i Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig fynd yn ei flaen fel y gwnaeth hwn, caiff ei gyfeirio ataf fi fel y gallaf roi barn ynghylch a yw o fewn ein cymhwysedd. Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn mynd yn ei flaen ac rwyf yn fodlon y dylai wneud hynny.

Devolved Administrations

3. Lorraine Barrett: *What recent discussions has the Counsel General had with the devolved administrations. OAQ(3)0161(CGE)*

John Griffiths: Rwyf yn trafod ystod o faterion gyda'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn rheolaidd.

Lorraine Barrett: Mewn unrhyw drafodaethau a gewch yn y dyfodol gyda gweinyddiaethau datganoledig eraill, a fyddwch yn codi unrhyw bryderon a allai fod gennych ynghylch goblygiadau Bil Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth y DU, a allai, fel y gwyddoch, roi pŵer i Weinidogion uno neu hyd yn oed ddiddymu ystod helaeth o gyrff statudol ar draws y DU, a allai gael effaith niweidiol ar eu gwaith yng Nghymru?

John Griffiths: Rydym yn parhau i drafod gyda Llywodraeth y DU ar y Bil hwn, fel y gwnawn bob amser, yn unol â'r broses Llywodraeth-i-Lywodraeth arferol o ddelio â Mesurau'r DU. Mae rhan briodol o'r drafodaeth honno yn ymwneud â'r sail am gynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y Cynulliad ac mae hwnnw'n fater a fydd yn cael ei drafod. Rwyf yn hapus i gadarnhau, Lorraine, bod trafodaethau parhaus ar y Bil pwysig hwn, a byddant yn parhau wrth i'r Mesur fynd drwy'r Senedd.

Darren Millar: Gwnsler Cyffredinol, un

that is not a devolved responsibility, but which the devolved administrations are able to influence, is the quality of services, and support services in particular, for our ex-service personnel. What discussions have you had regarding the improved allocation of funds by the Ministry of Defence to support ex-service personnel, particularly those with mental health problems, and have you had any discussions with your colleagues in the devolved administrations about how that might impact upon Wales, particularly in terms of any Barnett consequential, given that health services in particular are provided by the National Assembly Government?

John Griffiths: As Counsel General I am concerned with the legal aspects of legislation and service delivery. Policy matters are matters for the relevant Ministers. I know that my colleague Carl Sargeant is taking a close interest in services and support for ex-service people in Wales and, when it comes to mental health matters, my colleague Edwina Hart does likewise.

David Lloyd: Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Llywodraethau datganoledig eraill ynghylch caniatâd tybiedig i roi organau? Fel y dywedodd Jonathan Morgan, gwyddom am safbwynt cyfreithiol Llundain ar y mater hwn ac, yn naturiol, am ein safbwynt cyfreithiol ni ynghylch caniatâd tybiedig i roi organau. Pa drafodaethau pellach sydd wedi bod a pha gynnydd sydd wedi bod o ran symud yr agenda hollbwysig hwn ymlaen?

John Griffiths: The Attorney-General has the responsibility to advise the UK Government on legal matters with regard to LCOs, and that has happened with regard to this particular proposed LCO on organ donation. Similarly, I have a role here as the final legal adviser to the Welsh Assembly Government on whether the proposed LCO is within our competence or not. I reiterate what I said earlier, which is that this proposed LCO is proceeding, both at Westminster and here, for pre-legislative scrutiny, and I am content for it to proceed in that way.

maes nad yw'n gyfrifoldeb datganoledig, ond y mae gan y gweinyddiaethau datganoledig y gallu i ddylanwadu arno, yw ansawdd gwasanaethau, a gwasanaethau cymorth yn benodol, ar gyfer ein cyn-filwyr. Pa drafodaethau a gawsoch ynghylch gwell dyraniad o arian gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i gefnogi cyn-filwyr, yn enwedig y rhai â phroblemau iechyd meddwl, ac a gawsoch unrhyw drafodaethau gyda'ch cydweithwyr yn y gweinyddiaethau datganoledig ynghylch sut y gallai effeithio ar Gymru, yn enwedig o ran unrhyw swm Barnett canlyniadol, o gofio bod gwasanaethau iechyd yn arbennig yn cael eu darparu gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol?

John Griffiths: Fel Cwnsler Cyffredinol rwyf yn ymwneud ag agweddau cyfreithiol ar ddeddfwriaeth a darparu gwasanaethau. Mae materion polisi yn faterion i'r Gweinidogion perthnasol. Gwn fod fy nghyd-Aelod Carl Sargeant yn cymryd cryn ddiddordeb mewn gwasanaethau a chymorth i gyn-filwyr yng Nghymru ac, o ran materion iechyd meddwl, mae fy nghyd-Aelod Edwina Hart yn gwneud yr un peth.

David Lloyd: What discussions have you had with other devolved Governments with regard to presumed consent on organ donation? As Jonathan Morgan said, we know of the legal stance taken by London on this matter and, naturally, of our own legal position with regard to presumed consent on organ donation. What further discussions have there been and what progress has been made with regard to moving this crucial agenda forward?

John Griffiths: Y Twrnai Cyffredinol sy'n gyfrifol am gynghori Llywodraeth y DU ar faterion cyfreithiol o ran Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol, ac mae hynny wedi digwydd o ran y Gorchymyn arfaethedig ar roi organau. Yn yr un modd, mae gennyf rôl yma fel y cynghorydd cyfreithiol terfynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch a yw'r Gorchymyn arfaethedig o fewn ein cymhwysedd ai peidio. Ailadroddaf yr hyn a ddywedais yn gynharach, sef bod y Gorchymyn arfaethedig yn mynd rhagddo, yn San Steffan ac yma, o ran y gwaith craffu cyn-ddeddfwriaethol, ac

rwyf yn fodlon i'r gwaith fynd rhagddo yn y ffordd honno.

Gwasanaethau Cyfreithiol Pro Bono

4. Sandy Mewies: *A yw'r Cwnsler Cyffredinol wedi ymateb i unrhyw ymgynghoriad ynghylch darparu gwasanaethau cyfreithiol pro bono yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)0159(CGE)*

John Griffiths: No, but I am working with the legal profession in Wales to achieve a greater understanding of pro bono provision of legal services in Wales.

Sandy Mewies: Would you acknowledge the great value of the pro bono work carried out by lawyers in Wales and agree that it should be encouraged further?

John Griffiths: I very much agree, Sandy. Pro bono work is very important for individuals and communities. The provision of advice, assistance and representation free of charge is of great benefit to those who are not in a position to pay for those services. I am pleased to say that matters are developing in the legal profession in Wales with regard to pro bono provision. Cardiff Law School, where I myself studied many moons ago, has been proactive in working with the profession in Wales and with students to try to ensure that there is an understanding of the need for pro bono legal advice and representation, and we have important organisations such as Reaching Justice Wales, which seek to ensure good access to legal services. There are also some important developments in the offing at a UK level. There is a national pro bono centre now, which brings together solicitors, barristers and legal executives to take forward pro bono work, and we very much hope that there may be a LawWorks—that being the solicitors' organisation for pro bono work—conference in Cardiff in May to highlight the pro bono work that is being done and discuss how we can further develop it.

Bethan Jenkins: I have a question on the consultation that the Ministry of Justice is

Pro Bono Provision of Legal Services

4. Sandy Mewies: *Has the Counsel General responded to any consultation on pro bono provision of legal services in Wales on behalf of the Welsh Assembly Government. OAQ(3)0159(CGE)*

John Griffiths: Nac ydw, ond rwyf yn gweithio gyda'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru i gael gwell dealltwriaeth o ddarpariaeth gwasanaethau cyfreithiol pro bono yng Nghymru.

Sandy Mewies: A fydddech yn cydnabod gwerth mawr y gwaith pro bono a wneir gan gyfreithwyr yng Nghymru ac yn cytuno y dylid annog mwy ohono?

John Griffiths: Rwyf yn cytuno'n llwyr, Sandy. Mae gwaith pro bono yn bwysig iawn i unigolion a chymunedau. Mae darparu cyngor, cymorth a chynrychiolaeth rhad ac am ddim o fudd mawr i'r rheiny nad ydynt mewn sefyllfa i dalu am y gwasanaethau hynny. Rwyf yn falch o ddweud bod materion yn datblygu yn y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru o ran darpariaeth pro bono. Bu Ysgol y Gyfraith Caerdydd, lle'r astudiais i flynyddoedd maith yn ôl, yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r proffesiwn yng Nghymru a chyda myfyrwyr i geisio sicrhau bod dealltwriaeth o'r angen am gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol pro bono, ac mae gennym sefydliadau pwysig megis Cyrraedd Cyfiawnder Cymru, sy'n ceisio sicrhau mynediad da at wasanaethau cyfreithiol. Mae hefyd rai datblygiadau pwysig ar y gweill ar lefel y DU. Mae canolfan genedlaethol pro bono bellach, sy'n dwyn ynghyd gyfreithwyr, bargyfreithwyr a gweithredwyr cyfreithiol i ddatblygu gwaith pro bono, ac rydym yn mawr obeithio cynnal cynhadledd LawWorks—sef sefydliad y cyfreithwyr ar gyfer gwaith pro bono—yng Nghaerdydd ym mis Mai i dynnu sylw at y gwaith pro bono sy'n cael ei wneud a thrafod sut y gallwn ei ddatblygu ymhellach.

Bethan Jenkins: Mae gennyf gwestiwn am yr ymgynghoriad y mae'r Weinyddiaeth

currently undertaking with regard to changes to legal aid. This is specifically in relation to asylum seekers. We know that the UK Government plans to end advice on reception for newly arrived asylum seekers—or rather to cut that by 60 per cent by March—and advice for recent refugees will not be funded at all by September 2011. The Welsh Refugee Council's concern is that, if access to lawyers is limited to a call-centre provision, face to face meetings will not take place and asylum seekers will be at the end of the queue in accessing those lawyers. Can you update us on whether the Government has taken part in the consultation? As chair of the Assembly's cross-party group on human rights, I am very concerned about these potential changes.

1.50 p.m.

John Griffiths: I can assure you that the Welsh Assembly Government is taking a keen interest in the Ministry of Justice proposals, as they will have an impact in Wales. As I said earlier, usual Government-to-Government links govern these matters. It has been brought to my attention that there are general concerns as to whether asylum seekers and refugees receive the level of legal advice and assistance in Wales that they should expect. I have held meetings here in the Assembly, as Counsel General, with the Welsh Refugee Council, Asylum Justice—an organisation that has done a great deal of good work in this field over a number of years—legal professionals who have a particular interest in this area, Cardiff Law School and others. The purpose of those meetings was to try to identify the gaps and develop ways of filling them. I very much hope that out of that will come new training courses for volunteers and law students, for example, so that they are in a position to provide advice and assistance on a voluntary basis. Refugees and asylum seekers are often very vulnerable and badly in need of that sort of assistance. So, I recognise a lot of issues around asylum seeker and refugee needs for legal advice, assistance and representation, and I hope that we see progress in the short term.

Gyfiawnder yn ei gynnal ar hyn o bryd am y newidiadau i gymorth cyfreithiol. Mae'r cwestiwn yn benodol am geiswyr lloches. Gwyddom fod Llywodraeth y DU yn bwriadu dod â gwasanaeth cyngori ceiswyr lloches sydd newydd gyrraedd i ben—neu yn hytrach ei dorri 60 y cant erbyn mis Mawrth—ac na fydd cyngor i ffoaduriaid diweddar yn cael ei ariannu o gwbl erbyn mis Medi 2011. Pryder Cyngor Ffoaduriaid Cymru yw, os bydd mynediad at gyfreithwyr yn cael ei gyfyngu i ddarpariaeth canolfan alw, na fydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn digwydd, ac y bydd ceiswyr lloches ymysg yr olaf i gael mynediad at y cyfreithwyr hynny. Allwch chi roi gwybod i ni a yw'r Llywodraeth wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad? Fel cadeirydd grŵp trawsbleidiol y Cynulliad ar hawliau dynol, rwyf yn bryderus iawn am y newidiadau posibl hyn.

John Griffiths: Gallaf eich sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd diddordeb brwd yng nghynigion y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan y byddant yn cael effaith yng Nghymru. Fel y dywedais yn gynharach, y cysylltiadau Llywodraeth-i-Lywodraeth arferol sy'n arwain y materion hyn. Tynnwyd fy sylw at y ffaith bod pryderon cyffredinol ynghylch a yw ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn derbyn y cyngor a chymorth cyfreithiol y dylent eu disgwyl yng Nghymru. Rwyf wedi cynnal cyfarfodydd yma yn y Cynulliad, fel Cwnsler Cyffredinol, gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru, Cyfiawnder Lloches-sefydliad a wnaeth lawer iawn o waith da yn y maes hwn dros nifer o flynyddoedd-gweithwyr cyfreithiol proffesiynol sydd â diddordeb arbennig yn y maes hwn, Ysgol y Gyfraith Caerdydd ac eraill. Diben y cyfarfodydd hynny oedd ceisio adnabod y bylchau a datblygu ffyrdd o'u llenwi. Rwy'n gobeithio'n fawr y daw cyrsiau hyfforddi newydd yn sgil hynny i wirfoddolwyr a myfyrwyr y gyfraith, er enghraifft, fel eu bod mewn sefyllfa i roi cyngor a chymorth gwirfoddol. Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn aml yn agored iawn i niwed ac arnynt angen y math hwnnw o gymorth yn ddybryd. Felly, rwyf yn cydnabod fod llawer o faterion yn ymwneud ag anghenion ceiswyr lloches a ffoaduriaid i gael cyngor, cymorth a chynrychiolaeth

gyfreithiol, a gobeithio y gwelwn gynnydd yn y tymor byr.

Brian Gibbons: Counsel General, you will be aware that asylum seekers and refugees are a particularly vulnerable group, and that, very often, they arrive in this country in circumstances that are disadvantageous. They find themselves in a difficult position in trying to establish their rights. I am aware that pro bono legal aid is often the main means by which refugees and asylum seekers can assert their rights. Can you give some indication as to how this valuable service can continue to be of benefit to this vulnerable group?

John Griffiths: I very much agree that asylum seekers and refugees are in a vulnerable position. Legal advice and representation, and the ultimate decisions on their cases, matter hugely to them and their families. There are various ways in which we can try to develop pro bono help for them in Wales. We rely, obviously, on goodwill from the various professionals involved, and we also have to ensure that advice agencies are properly supported. One way in which we might be able to see greater resource for pro bono work in general, but which would also help refugees and asylum seekers, is through some of the ideas that currently exist, one of which is a greater seeking and granting of pro bono cost orders—where there is representation in court on a pro bono basis, the provider of that representation makes an application for a pro bono cost order. Often, this could happen, but does not happen. If it were to happen, the costs awarded would go into a fund for providing free legal advice and assistance to asylum seekers and refugees. Awareness of such cost orders is something that we would seek to develop. There are various fundraising efforts within the profession itself, which we would seek to encourage and support.

Argymhellion Adolygiad Tribiwnlysoedd

5. Jeff Cuthbert: *A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am y cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Dribiwnlysoedd sydd ar waith yng Nghymru. OAQ(3)0157(CGE)*

Brian Gibbons: Gwnsler Cyffredinol, byddwch yn ymwybodol bod ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn grŵp sy'n arbennig o agored i niwed, ac, yn aml iawn, maent yn cyrraedd y wlad hon mewn amgylchiadau anfanteisiol. Maent yn cael eu hunain mewn sefyllfa anodd o ran ceisio sefydlu eu hawliau. Gwn mai cymorth cyfreithiol pro bono yn aml yw'r brif ffordd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches fynnu eu hawliau. A allwch chi roi rhywfaint o syniad i ni sut y gall y gwasanaeth gwerthfawr hwn barhau i fod o fudd i'r grŵp hwn sy'n agored i niwed?

John Griffiths: Rwyf yn cytuno bod ceiswyr lloches a ffoaduriaid mewn sefyllfa fregus. Mae cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol, a'r penderfyniadau terfynol ar eu hachosion, yn bwysig iawn iddynt hwy a'u teuluoedd. Mae sawl ffordd y gallwn geisio datblygu cymorth pro bono ar eu cyfer yng Nghymru. Rydym yn dibynnu, yn amlwg, ar ewyllys da gan y gweithwyr proffesiynol amrywiol cysylltiedig, a dylem hefyd sicrhau bod asiantaethau cynghori yn cael eu cefnogi'n briodol. Un ffordd y gallem gael mwy o adnoddau i waith pro bono yn gyffredinol, ond a fyddai hefyd yn helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yw drwy rai o'r syniadau sy'n bodoli ar hyn o bryd, ac un ohonynt yw gofyn am fwy o orchmynion llys pro bono, a'u rhoi—Ile ceir cynrychiolaeth yn y llys ar sail pro bono, mae darparwr y gynrychiolaeth honno'n gwneud cais am orchymyn cost pro bono. Yn aml, gallai hyn ddigwydd, ond nid yw'n digwydd. Pe bai'n digwydd, byddai'r costau a ddyfernir yn mynd i gronfa i ddarparu cyngor a chymorth cyfreithiol am ddim i geiswyr lloches a ffoaduriaid. Byddai ymwybyddiaeth o orchmynion cost o'r fath yn rhywbeth y byddem yn ceisio ei ddatblygu. Mae amryw o ymdrechion codi arian o fewn y proffesiwn ei hun, a byddem yn ceisio ei annog a'i gefnogi.

Review of Tribunals Recommendations

5. Jeff Cuthbert: *Will the Counsel General make a statement on progress in implementing the recommendations of the Review of Tribunals Operating in Wales. OAQ(3)0157(CGE)*

John Griffiths: My oral statement to Plenary on 16 November provided an update for Assembly Members on the Welsh Assembly Government's response to the review of tribunals operating in Wales. Work is continuing on the implementation of the action plan.

Jeff Cuthbert: As Members will know, this report was drawn up by the Welsh Committee of the Administrative Justice and Tribunals Council, which, unfortunately, the UK Government intends to abolish. Will the Counsel General join me in paying tribute to the work of the Welsh committee, and can he tell me what progress has been made in implementing one specific key recommendation of the report, which was to establish a central administrative justice focal point within the Welsh Government?

John Griffiths: I would be happy to provide an update on progress with the action plan, and to pay tribute to the work of the Welsh committee. To begin with the Welsh committee, that work was very much valued by the Welsh Assembly Government. One of the challenges that we now face is to look at what arrangement might provide similar advice and expertise as we take the action plan forward. The central recommendation of the review was to provide that focal point, that independence and impartiality within the Welsh Assembly Government's arrangements for administrative support for tribunals operating in Wales. I am happy to say that work is well under way in terms of implementing that change. It will take some time, and it will be a rolling programme over, perhaps, the next two or three years as one department after another makes that transfer into the central focal point. We already have a post created and an official in place to carry out that work. It is important, for the reasons stated in the review, that we make this change, and I am pleased to say that I think we are making good progress with it.

William Graham: Thank you for your detailed response to the previous question, Counsel General. In terms of so many of the

John Griffiths: Mae fy natganiad llafar i'r Cyfarfod Llawn ar 16 Tachwedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r adolygiad o'r tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae gwaith yn parhau ar roi'r cynllun gweithredu ar waith.

Jeff Cuthbert: Fel y gŵyr Aelodau, cafodd yr adroddiad hwn ei lunio gan Bwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei ddileu, gwaetha'r modd. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ymuno â mi i dalu teyrnged i waith y pwyllgor Cymreig, ac a wnaiff ddweud wrthyf ba gynnydd a wnaed o ran gweithredu argymhelliad penodol ac allweddol yn yr adroddiad, sef sefydlu pwynt ffocws ar gyfer cyfiawnder gweinyddol canolog o fewn Llywodraeth Cymru?

John Griffiths: Byddwn yn hapus i roi diweddariad ar y cynnydd o ran y cynllun gweithredu, ac i dalu teyrnged i waith y pwyllgor Cymreig. I ddechrau gyda'r pwyllgor Cymreig, cafodd y gwaith hwnnw ei werthfawrogi'n fawr iawn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Un o'r heriau sy'n ein hwynebu yn awr yw edrych ar ba drefniant tebyg allai ddarparu cyngor ac arbenigedd wrth inni fynd â'r cynllun gweithredu yn ei flaen. Argymhelliad canolog yr adolygiad oedd darparu'r canolbwynt hwnnw, a'r annibyniaeth a'r didueddrwydd hwnnw o fewn trefniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cefnogaeth weinyddol i dribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru. Rwyf yn falch o ddweud bod gwaith yn mynd rhagddo o ran gweithredu'r newid hwnnw. Bydd yn cymryd peth amser, a bydd yn rhaglen dreigl dros, efallai, y ddwy neu dair blynedd nesaf wrth i un adran ar ôl y llall drosglwyddo yn ganolbwynt canolog. Rydym eisoes wedi creu swydd ac mae swyddog yn ei le i wneud y gwaith hwnnw. Mae'n bwysig, am y rhesymau a nodwyd yn yr adolygiad, ein bod yn gwneud y newid hwn, ac rwyf yn falch o ddweud fy mod yn credu ein bod yn gwneud cynnydd da yn ei gylch.

William Graham: Diolch am eich ymateb manwl i'r cwestiwn blaenorol, Gwnsler Cyffredinol. Gan fod cynifer o'r

tribunals that are known throughout Wales, and seem to have been renamed and reorganised in one way or another, what talks does your department have with the central body in determining the names of those bodies and the frequency of their meetings in Wales?

John Griffiths: When tribunals that operate mainly in Wales are the subject of discussions around those matters, we would have the usual Government-to-Government discussions and working to hopefully come to an agreed way forward. That would apply to all aspects of those tribunals. After the referendum, hopefully having obtained a 'yes' vote, I think that we would look at some of the arrangements for tribunals in Wales in terms of amalgamation and merger. If that is the case, we would then carefully consider the appropriate names for those merged bodies.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Cwnsler Cyffredinol am ateb cwestiynau.

tribiwnlysoedd yn hysbys drwy Gymru, sydd yn ymddangos fel eu bod wedi cael eu hailenwi a'u had-drefnu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, pa drafodaeth a gaiff eich adran â'r corff canolog o ran penderfynu ar enwau'r cyrff hynny a pha mor aml maent yn cyfarfod yng Nghymru?

John Griffiths: Pan mae tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yn bennaf yng Nghymru yn destun trafodaethau am y materion hynny, byddem yn cael y trafodaethau Llywodraeth-i-Llywodraeth arferol ac yn gweithio yn y gobaith o gytuno ar ffordd ymlaen. Byddai hynny'n berthnasol i bob agwedd ar y tribiwnlysoedd hynny. Ar ôl y refferendwm, ac ar ôl cael pleidlais 'ie' gobeithio, tybiaf y byddem yn edrych ar rai o'r trefniadau ar gyfer tribiwnlysoedd yng Nghymru o ran eu cyfuno a'u huno. Os gwneir hynny, yna byddem yn ystyried yn ofalus yr enwau priodol ar gyfer y cyrff hynny sydd wedi'u huno.

The Presiding Officer: Thank you, Counsel General, for answering the questions.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions to the Minister for Social Justice and Local Government

Gwasanaethau Lleol

1. Christine Chapman: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hybu cydweithrediad wrth gyflenwi gwasanaethau lleol yng Nghymru. OAQ(3)1501(SJL)

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): Our commitment to public sector collaboration is clear. Initiatives such as local service boards, the efficiency and innovation board and spatial planning groups bring together all public sector partners so as to create and provide simple access to high-quality services to citizens.

2.00 p.m.

Christine Chapman: As a result of the current budget restraints, collaboration in Wales, I believe, is more important than ever.

Local Services

1. Christine Chapman: What is the Welsh Assembly Government doing to encourage collaboration in the delivery of local services in Wales. OAQ(3)1501(SJL)

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Mae ein hymrwymiad i gydweithio â'r sector cyhoeddus yn glir. Mae mentrau megis byrddau gwasanaethau lleol, y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesedd a grwpiau cynllunio gofodol yn dwyn ynghyd yr holl bartneriaid yn y sector cyhoeddus er mwyn creu a darparu mynediad hawdd at wasanaethau o safon uchel i ddinasyddion.

Christine Chapman: O ganlyniad i'r cyfyngiadau presennol ar y gyllideb, rwyf o'r farn fod cydweithio yng Nghymru yn

However, I welcome the work that the Welsh Assembly Government is doing on this. There are numerous examples of excellent collaborative projects across Wales between local authorities and the private and voluntary sector. For example, in my area, there is the community equipment service integration project, which was a finalist for Excellence Wales status in December. This involved Rhondda Cynon Taff County Borough Council, Merthyr Tydfil County Borough Council and Cwm Taf Local Health Board, and was set up in response to concerns about services and standards not being consistent, which was leading to an inequitable service for service users. Collaboration resulted in a new integrated service, including aids to daily living and physiotherapy equipment. Minister, what discussions are you having with local authorities across Wales on new ways of working, and how will you monitor progress on collaboration?

Carl Sargeant: I am familiar with the project that you mentioned and I commend the way in which it is operating. I meet local authorities regularly through the Welsh Local Government Association, and I have made it clear to them how opportunities may present themselves and how we should embrace them. As you said, some authorities are better than others at doing this. I am currently undertaking a review of regional, national and local services, which will be reporting to me shortly on the details of how services should operate in the future. Local governments are working together towards better service delivery, but there is always more that we can do.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): I very much agree with the points that Chris Chapman made about the need to act more smartly to get value for money in these difficult financial times. There are certainly good examples of such projects being undertaken between local authorities. For example, Prosiect Gwyrdd involves the local authorities of Caerphilly, Cardiff, Monmouthshire, Newport and the Vale of Glamorgan, and there is certainly a range of different political colours in those authorities.

bwysicach nag erioed. Fodd bynnag, croesawaf y gwaith y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud ar hyn. Mae sawl enghraifft o gyd-brosiectau ardderchog ledled Cymru rhwng awdurdodau lleol a'r sectorau preifat a gwirfoddol. Er enghraifft, yn fy ardal i, mae prosiect integreiddio gwasanaeth cyfarpar cymunedol, a oedd yn y rownd derfynol ar gyfer statws Rhagoriaeth Cymru ym mis Rhagfyr. Roedd hyn yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, ac fe'i sefydlwyd mewn ymateb i bryderon nad oedd gwasanaethau a safonau yn gyson, a oedd yn arwain at wasanaeth anghyfartal i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae cydweithio wedi arwain at wasanaeth integredig newydd, gan gynnwys cymhorthion byw bob dydd ac offer ffisiotherapi. Weinidog, pa drafodaethau a gawsoch ag awdurdodau lleol ar draws Cymru ar ffyrdd newydd o weithio, a sut y byddwch yn monitro'r cynnydd ar gydweithio?

Carl Sargeant: Rwyf yn gyfarwydd â'r prosiect y gwnaethoch ei grybwyll a chymeradwyaf y ffordd y mae'n gweithredu. Byddaf yn cyfarfod awdurdodau lleol yn rheolaidd drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac rwyf wedi dweud wrthynt y gall cyfleoedd godi ac y dylent gymryd mantais ohonynt. Fel y dywedaso, mae rhai awdurdodau yn well nag eraill am wneud hyn. Rwyf wrthi'n cynnal adolygiad o wasanaethau rhanbarthol, cenedlaethol a lleol, a fydd yn adrodd i mi cyn bo hir ar sut y dylai gwasanaethau weithredu yn y dyfodol. Mae llywodraethau lleol yn cydweithio er mwyn darparu gwasanaethau gwell, ond mae bob amser mwy y gallwn ei wneud.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Rwyf yn cytuno'n llwyr â'r pwyntiau a wnaeth Chris Chapman am yr angen i weithredu'n ddoethach i gael gwerth am arian yn y cyfnod ariannol anodd hwn. Yn sicr, mae enghreifftiau da o brosiectau o'r fath rhwng awdurdodau lleol. Er enghraifft, mae Prosiect Gwyrdd yn cynnwys awdurdodau lleol Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Bro Morgannwg, ac yn sicr mae amryw o liwiau gwleidyddol gwahanol yn yr awdurdodau hynny. Yn fwy penodol,

More specifically, Minister, are you doing anything across portfolios with the Minister for Health and Social Services about collaboration and shared costs in some areas? I am certainly against merger—as has been rightly reported recently in relation to Powys—but there are many ways in which we could collaborate short of merger to save moneys in Wales. Is that something that you are pursuing across the different silos of Government?

Carl Sargeant: That was an important question about how we integrate public sector service delivery. Local government plays a huge part in the delivery of services, but there are also the health service bodies, the fire authorities and the police that, as you said, all have a stake in the delivery of good services to the public. The efficiency and innovation board, which Jane Hutt chairs, is the organisation that brings those groups together, and many work streams involve this specifically. I also have regular talks with other portfolio holders, including the Minister for health, about how we can work operationally differently while maintaining the independence of the organisation.

David Lloyd: Weinidog, pan mae bygythiad i wasanaethau, megis gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn Ninas a Sir Abertawe, a fyddai'n well i siroedd cyfagos gydweithio i gynnal gwasanaeth cyhoeddus, yn hytrach nag edrych i allanoli'r gwasanaeth mewn un sir?

Carl Sargeant: The issue around service delivery is a matter for local authorities. While I seek to influence how they make these decisions, I would not like to get into the minutiae of what they actually do. It beggars belief that organisations will struggle on to try to deliver a less-than-adequate service from the public sector, when looking across boundaries and borders and working with other organisations could deliver a better service. That is what I would encourage. I have clearly said to local authorities and everyone else who sits in my portfolio that I will give them a helping hand along the way to create a better environment for public service delivery. We should not be

Weinidog, a ydych yn gwneud unrhyw beth ar draws portffolios gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cydweithio a rhannu costau mewn rhai meysydd? Rwyf yn sicr yn erbyn uno—fel y dywedwyd yn gywir yn ddiweddar mewn perthynas â Phowys—ond mae nifer o ffyrdd y gallem gydweithio heb uno i arbed arian yng Nghymru. A yw hynny'n rhywbeth yr ydych yn mynd ar ei drywydd ar draws gwahanol seilos y Llywodraeth?

Carl Sargeant: Roedd hwnnw'n gwestiwn pwysig am sut rydym yn integreiddio darpariaeth gwasanaethau'r sector cyhoeddus. Mae llywodraeth leol yn chwarae rhan fawr o ran darparu gwasanaethau, ond mae cyrff y gwasanaeth iechyd, yr awdurdodau tân a'r heddlu, fel y dywedasoch, i gyd â rhan mewn darparu gwasanaethau da i'r cyhoedd. Y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, a gadeirir gan Jane Hutt, yw'r sefydliad sy'n dod â'r grwpiau hynny ynghyd, ac mae nifer o ffyrddiau gwaith yn cynnwys hyn yn benodol. Rwyf hefyd yn cael sgysiaid rheolaidd â'r deiliaid portffolio eraill, gan gynnwys y Gweinidog dros iechyd, am sut y gallwn weithredu'n wahanol tra'n cynnal annibyniaeth y sefydliad.

David Lloyd: Minister, when there is a threat to services, such as adult social services in the City and County of Swansea, would it not be better for neighbouring authorities to collaborate in order to sustain public services, rather than looking to outsource the service in one county?

Carl Sargeant: Mae darparu gwasanaethau yn fater i awdurdodau lleol. Er fy mod yn ceisio dylanwadu ar sut maent yn gwneud y penderfyniadau hyn, ni fyddwn yn hoffi ymyrryd ym manylion yr hyn maent yn ei wneud. Mae'n anhygoel bod sefydliadau yn ei chael yn anodd ceisio darparu gwasanaeth llai-na-digonol gan y sector cyhoeddus, tra gallai edrych ar draws ffiniau a gweithio gyda sefydliadau eraill ddarparu gwasanaeth gwell. Dyna fyddwn i yn ei annog. Rwyf wedi dweud yn glir wrth awdurdodau lleol a phawb arall yn fy mhortffolio y byddaf yn rhoi help llaw i greu amgylchedd gwell i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Ni ddylem fod yn siarad nac yn meddwl am

talking and thinking about individual silos of organisations—we need to focus on the people who receive the service.

Eleanor Burnham: On collaborative approaches between communities, at the end of November, Age Cymru launched its community calculator in the cross-party group on older people and ageing, which I have the pleasure and privilege of chairing. I am sure that you are familiar with the community calculator. It is brilliant because it has a tick-box-and-beyond effect in relation to facilities, for a more meaningful engagement of older people within their communities. Notwithstanding what you have just said about becoming involved with local authority delivery, what engagement have you had with local authorities or the WLGA so that we can move ahead and ensure that all communities are more meaningfully engaged, particularly in north Wales, because many people are concerned about ageism and the lack of facilities for older people?

Carl Sargeant: I am familiar with Age Cymru's community calculator and the effect that it has. It is a useful tool to understand what is happening and its impact on our communities. I also have responsibility for the third sector and I work with it and local authorities to deliver more joined-up services. I am familiar with the over-50s fora that operate across Wales and how they can demonstrate to the Government how we can react to the concerns that they raise. This is one example of that happening on the ground.

Trydydd Sector

2. Mark Isherwood: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth y Trydydd Sector yng Nghymru. OAQ(3)1504(SJL)*

Carl Sargeant: The third sector continues to have a significant impact across Wales, providing a wide range of services for individuals and communities. While independent, as a key partner of the Welsh Assembly Government, the third sector continues to contribute towards policy development and the delivery of our

seilos unigol o sefydliadau-mae angen i ni ganolbwyntio ar y bobl sy'n derbyn y gwasanaeth.

Eleanor Burnham: O ran dulliau ar y cyd rhwng cymunedau, ddiwedd mis Tachwedd lansiodd Age Cymru ei gyfrifiannell cymunedol yn y grŵp trawsbleidiol ar bobl hŷn a heneiddio, yr wyf yn cael y pleser a'r fraint o'i gadeirio. Rwyf yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â'r gyfrifiannell gymunedol. Mae'n wych oherwydd bod ganddi effaith ticio-bocs-a-thu hwnt o ran cyfleusterau, er mwyn ymgysylltu pobl hŷn yn eu cymunedau mewn ffordd fwy ystyrlon. Er gwaethaf yr hyn rydych newydd ei ddweud am ymwneud â'r ffordd y mae awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau, pa ymgysylltiad a gawsoch gydag awdurdodau lleol neu Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel y gallwn symud ymlaen a sicrhau bod pob cymuned yn cael eu cynnwys yn fwy ystyrlon, yn enwedig yn y gogledd, gan fod llawer o bobl yn pryderu am ragfarn ar sail oed a'r diffyg cyfleusterau i bobl hŷn?

Carl Sargeant: Yr wyf yn gyfarwydd â chyfrifiannell gymunedol Age Cymru a'r effaith a gaiff. Mae'n ffordd ddefnyddiol i ddeall beth sy'n digwydd a'i effaith ar ein cymunedau. Rwyf hefyd yn gyfrifol am y trydydd sector ac rwyf yn gweithio gydag ef ac awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau mwy cydgysylltiedig. Rwyf yn gyfarwydd â fforymau pobl dros 50 oed sy'n gweithredu ar draws Cymru a sut y gallant ddangos i'r Llywodraeth sut y gallwn ymateb i'r pryderon y maent yn eu codi. Mae hwn yn un enghraifft o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad.

Third Sector

2. Mark Isherwood: *Will the Minister make a statement on the role of the Third Sector in Wales. OAQ(3)1504(SJL)*

Carl Sargeant: Mae'r trydydd sector yn parhau i gael effaith sylweddol ledled Cymru, gan ddarparu ystod eang o wasanaethau i unigolion a chymunedau. Er yn annibynnol, ac fel partner allweddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r trydydd sector yn parhau i gyfrannu at ddatblygu polisi a chyflawni ein hamcanion.

objectives.

Mark Isherwood: The Wales Council for Voluntary Action and its partners have said in various fora that, in the current financial climate, the more that we can provide the right skills and the right people in the right places at the right time the better, bringing together the third sector and the public sector with the citizen and putting the community at the centre. Do you therefore agree that the third sector must be allowed to play a strategic role, recognising that a third sector job is the equal of a public sector job and that services should be commissioned on the basis of the best outcome possible for the service user for the amount of resource invested?

Carl Sargeant: Thank you for your question. I meet and work with the WCVA regularly and my team contacts it on a weekly basis. I see the third sector as an important part of public service delivery in Wales. It not only fills a gap, but provides services that the Government would not be able to provide without it. Therefore, I recognise its value in terms of moving this forward. It has a strategic part to play. I have recently written to all local authorities on how they fund and engage with the voluntary sector within their boundaries. I am trying to formulate stronger relationships between them. What I do not want to happen, at a time when local authorities have reduced budgets, is for the third sector to be the first in line to be attacked. We must understand who delivers what services where and whoever delivers them best should do so.

Mark Isherwood: I fully endorse the comment that the third sector must not be the first in line to be attacked when funding decisions are being taken. You will be aware that, in a north-east Wales county, sadly, funding for Shelter Cymru's housing advice service was cut and switched by the council to support its internal officers. Shelter rightly responded that,

'Any immediate savings made by cutting our funding will be far outweighed by the

Mark Isherwood: Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'i bartneriaid wedi dweud mewn sawl fforwm, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mai'r mwyaf y gallwn ddarparu'r sgiliau a'r bobl gywir yn y manau cywir ar yr adeg iawn yna gorau oll, gan ddod â'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus â'r dinesydd ynghyd a rhoi'r gymuned yn y canol. A ydych yn cytuno felly bod yn rhaid caniatáu i'r trydydd sector chwarae rhan strategol, gan gydnabod bod swydd trydydd sector yn gyfartal â swydd sector cyhoeddus ac y dylai gwasanaethau gael eu comisiynu ar sail y canlyniadau gorau posibl i'r defnyddiwr gwasanaeth am faint o adnoddau a fuddsoddwyd?

Carl Sargeant: Diolch am eich cwestiwn. Byddaf yn cyfarfod ac yn gweithio gyda CCGC yn rheolaidd ac mae fy nhîm yn cysylltu ag ef yn wythnosol. Rwy'n ystyried y trydydd sector yn rhan bwysig o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Nid yn unig mae'n llenwi bwlch, mae hefyd yn darparu gwasanaethau na fyddai'r Llywodraeth yn gallu eu darparu hebdo. Felly, rwyf yn cydnabod ei werth o ran symud ymlaen â hyn. Mae ganddo ran strategol i'w chwarae. Ysgrifennais yn ddiweddar at bob awdurdod lleol ar sut y maent yn ariannu ac ymgysylltu â'r sector gwirfoddol o fewn eu ffiniau. Rwyf yn ceisio llunio cysylltiadau cryfach rhyngddynt. Nid wyf am weld y trydydd sector y cyntaf i ddioddef ergyd ar adeg pan fo awdurdodau lleol wedi lleihau cyllidebau. Mae'n rhaid i ni ddeall pwy sy'n darparu gwasanaethau ac yn lle, ac y dylai pwy bynnag sy'n eu darparu orau wneud hynny.

Mark Isherwood: Rwyf yn llwyr gefnogi'r sylw na ddylai'r trydydd sector fod y cyntaf i ddioddef ergyd ymosodiad pan wneir penderfyniadau am gyllido. Byddwch yn ymwybodol, mewn sir yn y gogledd-ddwyrain, y cafodd cyllid i wasanaeth cyngor ar dai Shelter Cymru yn anffodus ei dorri, a'i newid gan y cyngor i gefnogi ei swyddogion mewnol. Roedd Shelter yn gywir pan ddywedodd

Bydd unrhyw arbedion a wneir ar unwaith drwy dorri ein cyllid yn cael eu gorbwyso o

additional demands made on the council and other services’.

A carers’ organisation in north-west Wales sent me an e-mail saying that it unfortunately appears that the third sector is an easy target for councils and that cuts are inevitable, but that there is a danger that councils will cut unwisely and in a way that leads to far-reaching problems and higher costs for them in the future. Do you agree and what action can you take as Minister in order to maximise the potential for the third sector to tackle the causes of the problems that the public sector often ends up dealing with, to reduce demand on other services and to deliver more for less, so that, in practice as well as in word, the third sector is not seen as the first target for cuts in a budgetary round?

Carl Sargeant: I often do not agree with the comments that you make, Mark, but, today, you have raised important issues about how we can support the voluntary sector in its delivery of services to the general public. I said earlier that my concern is that it should not be the first in line to be attacked in the service delivery element and I have written to local authorities about that. The WCVA sits on the efficiency and innovation board, which looks strategically at how we can deliver these services better. I have told local authorities that they must ensure that they have an early dialogue with the third sector about making financial changes to their budgets. If you have specific examples, I am keen to gain a better understanding of the issues and difficulties that these organisations are facing locally.

2.10 p.m.

Brian Gibbons: Minister, you will be aware that citizens advice bureaux are a key part of the third sector in Wales and that, in many parts of Wales, they are actively involved in the specialist debt adviser scheme, which is part of the financial inclusion fund and supported by the Westminster Government. In my constituency, 50 to 60 per cent of the

gryn dipyn gan y galwadau ychwanegol a wneir ar y cyngor a gwasanaethau eraill.

Anfonodd sefydliad gofalwyr yn y gogledd-orllewin e-bost ataf yn dweud ei bod yn ymddangos, yn anffodus, bod y trydydd sector yn darged hawdd i gynghorau a bod toriadau’n anochel, ond bod perygl y bydd cynghorau yn torri’n annoeth ac mewn ffordd sy’n arwain at broblemau pellgyrhaeddol a chostau uwch iddynt yn y dyfodol. A ydych yn cytuno, a pha gamau a allwch chi fel Gweinidog eu cymryd i wneud y gorau o botensial y trydydd sector i fynd i’r afael ag achosion y problemau y mae’r sector cyhoeddus yn aml yn y diwedd yn gorfod ymdrin â hwy â hwy, er mwyn lleihau’r galw ar wasanaethau eraill ac i gyflawni mwy am lai, fel nad yw’r trydydd sector, yn ymarferol yn ogystal ag ar bapur, yn cael ei weld fel y targed cyntaf ar gyfer toriadau mewn rownd gyllidebol?

Carl Sargeant: Nid wyf yn aml yn cytuno â’r sylwadau a wnewch, Mark, ond, heddiw, rydych wedi codi materion pwysig ynghylch sut y gallwn gefnogi’r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau i’r cyhoedd yn gyffredinol. Dywedais yn gynharach mai fy mhryder i yw na ddylai fod y cyntaf i gael ergyd o ran yr elfen darparu gwasanaeth ac rwyf wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol am hynny. Mae CGGC yn rhan o’r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi sy’n edrych yn strategol ar sut y gallwn ddarparu’r gwasanaethau hyn yn well. Rwyf wedi dweud wrth awdurdodau lleol bod yn rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cael trafodaeth gynnar â’r trydydd sector ynghylch gwneud newidiadau ariannol i’w cyllidebau. Os oes gennych enghreifftiau penodol, rwyf yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o’r materion a’r anawsterau y mae’r sefydliadau hyn yn eu hwynebu’n lleol.

Brian Gibbons: Weinidog, gwyddoch fod canolfannau cyngor ar bopeth yn rhan allweddol o’r trydydd sector yng Nghymru a’u bod, mewn sawl rhan o Gymru, yn chwarae rhan weithgar yn y cynllun cynghorydd dyledion arbenigol, sy’n rhan o’r gronfa cynhwysiant ariannol a gefnogir gan Lywodraeth San Steffan. Yn fy etholaeth i,

people who visit Port Talbot's citizens advice bureau do so to get debt advice. Indeed, the debt that these people face has been estimated to be around £5 million. However, sadly, this scheme may have to finish at the end of March. In view of the overall economic situation, the loss of such a service would be catastrophic. I would be grateful if you could give me and the citizens advice bureaux in Wales an indication of how the Welsh Assembly Government is responding to this serious situation.

Carl Sargeant: Let us not kid ourselves. The reduced funding that we have received from Westminster will have a massive impact on communities in Wales. We recognise that women, children, minority groups and people who are disabled will be the hardest hit. I understand the work that the citizens advice bureaux do in Wales and we are looking at what we do and how we can try to mitigate some of the issues that they are facing in relation to their finances. I am particularly concerned about the funding for citizens advice bureaux from Westminster. I will be writing to the Minister concerned in Westminster, and I will copy you in to that correspondence.

Treth Gyngor

3. Trish Law: *Pa ganllawiau a roddir i awdurdodau lleol ar gyfer pennu eu Treth Gyngor yn 2011-12. OAQ(3)1484(SJL)*

Carl Sargeant: It is a matter for each local authority to set its own council tax for 2011-12. However, I expect local authorities to act responsibly and I will not hesitate to use the powers available to me to limit council tax increases should any authority propose an unreasonable increase.

Trish Law: According to the Welsh Assembly Government website, your portfolio includes council tax capping policy for local and police authorities. I very much hope that you are not going to issue local authorities with capping criteria this year. Blaenau Gwent County Borough Council is

mae rhwng 50 a 60 y cant o'r bobl sy'n ymweld â chanolfan cyngor ar bopeth Port Talbot yn gwneud hynny i gael cyngor ar ddyledion. Yn wir, amcangyfrifir bod y ddyled y mae'r bobl hyn yn ei hwynebu tua £5 miliwn. Fodd bynnag, yn anffodus, efallai y bydd yn rhaid i'r cynllun hwn ddod i ben ddiwedd mis Mawrth. Yn wyneb y sefyllfa economaidd gyffredinol, byddai'n drychineb colli gwasanaeth o'r fath. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi syniad i mi a chanolfannau cyngor ar bopeth yng Nghymru sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymateb i'r sefyllfa ddifrifol hon.

Carl Sargeant: Gadewch i ni beidio â thwylo ein hunain. Bydd y gostyngiad mewn cyllid a gawsom gan San Steffan yn cael effaith enfawr ar gymunedau yng Nghymru. Rydym yn cydnabod y bydd menywod, plant, grwpiau lleiafrifol a phobl sy'n anabl yn dioddef fwyaf. Rwyf yn deall y gwaith a wnaiff canolfannau cyngor ar bopeth yng Nghymru ac rydym yn edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud a sut y gallwn geisio lliniaru rhai o'r problemau y maent yn eu hwynebu o ran eu harian. Rwyf yn arbennig o bryderus ynghylch y cyllid o San Steffan i ganolfannau cyngor ar bopeth. Byddaf yn ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol yn San Steffan, a byddaf yn rhoi copi i chi o'r ohebiaeth honno.

Council Tax

3. Trish Law: *What guidelines are being given to local authorities in fixing their Council Tax in 2011-12. OAQ(3)1484(SJL)*

Carl Sargeant: Mater i bob awdurdod lleol yw pennu ei dreth gyngor ei hun ar gyfer 2011-12. Fodd bynnag, rwyf yn disgwyl i awdurdodau lleol ymddwyn yn gyfrifol ac ni fyddaf yn meddwl ddwywaith cyn defnyddio'r pwerau a feddaf i gyfyngu ar gynnydd mewn treth gyngor os bydd unrhyw awdurdod yn cynnig cynnydd afresymol.

Trish Law: Yn ôl gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae eich portffolio yn cynnwys polisi capio treth gyngor i awdurdodau lleol ac awdurdodau heddlu. Gobeithiaf yn fawr na fyddwch yn cyhoeddi meini prawf capio i awdurdodau lleol eleni. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau

one of the authorities sharing the worst-case financial scenario in 2011-12, with a cut in its grant of 1.7 per cent. It would be a bit rich if the Welsh Assembly Government were to tell councils that they cannot spend above a certain limit or they will be capped. Can you give me an assurance that capping will not come into play in the current budget round of local authorities that are striving to avoid making swingeing cuts in staff and services?

Carl Sargeant: No.

Chris Franks: Would the Minister confirm that if the Conservatives' budget proposals were put in place, council tax could soar in Wales? Slashing local authorities' budgets as they have been put forward would be disastrous for roads, education and social services. The Conservatives' budget proposals would mean additional cuts of £11 million for Rhondda Cynon Taf, £5.7 million for Cardiff and £4.8 million for the Vale of Glamorgan. What assessment have you made, Minister, of the likely impact of such additional Conservative cuts?

Carl Sargeant: We have undertaken many assessments of the implications of the Westminster Liberal Democrat-Conservative budget. As regards local government, there has been a clear message: this is the first year since the Assembly was established that we have had very little difficulty in setting budgets in local authorities. They have been very responsive to us, saying that this is a fair budget. Even our most politically hostile authorities have agreed that they have received a fair settlement. Across the border in England, a hatchet job has been committed on local authorities. Here, we are keen that public services for our communities are maintained at the best possible level, and health, education and skills are priorities for this Government.

Jonathan Morgan: I am sure that you would wish to join me in congratulating both local authorities in Wales and the trade unions for the agreement that they came to this week. They signed a memorandum of understanding showing how they can work together to meet the challenges that they face.

Gwent ymysg yr awdurdodau a ddiroddedfodd waethaf yn ariannol yn 2011-12, gyda gostyngiad o 1.7 y cant yn ei grant. Byddai braidd yn llawdrwm pe bai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dweud wrth gynghorau na allant wario uwchlaw terfyn penodol neu byddant yn cael eu capio. A allwch fy sicrhau na fydd capio yn cael ei ystyried yn rownd gyllideb bresennol awdurdodau lleol sydd yn gwneud eu gorau i osgoi gwneud toriadau llym mewn staff a gwasanaethau?

Carl Sargeant: Na.

Chris Franks: A wnaiff y Gweinidog gadarnhau, pe bai cynigion cyllideb y Ceidwadwyr yn cael eu rhoi ar waith, y gallai treth gyngor gynyddu'n gyflym yng Nghymru? Byddai cwtogi cyllidebau arfaethedig awdurdodau lleol yn drychinebus ar gyfer ffyrdd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Byddai cynigion cyllideb y Ceidwadwyr yn golygu toriadau ychwanegol o £11 miliwn i Rhondda Cynon Taf, £5.7 miliwn i Gaerdydd a £4.8 miliwn i Fro Morgannwg. Pa asesiad a wnaethoch, Weinidog, o effaith debygol toriadau ychwanegol o'r fath gan y Ceidwadwyr?

Carl Sargeant: Rydym wedi cynnal sawl asesiad o oblygiadau cyllideb Democratiaid Rhyddfrydol-Ceidwadol San Steffan. O ran llywodraeth leol, cafwyd neges glir: hon yw'r flwyddyn gyntaf ers sefydlu'r Cynulliad lle na chawsom fawr o drafferth o ran pennu cyllidebau awdurdodau lleol. Maent wedi ymateb yn dda iawn i ni, gan ddweud ei bod yn gyllideb deg. Mae hyd yn oed yr awdurdodau sydd fwyaf gelyniaethus yn wleidyddol wedi cytuno eu bod wedi cael setliad teg. Ar draws y ffin yn Lloegr, mae awdurdodau lleol wedi dioddef ergyd drom. Yma, rydym yn awyddus i wasanaethau cyhoeddus i'n cymunedau gael eu cynnal ar y lefel orau bosibl, ac mae iechyd, addysg a sgiliau yn flaenoriaethau i'r Llywodraeth hon.

Jonathan Morgan: Rwyf yn siŵr y byddech yn dymuno ymuno â mi i longyfarch y ddau awdurdod lleol yng Nghymru a'r undebau llafur am y cytundeb y daethant iddo'r wythnos hon. Maent wedi llofnodi memorandwm o ddealltwriaeth sy'n dangos sut y gallant gydweithio i ymateb i'r heriau

This is an extremely good way for local authorities to meet their responsibilities towards their employees. I am sure that you would also agree that individuals who work for local authorities in Wales are some of the most highly motivated and highly skilled in the United Kingdom. However, one concern that I have about the detail of that memorandum is the role that could be played by trade unions in the setting of council tax. Levels of council tax are the responsibility of county councillors, who come to a decision as to the appropriate level for their authority. I would be grateful if you could outline to the Assembly the role of trade unions in setting council tax in Wales. Will they have a veto, or will they merely be consultees as part of a process?

Carl Sargeant: The MOU was a grown-up approach to dealing with the economic crisis that we find ourselves in, and we launched it last week after working with the 22 local authorities, the trade unions and other stakeholders. It is something that we in Wales should be particularly proud of, because we are having a wider debate with all interested stakeholders. Our greatest asset in the public sector is our people, and we should never forget that. If we need to change services to protect jobs, then that is what we should be doing. The grown-up approach taken by the sector and the trade unions has been greatly enhanced by the MOU.

I will have to write to you on the council tax detail, Jonathan, as I would not want to say something that was wrong here today.

Benthycwyr Arian Didrwydded

4. Sandy Mewies: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â benthycwyr arian didrwydded. OAQ(3)1503(SJL)*

Carl Sargeant: We welcome the UK Government's recent announcement on extending funding for the all-Wales illegal money lending unit until 2012. We will continue to work with the unit on tackling loan sharks, improving referral systems and

sy'n eu hwynebu. Mae hon yn ffordd ragorol i awdurdodau lleol gyflawni eu cyfrifoldebau i'w gweithwyr. Rwyf yn siŵr y byddech hefyd yn cytuno bod unigolion sy'n gweithio i awdurdodau lleol yng Nghymru ymysg y rhai mwyaf brwd a medrus yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, un pryder sydd gennyf am fanylion y memorandwm hwnnw yw'r rôl y gallai undebau llafur ei chwarae yn pennu'r dreth gyngor. Cyfrifoldeb cynghorwyr sir yw lefelau treth cyngor, sy'n dod i benderfyniad ynghylch y lefel briodol ar gyfer eu hawdurdod. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu i'r Cynulliad beth yw rôl undebau llafur wrth bennu'r dreth gyngor yng Nghymru. A fydd ganddynt fetu, neu a fyddant yn cael eu hymgyngori â hwy yn unig fel rhan o broses?

Carl Sargeant: Roedd y memorandwm yn ffordd aeddfed o ddelio â'r argyfwng economaidd yr ydym ynddi, a chafodd ei lansio yr wythnos diwethaf ar ôl gweithio gyda'r 22 awdurdod lleol, yr undebau llafur a rhanddeiliaid eraill. Mae'n rhywbeth y dylem fod yn arbennig o falch ohono yng Nghymru, gan ein bod yn cael trafodaeth ehangach â'r holl randdeiliaid perthnasol. Ein hased mwyaf yn y sector cyhoeddus yw ein pobl, ac ni ddylem byth anghofio hynny. Os bydd angen i ni newid gwasanaethau i ddiogelu swyddi, yna dyna ddylem ei wneud. Mae'r agwedd aeddfed a gymerwyd gan y sector a'r undebau llafur wedi cael ei chryfhau yn fawr gan y memorandwm.

Bydd yn rhaid i mi ysgrifennu atoch ynglŷn â manylion y dreth gyngor, Jonathan, gan na fyddwn am ddweud unrhyw beth anghywir yma heddiw.

Loan Sharks

4. Sandy Mewies: *Will the Minister provide an update on Welsh Assembly Government action to combat loan sharks. OAQ(3)1503(SJL)*

Carl Sargeant: Rydym yn croesawu cyhoeddiad diweddar Lywodraeth y DU ar ymestyn cyllid i uned fenthycwyr arian anghyfreithlon Cymru gyfan tan 2012. Byddwn yn dal ati i weithio gyda'r uned ar fynd i'r afael â siarcod benthycwyr arian, gwella

encouraging closer work with credit unions to promote alternative sources of affordable borrowing.

Sandy Mewies: As you are aware, victims of legal and illegal loan sharks are often left practically destitute because of the exorbitant rates that they are charged. I was, therefore, pleased when the Welsh Government, following a report from the Communities and Culture Committee, which I chair, gave such a positive response to our report on financial inclusion last week. You will also be aware that, on 3 February, the House of Commons will vote on proposals to counter legal loan sharks, which will cap the amount that pay-day and home-credit lenders can charge. Could I ask that, as well as continuing the fight in Wales, the Welsh Assembly Government works closely on any such moves to strengthen the fight against legal loan sharking across the country?

Carl Sargeant: We can work closer politically on how we develop a protection system for the most vulnerable in our communities. I also visited the illegal money lending unit in Wales, which provided a shocking insight into the way that people's lives are turned upside down by loan sharks, to the point of being threatened with death if they do not pay the money back at the extortionate rates that these people charge. We need to provide an alternative and safe way of doing this, and that is why we are investing in credit unions across Wales. We understand that people's financial literacy needs to be enhanced. We debated the report last week, and I thank you for your work and the work of the committee in advising on the way forward.

Darren Millar: I listened carefully to your response to Sandy Mewies, and I am heartened by it. This is something that impacts on every one of our constituencies. In Kinmel Bay, people have received notices encouraging them to take out pay-day loans from people who often prey on the most vulnerable in society. To what extent are you

systemau cyfeirio ac annog cydweithio agosach ag undebau credyd i hyrwyddo benthyca fforddiadwy o ffynonellau eraill.

Sandy Mewies: Fel y gwyddoch, mae'r rhai sy'n dioddef oherwydd siarcod benthyg arian cyfreithlon ac anghyfreithlon yn aml yn cael eu gadael fwy neu lai heb ddim arian oherwydd y cyfraddau afresymol a godir arnynt. Roeddwn felly yn falch fod Llywodraeth Cymru, yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, yr wyf i yn ei gadeirio, wedi ymateb mor gadarnhaol i'n hadroddiad ar gynhwysiant ariannol yr wythnos diwethaf. Byddwch hefyd yn gwybod y bydd Tŷ'r Cyffredin yn pleidleisio ar 3 Chwefror ar gynigion i atal benthyccwyr arian didrwydded cyfreithlon, a fydd yn capio'r swm y gall benthyccwyr diwrnod cyflog a benthyccwyr credyd cartref ei godi. A gaf i ofyn, yn ogystal â pharhau'r frwydr yng Nghymru, fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio'n agos ar unrhyw symudiadau o'r fath i gryfhau'r frwydr yn erbyn siarcod benthyg arian cyfreithiol ar draws y wlad?

Carl Sargeant: Gallwn weithio'n agosach yn wleidyddol ar sut rydym yn datblygu system ddiogelu i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Ymwelais hefyd â'r uned benthyca arian anghyfreithlon yng Nghymru, a roddodd gipolwg syfrdanol o'r ffordd y mae bywydau pobl yn cael eu troi wyneb i waered gan siarcod benthyca, i'r pwynt lle bydd eu bywydau yn cael eu bygwth os na fyddant yn talu'r arian yn ôl ar y cyfraddau afresymol a godir gan y siarcod benthyca. Mae angen i ni ddarparu ffordd amgen a diogel o wneud hyn, a dyna pam rydym yn buddsoddi mewn undebau credyd ledled Cymru. Rydym yn deall fod angen gwella llythrennedd ariannol pobl. Gwnaethom drafod yr adroddiad yr wythnos diwethaf, ac rwyf yn diolch i chi am eich gwaith a gwaith y pwyllgor o ran cynghori ar y ffordd ymlaen.

Darren Millar: Gwrandewais yn ofalus ar eich ateb i Sandy Mewies, ac fe'm calonogwyd ganddo. Mae hyn yn rhywbeth sy'n effeithio ar bob un o'n hetholaethau. Ym Mae Cinnel, derbyniodd pobl hysbysiadau yn eu hannog i gael benthycciadau diwrnod cyflog gan bobl sy'n aml yn manteisio ar y rhai mwyaf agored i niwed mewn

working with banks and building societies on their future plans to serve communities in Wales? Over the past 18 months, a number of banks have closed in my constituency, in Kinnel Bay, Colwyn Bay and elsewhere, and this has caused a great deal of concern for many of my constituents, who have lost those services. It makes it easier for pay-day loan companies and loan sharks to prey on those people.

2.20 p.m.

Carl Sargeant: I do not have any direct discussions with the private banks, but I am aware that Jane Hutt has an interest in the banking industry that serves Wales. My key objective is to ensure that people can gain access to information about safe saving and financial education and gain an understanding about safe borrowing. That is why we have invested heavily in the development of strong credit unions and in the work that they do in schools within the education programme.

Access is an issue, and we need to broaden the base. However, I am keen to ensure that we have a secure base in credit unions, so that people can feel comfortable in borrowing and saving money. Credit unions are key, and my team is working very hard with them on these issues.

Bethan Jenkins: What research have you carried out on take-up in Wales of pay-day loans? What action are you taking on this? Having carried out some research in this area, it seems to me that pay-day loans have the sheen of respectability, with particular websites sponsoring Premiership sides, for example, but they have annual percentage rates of around 2,500 per cent. That is very intimidating for people who are sometimes forced to use these services because they feel that they do not have an alternative. Can you expand on that issue?

Carl Sargeant: I am not familiar with the organisations that you allude to, but I am

cymdeithas. I ba raddau rydych yn gweithio gyda banciau a chymdeithasau adeiladu ar eu cynlluniau yn y dyfodol i wasanaethu cymunedau yng Nghymru? Dros y 18 mis diwethaf, mae nifer o fanciau wedi cau yn fy etholaeth i, ym Mae Cinnel, Bae Colwyn ac mewn mannau eraill, ac mae hyn wedi achosi cryn bryder i lawer o fy etholwyr a gollodd y gwasanaethau hynny. Mae'n ei gwneud yn haws i gwmnïau benthyciad diwrnod cyflog a benthycwyr arian didrwydded fanteisio ar y bobl hynny.

Carl Sargeant: Nid wyf yn cael unrhyw drafodaethau uniongyrchol â'r banciau preifat, ond rwyf yn ymwybodol bod gan Jane Hutt ddiddordeb yn y diwydiant bancio sy'n gwasanaethu Cymru. Fy mhrif amcan i yw sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at wybodaeth am gynilo'n ddiogel ac addysg ariannol a dod i ddeall am fenthyca'n ddiogel. Dyna pam rydym wedi buddsoddi'n helaeth yn natblygiad undebau credyd cryf ac yn y gwaith a wnânt mewn ysgolion o fewn y rhaglen addysg.

Mae mynediad yn broblem, ac mae angen i ni ehangu'r sylfaen. Fodd bynnag, rwyf yn awyddus i sicrhau bod gennym sylfaen gadarn o ran undebau credyd, er mwyn i bobl deimlo'n gyfforddus wrth fenthyca a chynilo arian. Mae undebau credyd yn allweddol, ac mae fy nhîm yn gweithio'n galed iawn gyda nhw ar y materion hyn.

Bethan Jenkins: Pa ymchwil a wnaethoch ar faint o bobl yng Nghymru sy'n cael benthyciadau diwrnod cyflog? Pa gamau gweithredu yr ydych yn eu cymryd ar hyn? Ar ôl gwneud rhywfaint o ymchwil yn y maes hwn, mae'n ymddangos i mi fod benthyciadau diwrnod cyflog yn edrych yn barchus ar yr olwg gyntaf, gyda gwefannau arbennig yn noddi timau'r uwch-gynghrair, er enghraifft, ond mae ganddynt gyfraddau canrannol blynyddol o tua 2,500 y cant. Mae hynny'n codi ofn ar bobl sydd weithiau'n cael eu gorfodi i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn am eu bod yn teimlo nad oes ganddynt ddewis arall. Allwch chi ymhelaethu ar hyn?

Carl Sargeant: Nid wyf yn gyfarwydd â'r sefydliadau yr ydych yn cyfeirio atynt, ond

familiar with broader issues within the money-lending industry. I am keen to ensure that people who are struggling financially understand the borrowing of money. In desperate situations, people borrow money from these kinds of organisations, whose glossy leaflets have pictures of the smiling faces of people who have been financially helped by them. These people are then told that they can pay back their loan at a rate of £5 a week, which they can afford, but they may not realise that they will be paying that loan back for 15 years. These are not stories intended to scare people; these are real stories. We must ensure that people understand what they are getting into with regard to financial agreements and also know who can sell credit to people.

I do not have any statistics on pay-day loans, but I know that very sophisticated marketing teams work in this industry. It worries me that those companies prey on people at the most vulnerable times, trying to encourage them to borrow money pre pay-day. That is a really troubling issue.

Peter Black: Minister, you will be aware of the particular problem posed by the deep penetration in Muslim communities of money lenders. What support is the Government providing with regard to debt advice and consolidation, in particular with regard to developing Sharia products?

Carl Sargeant: That is a very interesting question. I have no boundaries with regard to who should be able to access our services in this regard. I am keen to consider this issue in more detail, so if you have any examples from your region, I would be interested to hear them in order to better understand this issue.

Blaenoriaethau

5. Nick Ramsay: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer 2011. OAQ(3)1490(SJL)*

7. Gareth Jones: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y*

rwyf yn gyfarwydd â'r materion ehangach o fewn y diwydiant benthycia arian. Rwyf yn awyddus i sicrhau bod pobl sy'n cael trafferth ymdopi'n ariannol yn deall beth yw benthycia arian. Mewn sefyllfaoedd anobeithiol, mae pobl yn benthycio arian gan y mathau hyn o sefydliadau, sydd â lluniau o bobl a gafodd gymorth ariannol ganddynt ar eu taflenni sgleiniog. Dywedir wedyn wrth y bobl hyn eu bod yn gallu ad-dalu eu benthyciad ar gyfradd o £5 yr wythnos, sy'n swm y gallant ei fforddio, ond efallai nad ydynt yn sylweddoli y byddant yn talu'r benthyciad hwnnw yn ôl am 15 mlynedd. Nid yw'r rhain yn straeon a fwriedir i godi ofn ar bobl; mae'r rhain yn straeon go iawn. Rhaid i ni sicrhau bod pobl yn deall yr hyn sy'n eu hwynebu o ran cytundebau ariannol a'u bod hefyd yn gwybod pwy all werthu credyd i bobl.

Nid oes gennyf unrhyw ystadegau ar fenthyciadau diwrnod cyflog, ond gwn fod timau marchnata soffistigedig iawn yn gweithio yn y diwydiant. Mae'n fy mhoeni bod y cwmnïau hynny yn manteisio ar bobl ar yr adegau mwyaf bregus, gan geisio eu hannog i fenthycio arian cyn diwrnod cyflog. Mae hynny'n fater sy'n peri llawer o ofid.

Peter Black: Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r broblem benodol o ran y treiddiad dwfn o fenthycwyr arian mewn cymunedau Mwslemaidd. Pa gymorth mae'r Llywodraeth yn ei roi o ran rhoi cyngor ar ddyledion a chrynhoi dyledion, yn enwedig o ran datblygu cynnyrch Sharia?

Carl Sargeant: Mae hwnnw'n gwestiwn diddorol iawn. Nid oes gennyf unrhyw ffiniau o ran pwy ddylai gael mynediad at ein gwasanaethau yn hyn o beth. Rwyf yn awyddus i ystyried y mater hwn yn fanylach, felly os oes gennych unrhyw enghreifftiau o'ch rhanbarth chi, byddai gennyf ddiddordeb eu clywed er mwyn deall y mater hwn yn well.

Priorities

5. Nick Ramsay: *Will the Minister make a statement on his priorities for 2011. OAQ(3)1490(SJL)*

7. Gareth Jones: *Will the Minister make a statement on his priorities for this term.*

tymor hwn. OAQ(3)1460(SJL)

Carl Sargeant: We will promote safe, sustainable and fair communities while protecting core services and the most vulnerable people in our society. We will ensure delivery of our ‘One Wales’ commitments. A review of local authority services is under way and the Proposed Local Government (Wales) Measure will strengthen the operation of local government.

Nick Ramsay: I want to ask you specifically about the local government part of your brief and the funding arrangements for local authorities in Wales. I know that you are aware, because you have held many meetings with cabinet members from my authority and other authorities across Wales, of the good practice that is going on in a number of local authorities, particularly Monmouthshire County Council, which is at the cutting edge with regard to modernising and providing services in a way that is more efficient and streamlined than previously. It promotes agile working, hot-desking and the collaboration agenda—you know the lingo, so I do not need to use any more of those phrases. However, on the funding of local authorities, Monmouthshire County Council has, for over 10 years, received on average less per head of population because of the complexities of the funding formula that funds local government.

With regard to the future funding of local authorities in Wales, how do you envisage altering the formula so that those authorities that do what the Assembly Government wants, and that do their best to deliver services in the most efficient way possible, are rewarded for that and are best placed to deliver services that are the best value for money, that their local populations look to them to deliver, but which become increasingly difficult to deliver when, economically, times are hard?

Carl Sargeant: I recognise and am familiar with some of the work that is going on in Monmouthshire, as well as the work that is going on across local authorities in Wales. On the funding element, the funding formula

OAQ(3)1460(SJL)

Carl Sargeant: Byddwn yn hyrwyddo cymunedau diogel, cynaliadwy a theg tra'n diogelu gwasanaethau craidd a'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Byddwn yn sicrhau bod ein hymrwymiaidau ‘Cymru'n Un’ yn cael eu gwreiddo. Mae adolygiad o wasanaethau awdurdodau lleol ar y gweill a bydd y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) Arfaethedig yn cryfhau'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithio.

Nick Ramsay: Rwyf am eich holi'n benodol am yr ochr llywodraeth leol o'ch briff a'r trefniadau ariannu ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Gwn eich bod yn ymwybodol, oherwydd i chi gynnal nifer o gyfarfodydd gydag aelodau cabinet o fy awdurdod i ac awdurdodau eraill ledled Cymru, o'r arfer da sy'n digwydd mewn nifer o awdurdodau lleol, yn enwedig yng Nghyngor Sir Fynwy, sydd ar flaen y gad o ran moderneiddio a darparu gwasanaethau mewn ffordd fwy effeithlon a symlach nag o'r blaen. Mae'n hyrwyddo gweithio hyblyg, rhannu desgiau a'r agenda cydweithio-rydych yn gwybod yr ieithwedd, felly nid oes angen i mi ddefnyddio rhagor o'r ymadroddion hynny. Fodd bynnag, o ran cyllido awdurdodau lleol, mae Cyngor Sir Fynwy, ers dros 10 mlynedd, wedi derbyn llai ar gyfartaledd y pen o'r boblogaeth oherwydd cymhlethdod y fformiwla sy'n ariannu llywodraeth leol.

O ran cyllido awdurdodau lleol yng Nghymru yn y dyfodol, sut ydych yn bwriadu newid y fformiwla fel bod yr awdurdodau hynny sy'n gwneud yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad ei eisiau, ac sy'n gwneud eu gorau i ddarparu gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl, yn cael eu gwobrwyo am hynny a'u bod yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian, y mae eu poblogaeth leol yn disgwyl iddynt i'w darparu, ond sy'n gynyddol anodd i'w darparu mewn cyfnod economaidd anodd?

Carl Sargeant: Rwyf yn cydnabod ac yn gyfarwydd â rhywfaint o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn Sir Fynwy, yn ogystal â'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Ar yr elfen ariannu,

is derived from a working party group, with which the Welsh Local Government Association is involved, and I know that Monmouthshire has a stake in that. It has only just been amended, so this year's funding has been amended. As you will be aware, I placed a floor on the settlement to ensure that, in the first year of negative budgets, authorities were not disproportionately affected by the worse settlement, despite the three-year predictions for the settlement that they had received. Trish Law mentioned earlier a reduction of 1.7 per cent, but if I had not put in place a floor, Blaenau Gwent and Monmouthshire would have been worse off than is the case.

Gareth Jones: Weinidog, a ydych yn cytuno y bydd y cynnydd mewn treth ar werth a phrisiau tanwydd yn tanseilio'r budd sy'n cael ei roi i fusnesau bach drwy gynlluniau rhyddhad trethi busnes Llywodraeth Cymru? A ydych hefyd yn cytuno y dylai'r pleidiau gyferbyn roi pwysau ar eu cydweithwyr yn San Steffan i ailfeddwl eu ffordd o weithredu?

Carl Sargeant: The increases in VAT and in fuel excise duty across the UK are having a huge impact on Welsh communities. Our rate relief scheme means that over half of businesses in Wales will not pay any business rates this year, but the benefit is being eroded by these additional costs that are being thrust upon our communities by the Conservative-Lib Dem administration in Westminster.

Andrew R.T. Davies: Minister, with regard to your portfolio responsibilities in relation to social justice, I wish to direct you to Estyn's report, which was published yesterday, highlighting Cardiff schools' poor implementation of social justice and social inclusion policies. That is disturbing, because Cardiff is a very diverse city—probably the most diverse city in Wales. Can you give the Assembly a reassurance that, by working with the local authority and your colleague the Minister for Children, Education and Lifelong Learning, you will address those shortcomings, and that children in Cardiff will benefit from social inclusion policies to the greatest extent possible?

mae'r fformiwla ariannu yn deillio o weithgor, y bu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhan ohono, a gwn fod gan Sir Fynwy ran yn hynny. Dim ond newydd gael ei ddiwygio y mae'r fformiwla, felly mae cyllid eleni wedi cael ei ddiwygio. Fel y gwyddoch, gosodais drothwy ar y setliad i sicrhau, yn y flwyddyn gyntaf o gyllidebau negyddol, nad oedd awdurdodau yn cael eu heffeithio arnynt yn anghymesur gan y setliad gwaeth, er gwaethaf y rhagolygon tair blynedd ar gyfer y setliad y gwnaethant ei dderbyn. Soniodd Trish Law yn gynharach am ostyngiad o 1.7 y cant, ond pe na bawn wedi gosod trothwy, byddai Blaenau Gwent a Sir Fynwy wedi bod yn waeth eu byd nag ydynt yn awr.

Gareth Jones: Minister, do you agree that the increase in value added tax and fuel duty will undermine the benefit to small businesses of the Welsh Government's business rate relief schemes? Do you also agree that the parties opposite should bring pressure to bear on their colleagues in Westminster to rethink their proposals?

Carl Sargeant: Mae'r cynnydd mewn TAW a threth tanwydd ar draws y DU yn cael effaith enfawr ar gymunedau Cymru. Mae ein cynllun rhyddhad ardrethi yn golygu na fydd dros hanner busnesau Cymru yn talu unrhyw drethi busnes eleni, ond mae'r fantais yn cael ei cholli oherwydd y costau ychwanegol sy'n cael eu gosod ar ein cymunedau gan y weinyddiaeth Ceidwadwyr-Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan.

Andrew R.T. Davies: Weinidog, o ran eich cyfrifoldebau portffolio dros gyfiawnder cymdeithasol, hoffwn dynnu eich sylw at adroddiad Estyn, a gyhoeddwyd ddoe, a amlygodd y ffaith nad oedd ysgolion Caerdydd yn gweithredu eu polisiau cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithaso yn llwyddiannus. Mae hynny'n destun pryder, oherwydd bod Caerdydd yn ddinas amrywiol iawn—y ddinas fwyaf amrywiol yng Nghymru fwy na thebyg. A allwch roi sicrwydd i'r Cynulliad, drwy weithio gyda'r awdurdod lleol a'ch cyd-Aelod, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, y byddwch yn mynd i'r afael â'r diffygion hynny, ac y bydd plant

yng Nghaerdydd yn elwa i'r eithaf ar bolisiau cynhwysiant cymdeithasol?

Carl Sargeant: Social inclusion is very important to me it is part of my portfolio—and to the people of Wales and their communities. I know that the Minister for education takes this matter seriously, and you may be able to ask him that question in detail in the next item.

Carl Sargeant: Mae cynhwysiant cymdeithasol yn bwysig iawn i mi—mae'n rhan o'm portffolio—ac i bobl Cymru a'u cymunedau. Gwn fod y Gweinidog dros addysg yn cymryd y mater hwn o ddifrif, ac efallai y byddwch am ei holi'n fanwl am hynny yn yr eitem nesaf.

Ann Jones: Minister, I would hope that your priority for the remainder of this Assembly is to focus on protecting front-line services in the face of the disastrous cuts that we are receiving from Westminster. The chief constable of North Wales Police—and we debated the police settlement yesterday—believes that he will have to get rid of at least 121 commissioned uniformed officers. The UK Government is risking the safety of our communities to help to fund unpopular and unnecessary commissioner-supremo elections, which will cost a staggering and eye-watering £6 million. Minister, have you and the Assembly Government estimated how many police officers could be kept in service if this ridiculous project to have a commissioner was dropped?

Ann Jones: Weinidog, byddwn yn gobeithio mai eich blaenoriaeth ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn yw canolbwyntio ar ddiogelu gwasanaethau rheng flaen yn wyneb y toriadau trychinebus rydym yn eu cael o San Steffan. Mae prif gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru—gwnaethom drafod setliad yr heddlu ddoe—o'r farn y bydd yn rhaid iddo gael gwared ar o leiaf 121 o swyddogion mewn lifrai. Mae Llywodraeth y DU yn peryglu diogelwch ein cymunedau er mwyn helpu i ariannu etholiadau amhoblogaidd a diangen ar gyfer comisiynwyr, a fydd yn costio swm syfrdanol o £6 miliwn. Weinidog, a ydych chi a Llywodraeth y Cynulliad wedi amcangyfrif faint o swyddogion yr heddlu y gellid eu cadw pe bai'r prosiect chwerthinllyd hwn i gael comisiynwyr yn cael ei anghofio amdano?

Carl Sargeant: You mentioned the debate yesterday, and your contributions were noted. The transformation of any sector is a big issue. I share your reservations in relation to the police commissioners and the estimated cost, which is around £5 million to £6 million. The average cost of a police officer is around £30,000 per year on an average length of service of 10 years. Therefore, that money would equate to around 2,000 police officers being employed in Wales for another year. However, if we took it that elections were held every four years, it would be equate to being able to employ about 500 officers in Wales for the next four years. The price of a directly elected commissioner is about 500 officers being in post every year for the next four years.

Carl Sargeant: Roeddech yn sôn am y ddadl ddoe, lle cafodd eich cyfraniadau eu nodi. Mae trawsnewid unrhyw sector yn fater pwysig. Rwy'n rhannu eich amheuan am gomisiynwyr heddlu a'r amcangyfrif o'r gost, sef tua £5 miliwn i £ 6 miliwn. Cost swyddog heddlu ar gyfartaledd yw tua £30,000 y flwyddyn am gyfnod gwasanaeth 10 mlynedd. Felly, byddai'r arian hwnnw yn cyfateb i gyflogi tua 2,000 o swyddogion heddlu yng Nghymru am flwyddyn arall. Fodd bynnag, os cymerwn fod etholiadau'n cael eu cynnal bob pedair blynedd, byddai'n cyfateb i allu cyflogi tua 500 o swyddogion yng Nghymru dros y pedair blynedd nesaf. Mae pris comisiynydd a etholir yn uniongyrchol yn cyfateb i 500 o swyddogion yn ei swydd bob blwyddyn am y pedair blynedd nesaf.

2.30 p.m.

Veronica German: Earlier this week, you attempted to table some amendments that

Veronica German: Yn gynharach yr wythnos hon, gwnaethoch geisio cyflwyno

were beyond the scope of the proposed Local Government Measure. We have all been waiting with bated breath to see what happens, but we have seen nothing. Have you admitted defeat?

The Presiding Officer: Order. I have no knowledge of any amendments, and the Chamber has no such knowledge. What happens between Assembly Members and Table Office officials is a matter for them; it cannot be otherwise. If it were otherwise, this place could not function. If you have another question, you may ask it. However, do not ask about anything that the Presiding Officer, or his staff, may have done in this context, or you will be out on your head.

Veronica German: That would be exciting. In that case, Minister, have you any intention of reorganising local government, do you have plans to do this, and do you see any reason why local government should be reorganised?

The Presiding Officer: That question is absolutely in order. Thank you.

Carl Sargeant: My views on the reorganisation of local government are well documented. I would refer you to every meeting that I have had with the Welsh Local Government Association regarding my vision for local government and its transformation. The WLGA is encouraged by that, as am I.

Veronica German: So there is no truth in the rumours that you would like to amalgamate certain authorities to the north of Wales, or that you believe that this would be a much better step forward for these authorities? Was that a figment of someone's imagination?

Carl Sargeant: Thank you for your detailed question. As you are aware, I am an Assembly Member from Flintshire, and I often think about our relationship with Liverpool and Manchester. It is not in my powers to amalgamate any such communities, although we have talked about local links. It is important that we try not to frighten the horses. We need to ensure that

rhai gwelliannau a oedd tu hwnt i gwmpas y y Mesur Llywodraeth Leol arfaethedig. Rydym i gyd wedi bod yn aros yn eiddgar i weld beth fydd yn digwydd, ond ni welsom ddim. Ydych chi wedi derbyn eich bod wedi colli?

Y Llywydd: Trefn. Nid oes gennyf unrhyw wybodaeth am unrhyw welliannau, ac nid oes gan y Siambwr wybodaeth o'r fath. Mae'r hyn sy'n digwydd rhwng Aelodau'r Cynulliad a swyddogion y Swyddfa Gyflwyno yn fater iddynt hwy; ni all fod fel arall. Pe bai hynny'n wir, ni allai'r lle hwn weithio. Os oes gennych gwestiwn arall, cewch ei ofyn. Fodd bynnag, peidiwch â gofyn am unrhyw beth y mae'r Llywydd, neu ei staff, wedi'i wneud yn y cyd-destun hwn, neu byddwch allan ar eich pen.

Veronica German: Byddai hynny'n gyffrous. Os felly, Weinidog, a oes gennych unrhyw fwriad i ad-drefnu llywodraeth leol, a oes gennych gynlluniau i wneud hyn, ac a ydych yn gweld unrhyw reswm pam y dylai llywodraeth leol gael ei had-drefnu?

Y Llywydd: Mae'r cwestiwn hwnnw'n gwbl mewn trefn. Diolch.

Carl Sargeant: Mae fy marn ar ad-drefnu llywodraeth leol yn hysbys i bawb. Byddwn yn eich cyfeirio at bob cyfarfod a gefais â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am fy ngweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol a'i thrawsnewid. Mae CLILC wedi cael ei hannog gan hynny, fel finnau.

Veronica German: Felly nid oes gwirionedd yn y sibrydion y byddech yn hoffi uno awdurdodau penodol yn y gogledd, neu'ch bod o'r farn y byddai hyn yn gam ymlaen llawer gwell ar gyfer yr awdurdodau hyn? Ai ffrwyth ddychmyg rhywun oedd hynny?

Carl Sargeant: Diolch i chi am eich cwestiwn manwl. Fel y gwyddoch, rwyf yn Aelod Cynulliad o Sir y Fflint, ac rwyf yn aml yn meddwl am ein perthynas â Lerpwl a Manceinion. Nid oes gennyf bŵer i uno unrhyw gymunedau o'r fath, er ein bod wedi sôn am gysylltiadau lleol. Mae'n bwysig ein bod yn ceisio peidio â chodi ofn ar bobl. Mae angen i ni sicrhau bod llywodraeth leol

Welsh local government is fit for public service delivery. If we have failing authorities, we should step up to the mark and do something about that. However, I have no intention of reorganising local government in the form of restructuring or undertaking a wholesale review. We need to ensure that we have the right places and the right service delivery for people in Wales. If you are not up to the mark in agreeing with that, then I am disappointed.

Rhodri Glyn Thomas: Hoffwn gyfeirio at eich cyfrifoldebau o ran cyfiawnder cymdeithasol ac, yn benodol, tlodi tanwydd. Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod y bobl hynny na allant gysylltu i'r grid nwy mewn sefyllfa enbydus y dyddiau hyn. Mae tua 200,000 o bobl yng Nghymru yn y categori hwnnw. Mae Ofgem yn cynnal adolygiad ar hyn o bryd, i gyd-fynd â'r modd y mae'r cwmnïau sy'n darparu ynni yn paratoi eu cynlluniau busnes. A ydych wedi cyflwyno unrhyw farn ynglŷn â'r sefyllfa yng Nghymru i'r adolygiad hwnnw, a'ch pryderon ynglŷn â phobl sydd mewn tlodi tanwydd? A fyddwch hefyd yn annog pobl yng Nghymru i fod yn rhan o'r adolygiad hwnnw, er mwyn ceisio rhyw fath o ddylanwad ar gynlluniau busnes y darparwyr hyn?

Carl Sargeant: This is an important process, in ensuring that we interact with any potential changes to how companies operate. Fuel poverty will be increasingly prominent because of the VAT increases that the Westminster Government is set on proceeding with. It is an interesting scenario, because I know of one or two people on the opposition benches who have championed, or are perceived to have championed, fuel poverty. Their slogan was 'Vote blue, Go green', but I believe that that was a figment of their imagination.

Alun Davies: You have outlined your priorities for the rest of the current Assembly in terms of protecting vulnerable people and local services. Minister, perhaps you could outline to the Chamber this afternoon how the budget that you are proposing for your department achieves these aims, and how that compares with the policies being followed by

Cymru yn addas ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus. Os oes gennym awdurdodau sy'n methu, dylem gymryd cyfrifoldeb a gwneud rhywbeth am hynny. Fodd bynnag, nid yw'n fwriad gennyf ad-drefnu llywodraeth leol drwy ailstrwythuro na chynnal adolygiad sy'n edrych ar y darlun cyfan. Mae angen i ni sicrhau bod gennym y manau cywir a'r ddarpariaeth gwasanaeth gywir i bobl yng Nghymru. Os nad ydych yn cytuno â hynny, rwyf yn siomedig.

Rhodri Glyn Thomas: I wish to refer to your responsibilities in terms of social justice and, in particular, fuel poverty. I am sure you are aware that those people who cannot connect to the gas grid are in a terrible situation at this time. Approximately 200,000 people in Wales fall into that category. Ofgem is currently conducting a review, which matches the way energy providing companies prepare their business plans. Have you proffered an opinion of any kind about the situation in Wales to that review, along with your concerns for people in fuel poverty? Will you also encourage people in Wales to participate in that review, in order to influence in some way the business plans of these providers?

Carl Sargeant: Mae hon yn broses bwysig, o ran sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau posibl i'r ffordd y mae cwmnïau'n gweithredu. Bydd tlodi tanwydd yn dod yn broblem gynyddol amlwg oherwydd bwriad Llywodraeth San Steffan i gyflwyno cynnydd mewn TAW. Mae'n sefyllfa ddiddorol, oherwydd gwn am un neu ddau ar feinciau'r gwrthbleidiau sydd wedi hyrwyddo, neu y tybir eu bod wedi hyrwyddo, tlodi tanwydd. Eu slogan oedd 'Pleidleisiwch yn las, ewch yn wyrdd', ond rwyf yn credu mai ffrwyth eu dychymyg oedd hynny.

Alun Davies: Rydych wedi amlinellu eich blaenoriaethau ar gyfer gweddill y Cynulliad presennol o ran diogelu pobl sy'n agored i niwed a gwasanaethau lleol. Weinidog, efallai y gallech amlinellu i'r Siambr y prynhawn yma sut mae'r gyllideb rydych yn ei chynnig ar gyfer eich adran yn cyflawni'r amcanion hyn, a sut mae hynny'n cymharu

the current UK Government?

Carl Sargeant: There is a clear difference between what is happening in England and what is happening in Wales, as you will see from the fact that the broadest part of my budget is in local government. We are committed to supporting local government in a very different way. We are encouraging it to do business differently, but this is an opportunity for local government to change its way of operating. We have had many discussions here today on collaboration and functions between the different sectors. I will continue to drive that objective forward in the next couple of months, and in the future, depending on the political make-up of the Assembly and the Government. That is the way forward in terms of ensuring that our public service delivery is fit for the people of Wales.

Gorsafodd Pleidleisio

6. Jenny Randerson: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sicrhau bod pawb yn gallu mynd i mewn i orsafoedd pleidleisio. OAQ(3)1478(SJL)*

Carl Sargeant: Responsibility for ensuring that polling stations are fully accessible rests with individual returning officers. The Assembly Government supports and facilitates best practice in electoral matters through our elections planning group, which invites representations from all disability groups.

Jenny Randerson: I am sure you are aware that after every election, Scope Cymru produces a very useful report on access to polling stations. We have a lot of voting ahead of us this year, so it is very important that we get it right. The report on the general election points out that 67 per cent of polling stations had one or more access barriers to disabled voters, and the main problems appear to be a lack of tactile voting devices, a lack of a large print ballot paper and inappropriate ramps. The result of that, of course, is that people very often have to vote outside the polling station if there is no appropriate ramp, which means that they cannot vote in secret. There is also a problem

â'r polisïau sy'n cael eu dilyn gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd?

Carl Sargeant: Mae gwahaniaeth clir rhwng yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr a'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru, fel y gwelwch o'r ffaith bod y rhan fwyaf o fy nghyllideb yn ymwneud â llywodraeth leol. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi llywodraeth leol mewn ffordd wahanol iawn. Rydym yn annog iddi wneud busnes mewn ffordd wahanol, ond mae hwn yn gyfle i lywodraeth leol newid ei ffordd o weithredu. Cawsom lawer o drafodaethau yma heddiw ar gydweithio a swyddogaethau rhwng y gwahanol sectorau. Byddaf yn dal ati i yrru'r amcan hwnnw ymlaen yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, ac yn y dyfodol, yn ddibynnol ar natur wleidyddol y Cynulliad a'r Llywodraeth. Dyna'r ffordd ymlaen o ran sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn darparu'n addas ar gyfer pobl Cymru.

Polling Stations

6. Jenny Randerson: *Will the Minister make a statement on ensuring everyone is able to access polling stations. OAQ(3)1478(SJL)*

Carl Sargeant: Cyfrifoldeb y swyddogion canlyniadau unigol yw sicrhau bod gorsafodd pleidleisio yn gwbl hygyrch. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi ac yn hwyluso arfer gorau mewn materion etholiadol drwy ein grŵp cynllunio etholiadau, sy'n gwahodd sylwadau gan yr holl grwpiau anabledd.

Jenny Randerson: Rwyf yn siŵr y gwyddoch bod Scope Cymru yn llunio adroddiad defnyddiol iawn ar fynediad at orsafoedd pleidleisio ar ôl pob etholiad. Mae gennym lawer o bleidleisio o'n blaenau eleni, felly mae'n bwysig iawn ein bod yn cael pethau'n iawn. Mae'r adroddiad ar yr etholiad cyffredinol yn nodi bod gan 67 y cant o orsafoedd pleidleisio un neu fwy o rwystrau mynediad i bleidleiswyr anabl, ac ymddengys mai'r prif broblemau oedd diffyg dyfeisiau pleidleisio cyffyrddol, diffyg papur pleidleisio print bras a rampiau amhriodol. Canlyniad hynny, wrth gwrs, yw bod pobl yn aml iawn yn gorfod pleidleisio tu allan i'r orsaf pleidleisio os nad oes ramp priodol,

with postal voting forms, which have been pinpointed as a particular problem for many people who find the whole system very complex and sometimes impossible to cope with. What are you doing specifically to address the issues that were raised in this year's Scope report? This is vital if we are to drive the situation forward in Wales and ensure that everyone is able to access our democratic system.

Carl Sargeant: You raised a very important issue there. Regardless of an individual's politics, it is important that they have the ability to cast their vote. I have done some work with the Presiding Officer with regard to the 2011 campaign in terms of going out to visit people and understanding the accessibility issues. I was with representatives from Scope and the Royal National Institute of Blind People this morning discussing the very issues that you raised. I recently wrote to all the returning officers to ensure that they fully understand the guidance that we supply. There is a breakdown in communication, not because the guidance is bad, but because the enacting of the guidance is bad. We must ensure that officers at all polling stations understand how to use the tactile voting systems in place, so that they are not popped in a box at the back of the room to be taken out every election. We have to understand what services are available and how to deliver them properly, and that is something that I am committed to pushing out through the system.

2.40 p.m.

Janet Ryder: Minister, with the best will in the world, some of the polling stations, particularly in rural areas, unless you change the location completely, will never be made fully accessible. There has been an increase in the uptake in postal voting, despite the problems with the way it has operated. How can you influence that situation and make it a more accessible system? Are you doing anything to monitor whether an increase in the uptake in postal voting is having a particular impact upon those groups who find it more difficult to access polling stations? Can anything be done through the postal

sy'n golygu na allant fwrw pleidlais gudd. Mae problem hefyd gyda ffurflenni pleidleisio drwy'r post, a amlygwyd fel problem arbennig i lawer o bobl sy'n cael y system gyfan yn gymhleth iawn ac weithiau'n amhosibl i ymdopi â hi. Beth ydych chi'n ei wneud yn benodol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad Scope eleni? Mae hyn yn hanfodol os ydym i wella'r sefyllfa yng Nghymru a sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio ein system ddemocrataidd.

Carl Sargeant: Rydych wedi codi mater pwysig iawn. Waeth beth yw gwleidyddiaeth unigolyn, mae'n bwysig bod ganddynt y gallu i fwrw eu pleidlais. Rwyf wedi gwneud rhywfaint o waith gyda'r Llywydd ar gyfer ymgyrch 2011 o ran mynd allan i ymweld â phobl a deall beth yw'r materion hygyrchedd. Roeddwn gyda chynrychiolwyr o Scope a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion y bore yma yn trafod yr union faterion a godwyd gennych. Ysgrifennais yn ddiweddar at yr holl swyddogion canlyniadau i sicrhau eu bod yn deall y canllawiau rydym yn eu rhoi. Mae diffyg o ran cyfathrebu, nid am fod y canllawiau'n wael, ond oherwydd bod eu gweithredu'n wael. Rhaid inni sicrhau bod swyddogion ym mhob gorsaf bleidleisio yn deall sut i ddefnyddio'r systemau pleidleisio cyffyrddol, fel nad ydynt yn cael eu rhoi mewn blwch yng nghefn yr ystafell i'w tynnu allan bob etholiad. Mae'n rhaid i ni ddeall pa wasanaethau sydd ar gael a sut i'w darparu'n iawn, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi ymrwymo i'w gyflwyno drwy'r holl system.

Janet Ryder: Weinidog, gyda'r ewyllys gorau yn y byd, oni bai eich bod yn newid y lleoliad yn llwyr, ni fydd rhai o'r gorsafoddd pleidleisio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, byth yn cael eu gwneud yn gwbl hygyrch. Bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n pleidleisio drwy'r post, er gwaethaf y problemau gyda'r ffordd y gweithiodd. Sut allwch chi ddylanwadu ar y sefyllfa honno a'i gwneud yn system fwy hygyrch? A ydych yn gwneud unrhyw beth i fonitro a yw cynnydd yn nifer y bobl sy'n pleidleisio drwy'r post yn cael effaith arbennig ar y grwpiau hynny sy'n cael mwy o anhawster cael mynediad at

voting system to alleviate those problems?

Carl Sargeant: I accept that there are certainly demographic issues in relation to the accessibility of polling stations, but the situation is still not acceptable. I am working closely with returning officers and the Electoral Commission to improve that system. I am very interested in enabling people to use alternative methods to cast their vote. As I said, I met people from Scope and RNIB earlier, who gave me real examples that illustrate the difficulties that people face.

I have not undertaken any scoping work around the increase in the number of postal votes and the reasons for this. I do not know whether that is down to convenience or accessibility. I am not sure whether the Electoral Commission has undertaken such work. I am waiting for further feedback from Scope and RNIB this week from the clients that accompanied them to their discussion with me today. When I have received that, I will write to the Electoral Commission and I will probably include your question and let you know of any findings.

Mohammad Asghar: You have partly answered the question that I was going to ask. However, last September, you said that you would contact the chief executives of all local authorities to remind them of their duties under the Electoral Administration Act 2006, asking them to provide information on how many of their polling stations are accessible. Can you provide an update on that process, Minister? What steps will you take if chief executives indicate that there is a high number of inaccessible polling stations in their vicinity? You mentioned that you were awaiting further information from Scope, but one of its suggestions was that, for areas containing inaccessible polling stations, ballot papers could provide information and offer contacts so that people can explore alternative methods of voting. What are your thoughts on that idea, Minister?

Carl Sargeant: As I said, I am very open-

orsafoedd pleidleisio? A ellir gwneud rhywbeth drwy'r system bleidleisio drwy'r post i leddfu'r problemau hynny?

Carl Sargeant: Rwyf yn derbyn bod materion demograffeg o ran hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio, ond mae'r sefyllfa'n parhau'n annerbyniol. Rwyf yn cydweithio'n agos â swyddogion canlyniadau a'r Comisiwn Etholiadol i wella'r system honno. Mae gennyf ddi-ddordeb mawr mewn galluogi pobl i ddefnyddio ffyrdd amgen i fwrw eu pleidlais. Fel y dywedais, cyfarfûm â phobl o Scope a RNIB yn gynharach, a roddodd enghreifftiau go iawn i mi sy'n dangos yr anawsterau y mae pobl yn eu hwynebu.

Nid wyf wedi cynnal unrhyw waith cwmpasu ar y cynnydd yn nifer y pleidleisiau drwy'r post a'r rhesymau dros hyn. Nid wyf yn gwybod ai'r rheswm dros hynny yw cyfleustra neu hygyrchedd. Nid wyf yn siŵr a yw'r Comisiwn Etholiadol wedi cynnal gwaith o'r fath. Rwyf yn aros am adborth pellach gan Scope a RNIB yr wythnos hon gan y cleientiaid a ddaeth gyda hwy i'w sgwrs gyda mi heddiw. Ar ôl cael hwnnw, byddaf yn ysgrifennu at y Comisiwn Etholiadol ac mae'n debyg y byddaf yn cynnwys eich cwestiwn ac yn rhoi gwybod i chi am unrhyw ganfyddiadau.

Mohammad Asghar: Rydych wedi ateb yn rhannol y cwestiwn yr oeddwn am ei ofyn. Fodd bynnag, fis Medi diwethaf, dywedasoeh y byddech yn cysylltu â phrif weithredwyr pob awdurdod lleol i'w hatgoffa am eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Gweinyddu Etholiadau 2006, yn gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth am faint o'u gorsafoedd pleidleisio sy'n hygyrch. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses honno, Weinidog? Pa gamau fyddwch yn eu cymryd os dywed prif weithredwyr bod cryn dipyn o orsafoedd pleidleisio anhygyrch yn eu hardaloedd? Soniasoch eich bod yn aros am ragor o wybodaeth gan Scope, ond un o'i awgrymiadau oedd, ar gyfer ardaloedd sy'n cynnwys gorsafoedd pleidleisio anhygyrch, y gallai papurau pleidleisio roi gwybodaeth a chynnig cysylltiadau er mwyn i bobl edrych ar ffyrdd eraill o bleidleisio. Beth yw eich barn am y syniad hwnnw, Weinidog?

Carl Sargeant: Fel y dywedais, mae gennyf

minded regarding the ways in which people can vote and the methods that are used. Over the past couple of weeks, I have been talking to people about registering to vote over the internet. They were having difficulty not with the voting process, but in trying to get a vote in the first place. Recently, I wrote to chief executives and the Chair of the Committee on Equality of Opportunity. I will place a copy of that letter in the Library so that you are aware of its content. I will also give you feedback on the information that I receive from local authorities.

The Presiding Officer: Thank you for your answers, Minister.

feddwl cwbl agored am y ffyrdd y gall pobl bleidleisio a'r dulliau a ddefnyddir. Dros yr wythnosau diwethaf, rwyf wedi bod yn siarad â phobl am gofrestru i bleidleisio dros y rhyngwyd. Roeddent yn cael anhawster nid gyda'r broses bleidleisio, ond o ran ceisio cael pleidlais yn y lle cyntaf. Yn ddiweddar, ysgrifennais at brif weithredwyr a Chadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Byddaf yn rhoi copi o'r llythyr hwnnw yn y Llyfrgell fel eich bod yn gwybod am ei gynnwys. Byddaf hefyd yn rhoi adborth i chi ar y wybodaeth a gaf gan awdurdodau lleol.

Y Llywydd: Diolch am eich atebion, Weinidog.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Children, Education and Lifelong Learning

Blaenoriaethau

1. Paul Davies: *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer ysgolion yng Nghymru. OAQ(3)1630(CEL)*

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): My priority for schools is to raise standards in literacy and numeracy and to remove the link between poverty and low educational attainment. We need a relentless focus on improving standards in our schools.

Paul Davies: I am grateful to you, Minister, for that response. As you will be aware, figures released today show that the average gap in funding between Wales and England has widened further over the past year to £604 per pupil. I am sure that you share my concern about this. I accept that underfunding is not the sole factor as far as educational standards are concerned, but I think that we agreed a few weeks ago that there is a correlation between the two. I have said to you previously that directly funding schools from the Welsh Assembly Government would bypass local education authorities and ensure that more money reaches the front line, and I appreciate that you are open-minded about this approach. Minister, you have said that a task and finish group is looking at funding issues in general; could you tell us when this group is due to report

Priorities

1. Paul Davies: *What are the Minister's priorities for schools in Wales. OAQ(3)1630(CEL)*

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Fy mlaenoriaeth i ysgolion yw codi safonau llythrennedd a rhifedd a chael gwared ar y cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol isel. Rydym angen ffocws diwyro ar wella safonau yn ein hysgolion.

Paul Davies: Rwyf yn ddiolchgar i chi, Weinidog, am yr ymateb hwnnw. Fel y gwyddoch, dengys ffigurau a ryddhawyd heddiw bod y bwch ar gyfartaledd yn y cyllid rhwng Cymru a Lloegr wedi lledu ymhellach dros y flwyddyn ddiwethaf i £604 fesul disgybl. Rwyf yn siŵr eich bod yn rhannu fy mhryder am hyn. Rwyf yn derbyn nad diffyg cyllid yw'r unig ffactor cyn belled ag mae safonau addysgol yn y cwestiwn, ond rwyf yn meddwl i ni gytuno ychydig wythnosau yn ôl bod cydberthynas rhwng y ddau. Dywedais wrthy ch o'r blaen y byddai cyllido ysgolion yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn tynnu awdurdodau addysg lleol o'r darlun ac yn sicrhau bod mwy o arian yn cyrraedd y rheng flaen, ac rwyf yn cydnabod bod gennych feddwl agored am y dull hwn. Weinidog, rydych wedi dweud bod grŵp gorchwyl a

and whether it is considering direct funding as one of the options to improve our schools?

Leighton Andrews: The task and finish group is looking at the structure in relation to the delivery of education in Wales and will report to me early in March. I will not take any lectures from the Member on the funding of education. When asked what cuts he would be prepared to tolerate in schools and education, the leader of the opposition said on *Wales Today* that it would be about 20 per cent. [*Interruption.*] I am being heckled here, Llywydd.

The Presiding Officer: Order. I had noticed. I made it quite clear yesterday, yet again, that if people persist in heckling, the people making the noise—or their representatives on Earth—would not be called. Let us get on with it.

Leighton Andrews: Thank you, Llywydd. The leader of the opposition was asked on *BBC Wales Today* what sort of cuts would have to be made in schools and in education budgets to pay for his party's plans to ring-fence the health service. He was asked whether the budget cut would be about 24 per cent. He answered that it would be about 20 per cent. He said that he was, of course, prepared to do that because 'that is our priority'. He said that on *BBC Wales Today*. You cannot deny what he said, Paul: your party would cut school budgets.

Rhodri Morgan: Following the publication earlier this week of the Estyn annual report, what can the Minister for education do to challenge local authorities like Cardiff Council to face up to their responsibilities? We know that the number of schools in Cardiff that are classed by Estyn as 'causing concern' has risen from 14 to 36 in the past two years. That is not much of an advertisement, as I am sure the Minister would agree, for seven years of Lib Dem Government.

gorffen yn edrych ar faterion cyllid yn gyffredinol; a allech ddweud wrthym pryd fydd y grŵp hwn yn adrodd ac a yw'n ystyried cyllido uniongyrchol fel un o'r opsiynau i wella ein hysgolion?

Leighton Andrews: Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn edrych ar y strwythur o ran darparu addysg yng Nghymru a bydd yn adrodd i mi ddechrau mis Mawrth. Ni chymeraf unrhyw ddarlith gan yr Aelod ar ariannu addysg. Pan ofynnwyd pa doriadau i ysgolion ac addysg fyddai'n barod i'w goddef, dywedodd arweinydd yr wrthblaid ar *Wales Today* y byddai'n barod i oddef tua 20 y cant. [*Torri ar draws.*] Rwyf yn cael fy heclo yma, Lywydd.

Y Llywydd: Trefn. Roeddwn wedi sylwi. Gwneuthum yn gwbl glir ddoe, unwaith eto, os bydd pobl yn dal i heclo, ni fyddai'r bobl sy'n gwneud y sŵn—neu eu cynrychiolwyr ar y Ddaear—yn cael eu galw. Gadewch i ni fwrw ymlaen.

Leighton Andrews: Diolch yn fawr, Lywydd. Gofynnwyd i arweinydd yr wrthblaid ar *BBC Wales Today* pa fath o doriadau y byddai'n rhaid eu gwneud i gyllidebau ysgolion ac addysg i dalu am gynlluniau ei blaid i neilltuo arian y gwasanaeth iechyd. Gofynnwyd iddo a fyddai'r gyllideb yn cael ei thorri o tua 24 y cant. Atebodd y byddai'n cael ei thorri o tua 20 y cant. Dywedodd ei fod, wrth gwrs, yn barod i wneud hynny oherwydd mai 'dyna yw ein blaenoriaeth'. Dywedodd hynny ar *BBC Wales Today*. Ni allwch wadu beth ddywedodd, Paul: byddai eich plaid chi yn torri cyllidebau ysgolion.

Rhodri Morgan: Yn dilyn cyhoeddi adroddiad blynyddol Estyn yn gynharach yr wythnos hon, beth all y Gweinidog dros addysg ei wneud i herio awdurdodau lleol fel Cyngor Caerdydd i wynebu eu cyfrifoldebau? Gwyddom fod nifer yr ysgolion yng Nghaerdydd a ystyrir gan Estyn fel rhai sy'n 'achosi pryder' wedi codi o 14 i 36 yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Nid yw hynny'n llawer o hysbyseb, fel yr wyf yn siŵr y byddai'r Gweinidog yn cytuno, i saith mlynedd o Lywodraeth Democratiaid Rhyddfrydol.

Leighton Andrews: We will be discussing the Estyn annual report formally in the Assembly, as we do every year. I certainly take the view that the new common inspection framework that has been introduced and implemented by Estyn since September last year is a more rigorous way of appraising schools. As a result, we are seeing more schools being placed in situations where they will require follow-up visits and further remedial attention from local authorities. I am determined that local authorities should hold schools to account for performance, and I have no doubt that I will be saying rather more about this over the next couple of weeks.

Jenny Randerson: Minister, unlike the Conservatives, the Liberal Democrats in Wales have plans to put additional funding into education. However, I am interested in your funding for education. The funding gap has grown from an already very poor £527 per pupil, which was bad enough, to £604, which to my mind is a national disgrace. How has that happened under a First Minister who was elected as the Labour Party leader and, therefore, our First Minister on a promise of reducing the funding gap and ensuring that education would be better funded?

Leighton Andrews: Jenny needs to pay attention to the fact that the published figures relate to the 2009-10 financial year. Therefore, we are talking about spending patterns that were established well before the current First Minister took office. I will also point out that a number of points contained in the statistical bulletin include specific differences relating to data for earlier years. I would suggest that Jenny read the published statistical bulletin in detail. I would also suggest that she look at what is said in the bulletin about comparisons between local authorities in Wales and adjacent local authorities on the border. If she looks, in particular, at spending in Cardiff and Newport, she will see that it is higher than it is in south Gloucestershire. If she looks at spending in Powys, she will see that it is roughly on a par with spending in Telford, and above that of Herefordshire, Shropshire and Worcestershire. Therefore, if we look at the facts, we see that the picture is somewhat

Leighton Andrews: Byddwn yn trafod adroddiad blynyddol Estyn yn ffurfiol yn y Cynulliad, fel y gwnawn bob blwyddyn. Rwyf yn sicr o'r farn bod y fframwaith arolygu cyffredin newydd a gafodd ei gyflwyno a'i weithredu gan Estyn ers mis Medi y llynedd yn ffordd fwy trylwyr o arfarnu ysgolion. O ganlyniad, rydym yn gweld mwy o ysgolion yn cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd lle byddant angen ymweliadau dilynol a sylw adferol pellach gan awdurdodau lleol. Rwyf yn benderfynol y dylai awdurdodau lleol ddwyn ysgolion i gyfrif am eu perfformiad, ac nid oes gennyf amheuaeth y byddaf yn dweud dipyn mwy am hyn yn yr ychydig wythnosau nesaf.

Jenny Randerson: Weinidog, yn wahanol i'r Ceidwadwyr, mae gan y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru gynlluniau i roi arian ychwanegol mewn addysg. Fodd bynnag, mae gennyf ddiddordeb mewn cyllid ar gyfer addysg. Mae'r bwloch cyllid wedi tyfu o ffigur gwael iawn o £527 y disgybl, a oedd yn ddigon drwg, i £604, sydd yn fy marn i yn warth cenedlaethol. Sut ddigwyddodd hyn o dan Brif Weinidog a gafodd ei ethol yn arweinydd y Blaid Lafur ac, felly, ein Prif Weinidog, ar addewid y byddai'n lleihau'r bwloch cyllido a sicrhau bod addysg yn cael ei ariannu yn well?

Leighton Andrews: Mae Jenny angen rhoi sylw i'r ffaith bod y ffigurau a gyhoeddwyd yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2009-10. Felly, rydym yn sôn am batrymau gwario a sefydlwyd ymhell cyn i'r Prif Weinidog presennol ddod i rym. Dylwn hefyd dynnu sylw at y ffaith fod nifer o bwyntiau yn y bwletin ystadegau yn cynnwys gwahaniaethau penodol am ddata ar gyfer blynyddoedd cynharach. Awgrymaf fod Jenny yn darllen y bwletin ystadegol a gyhoeddwyd yn fanwl. Byddwn hefyd yn awgrymu ei bod yn edrych ar yr hyn a ddywedir yn y bwletin am gymariaethau rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru ac awdurdodau lleol cyfagos ar y ffin. Os bydd yn edrych yn benodol ar wariant yng Nghaerdydd a Chasnewydd, bydd yn gweld ei fod yn uwch nag ydyw yn ne Swydd Gaerloyw. Os bydd yn edrych ar wariant ym Mhowys, bydd yn gweld ei fod tua'r un faint â gwariant yn Telford, ac yn uwch na Swydd Henffordd, Swydd Amwythig a Swydd

different. However, we are certainly implementing the First Minister's 1 per cent spending commitment. We put additional money into the revenue support grant in the first budget under the current First Minister, and we have put additional protection into the departmental budget. We are therefore making good on that commitment, even though it may not be seen for a year or so. It will contrast with what is being done over the border.

Jenny Randerson: I accept that you cannot get instant results, Minister. This is the main thing that worries me about the funding gap, which has been allowed to grow since about 2003-04 from something insignificant into something that is very substantial and that will take years to reverse. I think that we all accept that. You have had a flurry of bad news lately, Minister. There have been the PISA results and the Estyn report, which made some extraordinarily trenchant criticisms of the education system throughout Wales and which indicated that 30 per cent of schools throughout Wales will need to be re-inspected. Minister, are you still in denial about the impact of funding on educational standards in Wales or do you accept that, along with other reforms that I agree with you will be needed, there needs to be significant extra funding?

2.50 p.m.

Leighton Andrews: Funding is not an alibi for poor performance. We saw the PISA results, and we saw the figures across other countries in relation to spending and performance. We saw countries that spend far more than Wales doing worse than Wales, countries that spend in the same pattern as Wales doing far better than Wales, and countries that spend less than Wales doing better than Wales. Funding is not an alibi for poor performance, but it appears to be all that the Liberal Democrats can ever talk about.

Nerys Evans: Er bod adroddiad Estyn a gyhoeddwyd yr wythnos hon yn peri pryder, yr wyf yn edrych ymlaen at glywed eich ymateb llawn—yr ydych wedi cyfeirio ato

Gaerwrangon. Felly, os edrychwn ar y ffeithiau, gwelwn fod y darlun ychydig yn wahanol. Fodd bynnag, rydym yn sicr yn gweithredu ymrwymiad gwariant 1 y cant y Prif Weinidog. Rydym yn rhoi arian ychwanegol i'r grant cynnal refeniw yn y gyllideb gyntaf o dan y Prif Weinidog presennol, ac rydym wedi rhoi diogelwch ychwanegol i'r gyllideb adrannol. Felly, rydym yn gwireddu'r ymrwymiad hwnnw, er efallai na chaiff ei weld am flwyddyn neu ddwy. Bydd yn cyferbynnu â'r hyn sy'n cael ei wneud dros y ffin.

Jenny Randerson: Rwyf yn derbyn na allwch gael canlyniadau yn syth, Weinidog. Dyma'r prif beth sy'n fy mhoeni am y bwlch cyllido, sydd wedi cael ei adael i dyfu ers tua 2003-04 o rywbeth di-nod i fod yn rhywbeth sylweddol iawn a fydd yn cymryd blynyddoedd i'w wyrddroi. Rwy'n credu ein bod i gyd yn derbyn hynny. Rydych wedi cael llawer o newyddion drwg yn ddiweddar, Weinidog. Cafwyd y canlyniadau PISA ac adroddiad Estyn, a wnaeth rhai sylwadau beirniadol hynod o finog am y system addysg ledled Cymru ac a nododd y byddai'n rhaid i 30 y cant o ysgolion ledled Cymru gael eu hail-arolygu. Weinidog, a ydych yn dal i wadu effaith cyllid ar safonau addysgol yng Nghymru neu a ydych yn derbyn, ynghyd â'r diwygiadau eraill yr wyf yn cytuno â chi y bydd eu hangen, bod angen cyllid ychwanegol sylweddol?

Leighton Andrews: Nid yw cyllid yn esgus am berfformiad gwael. Gwelsom ganlyniadau PISA, a gwelsom y ffigurau mewn gwledydd eraill ar wariant a pherfformiad. Gwelsom wledydd sy'n gwario llawer mwy na Chymru yn gwneud yn waeth na Chymru, gwledydd sy'n gwario ar yr un patrwm â Chymru yn gwneud yn llawer gwell na Chymru, a gwledydd sy'n gwario llai na Chymru yn gwneud yn well na Chymru. Nid yw cyllid yn esgus am berfformiad gwael, ond ymddengys mai dyna'r unig beth y gall y Democratiaid Rhyddfrydol siarad amdano.

Nerys Evans: Although the Estyn report that was published this week was very concerning, I look forward to hearing your full response, which you have already

eisoes. Rhaid i ni gofio, fel y gwnaethoch amlinellu yn eich ymateb i Paul Davies, y byddai'r Ceidwadwyr yn torri'r gyllideb addysg yn syfrdanol—byddai lleiafswm o £40,000 yn cael ei dorri o gyllideb pob ysgol. Yn sgîl y dystiolaeth ddiweddar ac wrth geisio delio â'r problemau sydd wedi dod i'r amlwg, a ydych yn cytuno ei bod yn bwysig inni beidio ag osgoi edrych o'r newydd ar elfennau sylfaenol yn y system addysg?

Un o'r rhain yw patrwm tymhorau ysgolion. Mae'r system bresennol wedi bod ar waith ers tua chanrif ac mae'n seiliedig ar amser pan oedd angen i blant fod gartref dros yr haf i weithio ar y gwair neu'r cynhaeaf. Mae tystiolaeth sy'n dangos bod rhai plant, ar ôl chwe wythnos o wyliau, yn gorfod dechrau o'r dechrau mewn rhai pynciau, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig neu dlawd sydd heb symbyliad addysgol dros gyfnod yr haf. A ydych yn cytuno mai cyrhaeddiad addysgol ddylai fod wrth wraidd pob penderfyniad polisi yn y maes addysg a bod problemau yn bodoli ar hyn o bryd o ran cyrhaeddiad addysgol plant oherwydd y system tymhorau bresennol?

Leighton Andrews: I have been interested in the way that the Member has raised these issues in public over the past few days, opening up a debate on the subject. There is some evidence that the structure of both the school day and the school year could have an impact on attendance and standards. At the moment, responsibilities for determining school term dates and holiday start and finish times in respect of maintained schools lie with local authorities. Those powers do not lie with Welsh Ministers. This is an area for more medium-term consideration. I certainly have no plans at present to suggest that changes might be appropriate in this area, but I look forward to hearing more of the debate.

Blaenoriaethau

2. Mohammad Asghar: *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer Dwyrain De Cymru ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn. OAQ(3)1655(CEL)*

Leighton Andrews: The Government's priorities remain as set out in 'One Wales',

mentioned. We must bear in mind, as you outlined in your answer to Paul Davies, that the Conservatives would cut the education budget very substantially, by a minimum of £40,000 per school. Given the recent evidence, do you agree that it is important, as we try to deal with the problems that have emerged, that we do not avoid looking anew at fundamental elements of the education system?

One of these is the term patterns of schools. The current system has been in place for about a century and is based on a time when children needed to be home over the summer to work on the hay or the harvest. There is evidence to demonstrate that, after six weeks of school holidays, some children have to start anew in some subjects, and particularly those from disadvantaged or poor backgrounds who do not have educational encouragement over the summer. Do you believe that educational attainment should be at the heart of every decision in education and that current problems with the achievement level of children exist as a result of the current term system?

Leighton Andrews: Rwyf wedi bod â diddordeb yn y ffordd y mae'r Aelod wedi codi'r materion hyn yn gyhoeddus dros y dyddiau diwethaf, gan agor dadl ar y pwnc. Mae rhywfaint o dystiolaeth y gallai strwythur y diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol gael effaith ar bresenoldeb a safonau. Ar y funud, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ar ddyddiadau tymhorau ysgol a dechrau a diwedd gwyliau mewn ysgolion a gynhelir. Nid Gweinidogion Cymru sy'n meddu ar y pwerau hynny. Mae hwn yn faes i'w ystyried yn fwy yn y tymor canol. Yn sicr, nid oes gennyf gynlluniau ar hyn o bryd i awgrymu y gallai newidiadau fod yn briodol yn y maes hwn, ond rwyf yn edrych ymlaen at glywed mwy o'r dadl.

Priorities

2. Mohammad Asghar: *What are the Minister's priorities for South Wales East for the remainder of this Assembly. OAQ(3)1655(CEL)*

Leighton Andrews: Mae blaenoriaethau'r Llywodraeth yn parhau fel ag y nodir yn

with additional measures in response to the economic downturn. Also, I have made it clear that I want more funding to reach the education front line by freeing up resources, as highlighted in the independent review of the cost of administering the education system.

Mohammad Asghar: One of the biggest problems facing South Wales East and the rest of Wales is the number of young people who are not in education, employment or training. Last year, you said to me that the long-term approach to meeting this challenge is to improve literacy performance in schools. As we have seen in the Estyn report, literacy performance in school is poor, with four in 10 pupils with a reading skill level below that for their age. Is this not a troubling indication of school standards in Wales, despite the best efforts of teachers, as well as a worrying indicator of how the NEET level in Wales may develop in future?

Leighton Andrews: Yes. Schools are not performing well enough in respect of literacy. That is why I have put in place a national literacy plan focused on the seven to 11 age range. I believe that all teachers throughout the school system should be teachers of literacy, and that is why we announced the youth engagement action plan, specifically focused on the issue of young people who are not in education, employment or training, in the past week.

Jeff Cuthbert: Would you join me, Minister, in welcoming the role that free school breakfasts—a flagship Labour policy—plays in terms of the overall learning and development of primary-school-aged children? Numerous studies and anecdotal evidence have shown that a healthy and nutritious meal at the start of the day improves a child's attention span throughout the day, thus helping to give them a much better learning experience, which is particularly true in the more disadvantaged areas of south-east Wales, which includes my own constituency. Do you agree, Minister, that this policy shows our commitment to universal benefits that would certainly be under threat if the Welsh Tories' so-called

'Cymru'n Un', gyda mesurau ychwanegol i ymateb i'r dirywiad economaidd. Rwyf hefyd wedi ei gwneud yn glir fy mod eisiau mwy o arian i gyrraedd rheng flaen addysg drwy ryddhau adnoddau, fel yr amlygwyd yn yr adolygiad annibynnol am y gost o weinyddu'r system addysg.

Mohammad Asghar: Un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu Dwyrain De Cymru a gweddill Cymru yw nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Y llynedd, dywedasoch wrthyf mai'r dull tymor hir o ateb yr her hon yw gwella perfformiad llythrennedd mewn ysgolion. Fel y gwelsom yn adroddiad Estyn, mae perfformiad llythrennedd yn yr ysgol yn wael, gyda phedwar o bob 10 disgybl â lefel sgiliau darllen is na'u hoedran. Onid yw hyn yn arwydd pryderus o safonau ysgolion yng Nghymru, er gwaethaf ymdrechion gorau athrawon, yn ogystal ag arwydd pryderus o sut y gallai'r lefel NEET yng Nghymru ddatblygu yn y dyfodol?

Leighton Andrews: Ydyw. Nid yw ysgolion yn perfformio'n ddigon da o ran llythrennedd. Dyna pam rwyf wedi rhoi cynllun llythrennedd cenedlaethol ar waith sy'n canolbwyntio ar blant rhwng saith ac 11 oed. Credaf y dylai pob athro yn y system ysgol fod yn addysgu llythrennedd, a dyna pam y gwnaethom gyhoeddi'r cynllun gweithredu ymrwymo ieuencid yr wythnos diwethaf, sy'n canolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Jeff Cuthbert: A fydddech yn ymuno â mi, Weinidog, i groesawu'r rôl y mae brecwastau ysgol am ddim—polisi Llafur blaenllaw—yn ei chwarae o ran dysgu a datblygiad cyffredinol plant oed ysgol gynradd? Dangosodd nifer o astudiaethau a thystiolaeth anecdotaidd fod pryd o fwyd iach a maethlon ar ddechrau'r diwrnod yn gwella rychwant sylw plant drwy gydol y dydd, gan eu helpu felly i gael profiad dysgu llawer gwell, sy'n arbennig o wir yn ardaloedd mwy difreintiedig de-ddwyrain Cymru, sy'n cynnwys fy etholaeth i. A ydych yn cytuno, Weinidog, fod y polisi hwn yn dangos ein hymrwymiad i fuddion cyffredinol a fyddai'n sicr o fod dan fygythiad pe bai cyllideb amgen fondigrybwyll y Torïaid Cymreig

alternative budget had seen the light of day, bearing in mind that they have often called our policy on free school breakfasts a gimmick? Combined with our innovative foundation phase, do you also agree that it demonstrates our commitment to improving education and the overall experience for our youngest learners in Wales?

Leighton Andrews: Yes, Jeff; I am pleased to have the opportunity to re-state our commitment to the free breakfast scheme. Over 1,000 schools are now involved in that, giving pupils a nutritious start to the day. This is not a stand-alone initiative; it is part of our overall approach to developing nutrition within the school environment. We are committed to this programme. You are right to say that the Welsh Conservatives have pledged to get rid of this scheme. I think that that is a shame, but, as I have said before, they are the cereal killers.

Veronica German: It is clear that there have to be some major improvements in many of our schools and that that may mean developing some more innovative and exciting ways to deliver the curriculum in the future. This is already happening at Newport High School, which I have visited, as have other Members. At Newport High School, year 7 and year 8 students are helped through the transition period by being taught by a home tutor for many of their subjects, and year 9 students are allowed to take GCSEs. There has been an improvement in the GCSE results, with 29 per cent achieving five A to C grades three years ago and 75 per cent achieving those grades this year. Although the year 9 innovation was against some of your officials' advice and they had to fight hard to be able to do it—I believe that it is still under review—do you agree that this is an excellent way of improving results, and that it should be held up as an exemplar for other schools that may be struggling?

Leighton Andrews: I have visited Newport High School and I have seen the very interesting work that it has been doing at year 7 and year 8. I think that the school has reaped the benefits of the new school buildings in order to ensure that young people coming into that school can be taught

wedi gweld golau dydd, o gofio eu bod yn aml wedi galw ein polisi ar frecwastau ysgol am ddim yn gimic? Ynghyd â'n cyfnod sylfaen arloesol, a ydych hefyd yn cytuno ei fod yn dangos ein hymrwymiad i wella addysg a'r profiad cyffredinol i'n dysgwyr ieuengaf yng Nghymru?

Leighton Andrews: Ydw, Jeff; rwyf yn falch o gael cyfle i ail-ddatgan ein hymrwymiad i'r cynllun brecwast am ddim. Mae dros 1,000 o ysgolion bellach yn rhan ohono, gan roi dechrau maethlon i'r diwrnod i ddisgyblion. Nid yw hon yn fenter ar ei phen ei hun; mae'n rhan o'n dull cyffredinol at ddatblygu maeth o fewn amgylchedd yr ysgol. Rydym wedi ymrwymo i'r rhaglen hon. Rydych yn gywir i ddweud fod y Ceidwadwyr Cymreig wedi ymrwymo i gael gwared ar y cynllun hwn. Mae hynny'n drueni, ond, fel y dywedais o'r blaen, nhw yw'r *cereal killers*.

Veronica German: Mae'n amlwg bod yn rhaid gwneud gwelliannau sylweddol mewn nifer o'n hysgolion ac y gallai hynny olygu datblygu ffyrdd mwy arloesol a chyffrous o gyflwyno'r cwricwlwm yn y dyfodol. Mae hyn eisoes yn digwydd yn Ysgol Uwchradd Casnewydd, yr wyf wedi ymweld â hi, fel y mae Aelodau eraill wedi'i wneud. Yn Ysgol Uwchradd Casnewydd, mae myfyrwyr blwyddyn 7 a blwyddyn 8 yn cael eu helpu drwy'r cyfnod pontio drwy gael eu haddysgu gan diwtor cartref ar gyfer llawer o'u pynciau, ac mae myfyrwyr blwyddyn 9 yn cael cymryd TGAU. Bu gwelliant yn y canlyniadau TGAU, gyda 29 y cant yn cael pum gradd A i C dair blynedd yn ôl a 75 y cant yn cael y graddau hynny eleni. Er bod yr arloesi blwyddyn 9 yn groes i gyngor eich swyddogion ac y bu'n rhaid iddynt ymladd yn galed i allu ei wneud—credaf fod hynny'n dal i gael ei adolygu—a ydych yn cytuno bod hon yn ffordd ragorol o wella canlyniadau, ac y dylid edrych arno fel patrwm i ysgolion eraill a allai fod yn cael trafferth ymdopi?

Leighton Andrews: Rwyf wedi ymweld ag Ysgol Uwchradd Casnewydd ac rwyf wedi gweld y gwaith diddorol iawn sy'n cael ei wneud ym mlwyddyn 7 a blwyddyn 8. Credaf fod yr ysgol wedi elwa o gael adeiladau ysgol newydd er mwyn sicrhau y gall pobl ifanc sy'n dod i'r ysgol honno gael eu haddysgu

in a specific part of the school, and to carry on many of the practices of teaching that one sees, perhaps, in a primary environment. I am also aware of the way in which the school has sought to bring the curriculum forward, as it were, to enable more young people to move faster. I think that people have genuine concerns about ensuring that the curriculum is properly embedded and that young people are getting the full effect of the curriculum at the stages that they should. However, I am certainly interested in seeing how that has succeeded, and whether there are things that we can learn from it. In general, I am not too concerned about the issue of innovation. I am far more concerned that we apply the tried and tested best practice that we already have in Wales, and that we see that being rolled out across the whole of Wales.

Astudio Ieithoedd Tramor

3. William Graham: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisiau i hyrwyddo astudio ieithoedd tramor. OAQ(3)1647(CEL)*

Leighton Andrews: The ‘Making Languages Count’ action plan, published in July 2010, sets out our commitment to improve opportunities to study foreign languages. The plan details how we will support foreign languages in schools and improve take-up of opportunities, particularly in the 14 to 19 age range.

William Graham: Thank you for your answer, Minister. You will probably be aware of fairly recent studies, which you have mentioned, that the choice of foreign language should be made earlier and earlier in a school career. Do you have a view on that?

Leighton Andrews: I think that there is some evidence—as we know from bilingual learning within Wales—that the earlier that young children start studying languages, the better their language progression and development will be. We have given support to initiatives where foreign languages can be supported within primary schools. Our action plan focuses more on the 11 to 19 age range, but primary schools can make use of the non-statutory framework for the teaching of

mewn rhan benodol o’r ysgol, ac i barhau â llawer o’r arferion addysgu a welir o bosibl mewn amgylchedd cynradd. Rwyf hefyd yn ymwybodol o’r modd y mae’r ysgol wedi ceisio dod â’r cwricwlwm ymlaen, fel petai, i alluogi mwy o bobl ifanc i symud yn gyflymach. Credaf fod gan bobl bryderon gwirioneddol am sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei sefydlu’n iawn a bod pobl ifanc yn cael effaith lawn y cwricwlwm yn ystod y cyfnodau y dylent. Fodd bynnag, mae gennyf yn sicr ddiddordeb mewn gweld sut mae hynny wedi llwyddo, ac a oes pethau y gallwn ddysgu oddi wrtho. Yn gyffredinol, nid wyf yn poeni gormod am arloesi. Rwyf yn poeni llawer mwy ein bod yn cymhwyso’r arfer gorau sydd wedi ennill ei blwyf sydd gennym eisoes yng Nghymru, a gweld hynny yn cael ei gyflwyno ar draws Cymru gyfan.

Study of Foreign Languages

3. William Graham: *Will the Minister outline policies to promote the study of foreign languages. OAQ(3)1647(CEL)*

Leighton Andrews: Mae’r cynllun gweithredu ‘Sicrhau bod ieithoedd yn cyfrif’ a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010, yn amlinellu ein hymrwymiad i wella cyfleoedd i astudio ieithoedd tramor. Mae’r cynllun yn rhoi manylion o sut y byddwn yn cefnogi ieithoedd tramor mewn ysgolion a gwella niferoedd y rhai sy’n manteisio ar gyfleoedd, yn enwedig ymysg y rhai rhwng 14 a 19 oed.

William Graham: Diolch am eich ateb, Weinidog. Mae’n debyg y gwyddoch am astudiaethau cymharol ddiweddar, yr ydych wedi sôn amdanynt, y dylai’r dewis o iaith dramor gael ei wneud yn gynt ac ynghynt mewn gyrfa ysgol. A oes gennych farn ar hynny?

Leighton Andrews: Rwyf yn meddwl fod rhywfaint o dystiolaeth—fel y gwyddom o ddysgu dwyieithog yng Nghymru—mai’r cynharaf y mae plant ifanc yn dechrau astudio ieithoedd, y gorau fydd eu cynnydd a’u datblygiad o ran iaith. Rydym wedi rhoi cymorth i fentrau lle gellir cefnogi ieithoedd tramor mewn ysgolion cynradd. Mae ein cynllun gweithredu yn canolbwyntio mwy ar yr ystod oedran 11 i 19, ond gall ysgolion cynradd ddefnyddio’r fframwaith anstatudol

modern foreign languages in key stage 2, which was introduced in line with the revised school curriculum in September 2008.

ar gyfer addysgu ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 2, a gyflwynwyd yn unol â'r cwricwlwm ysgol diwygiedig ym mis Medi 2008.

3.00 p.m.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): The ability to access the foreign language curriculum is greatly enhanced by having basic literacy skills, which were shown in the chief inspector's report, published yesterday, to be particularly challenging. We have heard the statistic today of 40 per cent of children leaving primary school with a reading age lower than their actual age. A significant minority of boys at the age of 14 have such poor literacy skills that they cannot access the curriculum, with devastating results for their future. Will your plans to tackle this problem look at initial teacher training with regard to how teachers are trained to deliver literacy skills? Will you also review continuing professional development, ensuring a greater alignment between investment in teacher CPD and outcomes for children? Why has the national professional qualification for headship for school leaders not been revised for a number of years, and why does it currently not reflect the best practice that you said that headteachers need to replicate across the country?

Leighton Andrews: I have already made it clear that I expect continuing professional development to be aligned to the objectives of the school effectiveness framework, which are the three objectives that I set last year, namely literacy, numeracy and tackling the link between attainment and socioeconomic status. We will also be looking at issues around initial teacher training. We are currently looking at the NPQH, but we must be clear that what we do in relation to the qualification is impacted by developments across the border, because we want headteachers to apply for jobs in Wales who have qualifications in England and vice versa, and we would not want to upset that.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Mae'r gallu i gael mynediad at y cwricwlwm iaith dramor yn gwella'n fawr o feddu ar sgiliau llythrennedd sylfaenol, a ddangoswyd i fod yn arbennig o heriol yn adroddiad y prif arolygydd a gyhoeddwyd ddoe. Clywsom heddiw am yr ystadegyn fod 40 y cant o blant yn gadael yr ysgol gynradd gydag oed darllen sy'n is na'u hoed gwirioneddol. Mae lleiafrif sylweddol o fechgyn 14 oed yn meddu ar sgiliau llythrennedd mor wael fel na allant gael mynediad at y cwricwlwm, gyda chanlyniadau trychinebus i'w dyfodol. A fydd eich cynlluniau i fynd i'r afael â'r broblem hon yn edrych ar hyfforddiant cychwynnol i athrawon o ran sut maent yn cael eu hyfforddi i ddarparu sgiliau llythrennedd? A wnewch chi hefyd adolygu datblygiad proffesiynol parhaus, gan sicrhau gwell cysondeb rhwng mwy o fuddsoddi mewn DPP athrawon a chanlyniadau i blant? Pam na chafodd y cymhwyster prifathrawiaeth proffesiynol cenedlaethol i arweinwyr ysgol ei ddiwygio ers nifer o flynyddoedd, a pham nad yw ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r arfer gorau yr ydych yn dweud y mae angen i benaethiaid ei efelychu ar draws y wlad?

Leighton Andrews: Rwyf eisoes wedi dweud fy mod yn disgwyl i ddatblygiad proffesiynol parhaus gael ei gysoni ag amcanion y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, sef y tri amcan a nodais y llynedd, sef llythrennedd, rhifedd a mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad a statws economaidd-gymdeithasol. Byddwn hefyd yn edrych ar faterion yn ymwneud â hyfforddiant cychwynnol athrawon. Rydym yn edrych ar y CPCP ar hyn o bryd, ond rhaid inni fod yn glir bod yr hyn rydym yn ei wneud mewn perthynas â'r cymhwyster hwn yn cael ei effeithio arno gan ddatblygiadau ar draws y ffin, gan ein bod am i benaethiaid wneud cais am swyddi yng Nghymru sydd wedi ennill cymwysterau yn Lloegr ac i'r gwrthwyneb, a ni fyddem am newid hynny.

Literacy among boys is a major challenge. That is why I introduced a national literacy plan, and I am pleased that we have received support from male role models within the fields of rugby and football, who have gone out of their way to lend their support to what we are doing.

Cyllid Ysgolion

4. Peter Black: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nodau tymor hir Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella cyllid ysgolion yng Nghymru. OAQ(3)1656(CEL)*

Leighton Andrews: We have sought to provide protection in this year's budget. The First Minister also made a commitment to raise school funding by 1 per cent above what we received from the block grant. We will also seek to lift the amount delegated by local authorities.

Peter Black: I am a governor of a school that, with today's figures, would be £550,000 better off if it was situated in England. That figure is replicated across Wales as a result of your Government's complacency on school funding and the proper funding of education in Wales. Do you accept that, if we are going to have initiatives to put right the education system in Wales, schools will require extra resources to fund those initiatives? What plans do you have to put in those extra resources?

Leighton Andrews: You are also an elected member of a local authority to which I had to write last year concerning the amount of money that it was passing on to its schools. My concern is that we need to do something about raising the amount of money that is being given by local authorities to schools, which is currently only 75 per cent. I am pleased with the commitment from the Welsh Local Government Association to raise the amount to 80 per cent within two years, and 85 per cent within four years. That is a commitment that I have extracted from the association, and I want to see that implemented. I hope that it will be implemented in the Member's local authority as well.

Mae llythrennedd ymhlith bechgyn yn her fawr. Dyna pam rwyf wedi cyflwyno cynllun llythrennedd cenedlaethol, ac rwyf yn falch ein bod wedi derbyn cefnogaeth gan fodolau rôl gwrywaidd ym meysydd rygbi a phêl-droed, sydd wedi mynd allan o'u ffordd i roi eu cefnogaeth i'r hyn rydym yn ei wneud.

School Funding

4. Peter Black: *Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's long term aims for improving school funding in Wales. OAQ(3)1656(CEL)*

Leighton Andrews: Rydym wedi ceisio sicrhau diogelwch yn y gyllideb eleni. Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi ymrwymo i gynyddu'r arian a roddir i ysgolion 1 y cant yn uwch na'r hyn a dderbyniwyd o'r grant bloc. Byddwn hefyd yn ceisio codi'r swm a ddyrennir gan awdurdodau lleol.

Peter Black: Rwyf yn llywodraethwr mewn ysgol a fyddai, gyda ffigurau heddiw, yn £550,000 yn well ei byd pe bai yn Lloegr. Mae'r ffigur yn cael ei ailadrodd ledled Cymru o ganlyniad i'r ffordd y mae eich Llywodraeth wedi llaesu dwylo o ran cyllido ysgolion ac ariannu addysg yn briodol yng Nghymru. A ydych yn derbyn, os ydym yn mynd i gael mentrau i wella'r system addysg yng Nghymru, y bydd angen adnoddau ychwanegol ar ysgolion i ariannu'r mentrau hynny? Pa gynlluniau sydd gennych i ddyrannu'r adnoddau ychwanegol hynny?

Leighton Andrews: Rydych hefyd yn aelod etholedig o awdurdod lleol y bu'n rhaid i mi ysgrifennu ato'r llynedd oherwydd y swm o arian yr oedd yn ei drosglwyddo i'w ysgolion. Fy mhryder i yw bod angen i ni wneud rhywbeth am godi'r swm o arian a roddir gan awdurdodau lleol i ysgolion, sydd ond yn 75 y cant ar hyn o bryd. Rwyf yn falch o'r ymrwymiad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i godi'r swm i 80 y cant o fewn dwy flynedd, ac i 85 y cant o fewn pedair blynedd. Mae hynny'n ymrwymiad y llwyddais i'w sicrhau gan y gymdeithas, ac rwyf am ei weld yn cael ei roi ar waith. Rwyf yn gobeithio y bydd yn cael ei roi ar waith gan awdurdod lleol yr Aelod hefyd.

Peter Black: Minister, if you gave the money to local authorities to fund education, they would not have to put up with the current situation. The responsibility rests fairly on your Government's shoulders to properly fund education in Wales. You have failed to do that. When are you going to start putting that right?

Leighton Andrews: We have put in an extra £61 million in the revenue support grant, in line with the First Minister's commitment to protect school funding and to seek to bridge the funding gap with England, despite the budget that was imposed on us by the parties represented by him and those people across the Chamber. So, we have done well by schools and local authorities this year to the tune of an extra £61 million. I hope that his local authority will pass that money on to schools.

Gareth Jones: Weinidog, rai wythnosau yn ôl, gofynnais i'r gwasanaeth ymchwil ardderchog sydd gennym yn y Cynulliad a fyddai modd cael cymhariaeth deg o'r symiau a werir ar addysg yng Nghymru a Lloegr. Er gwybodaeth i unrhyw Aelod, dywedwyd wrthyf fod cymhariaeth uniongyrchol bron yn amhosibl. Felly mae datganiadau fel yr un a gawsom heddiw—fi sydd yn dweud hyn—yn gallu bod yn gamarweiniol. Nid yn unig mae gwahaniaeth mewn gwariant y pen o awdurdod i awdurdod yn Lloegr, mae'r un peth yn wir, fel yr ydych wedi cyfeirio eisoes, yng Nghymru. Mae dulliau cyllido Cymru a Lloegr yn wahanol—mae academiâu yn Lloegr, lle mae arian preifat ar gael goruwch yr arian cyhoeddus sydd yn mynd i'w cynnal. Serch hynny, yr wyf yn cydnabod bod cyfeirio cyson at y bwlch ariannu hwn, yn gam neu'n gymwys, yn tanseilio hyder rhieni yn ein cyfundrefn addysg ardderchog. A wnewch chi bopeth yn eich gallu i ddatgan ac egluro realiti ariannu addysg yng Nghymru, fel bod pawb yn ei ddeall, gan gynnwys y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr? Byddai hynny'n gwneud ffafr â ni yng Nghymru ac â'r rhieni sydd yn gwrandao ar y gwleidydd hwn ac yn blino a hefyd, yn naturiol, yn pryderu o'r herwydd.

Peter Black: Weinidog, pe baech yn rhoi'r arian i awdurdodau lleol ariannu addysg, ni fyddai'n rhaid iddynt ddiodef y sefyllfa bresennol. Mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd yn deg ar ysgwyddau eich Llywodraeth i sicrhau cyllid digonol i addysg yng Nghymru. Rydych wedi methu â gwneud hynny. Pryd ydych chi'n mynd i ddechrau unioni'r cam hwnnw?

Leighton Andrews: Rydym wedi rhoi swm ychwanegol o £61 miliwn yn y grant cynnal refeniw, yn unol ag ymrwymiad y Prif Weinidog i ddiogelu cyllid i ysgolion ac i geisio pontio'r bwlch ariannu â Lloegr, er gwaethaf y gyllideb a orfodwyd arnom gan y pleidiau a gynrychiolir ganddo ef a'r bobl eraill hynny ar draws y Siambr. Felly, rydym wedi llwyddo i roi £61 miliwn yn ychwanegol i ysgolion ac awdurdodau lleol eleni. Rwyf yn gobeithio y bydd ei awdurdod lleol ef yn trosglwyddo'r arian hwnnw i ysgolion.

Gareth Jones: Minister, some weeks ago, I asked our excellent research service in the Assembly whether it would be possible to produce a fair comparison of the sums that are spent on education in Wales and England. For the information of all Members, I was told that a direct comparison was almost impossible. Therefore, a statement such as we heard today—this is me saying this—can be misleading. There is not only a difference in per capita expenditure between authorities in England, the same is true, as you have mentioned already, in Wales. Funding arrangements in Wales and England are different—there are academies in England, where there is private money over and above the public funding that is provided to support them. However, I acknowledge that constant references to this funding gap can, rightly or wrongly, undermine the confidence of parents in our superb education system. Will you do everything in your power to set out and explain the reality of education funding in Wales so that everyone understands it, including the Liberal Democrats and the Conservatives? That would be doing us all in Wales a favour, including the parents listening to this politicking who are growing weary and, naturally, concerned.

Leighton Andrews: I am grateful for the way in which you raised that issue, Gareth. There is no question that making direct comparisons is very complicated, and that is explained in the statistics bulletin that has been published. I meet my officials, including statisticians, virtually every month to try to go through the detail of this. It is clear to us that some of the spending gap is accounted for, as you said, by the private money that is going into academies and foundation schools, which we do not have in Wales. Some of it is accounted for by the different level of private finance initiative funding that is in operation in England. We have some PFI in Wales in relation to schools, but not much. We have to be conscious of those comparisons when looking at the figures.

At the end of the day, there is a real danger in the debate on the funding issue that—given that our funding has risen significantly over the lifetime of devolution and favourably in comparison with other European Union and Organisation for Economic Co-operation and Development countries—people will get transfixed by the funding issue and believe that that is a proxy for the debate on standards. It is not. We know from the analysis of Programme for International Student Assessment that funding makes a difference at the margins, but that the real issue is the quality of teaching and support, the level of accountability and all of those issues that go to making up performance. We have to get a real education debate under way in Wales that focuses on the issues of performance, and that is what I am engaged in.

Paul Davies: I have been made aware that the schools building improvement grant and twenty-first century schools funding have been deferred for 12 months. That has huge implications for all school capital projects and it will have an impact on expanding, for example, Welsh-medium education provisions in some parts of Wales. Can the Minister tell us what implications this will have for school reorganisation in areas across Wales, given that some projects will now be on hold?

Leighton Andrews: Rwyf yn ddiolchgar am y ffordd y gwnaethoch godi'r mater hwnnw, Gareth. Nid oes amheuaeth bod gwneud cymariaethau uniongyrchol yn gymhleth iawn, a chafodd hynny ei egluro yn y bwletin ystadegau a gyhoeddwyd. Byddaf yn cyfarfod fy swyddogion, gan gynnwys ystadegwyr, bron bob mis i geisio mynd drwy'r manylion hyn. Mae'n amlwg i ni fod eglurhad am rywffaint o'r bwlch mewn gwariant, fel y dywedasoch, oherwydd yr arian preifat sy'n mynd i academiâu ac ysgolion sefydledig, nad oes gennym yng Nghymru. Mae eglurhad am rywffaint ohono oherwydd y lefel wahanol o arian menter cyllid preifat arian sydd ar waith yn Lloegr. Mae gennym rywffaint o PFI yng Nghymru mewn perthynas ag ysgolion, ond dim llawer. Mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol o'r cymariaethau hynny wrth edrych ar y ffigurau.

Ar ddiwedd y dydd, mae perygl go iawn yn y drafodaeth ar gyllid—o ystyried bod ein cyllid wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod oes datganoli ac yn ffafriol o'i gymharu â gwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd a'r OECD—y bydd pobl yn canolbwyntio'n ormodol ar gyllido a meddwl bod hynny yn cymryd lle dadl ar safonau. Nid yw hynny'n wir. Gwyddom o ddadansoddiad PISA bod arian yn gwneud gwahaniaeth ar yr ymylon, ond y broblem go iawn yw ansawdd yr addysgu a'r cymorth, lefel yr atebolrwydd a phob un o'r materion hynny sy'n gyfrifol am berfformiad. Mae'n rhaid i ni gychwyn trafodaeth go iawn am addysg yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar y materion sy'n ymwneud â pherfformiad, a dyna beth rwyf yn ei wneud.

Paul Davies: Rwyf wedi cael ar ddeall bod arian ar gyfer y grant gwella adeiladau ysgolion ac ysgolion yr unfed ganrif ar hugain wedi cael ei ohirio am 12 mis. Mae gan hynny oblygiadau enfawr i bob prosiect cyfalaf i ysgolion a bydd yn cael effaith ar ehangu, er enghraifft, darpariaethau addysg cyfrwng Cymraeg mewn rhai rhannau o Gymru. All y Gweinidog ddweud wrthym pa oblygiadau sydd gan hyn i ad-drefnu ysgolion mewn ardaloedd ledled Cymru, o gofio y bydd rhai prosiectau yn awr yn cael

eu gohirio?

Leighton Andrews: We took a sustained hit on our capital budgets in the budget that was imposed on us by the Conservative-Liberal Democrat coalition Government in London. As he is well aware, a significant part of the overall budget reduction that we face next year as an Assembly Government is in respect of capital programmes. It is inevitable that, in that context, we will have to look at how we can best spread the twenty-first century schools programme and other education capital investments over a period of time. We have decided to introduce a single capital pool for education, which will include all capital, namely higher education capital as well as schools capital, in order that we can release money in the most efficient way possible. However, it is simply not possible to operate in the way that we had wanted to, given the budget restrictions and the capital restrictions and reductions that we have received from the UK coalition Government.

3.10 p.m.

Paul Davies: The budget that you received as a Welsh Assembly Government is due to the financial mismanagement of the previous UK Labour administration. However, staying with school reorganisation in addition to the funding issue, you made it clear last year that you would be issuing new guidance on reorganisation, given your concerns about the speed of the process. You hoped that revised regulations would be enforced by early 2011. Will you tell us, Minister, when the new school reorganisation guidance will be published, and do you envisage that it will have a huge impact on the current school reorganisation process?

Leighton Andrews: First of all, let me just pick you up on the economy. As I recall, the economy was starting to grow again under a Labour Government, but it fell by 0.5 per cent in the last quarter of last year, under the current UK Government. You need to be very careful when you throw those kinds of accusations across the Chamber.

Leighton Andrews: Dioddefodd ein cyllidebau cyfalaf gryn ergyd yn y gyllideb a orfodwyd arnom gan Lywodraeth glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain. Fel y gŵyr yn iawn, mae cyfran sylweddol o'r gostyngiad cyffredinol yn y gyllideb a wynebwn y flwyddyn nesaf fel Llywodraeth y Cynulliad yn ymwneud â rhaglenni cyfalaf. Mae'n anochel, yn y cyddestun hwnnw, y bydd yn rhaid inni edrych ar sut y gallwn gyflwyno'r rhaglen ysgolion unfed ganrif ar hugain a buddsoddiadau cyfalaf eraill mewn addysg dros gyfnod o amser. Rydym wedi penderfynu cyflwyno cronfa gyfalaf unigol ar gyfer addysg, a fydd yn cynnwys yr holl gyfalaf, sef cyfalaf addysg uwch yn ogystal â chyfalaf ysgolion, fel ein bod yn gallu rhyddhau arian yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl. Fodd bynnag, nid oes modd gweithredu yn y ffordd yr oeddem wedi dymuno, o ystyried y cyfyngiadau ar y gyllideb a'r cyfyngiadau cyfalaf a'r gostyngiadau a gawsom gan Lywodraeth glymblaid y DU.

Paul Davies: Mae'r gyllideb a gawsoch fel Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ganlyniad i'r camreoli ariannol gan weinyddiaeth Lafur flaenorol y DU. Fodd bynnag, gan aros gydag ad-drefnu ysgolion yn ogystal â'r mater ariannu, fe'i gwnaethoch yn glir y llynedd y byddech yn cyhoeddi canllawiau newydd ar ad-drefnu, o gofio eich pryderon am gyflymder y broses. Roeddech yn gobeithio y byddai rheoliadau diwygiedig yn cael eu gweithredu erbyn dechrau 2011. A wnewch chi ddweud wrthym, Weinidog, pryd y bydd y canllawiau newydd ar ad-drefnu ysgolion yn cael eu cyhoeddi, ac a ydych yn rhagweld y bydd yn cael effaith enfawr ar y broses ad-drefnu ysgolion sy'n digwydd ar y funud?

Leighton Andrews: Yn gyntaf oll, gadewch imi eich cywiro ar yr economi. Yn ôl yr hyn a gofiais, roedd yr economi yn dechrau tyfu eto o dan Lywodraeth Lafur, ond gostyngodd 0.5 y cant yn chwarter olaf y llynedd, o dan Lywodraeth bresennol y DU. Mae angen i chi fod yn ofalus iawn wrth wneud y mathau hynny o gyhuddiadau ar draws y Siambr.

In respect of school reorganisation, as I explained in my announcement last June, some of the proposals that we will bring forward for reorganisation can be done through regulations—we started the consultation process on those in the autumn—and some will require an education Measure, which can only be brought in after the Assembly elections. We remain committed to the school reorganisation proposals that I announced last June, which seemed to find favour across the Chamber, and we will carry on implementing those.

Cyfnod Sylfaen

5. Leanne Wood: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyfnod sylfaen. OAQ(3)1612(CEL)*

Leighton Andrews: The foundation phase remains on track, with all three to six-year-olds now having access to the new curriculum. Our commitment to the foundation phase was amply demonstrated in the draft budget, with a further £289 million being made available over the next three years.

Leanne Wood: I know that you were concerned by some of the findings of the report from the Estyn chief inspector of schools. However, away from those headlines, there were positive aspects, particularly in the flagship foundation phase. I am of the view that this initiative has provided a great boost for our youngest learners, giving them a fantastic start in their school years. I should possibly declare an interest as the parent of a six-year-old who is benefiting from the foundation phase. Minister, you will be aware that my colleague, Plaid Cymru's Nerys Evans, has recently unveiled ambitious plans to build on the success of the foundation phase by driving forward standards for pupils in the eight to 13-year-old age bracket. Do you agree that we should look at expanding this innovative aspect of our education system to the next age range, as a way of improving the basic skills of children?

Leighton Andrews: I will start by thanking you for your support for the foundation

O ran ad-drefnu ysgolion, fel yr eglurais yn fy nghyhoeddiad fis Mehefin diwethaf, gall rhai o'r cynigion y byddwn yn eu gwneud ar gyfer ad-drefnu gael eu gwneud drwy reoliadau—gwnaethom ddechrau ar y broses ymgynghori ar y rheini yn yr hydref—a bydd rhai yn golygu cael Mesur addysg, na ellir ei gyflwyno tan ar ôl etholiadau'r Cynulliad. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r cynigion i ad-drefnu ysgolion a gyhoeddais fis Mehefin diwethaf, a oedd yn ymddangos fel pe bai croeso iddynt ar draws y Siambr, a byddwn yn dal ati i weithredu'r rheini.

Foundation Phase

5. Leanne Wood: *Will the Minister make a statement on the foundation phase. OAQ(3)1612(CEL)*

Leighton Andrews: Mae'r cyfnod sylfaen yn parhau i fod ar y trywydd iawn, ac mae gan bob plentyn rhwng tair a chwech oed bellach fynediad at y cwricwlwm newydd. Dangoswyd ein hymrwymiad i'r cyfnod sylfaen yn glir yn y gyllideb ddrafft, gyda £289 miliwn arall yn cael ei ddarparu dros y tair blynedd nesaf.

Leanne Wood: Gwn eich bod yn pryderu am rai o ganfyddiadau adroddiad prif arolygydd ysgolion Estyn. Fodd bynnag, tu ôl i'r penawdau, roedd agweddau cadarnhaol, yn enwedig o ran y cyfnod sylfaen blaenllaw. Rwyf o'r farn bod y fenter hon wedi rhoi hwb mawr i'n dysgwyr ieuengaf, gan roi dechrau gwych iddynt i'w blynyddoedd ysgol. Mae'n debyg y dylwn ddatgan buddiant fel rhiant plentyn chwe blwydd oed sydd yn elwa ar y cyfnod sylfaen. Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod fy nghyd-Aelod, Nerys Evans o Blaid Cymru, wedi cyhoeddi cynlluniau uchelgeisiol yn ddiweddar i adeiladu ar lwyddiant y cyfnod sylfaen drwy godi safonau ar gyfer disgyblion rhwng wyth ac 13 mlwydd oed. A ydych chi'n cytuno y dylem edrych ar ymestyn yr agwedd arloesol hon ar ein system addysg i'r ystod oedran nesaf, fel ffordd o wella sgiliau sylfaenol plant?

Leighton Andrews: I ddechrau, diolch i chi am eich cefnogaeth i'r cyfnod sylfaen.

phase. It has been well supported by people from across Wales, from a variety of political backgrounds. Indeed, I think that I am right in saying that the Conservative Member of Parliament for Carmarthen West and South Pembrokeshire endorsed it on Independent Television News before Christmas, which surprised me, but I welcome support from all quarters. As regards education for eight to 14-year-olds, my predecessor Jane Hutt commissioned work on this subject, which was published last year. It has led to a number of interesting conclusions being drawn. The chief inspector of schools herself takes the view that this is an area that we need to look at, and I am sure that it is an area that we will return to after May.

Angela Burns: The Assembly Member for Carmarthen West and South Pembrokeshire also endorses the foundation phase. I, too, declare an interest, as I have a six and an eight-year-old, one of whom has gone through the foundation phase, and the other is going through it at the moment. It has made a very big difference to them. However, I listened with interest to your reply to Oscar earlier on about standards of literacy. You said that they are not good enough and that you are looking to implement a new literacy programme from the age of seven upwards. A comment that has been made to me by a number of teachers, especially retired headteachers, is that the foundation phase is excellent but that it relies on a lot of learning support staff to get the ratios going, and that in the olden days, the teacher always took the responsibility for ensuring that a child was able to read before they left their school or year. What is your view on whether, within the foundation phase, we need to place more emphasis on this? Indeed, what training are we giving our learning support staff to ensure that children are able to read properly when they leave the foundation phase and hit year 7, because that would help to solve the problems that you have with poor literacy at 7-plus?

Leighton Andrews: I thank the Member for her support for the foundation phase. It is good to have cross-party support for that. Her point is a serious one, and it has been raised with me by a number of Assembly Members

Cafodd gefnogaeth dda gan bobl o bob cwr o Gymru, o amryw gefndir gwleidyddol. Yn wir, rwyf yn meddwl fy mod yn iawn i ddweud bod yr Aelod Seneddol Ceidwadol dros Orllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro wedi ei gymeradwyo ar ITN cyn y Nadolig, a oedd yn fy synnu, ond rwyf yn croesawu cefnogaeth o bob man. O ran addysg i ddisgyblion rhwng wyth a 14 oed, comisiynwyd gwaith ar y pwnc hwn gan fy rhagflaenydd, Jane Hutt, a gyhoeddwyd y llynedd. Arweiniodd at lunio nifer o gasgliadau diddorol. Mae'r prif arolygydd ysgolion ei hun o'r farn bod hwn yn faes y mae angen inni edrych arno, ac rwyf yn siŵr ei fod yn faes y byddwn yn dychwelyd ato ar ôl mis Mai.

Angela Burns: Mae'r Aelod Cynulliad dros Orllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro hefyd yn croesawu'r cyfnod sylfaen. Rwyf innau hefyd yn datgan buddiant, gan fod gennyf blant chwech ac wyth oed, y mae un ohonynt wedi bod drwy'r cyfnod sylfaen, a'r llall yn mynd drwyddo ar hyn o bryd Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr iawn iddynt. Fodd bynnag, gwrandewais gyda diddordeb ar eich ateb i Oscar yn gynharach am safonau llythrennedd. Dywedasochoch nad ydynt yn ddigon da a'ch bod yn ystyried gweithredu rhaglen lythrennedd newydd o saith oed i fyny. Un sylw a wnaed i mi gan nifer o athrawon, yn enwedig gan benaethiaid sydd wedi ymdeol, yw bod y cyfnod sylfaen yn rhagorol, ond ei fod yn dibynnu ar lawer o staff cymorth addysgu i roi hwb i'r cymarebau, ac yn yr hen ddyddiau bod yr athro bob amser yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod plentyn yn gallu darllen cyn gadael eu hysgol neu flwyddyn. Beth yw eich barn ynghylch a oes angen i ni roi mwy o bwyslais ar hyn yn y cyfnod sylfaen? Yn wir, pa hyfforddiant ydym yn ei roi i'n staff cymorth dysgu i sicrhau bod plant yn gallu darllen yn gywir pan fyddant yn gadael y cyfnod sylfaen ac yn cyrraedd blwyddyn 7, oherwydd byddai hynny'n helpu i ddatrys y problemau sydd gennych o ran llythrennedd gwael ym mlwyddyn 7 ac wedi hynny?

Leighton Andrews: Diolch i'r Aelod am ei chefnogaeth i'r cyfnod sylfaen. Mae'n dda cael cefnogaeth drawsbleidiol i hynny. Mae ganddi bwynt difrifol y mae nifer o Aelodau'r Cynulliad a phenaethiaid wedi ei

and headteachers. It is important that, as we roll out the foundation phase, we do not lose sight of the importance of picking up literacy skills in particular. I am asking officials to look at that at present. It is a concern in some areas. Overall, I am optimistic that the foundation phase—with the greater attention that it will give to young people, giving them greater confidence through learning by doing—will impact upon literacy and numeracy. We certainly cannot let go of those basics as young people go through the foundation phase.

Adeiladau Ysgolion

6. Chris Franks: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adeiladau ysgolion ym Mro Morgannwg. OAQ(3)1621(CEL)*

Leighton Andrews: It is a matter for individual authorities to determine investment in and/or maintenance of their school buildings. The Vale of Glamorgan Council has submitted its twenty-first century schools strategic outline programme, which will be assessed, with successful projects announced later this year.

Chris Franks: You are aware of the ambitious plans to revamp St Cyres School in Penarth. What discussions has your department had regarding funding bids for the twenty-first century schools programme in the Vale of Glamorgan? Would you agree that, across Wales, there is a distinct need for additional capital funding for school buildings, and that the Welsh Government is investing, despite the cuts from the Conservative-Lib Dem coalition? When you visited the school recently, you would have been aware of the unsatisfactory state of the buildings.

Leighton Andrews: Yes, I visited the school last summer and saw the challenges that are being faced there. I understand the heroic efforts that have been made by the headteacher and others to address those. We have had a number of meetings with the Vale of Glamorgan Council to address its priorities in respect of capital, and it is aware of the challenges that it has to meet as part of the process of securing investment from us. We

godi â mi. Mae'n bwysig, wrth i ni gyflwyno'r cyfnod sylfaen, nad ydym yn colli golwg ar bwysigrwydd ennill sgiliau llythrennedd yn benodol. Rwyf yn gofyn i swyddogion edrych ar hynny ar y funud. Mae'n destun pryder mewn rhai ardaloedd. At ei gilydd, rwyf yn obeithiol y bydd y cyfnod sylfaen—gyda'r sylw ychwanegol y bydd yn ei roi i bobl ifanc, gan roi mwy o hyder iddynt ddysgu wrth wneud—yn cael effaith ar lythrennedd a rhifedd. Yn sicr ni allwn anwybyddu'r sylfeini hynny wrth i bobl ifanc fynd drwy'r cyfnod sylfaen.

School Buildings

6. Chris Franks: *Will the Minister make a statement on school buildings in the Vale of Glamorgan. OAQ(3)1621(CEL)*

Leighton Andrews: Mater i awdurdodau unigol yw penderfynu ar fuddsoddi mewn ac/neu gynnal a chadw eu hadeiladau ysgol. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi cyflwyno ei raglen strategol amlinellol ar gyfer y rhaglen ysgolion unfed ganrif ar hugain, a fydd yn cael ei hasesu, a bydd y prosiectau llwyddiannus yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Chris Franks: Gwyddoch am y cynlluniau uchelgeisiol i ailwampio Ysgol St Cyres ym Mhenarth. Pa drafodaethau y mae eich adran wedi'u cael ynghylch ceisiadau am gyllid ar gyfer y rhaglen ysgolion unfed ganrif ar hugain ym Mro Morgannwg? A fydddech yn cytuno, ledled Cymru, fod angen clir am gyllid cyfalaf ychwanegol i adeiladau ysgolion, a bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi, er gwaethaf y toriadau gan glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol? Pan wnaethoch ymweld â'r ysgol yn ddiweddar, bydddech wedi gweld cyflwr anfoddfaol yr adeiladau.

Leighton Andrews: Do, ymwelais â'r ysgol yr haf diwethaf a gwelais yr heriau sy'n cael eu hwynebu yno. Rwyf yn deall yr ymdrechion arwrol a wnaed gan y pennaeth ac eraill i fynd i'r afael â'r rheini. Rydym wedi cael nifer o gyfarfodydd â Chyngor Bro Morgannwg i fynd i'r afael â'i flaenoriaethau o ran cyfalaf, ac mae'n gwybod am yr heriau y mae'n rhaid iddo'u cwrdd fel rhan o'r broses o sicrhau buddsoddiad gennyf ni.

would expect it to submit its financial business case somewhere towards the end of this financial year.

Andrew R.T. Davies: Minister, you will be aware of the substantial investment in the new building at Cowbridge School, undertaken by the Vale of Glamorgan Council along with the Assembly Government. That project was brought in on time and on budget, meeting obligations on apprenticeship training places and local procurement. Would you therefore join me in congratulating the council on this project? Does it not give you confidence that, once the financial resolution is in place for St Cyres, the authority will be able to step up to the mark and deliver the project on time and on budget?

Leighton Andrews: I certainly hope that it will put the requisite investment into future capital programmes within its authority for other schools. I would welcome the use of local procurement and targeted training and recruitment within contracts for school buildings. That is something that I want to see being driven across the whole of our twenty-first century schools programme.

Lorraine Barrett: On Monday I had a meeting with the head of St Cyres, and I agree with the comments made by Chris Franks about the appalling state of the school. Contrary to what Andrew R.T. Davies has said, the council has had 12 years to deal with St Cyres, and little has been done. My concern, and the concern of the heads and parents who contact me regularly, is that while we are waiting for the outcome of these negotiations with the Vale of Glamorgan Council, and other local authorities, on coming up with the funding to match the £40 million that you have committed, the school still has problems. When we get heavy rain, there is flooding, and they are losing school days. They are not able to have hot meals. Is there anything that you can do to ensure that the Vale of Glamorgan Council keeps the school as watertight and as comfortable as it can until the plans are in place to start construction on the new school?

Byddem yn disgwyl iddo gyflwyno ei achos busnes ariannol tua diwedd y flwyddyn ariannol hon.

Andrew R.T. Davies: Weinidog, byddwch yn gwybod am y buddsoddiad sylweddol yn yr adeilad newydd yn Ysgol y Bontfaen, a wnaed gan Gyngor Bro Morgannwg, ynghyd â Llywodraeth y Cynulliad. Cwblhawyd y prosiect hwnnw ar amser ac o fewn y gyllideb, gan fodloni rhwymedigaethau o ran lleoedd hyfforddiant prentisiaeth a chaffael lleol. A wnewch chi ymuno â mi felly i longyfarch y cyngor ar y prosiect hwn? Onid yw'n rhoi ffydd i chi, unwaith y bydd y penderfyniad ariannol yn ei le ar gyfer St Cyres, y bydd yr awdurdod yn gallu cyrraedd y nod a chyflawni'r prosiect ar amser ac o fewn y gyllideb?

Leighton Andrews: Rwyf yn sicr yn gobeithio y bydd yn gwneud y buddsoddiad angenrheidiol mewn rhaglenni cyfalaf yn y dyfodol ar gyfer ysgolion eraill o fewn ei awdurdod. Byddwn yn croesawu'r defnydd o gaffael lleol a hyfforddiant a recriwtio wedi'i dargedu mewn contractau ar gyfer adeiladau ysgolion. Mae hynny'n rhywbeth rwyf am ei weld yn cael ei gynnwys ar draws ein rhaglen ysgolion unfed ganrif ar hugain.

Lorraine Barrett: Ddydd Llun cefais gyfarfod â phennaeth St Cyres, ac rwyf yn cytuno â sylwadau Chris Franks am gyflwr ofnadwy'r ysgol. Yn groes i'r hyn a ddywedodd Andrew R.T. Davies, cafodd y cyngor 12 mlynedd i ddelio â St Cyres, ond ni wnaed fawr ddim. Fy mhryder i, a phryder y penaethiaid a'r rhieni sy'n cysylltu â mi yn rheolaidd, yw wrth inni aros am ganlyniad y trafodaethau hyn â Chyngor Bro Morgannwg, ac awdurdodau lleol eraill, ar ddod o hyd i'r cyllid i gyd-fynd â'r £40 miliwn rydych chi wedi'i ymrwymo, yw bod yr ysgol yn dal i fod â phroblemau. Adeg glaw trwm, mae llifogydd yno, ac maent yn colli diwrnodau ysgol. Nid ydynt yn gallu cael prydau bwyd poeth. A oes rhywbeth y gallwch ei wneud i sicrhau bod Cyngor Bro Morgannwg yn cadw'r ysgol rhag dŵr ac mor gyfforddus â phosibl nes bod y cynlluniau yn eu lle i ddechrau adeiladu'r ysgol newydd?

Leighton Andrews: It is obviously important that the local authority carries out its responsibilities for routine maintenance. We certainly would not want to see longer-term building projects being undermined by damage to the fabric at the present time. The plans for St Cyres School are ambitious, and I have seen what is being proposed, but there are responsibilities on local authorities to fulfil their part of the bargain when we draw up plans under the twenty-first century schools programme and other capital schools programmes.

3.20 p.m.

Addysg Bellach

7. Mark Isherwood: *A wnaiiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg bellach drawsffiniol ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru. OAQ(3)1648(CEL)*

Leighton Andrews: There has been a history of further education students studying in local authority areas on either side of the Wales-England border. That can enhance the range of educational provision available to further education students and is to be welcomed.

Mark Isherwood: To students of all ages, if they live in a border area, access to a local college for further or higher education often takes priority over where the border lies. On the issue of crossover between FE and HE, I was recently contacted by a constituent who lives in north-east Wales and wants to train as a social worker. This person is in her 40s. She was told that she would be eligible for a social work bursary to study in Wales, but she wishes to attend University of Chester, which offers a two-year course. She could study at Wrexham, but it offers a full three-year degree course, and she already has a degree. I wrote to the Deputy Minister for Social Services, who confirmed that the Care Council for Wales is now focusing the bursaries entirely on Welsh students studying in Wales. What action can you take, with regard to your education brief, to ensure that such cross-border anomalies do not get in the way of people such as my constituent—who emphasises that she is a parent, a graduate, and a residential worker and training

Leighton Andrews: Mae'n amlwg yn bwysig bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau dros gynnal a chadw arferol. Yn sicr, ni fyddem am weld prosiectau adeiladu yn y tymor hwy yn cael eu tanseilio oherwydd niwed presennol i'r adeiladwaith. Mae'r cynlluniau ar gyfer Ysgol St Cyres yn uchelgeisiol, ac rwyf wedi gweld yr hyn a gynigir, ond mae cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol i gyflawni eu rhan hwy o'r fargen pan fyddwn yn paratoi cynlluniau o dan y rhaglen ysgolion unfed ganrif ar hugain a rhaglenni cyfalaf eraill i ysgolion.

Further Education

7. Mark Isherwood: *Will the Minister make a statement on cross border further education provision for Welsh domiciled students. OAQ(3)1648(CEL)*

Leighton Andrews: Bu hanes o fyfyrwyr addysg bellach yn astudio mewn ardaloedd awdurdodau lleol ar y naill ochr i ffin Cymru a Lloegr. Gall hynny wella ystod y ddarpariaeth addysgol sydd ar gael i fyfyrwyr addysg bellach ac mae hynny i'w groesawu.

Mark Isherwood: I fyfyrwyr o bob oed sy'n byw mewn ardal ar y ffin, mae mynediad at goleg lleol ar gyfer addysg bellach neu addysg uwch yn aml yn cael blaenoriaeth dros lle mae'r ffin yn gorwedd. O ran gorgyffwrdd rhwng addysg bellach ac addysg uwch, cysylltodd etholwr â mi yn ddiweddar sy'n byw yng ngogledd-ddwyrain Cymru ac yn dymuno hyfforddi fel gweithiwr cymdeithasol. Mae'r person hwn yn ei 40au. Dywedwyd wrthi y byddai'n gymwys i gael bwrsariaeth gwaith cymdeithasol i astudio yng Nghymru, ond mae hi'n dymuno mynd i Brifysgol Caer, sy'n cynnig cwrs dwy flynedd. Gallai astudio yn Wrecsam, ond mae'n cynnig cwrs gradd llawn am dair blynedd, ac mae ganddi radd eisoes. Ysgrifennais at y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, a gadarnhaodd bod Cyngor Gofal Cymru bellach yn canolbwyntio bwrsariaethau yn gyfangwbl ar fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio yng Nghymru. Pa gamau a allwch chi eu cymryd, o ran eich briff addysg, i sicrhau nad yw

manager—who want to take on the demanding role of a social worker, but are prevented, in this instance, by a lack of cross-border collaboration in the planning and delivery of education services?

Leighton Andrews: First, I should say that we have some excellent social work courses in Wales, including at a number of different institutions in north Wales. If you write to me with the details of this specific example, then I will be very happy to make further enquiries.

Janet Ryder: Many students are pleased that the education system is developing differently in Wales, particularly with regard to financial support, which places them in a different position to their counterparts from over the border who are studying at the same college. In further education, that situation applies in particular to the education maintenance allowance. Can you outline how Welsh students are going to have a big advantage in this?

Leighton Andrews: As the Member will be aware, the education maintenance allowance is being abolished in England, but we are keeping it in Wales. There are some students from Wales who are currently studying in England and receive EMAs from the English scheme. I am pleased to say that we will be able to give support to those students if they qualify. Therefore, we are taking steps to protect them.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 8, OAQ(3)1626(CEL), yn ôl.

Blaenoriaethau

9. Nick Ramsay: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer 2011. OAQ(3)1623(CEL)*

10. Darren Millar: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gweddill y trydydd Cynulliad. OAQ(3)1652(CEL)*

Leighton Andrews: Our priorities remain as

anghysondeb trawsffiniol o'r fath yn amharu ar bobl fel fy etholwr—sy'n pwysleisio ei bod yn rhiant, yn raddedig, yn weithiwr preswyl ac yn rheolwr hyfforddiant—sydd eisiau ymgymryd â rôl heriol gweithiwr cymdeithasol, ond sy'n cael ei hatal, yn yr achos hwn, gan ddiffyg cydweithredu ar draws ffiniau wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau addysg?

Leighton Andrews: Yn gyntaf, dylwn ddweud bod gennym rai cyrsiau gwaith cymdeithasol rhagorol yng Nghymru, gan gynnwys mewn nifer o sefydliadau gwahanol yn y gogledd. Os ysgrifennwch ataf gyda manylion yr enghraifft benodol hon, byddaf yn hapus iawn i wneud ymholiadau pellach.

Janet Ryder: Mae llawer o fyfyrwyr yn falch bod y system addysg yn datblygu'n wahanol yng Nghymru, yn enwedig o ran cymorth ariannol, sy'n eu rhoi mewn sefyllfa wahanol i'w cymheiriaid dros y ffin sy'n astudio yn yr un coleg. Mewn addysg bellach, mae'r sefyllfa honno yn arbennig o berthnasol i'r lwfans cynhaliath addysg. A allwch ddweud wrthym sut y bydd gan fyfyrwyr o Gymru fantais fawr yn hyn o beth?

Leighton Andrews: Fel y bydd yr Aelod yn ymwybodol, mae'r lwfans cynhaliath addysg yn cael ei ddiddymu yn Lloegr, ond rydym yn ei gadw yng Nghymru. Mae rhai myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn Lloegr ar y funud yn cael eu lwfansau o gynllun Lloegr. Rwyf yn falch o ddweud y byddwn yn gallu rhoi cymorth i'r myfyrwyr hynny os ydynt yn gymwys. Felly, rydym yn cymryd camau i'w diogelu.

The Presiding Officer: Question 8, OAQ(3)1626(CEL), is withdrawn.

Priorities

9. Nick Ramsay: *Will the Minister make a statement on his priorities for 2011. OAQ(3)1623(CEL)*

10. Darren Millar: *Will the Minister outline his priorities for the remainder of the 3rd Assembly. OAQ(3)1652(CEL)*

Leighton Andrews: Mae ein

stated in 'One Wales', with additional measures in response to the economic downturn.

Nick Ramsay: Thank you for that answer, Minister. Forgive me for being a bit confused—perhaps I need to go back to school—but, in the answers that you have given this afternoon, you have accused my party of not funding education sufficiently. At the same time, you have been accusing the Liberal Democrats of something else, saying that money is not the whole answer. It is therefore not surprising that there is an amount of confusion over exactly what your stance is on funding for education in Wales.

Given that the difference in funding per pupil between England and Wales has increased to over £600, which people are concerned about, and given that, at the same time, we have had the worrying news about basic literacy skills, what are you proposing to do beyond the plans that you have spoken about today on improving literacy? When you put this literacy programme in place fully, at what point do you anticipate the literacy standards in Wales being at a level that you would find acceptable?

Leighton Andrews: There is a kind of barefaced cheek about the question on funding. Members in the party opposite have said that they would be prepared to see cuts in schools and education of 20 per cent in order to fund—

Nick Bourne: Point of order.

The Presiding Officer: Order. The leader of the opposition knows that there can be no point of order during questions. If, on reflection, he wishes to ask a point of order at the end of questions, before our very important question on trains, I will of course take it. Minister, would you like to continue?

Leighton Andrews: In answer to questions on *Wales Today*, the leader of the opposition was asked what levels of cuts he would be prepared to sanction in other budgets, including for schools and education. He was asked whether it was 24 per cent. He said that it was about 20 per cent, because that, he

blanoriaethau'n aros yr un fath ag a nodwyd yn 'Cymru'n Un', gyda mesurau ychwanegol i ymateb i'r dirywiad economaidd.

Nick Ramsay: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Maddeuwch i mi am fod braidd yn ddryslyd-efallai fod angen i mi fynd yn ôl i'r ysgol-ond, yn yr atebion yr ydych wedi'u rhoi'r prynhawn yma, rydych wedi cyhuddo fy mhlaid o beidio â chyllido addysg yn ddigonol. Ar yr un pryd, rydych wedi bod yn cyhuddo'r Democratiaid Rhyddfrydol o rywbeth arall, yn dweud nad arian yw'r ateb i gyd. Felly, nid yw'n syndod bod peth dryswch ynghylch beth yn union yw eich safbwynt ar gyllido addysg yng Nghymru.

O gofio bod y gwahaniaeth mewn cyllid fesul disgybl rhwng Cymru a Lloegr wedi cynyddu i dros £600, sy'n peri pryder i bobl, ac o gofio, ar yr un pryd, ein bod wedi cael newyddion pryderus am sgiliau llythrennedd sylfaenol, beth ydych yn bwriadu ei wneud y tu hwnt i'r cynlluniau rydych wedi sôn amdanynt heddiw ar wella llythrennedd? Pan wnewch chi roi'r ddogfen honno ar lythrennedd ar waith yn llawn, pryd ydych yn rhagweld y bydd safonau llythrennedd yng Nghymru ar lefel y byddech yn tybio sy'n dderbyniol?

Leighton Andrews: Mae hwnnw'n gwestiwn hynod o ddigywilydd am gyllid. Mae Aelodau yn y blaidd gyferbyn wedi dweud y byddent yn barod i weld toriadau o 20 y cant mewn ysgolion ac addysg er mwyn ariannu—

Nick Bourne: Pwynt o drefn.

Y Llywydd: Trefn. Mae arweinydd yr wrthblaid yn gwybod na ellir caniatáu pwynt o drefn yn ystod cwestiynau. Os yw'n dymuno, ar ôl ystyried, gofyn pwynt o drefn ar ddiwedd y cwestiynau, cyn ein cwestiwn pwysig iawn ar drenau, byddaf wrth gwrs yn ei gymryd. Weinidog, a hoffech barhau?

Leighton Andrews: Mewn ateb i gwestiynau ar *Wales Today*, gofynnwyd i arweinydd yr wrthblaid pa doriadau fyddai'n barod i'w gwneud i gyllidebau eraill, gan gynnwys i ysgolion ac addysg. Gofynnwyd a oedd yn 24 y cant. Dywedodd ei fod tua 20 y cant, gan mai hynny, meddai, oedd eu blaenoriaeth.

said, was their priority. Those were his words. Llywydd, if he challenges them, I will ask you to rule on whether it is right for a Member to mislead the Assembly, because we have the video, we have the words, and the story is on the BBC website.

The Presiding Officer: I am not responsible for what is said on the BBC, thank goodness.

Darren Millar: My question, Minister, relates to the proposals for school modernisation that are being put forward in Conwy and Denbighshire. You will be well aware of the fact that a number of schools have been earmarked for potential closure as part of modernisation programmes in both of those local authority areas. What reassurance can you give to my constituents, some of whom I will be meeting on Friday in respect of the future of Ysgol Betws Gwerful Goch, about their voices being heard in the consultation processes that will now be under way? What will you do as a Minister to ensure that their voices are heard, should they be ignored by the local authority?

Leighton Andrews: As the Member will be aware, local authorities have to abide by our guidance in respect of school reorganisation, and I would expect the local authorities in question to do that and carry out proper consultation. I will not comment on either of the current proposals, as they may ultimately come to me for determination.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, byddwch yn gwybod bod bwriad yn sir Gaerfyrddin i gau ysgol Alton House, sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig dwys. Y bwriad yw iddynt symud i Ysgol Rhyd-y-Gors. Yn amlwg, nid wyf yn gofyn ichi wneud sylwadau ynglŷn â phenderfyniadau awdurdodau lleol ynglŷn ag ad-drefnu ysgolion unigol. Fodd bynnag, a allwch roi sicrwydd imi'r prynhawn yma, Weinidog, fod digon o amddiffyniad ar gyfer rhieni sydd â phlant ag anghenion addysg dwys, fel nad ydynt bob amser yn cael eu gorfodi i anfon eu plant i addysg brif ffrwd, gan fod arnynt angen darpariaeth sydd ar wahân i'r brif ffrwd?

Leighton Andrews: Local authorities have

Dyna oedd ei eiriau. Lywydd, os yw'n eu herio, byddaf yn gofyn i chi ddyfarnu a yw'n iawn i Aelod gamarwain y Cynulliad, gan fod gennym y fideo, mae gennym y geiriau, ac mae'r stori ar wefan y BBC.

Y Llywydd: Nid wyf yn gyfrifol am yr hyn a ddywedir ar y BBC, diolch byth.

Darren Millar: Mae fy nghwestiwn, Weinidog, yn ymwneud â'r cynigion ar gyfer moderneiddio ysgolion sy'n cael eu cyflwyno yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Byddwch yn ymwybodol bod nifer o ysgolion wedi cael eu clustnodi ar gyfer eu cau o bosibl fel rhan o raglenni moderneiddio yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hynny. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i fy etholwyr, rhai ohonynt y byddaf yn eu cyfarfod ddydd Gwener mewn perthynas â dyfodol Ysgol Betws Gwerful Goch, y bydd eu lleisiau'n cael eu clywed yn y prosesau ymgynghori a fydd yn mynd rhagddynt yn awr? Beth fyddwch chi'n ei wneud fel Gweinidog i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, pe baent yn cael eu hanwybyddu gan yr awdurdod lleol?

Leighton Andrews: Fel y gŵyr yr Aelod yn dda, rhaid i awdurdodau lleol lynu at ein canllawiau ar gyfer ad-drefnu ysgolion, a byddwn yn disgwyl i'r awdurdodau lleol dan sylw wneud hynny a chynnal ymgynghoriad priodol. Nid wyf am wneud sylw ar unrhyw un o'r cynigion presennol, gan y gallant yn y pen draw ddod i mi ar gyfer penderfyniad.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, you will know of the intention in Carmarthenshire to close Alton House School, which caters for pupils with severe special needs. The intention is for them to move to Rhyd-y-Gors Special School. Clearly, I am not asking you to comment on the decisions of local authorities about the reorganisation of individual schools. However, can you assure me this afternoon, Minister, that there is adequate protection for the parents of children with severe educational needs, so that they are not in each case forced to send their children into mainstream education, since they require provision that is separate from the mainstream?

Leighton Andrews: Mae gan awdurdodau

specific responsibilities to ensure that a young person's welfare is being promoted and safeguarded, and they also have a duty to arrange suitable education outside a mainstream school for young people who, by reason of illness or exclusion, or otherwise, may not receive suitable education unless such arrangements are made for them. In respect of Carmarthenshire, my officials have been in touch with the council, and it has made it clear that it will not cease to provide the service to pupils from Alton House and that it will be working with Rhyd-y-Gors Special School to develop an alternative service, which, it says, will be in accordance with the principles highlighted in its inclusion strategy.

Eleanor Burnham: Last week, during First Minister's questions, I asked why so many young carers remain unidentified in secondary school. Children in Wales and the children's commissioner's recent report suggested that a full review of this issue is essential. Minister, how will you commit to undertaking a full review so that we can identify and better serve our young carers, so many of whom are being left behind in their education?

Leighton Andrews: You are right to highlight the position of young carers, many of whom are providing an extraordinary service of support for their families. It is important that we do pick up on the challenges that they are facing, and the education system is well placed to do that. If you would like to write to me with any specific examples, I would be pleased to respond.

Jonathan Morgan: Minister, you will of course be aware that the governing body of Whitchurch High School has submitted an application to you to become a foundation school. You will also be aware that Cardiff Council has completed its process of consultation on its proposals to reorganise schools in the Whitchurch area. Both those decisions are now with your department. As the Assembly goes into its period of dissolution in approximately two months' time, will you be in a position to make an announcement on both those applications

lleol gyfrifoldebau penodol i sicrhau bod lles person ifanc yn cael ei hyrwyddo a'i ddiogelu, ac mae ganddynt ddyletswydd hefyd i drefnu addysg addas tu allan i ysgol brif ffrwd ar gyfer pobl ifanc nad ydynt, oherwydd salwch neu waharddiad, neu reswm arall, yn cael addysg addas oni bai bod trefniadau yn cael eu gwneud ar eu cyfer. O ran Sir Gaerfyrddin, mae fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â'r cyngor, ac mae wedi gwneud yn glir na fydd yn rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth i ddisgyblion o Alton House ac y bydd yn gweithio gydag Ysgol Arbennig Rhyd-y-Gors i ddatblygu gwasanaeth amgen, a fydd, meddai, yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn ei strategaeth cynhwysiant.

Eleanor Burnham: Yr wythnos diwethaf, yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, gofynnais pam nad yw cynifer o ofalwyr ifanc yn cael eu hadnabod o hyd yn yr ysgol uwchradd. Awgrymodd Plant yng Nghymru ac adroddiad diweddar gan y comisiynydd plant ei bod yn hanfodol cynnal adolygiad llawn o'r mater hwn. Weinidog, sut byddwch yn ymrwymo i gynnal adolygiad llawn fel y gallwn nodi a gwella ein gwasanaeth i ofalwyr ifanc, gan fod addysg llawer ohonynt yn cael ei adael ar ôl?

Leighton Andrews: Rydych yn gywir i dynnu sylw at sefyllfa gofalwyr ifanc, y mae llawer ohonynt yn darparu gwasanaeth cymorth hynod i'w teuluoedd. Mae'n bwysig ein bod yn talu sylw i'r heriau sy'n eu hwynebu, ac mae'r system addysg mewn sefyllfa dda i wneud hynny. Os hoffech ysgrifennu ataf gydag unrhyw enghreifftiau penodol, byddwn yn falch o ymateb.

Jonathan Morgan: Weinidog, byddwch wrth gwrs yn ymwybodol bod corff llywodraethu Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd wedi cyflwyno cais i chi i ddod yn ysgol sefydledig. Byddwch hefyd yn ymwybodol bod Cyngor Caerdydd wedi cwblhau ei broses ymgynghori ar ei gynigion i ad-drefnu ysgolion yn ardal yr Eglwys Newydd. Mae'r ddau benderfyniad hwnnw yn awr yn nwylo eich adran chi. Gan fod y Cynulliad yn mynd i gyfnod o ddiddymiad ymhen tua dau fis, a fyddwch mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad ar y ceisiadau hynny cyn

before the end of March?

diwedd mis Mawrth?

3.30 p.m.

Leighton Andrews: Yes.

Leighton Andrews: Byddaf.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Gweinidog.

The Presiding Officer: I thank the Minister.

Cwestiwn Brys Urgent Question

Cwmni Trenau Wrecsam a Swydd Amwythig Wrexham and Shropshire Train Company

Darren Millar: *A wnaiff y Gweinidog wneud datganiad brys ar derfynu'r cysylltiad rheilffordd uniongyrchol rhwng Wrecsam a Llundain gan gwmni trenau Wrecsam a Swydd Amwythig? EAQ(3)1797(ECT)*

Darren Millar: *Will the Minister make an urgent statement on the termination of the Wrexham to London direct rail link by the Wrexham to Shropshire train company? EAQ(3)1797(ECT)*

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): I was disappointed to receive a telephone call this morning from the managing director of the Wrexham, Shropshire and Marylebone Railway Company Ltd, informing me that it would cease Wrexham to London services after Friday 28 January. I have written to him, expressing my regret on behalf of the people of Wrexham and north Wales for the loss of this high-quality direct journey opportunity between Wrexham and London. I have commended the company's commitment to seek to assist its staff with finding alternative employment, and I understand that it intends to pay wages and redundancy entitlements in full. I have also suggested that the company might want to reconsider its decision when the economic climate improves. I was delighted to have launched the company's first service from Wrexham to Marylebone in April 2008. The company has run its services under an open operator's licence, which means that it could not receive any Government support or subsidy. The Welsh Assembly Government had invested £1 million in improvements to station facilities, and sidings, at Wrexham General Station. This was investment in an upgrade to network facilities, which is available to all operators, and not direct assistance to the company.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Roeddwn yn siomedig i dderbyn galwad ffôn y bore yma gan reolwr gyfarwyddwr Wrexham, Shropshire and Marylebone Railway Company Ltd, yn fy hysbysu y bydd yn rhoi'r gorau i'r gwasanaeth rhwng Llundain a Wrecsam ar ôl dydd Gwener 28 Ionawr. Rwyf wedi ysgrifennu ato i fynegi fy siom ar ran pobl Wrecsam a'r gogledd am golli'r cyfle i ddarparu siwrnai uniongyrchol o safon uchel rhwng Wrecsam a Llundain. Rwyf wedi canmol ymrwymiad y cwmni i geisio cynorthwyo staff i ddod o hyd i waith arall, ac rwyf yn deall ei fod yn bwriadu talu cyflogau a hawliau dileu swydd yn llawn. Rwyf wedi awgrymu hefyd y gallai'r cwmni ailystyried ei benderfyniad pan fydd yr hinsawdd economaidd yn gwella. Roeddwn yn falch o lansio gwasanaeth cyntaf y cwmni rhwng Wrecsam a Marylebone ym mis Ebrill 2008. Mae'r cwmni wedi rhedeg ei wasanaethau o dan drwydded gweithredwr agored, sy'n golygu na allai dderbyn unrhyw gymorth neu gymhorthdal gan y Llywodraeth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi £1 miliwn mewn gwelliannau i gyfleusterau gorsaf, a chilffyrdd, yng Ngorsaf Gyffredinol Wrecsam. Roedd hwn yn fuddsoddiad i uwchraddio cyfleusterau rhwydwaith, sydd ar gael i bob gweithredwr, ac nid oedd yn gymorth uniongyrchol i'r cwmni.

Darren Millar: Thank you for your statement, Deputy First Minister. I, for one, share your disappointment with the rail company's decision. I appreciate that this came as a shock to everyone, including you and your officials. However, this has been an important commercial route for businesses in Wrexham and north Wales, as well as an important route for passengers, not only in accessing services to London, but also those stations where the trains used to stop—or are still stopping—and making that important connection to Shrewsbury for services to south Wales. You have rightly indicated that 55 jobs are at risk, and that those individuals face an uncertain future. Many of them live in north Wales and are facing that uncertainty with some concern. You have sought some reassurances about those jobs, but what discussions are you having with the company regarding the support that you may be able to offer those individuals who are facing possible redundancy? In terms of your discussions with the Wrexham and Shropshire railway company, I appreciate that no subsidy can be offered to the company, but are you engaging in discussions with other rail companies that operate in the area to see whether they might be able to ensure the future of this important service?

The Deputy First Minister: I appreciate the points that you raise, Darren, and I am sure that your views will be commonly shared across the Chamber. Our thoughts are not only with the people of north Wales, because of the loss of service, but particularly with those 55 people whose jobs will now be lost as a result of this decision. I can assure you that, working with the company, we will offer whatever opportunities we can to assist, through the careers services, as well as through ReAct training, if that is appropriate, and so on. Therefore, there are many things that we can do to assist them in the short term, although it is a challenging environment in which to be securing new jobs.

You also highlighted the importance of having links with London. This was obviously an important route and it has been developed well. Everyone speaks highly of

Darren Millar: Diolch am eich datganiad, Ddirprwy Brif Weinidog. Rwyf yn rhannu eich siom am benderfyniad y cwmni rheilffordd. Rwyf yn sylweddoli bod hyn yn sioc i bawb, gan gynnwys i chi a'ch swyddogion. Fodd bynnag, bu'n llwybr masnachol pwysig i fusnesau yn Wrecsam a'r gogledd, yn ogystal â llwybr pwysig i deithwyr, nid yn unig o ran cael gwasanaethau i Lundain, ond i'r gorsafoedd hynny lle'r arferai trenau aros—neu lle maent yn dal yn aros—a gwneud y cysylltiad pwysig hwnnw i'r Amwythig ar gyfer gwasanaethau i dde Cymru. Rydych wedi dweud bod 55 o swyddi yn y fantol, a bod yr unigolion hynny yn wynebu dyfodol ansicr. Mae llawer ohonynt yn byw yn y gogledd ac yn wynebu ansicrwydd â chryn bryder. Rydych wedi gofyn am rywffaint o sicrwydd am y swyddi hynny, ond pa drafodaethau a gawsoch â'r cwmni am y cymorth y gallech ei gynnig i'r unigolion hynny sy'n wynebu'r posibilrwydd o gael eu diswyddo? O ran eich trafodaethau â chwmni rheilffordd Wrecsam a Sir Amwythig, rwyf yn gwerthfawrogi na ellir cynnig unrhyw gymhorthdal i'r cwmni, ond a ydych yn cynnal trafodaethau â chwmnïau rheilffordd eraill sydd yn yr ardal i weld a allent sicrhau dyfodol y gwasanaeth pwysig hwn?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Rwyf yn gwerthfawrogi'r pwyntiau rydych yn eu codi, Darren, ac rwy'n siwr y bydd eich barn yn cael ei rhannu ar draws y Siambr. Mae ein meddyliau nid yn unig â phobl y gogledd, oherwydd colli'r gwasanaeth, ond yn enwedig gyda'r 55 o'r bobl hynny fydd yn colli eu swyddi yn awr o ganlyniad i'r penderfyniad hwn. Gallaf eich sicrhau, gan weithio gyda'r cwmni, y byddwn yn cynnig pa bynnag gyfleoedd y gallwn i helpu, drwy'r gwasanaethau gyrfaoedd, yn ogystal â thrwy hyfforddiant ReAct, os yw hynny'n briodol, ac yn y blaen. Felly, mae llawer o bethau y gallwn eu gwneud i'w cynorthwyo yn y tymor byr, er ei fod yn amgylchedd heriol i gael swyddi newydd.

Gwnaethoch hefyd dynnu sylw at bwysigrwydd cael cysylltiadau â Llundain. Roedd hwn yn amlwg yn llwybr pwysig a gafodd ei datblygu'n dda. Mae pawb yn

the quality of the service that was given to passengers, which was very much due to the commitment of the workforce, which has been highly regarded. There have been discussions with the company, but, as I highlighted in my original response, we cannot provide a subsidy because this is an open access arrangement and it is not linked to any particular franchise. However, I am pretty sure that other companies will be looking for opportunities to come up with services that might take up some of the opportunities that are available. We stand ready to discuss those opportunities with operators, whether that is in addition to current franchise services or if other people want to come in with open access opportunities.

Lesley Griffiths: Thank you for allowing me to speak in my capacity as the constituency Member for Wrexham. Deputy First Minister, I too share your disappointment that Wrexham is to lose this excellent service. The company employs outstanding staff, many of whom I have got to know personally on the many occasions that I have used this service, and my thoughts are with them at this very difficult time. As you said, due to it being an open access service, it was not entitled to Government subsidy, but it did receive capital funding, which was used to provide facilities where, for instance, the rolling stock could be maintained. This now means that, specifically in this area, there are many skilled staff in Wrexham who will be looking for employment, along with their colleagues. Will the Government do all that it can to support the company, which, I was very pleased to hear, as were you, is able to support its staff financially and by assisting them to look for further work? Will the Government also help to facilitate discussions with other railway companies to try to use these highly skilled staff, most of whom, as you and Darren said, live in the Wrexham area?

The Deputy First Minister: You are absolutely right. We would want to make it clear to the company that these are highly valued staff who have obviously developed a high-quality service, and everyone

canmol ansawdd y gwasanaeth a roddwyd i deithwyr, ac roedd y rhan fwyaf o'r diolch am hynny i ymroddiad y gweithlu, yr oedd cryn barch iddo. Cafwyd trafodaethau â'r cwmni, ond, fel y dywedais yn fy ymateb gwreiddiol, ni allwn ddarparu cymhorthdal gan fod hwn yn drefniant mynediad agored ac nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw fasnachfrait penodol. Fodd bynnag, rwyf yn eithaf sicr y bydd cwmnïau eraill yn chwilio am gyfleoedd i ddod o hyd i wasanaethau a allai fanteisio ar rai o'r cyfleoedd sydd ar gael. Rydym yn barod i drafod y cyfleoedd hynny â gweithredwyr, boed hynny yn ychwanegol at y gwasanaethau masnachfrait presennol neu os yw pobl eraill am gynnig cyfleoedd mynediad agored.

Lesley Griffiths: Diolch i chi am adael imi siarad yn rhinwedd fy swydd fel yr Aelod dros etholaeth Wrecsam. Ddirprwy Brif Weinidog, rwyf innau'n rhannu eich siom y bydd Wrecsam yn colli'r gwasanaeth ardderchog hwn. Mae'r cwmni'n cyflogi staff rhagorol, a deuthum i nabod llawer ohonynt yn bersonol ar y sawl achlysur yr wyf wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn, ac rwy'n meddwl amdanynt yn y cyfnod hynod anodd hwn. Fel y dywedaso, oherwydd ei fod yn wasanaeth mynediad agored, nid oedd ganddo hawl i gael cymhorthdal gan y Llywodraeth, ond roedd yn derbyn cyllid cyfalaf, a gafodd ei ddefnyddio i ddarparu cyfleusterau i gynnal cerbydau, er enghraifft. Mae hyn bellach yn golygu, yn benodol yn y maes hwn, y bydd llawer o staff â sgiliau yn Wrecsam yn chwilio am waith, ynghyd â'u cydweithwyr. A wnaiff y Llywodraeth bopeth yn ei gallu i gefnogi'r cwmni, sydd, yr oeddwn i, fel chithau, yn falch iawn o glywed, yn gallu cefnogi ei staff yn ariannol a thrwy eu cynorthwyo i chwilio am waith pellach? A fydd y Llywodraeth hefyd yn helpu i hwyluso trafodaethau â chwmnïau rheilffordd eraill i geisio defnyddio'r staff hynod fedrus hyn, y mae'r rhan fwyaf ohonynt, fel y dywedodd Darren, yn byw yn ardal Wrecsam?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Rydych yn llygad eich lle. Byddem am ei gwneud yn glir i'r cwmni bod y rhain yn staff sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac sydd yn amlwg wedi datblygu gwasanaeth o ansawdd uchel,

acknowledges that. So, we will talk to current rail operators running existing franchises and if there are employment opportunities, we can help in facilitating that. I know that these skills are highly valued in the railway industry and I am sure that the staff will be considered carefully. The other thing, of course, is that if we can get other operators to look for alternative open-access arrangements or to develop existing services in addition to their franchises, we would also make them aware that staff are available to be considered for employment. However, I share your concern about the staff who are clearly going through a very difficult time today.

Eleanor Burnham: Again, I commiserate with these wonderful people. I have used the service on many occasions and it is absolutely fantastic. Beyond the support that has been requested for these wonderful employees, my concern goes to the kinds of discussions that you are having. As Darren mentioned, the present 7.30 a.m. service that goes from Wrexham to Marylebone connects very well, with only a few minutes to spare, and I have never had any problems with the connections, whereas before there were always problems. What are you going to do about that connection, so that everyone from the Wrexham area of north Wales can go from Wrexham to Shrewsbury to connect with the other train that travels from Holyhead via Crewe to Shrewsbury? That is my first question.

In view of the fantastic rolling stock that the company has, will you perhaps be able to give that to Arriva Trains so that we can have some upgrade for the very patient passengers from north Wales? It would be a shame if that wonderful rolling stock were to be lost. Quite frankly, it would be a little bit of advancement and improvement for Arriva Trains Wales's mostly lacklustre rolling stock. These are not my words; there was a *Manylu* programme on Radio Cymru the other day and many young people were saying exactly what I say about the awful state of some of the Arriva trains and the disgusting, parlous state of the sanitary arrangements, which I do not want to discuss here. This was mentioned on the radio

ac mae pawb yn cydnabod hynny. Felly, byddwn yn siarad â gweithredwyr rheilffyrdd presennol sy'n rhedeg rhyddfrentiau ar hyn o bryd, ac os bydd cyfleoedd am waith, gallwn eu helpu i hwyluso hynny. Gwn fod y sgiliau hyn yn werthfawr iawn yn y diwydiant rheilffyrdd ac rwyf yn siŵr y bydd y staff yn cael eu hystyried yn ofalus. Y peth arall, wrth gwrs, yw os gallwn gael gweithredwyr eraill i edrych am drefniadau mynediad agored amgen neu i ddatblygu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes yn ychwanegol at eu rhyddfrentiau, byddem hefyd yn dweud wrthynt bod staff ar gael i'w hystyried ar gyfer cyflogaeth. Fodd bynnag, rwyf yn rhannu eich pryder am y staff sydd yn amlwg yn mynd drwy gyfnod anodd iawn heddiw.

Eleanor Burnham: Rwyf innau'n cydymdeimlo â'r bobl ragorol hyn. Rwyf wedi defnyddio'r gwasanaeth ar sawl achlysur ac mae'n rhagorol. Y tu hwnt i'r gefnogaeth y gofynnwyd amdani ar gyfer y gweithwyr rhagorol hyn, mae gennyf bryder am y mathau o drafodaethau yr ydych yn eu cael. Fel y dywedodd Darren, mae'r gwasanaeth 7.30 a.m. presennol o Wrecsam i Marylebone yn cysylltu'n dda iawn, gyda dim ond ychydig funudau i'w sbario, ac ni chefais unrhyw broblemau gyda'r cysylltiadau, lle o'r blaen roedd problemau drwy'r adeg. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud am y cysylltiad hwnnw, fel y gall pawb o ardal Wrecsam fynd o Wrecsam i'r Amwythig i gysylltu â'r trên arall sy'n teithio o Gaergybi i Crewe drwy'r Amwythig? Dyna fy nghwestiwn cyntaf.

O ystyried y cerbydau gwych sydd gan y cwmni, a fyddwch efallai yn gallu eu rhoi i Drenau Arriva fel y gallwn uwchraddio rhywfaint i deithwyr amyneddgar iawn y gogledd? Byddai'n drueni pe bai'r cerbydau gwych yn cael eu colli. A dweud y gwir, byddai'n gwella rhywfaint ar gerbydau Trenau Arriva Cymru, sydd â cherbydau digon gwael gan fwyaf. Nid fi sy'n dweud hyn; roedd rhaglen *Manylu* ar Radio Cymru y diwrnod o'r blaen lle dywedodd llawer o bobl ifanc yr un peth ag yr wyf fi yn ei ddweud am gyflwr ofnadwy rhai o drenau Arriva a chyflwr ffiائد ac enbyd y trefniadau glanweithdra, nad wyf am eu trafod yma. Cafodd hyn ei grybwyll ar y rhaglen radio, felly nid dim ond fi sy'n dweud hyn.

programme, so it is not just me. It would be remiss of me if I did not continue to press this issue, but I hope that you can do something. I commiserate with the staff at this terrible time.

The Deputy First Minister: First, the provision of rolling stock for companies is not in my gift; it is not up to me to decide which company uses which particular rolling stock. However, I am informed that because this is a company that is now owned by Deutsche Bahn, arrangements have already been made for the current stock to be used on some of its services elsewhere. Therefore, they will not be available to Arriva Trains Wales. I believe that you are aware that we have upgraded the early morning express services, which is a local haul service similar to the Wrexham and Shropshire service, and we are looking to enhance that even further. I would have hoped that you would have welcomed our commitment to increase the frequency of those express services and the use of loco haul across north Wales. I understand and appreciate the points that people are making when they say that they want services between north and south Wales to be equivalent to those between north Wales and London.

3.40 p.m.

Janet Ryder: Deputy First Minister, it is a great pity that this service will no longer run. It was welcomed very warmly in Wrexham and it has made a big difference to the profile of the town as well as creating extra jobs. It has also resulted in great investment being made in the station and, after many years, there was once more a cafe at the station. That, in itself, created jobs. You have talked about holding discussions with other companies about the possibility of taking on some of this work, and this might be one aspect that you could develop with another company so that it may continue. I would like to know what you are doing not only in relation to the rolling stock and the company, but also to support the ancillary services for the railways.

The Deputy First Minister: The redoubling of the line between Wrexham and Chester would unlock the potential of Wrexham

Byddai'n esgeulus ohonof pe na bawn yn parhau i bwysleisio'r mater hwn, ond gobeithio y gallwch chi wneud rhywbeth. Rwyf yn cydymdeimlo â'r staff ar yr adeg ofnadwy hon.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yn gyntaf, nid wyf yn gyfrifol am ddarparu cerbydau i gwmnïau; nid mater i mi yw penderfynu pa gwmni sy'n defnyddio pa gerbydau penodol. Fodd bynnag, gan fod hwn yn gwmni sydd yn awr ym mherchnogaeth Deutsche Bahn, gwn fod trefniadau eisoes wedi eu gwneud i'r cerbydau presennol gael eu defnyddio ar rai o'i wasanaethau mewn mannau eraill. Felly, ni fyddant ar gael i Trenau Arriva Cymru. Tybiaf eich bod yn gwybod ein bod wedi uwchraddio'r gwasanaethau cyflym cynnar yn y bore, sy'n wasanaeth cludo lleol tebyg i'r gwasanaeth Wrecsam a Sir Amwythig, ac rydym yn edrych i wella hwnnw hyd yn oed yn fwy. Byddwn wedi gobeithio y byddech wedi croesawu ein hymrwymiad i gynyddu amllder y gwasanaethau cyflym hynny a'r defnydd o gludiant ar drenau ar draws y gogledd. Rwy'n deall a gwerthfawrogi'r pwyntiau mae pobl yn eu gwneud pan fyddant yn dweud eu bod am i wasanaethau rhwng y gogledd a'r de gyfateb i'r rhai rhwng y gogledd a Llundain.

Janet Ryder: Ddirprwy Brif Weinidog, mae'n drueni mawr na fydd y gwasanaeth hwn yn rhedeg bellach. Roedd croeso cynnes iawn iddo'n Wrecsam ac mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i broffil y dref yn ogystal â chreu swyddi ychwanegol. Mae hefyd wedi arwain at fuddsoddiad mawr yn yr orsaf ac, ar ôl blynyddoedd lawer, roedd caffi yn yr orsaf unwaith yn rhagor. Mae hynny, ynddo'i hun, wedi creu swyddi. Rydych wedi sôn am gynnal trafodaethau â chwmnïau eraill am y posibilrwydd o ymgymryd â'r gwaith hwn, a gallai hon fod yn un agwedd y gallech ei datblygu â chwmni arall fel y gall barhau. Hoffwn wybod beth rydych yn ei wneud, nid yn unig o ran y cerbydau a'r cwmni, ond hefyd o ran cefnogi gwasanaethau ategol ar gyfer y rheilffyrdd.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Byddai ailddyblu'r linell rhwng Wrecsam a Chaer yn gwireddu potensial gorsaf reilffordd

railway station. We have already announced our commitment to do that and both Network Rail and I are committed to doing that. The redoubling of the single section between Wrexham and Saltney Junction is a key priority for us. I can now say that preliminary designs will be completed shortly and construction activity is scheduled to begin next year. This is good news, because we want to be able to develop services through Wrexham. This has always been my commitment. I do not want to see the north-south service travelling through Crewe, but we need to make some infrastructure improvements and I am pleased to say that we are now moving forward with those.

Mark Isherwood: I attended the event at which you formally opened the line three years ago. I travel from Wrexham every week and this is devastating for the great team of people who work at the station and in the surrounding area. This service had a 99 per cent passenger satisfaction rating in an independent survey and the service from north Wales to Marylebone was restored after a 41-year gap. It is worth fighting for and it has a history.

You may recall that, in the last Assembly, the then Welsh Government, of which you were not a part, was initially not going to back it. A coalition of Members from four parties, including Janet Ryder, Eleanor Burnham, John Marek, Brynle Williams and me, campaigned in the press and through other methods to persuade the Government to make a U-turn on this. During this Assembly, prior to being taken over by Deutsche Bahn, Arriva Trains Wales threatened to open a link from Aberystwyth to London via Shrewsbury, using cross-subsidy from its subsidised services, in direct competition with WSMR, which did not receive a subsidy. It is being reported that the main reason that Deutsche Bahn, which is the main shareholder in WSMR, has given for the decision is that this line is a rival to its main franchise services since its takeover of Arriva Trains Wales. Can you play any role in driving the renegotiation of franchise and open-access arrangements? I do not know whether it can

Wrecsam. Rydym eisoes wedi cyhoeddi ein hymrwymiad i wneud hynny ac mae Network Rail a minnau wedi ymrwymo i wneud hynny. Mae ailddyblu'r adran sengl rhwng Wrecsam a Chyffordd Saltney yn flaenoriaeth allweddol i ni. Gallaf yn awr ddweud y bydd cynlluniau rhagarweiniol yn cael eu cwblhau cyn bo hir a bwriedir i'r gwaith adeiladu ddechrau'r flwyddyn nesaf. Mae hyn yn newyddion da, gan ein bod eisiau datblygu gwasanaethau drwy Wrecsam. Mae hwn wedi bod yn ymrwymiad gennyf drwy'r adeg. Nid wyf am weld y gwasanaeth o'r gogledd i'r de yn teithio drwy Crewe, ond mae angen i ni wneud rhai gwelliannau i'r seilwaith ac rwyf yn falch o ddweud ein bod bellach yn symud ymlaen gyda hynny.

Mark Isherwood: Roeddwn yn bresennol yn y digwyddiad pan wnaethoch agor y llinell yn ffurfiol dair blynedd yn ôl. Rwy'n teithio o Wrecsam bob wythnos ac mae hyn yn newyddion drwg iawn ar gyfer y tîm o bobl ragorol sy'n gweithio yn yr orsaf a'r ardal gyfagos. Cafodd y gwasanaeth hwn sgôr bodddhad o 99 y cant gan deithwyr mewn arolwg annibynnol a chafodd y gwasanaeth o'r gogledd i Marylebone ei adfer ar ôl bwlch o 41 mlynedd. Mae'n werth ymladd amdano ac mae ganddo hanes.

Efallai y cofiwch, yn y Cynulliad diwethaf, nad oedd Llywodraeth Cymru ar y pryd, nad oeddech yn rhan ohoni, am ei gefnogi i ddechrau. Ymgyrchodd clymblaid o Aelodau o'r pedair plaid, gan gynnwys Janet Ryder, Eleanor Burnham, John Marek, Brynle Williams a minnau, yn y wasg a thrwy ddulliau eraill i ddwyn perswâd ar y Llywodraeth i newid ei meddwl ar hyn. Yn ystod y Cynulliad hwn, cyn iddo gael ei gymryd drosodd gan Deutsche Bahn, roedd Trenau Arriva Cymru yn bygwth agor llinell o Aberystwyth i Lundain drwy'r Amwythig, gan ddefnyddio croes-gymhorthdal o'i wasanaethau sy'n cael cymhorthdal, mewn cystadleuaeth uniongyrchol â WSMR, nad oedd yn derbyn cymhorthdal. Dywedir mai'r prif reswm a roddodd Deutsche Bahn, sef prif gyfranddaliwr WSMR, dros y penderfyniad yw bod y llinell hon yn cystadlu â'i brif wasanaethau masnachfaint ers iddo gymryd Trenau Arriva Cymru drosodd. A allwch chi chwarae unrhyw ran yn sbarduno ail-negodi'r

be done, but is there any way that this could be done in order to see whether a compromise can be facilitated to keep this vital Wrexham link open?

The Deputy First Minister: I greatly appreciate your comments about the staff, and I think that everyone acknowledges that there is an excellent team of staff. We recognise that and I am sure that they will appreciate the comments made by Assembly Members across the Chamber. However, we ought to be clear here about the opportunities that exist, as we do not want to raise people's hopes too highly. It is not possible for a Government to assist in subsidising an open-access arrangement. Let us remember that the service was outside existing franchise agreements. The company operated it without a subsidy and was therefore subject to commercial risk in doing so. If another company comes forward with a proposal, then we would be in a similar position in relation to subsidy. However, we can facilitate services by improving the infrastructure and by making it easier for people to use Wrexham station. I am pretty sure that, in the next few years, there will be even more opportunities for trains to use Wrexham because we will have dualled the tracks.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Dirprwy Brif Weinidog am ei atebion.

fasnachfaint a threfniadau mynediad agored? Ni wn os gellir ei wneud, ond a oes unrhyw ffordd y gellir gwneud hyn er mwyn gweld a ellir dod i gyfaddawd er mwyn cadw'r cyswllt hanfodol hwn i Wrecsam ar agor?

Y Dirprwy Brif Weinidog: Rwyf yn gwerthfawrogi eich sylwadau am y staff, a thybiaf fod pawb yn cydnabod bod yna dîm ardderchog o staff. Rydym yn cydnabod hynny ac rwyf yn siŵr y byddant yn gwerthfawrogi'r sylwadau a wnaed gan Aelodau'r Cynulliad ar draws y Siambr. Fodd bynnag, dylem fod yn glir yma am y cyfleoedd sy'n bodoli, gan nad ydym am godi gobeithion pobl yn rhy uchel. Nid yw'n bosibl i Lywodraeth roi cymhorthdal i drefniant mynediad agored. Gadewch inni gofio bod y gwasanaeth y tu allan i'r cytundebau masnachfaint presennol. Roedd y cwmni yn ei weithredu heb gymhorthdal ac felly yn agored i risg fasnachol wrth wneud hynny. Os bydd cwmni arall yn dod â chynnig gerbron, byddem mewn sefyllfa debyg o ran cymhorthdal. Fodd bynnag, gallwn hwyluso gwasanaethau drwy wella isadeiledd a'i gwneud yn haws i bobl ddefnyddio gorsaf Wrecsam. Rwyf yn eithaf sicr, yn y blynyddoedd nesaf, y bydd hyd yn oed mwy o gyfleoedd i drenau ddefnyddio Wrecsam oherwydd byddwn wedi deuoli'r traciau.

The Presiding Officer: Thank you, Deputy First Minister, for your replies.

Pwynt o Drefn Point of Order

Nick Bourne: My point of order relates to the conduct of Assembly business, budget issues and the esteem in which we are held by the public. It does not help anyone if we distort other parties' positions. We have published our budgetary position, which the Government criticised for not containing enough detail. In looking at that position, which should be simple if there is no detail, it should be absolutely clear that our position is that we would take 12 per cent off the education budget, while the party of the Minister for education is to cut the budget by 8 per cent. Let us engage in the truth on these issues. I have no problem with doing that. There are enough real differences between us

Nick Bourne: Mae fy mhwynt o drefn yn ymwneud a'r ffordd y caiff busnes y Cynulliad ei gynnal, materion cyllideb a'r parch sydd gan y cyhoedd ynom ni. Nid yw'n helpu neb os byddwn yn ystumio safbwyntiau pleidiau eraill. Rydym wedi cyhoeddi ein safbwynt ar y gyllideb, a gafodd ei feirniadu gan y Llywodraeth am nad oedd yn cynnwys digon o fanylion. Wrth edrych ar y sefyllfa honno, a ddylai fod yn syml os nad oes unrhyw fanylion, dylai fod yn gwbl glir mai ein safbwynt yw y byddem yn cymryd 12 y cant oddi ar y gyllideb addysg, tra byddai plaid y Gweinidog dros addysg yn torri'r gyllideb o 8 y cant. Gadewch i ni ddweud y gwir am y materion hyn. Nid oes gennyf

without having to fabricate unreal ones. Every time these canards are raised, we will be forced to get up to put forward our true position. To enable us to concentrate on the real issues, I hope that the Minister will acknowledge that that is the position set out in the statement that we made, very clearly, regarding our budget.

Leighton Andrews: I would like to ask whether it is in order for the leader of the opposition to mislead the Assembly. I quoted, very specifically, from an interview that the leader of the opposition gave. I have a transcript here in front of me. On the *BBC Wales Today* programme on 17 November, he was asked:

‘It would mean cuts of up to 24 per cent in places like schools and education. Are you prepared to do that?’

He said:

‘It is about 20 per cent. Of course, because that is our priority.’

He is on the record as being prepared to sanction a 20 per cent cut in schools and education. He is now seeking to mislead the Assembly as to what his stance has been. [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. I think that the position, as far as order in the Assembly is concerned, is that someone is not able to mislead the Assembly by way of a statement made outside the Assembly. Statements that mislead the Assembly, in our Standing Orders, are defined as statements that are made in the Assembly Chamber. In relation to what I said earlier, I am not able to adjudicate—and should not try to adjudicate—on matters relating to what is said on television. Clearly, as we enter into a period approaching our dissolution, we are bound to have robust political debate. Obviously, as someone who has indulged in this in the very distant past, I would encourage it. However, there is, of course, a courtesy of discourse here and an interest on our part as individuals and Members in speaking the truth to each other and, more

problem gwneud hynny. Mae digon o wahaniaethau real rhyngom heb orfod gwneud rhai ffug. Bob tro y caiff y chwedlau gwag hyn eu eu codi, byddwn yn cael ein gorfodi i godi ar ein traed i fynegi ein gwir safbwynt. Er mwyn ein galluogi i ganolbwyntio ar y materion go iawn, rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn cydnabod mai dyna’r safbwynt a nodir yn y datganiad a wnaethom, yn glir iawn, o ran ein cyllideb.

Leighton Andrews: Hoffwn ofyn a yw mewn trefn i arweinydd yr wrthblaid gamarwain y Cynulliad. Dyfynnais, yn benodol iawn, o gyfweiliad a roddodd arweinydd yr wrthblaid. Mae gen i drawsgrifiad yma o fy mlaen. Ar raglen *BBC Wales Today* ar 17 Tachwedd, gofynnwyd iddo:

Byddai’n golygu toriadau o hyd at 24 y cant mewn meysydd fel ysgolion ac addysg. Ydych chi’n barod i wneud hynny?

Dyweddodd:

Tua 20 y cant fyddai. Wrth gwrs, oherwydd dyna yw ein blaenoriaeth.

Mae wedi dweud ar goedd y byddai’n cefnogi gostyngiad o 20 y cant mewn ysgolion ac addysg. Mae bellach yn ceisio camarwain y Cynulliad o ran yr hyn fu ei safbwynt. [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Credaf mai’r sefyllfa, cyn belled ag mae trefn yn y Cynulliad yn y cwestiwn, yw nad yw rhywun yn gallu camarwain y Cynulliad drwy ddatganiad a wnaed y tu allan i’r Cynulliad. Caiff datganiadau sy’n camarwain y Cynulliad, yn ein Rheolau Sefydlog, eu diffinio fel datganiadau sy’n cael eu gwneud yn Siambr y Cynulliad. O ran yr hyn a ddywedais yn gynharach, nid wyf yn gallu dyfarnu—ac ni ddylwn geisio dyfarnu—ar faterion yn ymwneud â hyn a ddywedir ar y teledu. Yn amlwg, wrth i ni ddechrau ar gyfnod yn nesáu at ein diddymu, rydym yn siŵr o gael dadlau gwleidyddol cadarn. Yn amlwg, fel rhywun a wnaeth hyn yn y gorffennol pell iawn, byddwn yn ei annog. Fodd bynnag, mae yna, wrth gwrs, gwrteisi o ran disgwrs yma a budd i ni fel unigolion ac Aelodau i ddweud y gwir wrth ein gilydd ac, yn

importantly perhaps, to the electorate of Wales. I will rest my case with that summation. I hope that I do not have to return to this issue too often between now and our first and most wonderful dissolution, when it comes.

bwysicach efallai, wrth etholwyr Cymru. Cyflwynaf fy achos gyda hynny o grynodedb. Gobeithio na fydd yn rhaid i mi ddychwelyd at y mater hwn yn rhy aml rhwng nawr a'n diddymiad cyntaf a rhyfeddol, pan ddaw.

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i Hygyrchedd Gorsafoedd Rheilffordd yng Nghymru
The Equality of Opportunity Committee's Inquiry into the Accessibility of Railway Stations in Wales

Cynnig NDM4639 Ann Jones

Motion NDM4639 Ann Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar ei ymchwiliad i hygyrchedd gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Hydref 2010.

Notes the report of the Equality of Opportunity Committee on its Inquiry into the Accessibility of Railway Stations in Wales which was laid in the Table Office on 27 October 2010.

Ann Jones: I move the motion.

Ann Jones: Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to be able to present this report by the Committee on Equality of Opportunity to this afternoon's Plenary debate. I thank all committee members, both past and present, and the committee clerks for producing the report.

Rwyf yn falch o allu cyflwyno'r adroddiad hwn gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i ddadl y Cyfarfod Llawn y prynhawn yma. Diolch i holl aelodau'r pwyllgor, yn y gorffennol a'r presennol, a chlercod y pwyllgor am lunio'r adroddiad.

As a regular rail user, I am aware of the difficulties experienced by many passengers—not only those with a disability, but also parents with young children, people with limited mobility or just those struggling with heavy luggage. Currently, more than half of Wales's railway stations are not fully accessible to disabled people, a figure that we as a committee find totally unacceptable, and I hope that the Assembly in general will share this view.

Fel defnyddiwr rheolaidd o'r rheilffordd, rwyf yn ymwybodol o'r anawsterau a brofir gan lawer o deithwyr—nid yn unig y rhai sydd ag anabledd, ond hefyd rhieni â phlant ifanc, pobl â symudedd cyfyngedig neu'r rhai sydd ond yn cael anhawster â bagiau trwm. Ar hyn o bryd, nid yw rhagor na hanner gorsafoedd rheilffordd Cymru yn gwbl hygyrch i bobl anabl, ffigur cwbl annerbyniol yn nhyb y pwyllgor, a gobeithio y bydd y Cynulliad yn gyffredinol yn rhannu'r farn hon.

The committee recognises that one of the biggest problems that we face in Wales is that much of the network dates back to the Victorian era and was not designed with older or disabled people in mind. A further complication is that significant aspects of railway policy are non-devolved. Primary responsibility lies with the Department for Transport, but day-to-day work is delivered either through Network Rail or the companies that run stations on its behalf, in this case

Mae'r pwyllgor yn cydnabod mai un o'r problemau mwyaf sy'n ein hwynebu yng Nghymru yw bod llawer o'r rhwydwaith yn dyddio'n ôl i oes Fictoria ac ni chafodd ei gynllunio gyda phobl hŷn neu bobl anabl mewn golwg. Cymhlethdod arall yw bod nifer o agweddau ar bolisi rheilffordd heb eu datganoli. Mae'r cyfrifoldeb pennaf yn gorwedd gyda'r Adran Drafnidiaeth, ond mae'r gwaith o ddydd i ddydd yn cael ei wneud naill ai drwy Network Rail neu'r

Arriva Trains Wales. However, under the Railways Act 2005, Welsh Ministers are joint signatories, with the Secretary of State, for the Wales and borders franchise. They also have certain other powers, such as providing financial assistance for improvement initiatives. We call on the Welsh Government to use these powers to improve the accessibility of our railway stations.

3.50 p.m.

We undertook an extensive public consultation, and I thank everyone who took the time to give us their views, either in writing or in person. Without their views, this report would probably never have got to this stage. We heard evidence from a wide range of organisations, including disabled people's representative groups, passenger groups, rail industry representatives and the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport, who came to the committee twice. We recognise that fully upgrading all stations would be prohibitively expensive during the current financial climate, and it was with that in mind that we sought to find relatively low-cost solutions that we hope will improve the experiences of all rail users in Wales.

At this point, I thank the Deputy First Minister for his very positive response to this report, because I know that he shares our concerns about the current levels of accessibility. I am pleased that he was able to accept fully or in principle all of the recommendations in this report. We made several recommendations in relation to the Wales and borders franchise, and, as I said, I am pleased that the Deputy First Minister has accepted them. We welcome in particular his commitment to incorporating station accessibility issues in the specification for the next franchise round. This will ensure that this important aspect of rail travel is at the forefront when services are being planned.

All train operating companies in Wales

cwmnïau sy'n rhedeg gorsafoedd ar ei ran, sef Trenau Arriva Cymru yn yr achos hwn. Fodd bynnag, o dan Ddeddf Rheilffyrdd 2005, mae Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyd-lofnodwyr ar gyfer masnachfrait Cymru a'r gororau. Mae ganddynt hefyd bwerau penodol eraill, fel darparu cymorth ariannol i gynlluniau gwella. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r pwerau hyn i wella hygyrchedd ein gorsafoedd rheilffordd.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus helaeth, a hoffwn ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i roi eu barn i ni, naill ai'n ysgrifenedig neu'n bersonol. Heb eu safbwyntiau hwy, mae'n debyg na fyddai'r adroddiad hwn wedi cyrraedd y cam hwn. Clywsom dystiolaeth gan ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl, grwpiau teithwyr, cynrychiolwyr y diwydiant rheilffyrdd a'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, a ddaeth i'r pwyllgor ddwywaith. Rydym yn cydnabod y byddai uwchraddio pob gorsaf yn llawn yn rhy ddrud yn yr hinsawdd ariannol bresennol, a chyda hynny mewn golwg rydym wedi ceisio dod o hyd i atebion â chost cymharol isel y gobeithiwn fydd yn gwella profiadau holl ddefnyddwyr y rheilffyrdd yng Nghymru.

Ar y pwynt hwn, hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Brif Weinidog am ei ymateb cadarnhaol iawn i'r adroddiad hwn, oherwydd gwn ei fod yn rhannu ein pryderon am y lefelau hygyrchedd presennol. Rwyf yn falch ei fod wedi gallu derbyn holl argymhellion yr adroddiad hwn yn llawn neu mewn egwyddor. Gwnaethom nifer o argymhellion mewn perthynas â masnachfrait Cymru a'r gororau, ac, fel y dywedais, rwyf yn falch bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi eu derbyn. Rydym yn croesawu yn arbennig ei ymrwymiad i ymgorffori problemau o ran hygyrchedd gorsafoedd yn y fanyleb ar gyfer y rownd masnachfrait nesaf. Bydd hyn yn sicrhau bod yr agwedd bwysig hon ar deithio ar y rheilffyrdd ar yr agenda pan fydd gwasanaethau yn cael eu cynllunio.

Mae pob cwmni trenau yng Nghymru yn

participate in the assisted passenger reservation service, which enables passengers to book assistance at stations and to check the accessibility of stations before they travel. Users of the service told us about problems with communication between the phone line and the railway station and complications that they had experienced when travelling between franchise areas. People also told us that the availability of the service was not well publicised, particularly on mainstream websites such as the national rail enquiries site. The committee feels that APRS is essentially a good service that enables disabled passengers to physically access the network and travel from their stations of choice to their destinations of choice. We were concerned to hear about the problems that some passengers had experienced, but we were reassured that Arriva Trains Wales is putting measures in place to try to improve the service. However, we felt that the profile of APRS needed to be raised, and we have therefore recommended that greater emphasis be placed on publicising its existence and on providing greater clarity on what the service offers.

We heard differing opinions about station staff. Although a common complaint was that there were just never enough of them or that they were never in the right place at the right time, experience of staff attitudes was varied. Representatives of Disability Wales told us that they felt that the onus was on the disabled person to try to find a member of staff to help them, rather than someone coming forward willingly to see whether assistance was needed. Often, they felt that they were seen as a nuisance. However, a representative of the MS Society told us that he had always found most station staff to be quite helpful and very kind. The committee accepted the view that bad members of staff were few in number and that the majority were always very helpful. We felt that there was perhaps an issue regarding disability awareness training, which would give staff the confidence to provide assistance to disabled passengers, without the fear of doing or saying something wrong. We therefore welcome the Deputy First Minister's acceptance of our recommendation to include a formal measure of disabled passenger satisfaction with station staff in the next

cymryd rhan yn y gwasanaeth archebu cymorth i deithwyr, sy'n galluogi teithwyr i archebu cymorth mewn gorsafoedd ac i wirio pa mor hygyrch yw gorsafoedd cyn iddynt deithio. Soniodd defnyddwyr y gwasanaeth wrthym am broblemau gyda chyfathrebu rhwng y llinell ffôn a'r orsaf rheilffordd a chymhlethdodau a gawsant wrth deithio rhwng ardaloedd masnachfrait. Dywedodd pobl wrthym hefyd nad oes llawer o gyhoeddusrwydd am y gwasanaeth, yn enwedig ar wefannau prif ffrwd megis y safle ymholiadau rheilffyrdd cenedlaethol. Mae'r pwyllgor yn teimlo bod y gwasanaeth archebu cymorth yn ei hanfod yn wasanaeth da sy'n galluogi teithwyr anabl i gael mynediad corfforol at y rhwydwaith a theithio i'w cyrchfan o'u dewis. Roeddem yn pryderu o glywed am y problemau a gafodd rhai teithwyr, ond cawsom ein sicrhau bod Trenau Arriva Cymru yn rhoi mesurau ar waith i geisio gwella'r gwasanaeth. Fodd bynnag, rydym yn teimlo bod angen codi ymwybyddiaeth ohono, ac rydym felly wedi argymhell y dylid rhoi mwy o bwyslais ar roi cyhoeddusrwydd i'w fodolaeth ac ar egluro mwy am yr hyn y mae'n ei gynnig.

Clywsom farn wahanol am staff gorsafoedd. Er mai cwyn gyffredin oedd nad oedd byth ddigon ohonynt neu nad oeddent byth yn y lle iawn ar yr adeg iawn, roedd profiad pobl o agweddau staff yn amrywio. Dywedodd cynrychiolwyr Anabledd Cymru wrthym eu bod yn teimlo mai ar y person anabl oedd y pwysau i geisio dod o hyd i aelod o staff i'w helpu, yn hytrach na bod staff yn dod atynt o'u gwirfodd i weld a oedd angen cymorth arnynt. Yn aml, roeddynt yn teimlo eu bod yn cael eu gweld fel niwsans. Fodd bynnag, dywedodd cynrychiolydd o'r Gymdeithas MS wrthym ei fod wedi canfod bob amser fod y rhan fwyaf o staff gorsafoedd yn eithaf defnyddiol a charedig iawn. Derbyniodd y pwyllgor y farn mai prin oedd aelodau staff gwael a bod y mwyafrif bob amser o gymorth mawr. Rydym yn teimlo bod problem efallai o ran hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd, a fyddai'n rhoi hyder i'r staff roi cymorth i deithwyr anabl, heb ofni gwneud neu ddweud rhywbeth o'i le. Rydym felly yn croesawu'r ffaith fod y Dirprwy Brif Weinidog wedi derbyn ein hargymhelliad i gynnwys mesur ffurfiol o ba mor foddhaol yw staff gorsafoedd ym marn teithwyr anabl

franchise round, as this will be a mechanism for identifying where problems exist.

The committee was concerned to hear that a lack of publicity was affecting the take-up of the disabled persons railcard, which, for £18 a year, entitles the holder and a companion to a third off most rail fares throughout Great Britain. As one witness told us, one reason why most disabled people do not have a disabled person's railcard is that they do not know anything about it. We have therefore recommended that the Welsh Assembly Government encourages local authorities and other public bodies in Wales to work with the rail industry to improve the take-up of the disabled persons railcard, and we are pleased to see that the Deputy First Minister has accepted this recommendation.

On a positive note, we heard about a number of developments aimed at improving accessibility for disabled people. We heard praise for Stations Made Easy, a recent addition to the Network Rail website, which allows passengers to map out their journeys online. It provides pictorial information of a particular area or station and enables you to navigate your way around it. However, again, this was let down by a lack of publicity. The committee was also interested to hear about the development of the platform hump, which reduces a large step up or down between the platform and the train. As people know, this was trialled in Aberdyfi, where it was extremely popular with all rail users and not just those with a disability or mobility problem. We welcome the Deputy First Minister's commitment to rolling out the scheme across Wales.

During the course of our inquiry, we heard from disabled passengers' representative groups that, although improvements were being made, there are still significant barriers preventing disabled people from fully accessing railway stations. For many, it would be the memory of a bad experience that put them off travelling by train, while, for others, it was the fear of what could happen if something went wrong, like getting

yn y rownd fasnachfaint nesaf, gan y bydd hon yn ffordd o nodi lle mae problemau yn bodoli.

Roedd y pwyllgor yn bryderus o glywed bod diffyg cyhoeddusrwydd yn effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar y cerdyn rheilffordd i bobl anabl, sydd, am £18 y flwyddyn, yn rhoi hawl i'r deiliad a chydymaith gael traean oddi ar y rhan fwyaf o docynnau trênedd Prydain Fawr. Fel y dywedodd un tyst wrthym, un rheswm pam nad oes gan y rhan fwyaf o bobl anabl gerdyn rheilffordd person anabl yw am nad ydynt yn gwybod dim amdano. Rydym felly wedi argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i weithio gyda'r diwydiant rheilffyrdd i wella'r nifer sy'n manteisio ar y cerdyn rheilffordd pobl anabl, ac rydym yn falch o weld bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwn.

Ar nodyn cadarnhaol, clywsom am nifer o ddatblygiadau wedi'u hanelu at wella hygyrchedd i bobl anabl. Clywsom ganmoliaeth i Stations Made Easy, ychwanegiad diweddar i wefan Network Rail, sy'n caniatáu i deithwyr fapio eu teithiau ar-lein. Mae'n rhoi gwybodaeth ddarluniadol o ardal neu orsaf benodol ac yn eich galluogi i lywio eich ffordd o'i chwmpas. Fodd bynnag, unwaith eto, roedd diffyg cyhoeddusrwydd yn llesteirio hyn. Roedd gan y pwyllgor hefyd ddiddordeb clywed am ddatblygiad twmpathau plattform, sy'n lleihau'r bwlch rhwng y plattform a'r trênedd. Fel y gwyddoch, mae hyn yn cael ei dreialu yn Aberdyfi, lle'r oedd yn hynod o boblogaidd gyda holl ddefnyddwyr y rheilffyrdd ac nid dim ond y rhai ag anabledd neu broblem symudedd. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Brif Weinidog i gyflwyno'r cynllun ledled Cymru.

Yn ystod ein hymchwiliad, dywedodd grwpiau sy'n cynrychioli teithwyr anabl wrthym, er bod gwelliannau yn cael eu gwneud, mae rhwystrau sylweddol o hyd sy'n atal pobl anabl rhag cael mynediad llawn at orsafoedd rheilffordd. I lawer, byddent yn cofio am brofiad gwael sydd wedi newid eu meddwl ynghylch teithio ar y trênedd, tra, i eraill, roedd ganddynt ofn ynghylch beth allai ddigwydd pe bai rhywbeth yn

stranded at a station or even a lift breaking down. We hope that improving the accuracy and availability of the information about the service and support available for disabled travellers will help allay some of those fears.

We believe that improved accessibility measures will benefit all passengers, not just those with a disability or mobility problem. There appears to be consensus among stakeholders about the desirability of further improving general levels of accessibility, and we hope that the recommendation that we have made will help them all to achieve this aim.

I am happy to present this report of the Committee on Equality of Opportunity to the Assembly today.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Hoffwn ddiolch, yn y lle cyntaf, i aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal am eu hymchwiliad i hygyrchedd gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru. Croesawaf yr adroddiad, sydd yn gymorth mawr inni ddeall yr her sydd yn ein hwynebu wrth inni geisio hyrwyddo hygyrchedd. O'r cychwyn cyntaf, hoffwn bwysleisio'r ffaith bod lefel hygyrchedd ein gorsafoedd ar hyn o bryd yn annerbyniol. Dim ond hanner ein gorsafoedd sydd yn gwbl hygyrch. Yn fy marn i, mae hynny'n groes i'r ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i sicrhau cymdeithas deg a chyfiawn. Mae'n wir nad yw'r cyfrifoldeb statudol dros hygyrchedd rheilffyrdd wedi'i ddatganoli. Mae'r cyfrifoldeb a'r cyllid yn dal yn nwylo'r Adran Drafnidiaeth yn Whitehall. Lle bynnag y gallwn wneud hynny, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i fuddsoddi adnoddau er mwyn gwella hygyrchedd gorsafoedd, hyd yn oed yn y cyfnod anodd hwn o wasgu ar gyllidebau a thorri gwariant.

Mae hyn yn flaenoriaeth allweddol inni. Yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, y gwaith hwn yw'r brif flaenoriaeth o ran gwelliannau i'r rheilffyrdd. Yn wir, cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wrth inni ddatblygu'r cynllun, ac mae'r asesiad hwnnw yn cael ei adolygu er mwyn gweld a allwn wella eto ar hygyrchedd.

mynd o'i le, fel cael eu gadael ar eu pen eu hunain mewn gorsaf neu hyd yn oed lifft yn torri. Rydym yn gobeithio y bydd gwella cywirdeb ac argaeledd y wybodaeth am y gwasanaeth a'r cymorth sydd ar gael i deithwyr anabl yn helpu i leddfu rhai o'r pryderon hynny.

Credwn y bydd gwell mesurau hygyrchedd o fudd i'r holl deithwyr, nid dim ond y rhai sydd ag anabledd neu broblem symudedd. Mae'n ymddangos bod consensws ymhlith rhanddeiliaid ynghylch yr awydd i wella lefelau hygyrchedd cyffredinol, ac rydym yn gobeithio y bydd yr argymhelliad yr ydym wedi'i wneud yn eu helpu i gyd i gyflawni'r nod hwn.

Rwyf yn falch o gyflwyno adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal hwn i'r Cynulliad heddiw.

The Deputy First Minister: I would first like to thank members of the Committee on Equality of Opportunity for their investigation into the accessibility of railway stations in Wales. I welcome the report, which greatly increases our understanding of the challenges that we face in promoting accessibility. At the outset, let me reiterate that the current level of station accessibility is unacceptable. Only half of our stations are fully accessible. I regard that as contrary to our 'One Wales' aspiration to ensure a fair and just society. It is true that statutory responsibility for railway accessibility is non-devolved, with responsibility and funding retained by the Department for Transport in Westminster. Wherever we are able, the Assembly Government will continue to invest resources to improve station accessibility, even in these times of tight budgets and spending cuts.

We treat this as a key priority. It is identified under our national transport plan as the highest priority for rail improvements. Indeed, an equality impact assessment was undertaken as part of developing the plan, and this assessment is being reviewed to see whether we can further enhance accessibility.

Yr ydym eisoes yn cymryd camau; er enghraifft, drwy'r rhaglen genedlaethol gwella gorsafoedd, gwerth £40 miliwn, gyda chymorth y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

As we have heard from the Chair of the committee, we have promoted a series of easier access installations, or humps, as they are popularly known, on small stations across rural Wales in the convergence region, with Aberdyfi being the first of those. Others have followed, and more will follow in due course. This helps people with disabilities to get around and make use of rail services. As Ann has acknowledged, this also helps people with no disability, because of the step that we sometimes see between the platform and the train. This programme should be completed by the end of 2011; but there is much still to be done, as the committee points out in its report.

As detailed in my written response, I am pleased to say that we accept nine of the 10 recommendations in full. We also accept recommendation 4 in principle, although this is primarily a matter for train operating companies. For example, in line with the first recommendation, we are making standards of station accessibility a requirement for the next round of the Wales and borders franchise. We will also seek to influence the UK Government to prioritise accessibility improvements when setting Network Rail's outputs and funding for control period five, which will run from 2014 to 2018. I strongly agree that we should also do all that we can to ensure greater integration between the rail network and other modes of transport. By having that integration, it will be easier for people to move from one mode to another. If people have the confidence to do so, we can make public transport in Wales much more attractive for everyone, particularly disabled people.

My written response sets out how we propose to implement the committee's recommendations as part of improving transport links in every part of Wales. I now look forward to hearing Assembly Members' views, and, subject to your agreement, Presiding Officer, I hope to have an

We have already taken action; for example, through the £40 million Wales station improvement programme, with European structural funds support.

Fel y clywsom gan Gadeirydd y pwyllgor, rydym wedi hyrwyddo cyfres o osodiadau neu dwmpathau, sy'n gwneud mynediad yn haws, mewn gorsafoedd bach ledled cefn gwlad Cymru yn y rhanbarth cydgyfeirio, ac Aberdyfi yw'r cyntaf o'r rheini. Mae eraill wedi dilyn, a bydd mwy yn dilyn maes o law. Mae hyn yn helpu pobl ag anableddau i symud o gwmpas a defnyddio gwasanaethau rheilffyrdd. Fel mae Ann wedi cydnabod, mae hyn hefyd yn helpu pobl heb anabledd, oherwydd y bwlch weithiau rhwng y plattform a'r trenau. Dylai'r rhaglen hon gael ei chwblhau erbyn diwedd 2011; ond mae llawer i'w wneud o hyd, fel mae'r pwyllgor yn nodi yn ei adroddiad.

Fel y dywedais yn fy ymateb ysgrifenedig, rwyf yn falch o ddweud ein bod yn derbyn naw o'r 10 o argymhellion yn llawn. Rydym hefyd yn derbyn argymhelliad 4 mewn egwyddor, er bod hwn yn bennaf yn fater i gwmnïau gweithredu trenau. Er enghraifft, yn unol â'r argymhelliad cyntaf, rydym yn gwneud safonau hygrychedd gorsafoedd yn ofyniad ar gyfer rownd nesaf masnachfrait Cymru a'r gororau. Byddwn hefyd yn ceisio dylanwadu ar Lywodraeth y DU i flaenoriaethu gwelliannau hygrychedd wrth bennu allbynnau a chyllid Network Rail ar gyfer cyfnod rheoli pump, a fydd yn rhedeg rhwng 2014 a 2018. Rwyf yn cytuno'n llwyr y dylem hefyd wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau mwy o integreiddio rhwng y rhwydwaith rheilffyrdd a dulliau eraill o drafnidiaeth. Drwy gael yr integreiddio hwnnw, bydd yn haws i bobl symud o un modd i'r llall. Os bydd gan bobl yr hyder i wneud hynny, gallwn wneud trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn llawer mwy deniadol i bawb, yn enwedig pobl anabl.

Mae fy ymateb ysgrifenedig yn nodi sut y bwriadwn weithredu argymhellion y pwyllgor fel rhan o wella cysylltiadau trafnidiaeth ym mhob rhan o Gymru. Rwyf bellach yn edrych ymlaen at glywed barn Aelodau'r Cynulliad, ac, os byddwch yn cytuno, Lywydd, rwyf yn gobeithio cael cyfle

opportunity to respond to some of those points before the end of the debate.

4.00 p.m.

Mohammad Asghar: I am grateful for the opportunity to contribute to this debate and would like to start by thanking all committee members, particularly the Chair, Ann, committee staff and those from the research service who helped to make the publication of this report possible. With around half of Wales's railway stations considered inaccessible to disabled people, this is a hugely important inquiry, and I hope that the recommendations that we have put forward will help to improve the situation in Wales. I welcome the Minister's response to this report, and I am pleased that he has accepted all recommendations but one, or accepted in principle those which apply mainly to the train operating companies.

We heard during evidence taking some troubling, hard-hitting figures about facilities for disabled people and the accessibility of the railways, such as the fact that 89 per cent of stations in Wales lack wheelchair accessible toilets, that 34 per cent have no access to platforms for wheelchair users, and that even at some of our largest stations, disabled car parking spaces are at a premium. I am pleased that the Minister has confirmed to Members that station accessibility issues will be added to the relevant specifications for the next round of the Wales and borders franchise. This means that the successful bidder will be compelled to improve the accessibility offered at railway stations in Wales.

In light of our recommendations, we are told that the new franchise must also monitor disabled passenger satisfaction. This will help to ensure local accountability and mean that the voices of more disabled passengers will be heard.

The issue of improving integration between the rail network and other modes of transport is also hugely important. I acknowledge that the transport plan calls for better integration between local bus services and railway

i ymateb i rai o'r pwyntiau hynny cyn diwedd y ddadl.

Mohammad Asghar: Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu i'r ddadl hon a hoffwn ddechrau drwy ddiolch i holl aelodau'r pwyllgor, yn enwedig y Cadeirydd, Ann, staff y pwyllgor a'r aelodau o'r gwasanaeth ymchwil a wnaeth y gwaith o gyhoeddi'r adroddiad hwn yn bosibl. Gan fod tua hanner o orsafoedd rheilffordd Cymru yn cael eu hystyried yn anhygyrch i bobl anabl, mae hwn yn ymchwiliad hynod o bwysig, a gobeithio y bydd yr argymhellion yr ydym wedi eu cynnig yn helpu i wella'r sefyllfa yng Nghymru. Rwyf yn croesawu ymateb y Gweinidog i'r adroddiad hwn, ac rwyf yn falch ei fod wedi derbyn yr holl argymhellion ond un, neu dderbyn mewn egwyddor y rhai sy'n berthnasol gan fwyaf i'r cwmnïau trenau.

Yn y dystiolaeth a gawsom, clywsom ffigurau gofidus am gyfleusterau i bobl anabl a hygyrchedd y rheilffyrdd, megis y ffaith nad oes gan 89 y cant o orsafoedd yng Nghymru doiledau hygyrch i gadeiriau olwyn, nad oes gan 34 y cant fynediad at blatfformau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, a bod manau parcio i'r anabl yn brin hyd yn oed mewn rhai o'n gorsafoedd mwyaf. Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi cadarnhau i'r Aelodau y bydd materion am hygyrchedd gorsafoedd yn cael eu hychwanegu at y manylebau perthnasol ar gyfer rownd nesaf masnachfaint Cymru a'r gororau. Mae hyn yn golygu y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei orfodi i wella'r hygyrchedd a gynigir mewn gorsafoedd rheilffyrdd yng Nghymru.

Yng ngoleuni ein hargymhellion, dywedir wrthym fod yn rhaid i'r fasnachfaint newydd hefyd fonitro boddhad teithwyr anabl. Bydd hyn yn helpu i sicrhau atebolrwydd lleol ac mae'n golygu y bydd llais mwy o deithwyr anabl yn cael ei glywed.

Mae'r gwaith o wella'r integreiddio rhwng y rhwydwaith rheilffyrdd a dulliau cludiant eraill hefyd yn hynod o bwysig. Rwyf yn cydnabod bod y cynllun trafniadaeth yn galw am well integreiddio rhwng gwasanaethau

stations, and this agenda must be carried forward and led effectively by the Assembly Government. Poor integration is a common concern that I hear from constituents. Improving this aspect has the potential to dramatically improve the independence of many disabled people, and will have a positive knock-on effect for all users of public transport.

Even some of our flagship railway stations face significant challenges. I welcome yesterday's official opening of Newport station by the Deputy First Minister and acknowledge the benefits that the modernised station can bring to the city. However, constituents have raised with me issues such as the station's waiting rooms being too far from the trains, and I understand that, even this morning, there were problems with the lifts. This shows that even in developed and modern stations, work remains to be done and needs to be monitored.

Finally, I wanted to touch on the issue of promotion. I am pleased that the Minister has accepted recommendation 6. I hope additional information can be provided on how he will ensure that local authorities and public bodies are proactive in encouraging increased take-up of the disabled person's railcard. The card provides and promotes disability-related benefits to customers. Cardholders also receive savings on their travel, so it was worrying to hear evidence to suggest that many disabled passengers were unaware of its existence or its availability. This correlates with our seventh recommendation, which highlights a lack of information in relation to accessibility issues. While the Assembly Government does not have direct responsibility over this aspect, it has a role to play in liaising with operators to push this forward. Clearly, big improvements are needed in Wales, but I welcome the rhetoric of the Deputy First Minister and the fact that there have been some recent improvements, and I hope that we continue in this direction to help disabled communities in Wales to have the same accessibility as able-bodied people.

Jeff Cuthbert: I am glad to contribute to this important debate. I declare that I am not a

bysiau lleol a gorsafoedd rheilffordd, ac mae'n rhaid i'r agenda hon gael ei datblygu a'i harwain yn effeithiol gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae integreiddio gwael yn bryder cyffredin a glywaf gan etholwyr. Mae gan y gwaith o wella'r agwedd hon y potensial i wella annibyniaeth llawer o bobl anabl, a bydd yn cael sgil-effaith gadarnhaol ar gyfer holl ddefnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus.

Mae hyd yn oed rhai o'n gorsafoedd rheilffordd mwyaf blaenllaw yn wynebu heriau sylweddol. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi agor gorsaf Casnewydd ddoe yn swyddogol ac yn cydnabod y manteision y gall moderneiddio'r orsaf ddod i'r ddinas. Fodd bynnag, mae etholwyr wedi codi problemau gyda mi megis y ffaith bod ystafelloedd aros yr orsaf yn rhy bell o'r trenau, ac rwyf yn deall bod problemau gyda'r liffitiau hyd yn oed y bore yma. Mae hyn yn dangos bod gwaith i'w wneud o hyd sydd angen ei fonitro, hyd yn oed mewn gorsafoedd datblygedig a modern.

Yn olaf, roeddwn am sôn am hyrwyddo. Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn argymhelliad 6. Gobeithio y gellir darparu mwy o wybodaeth ar sut y bydd yn sicrhau bod awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus yn mynd ati'n rhagweithiol i annog mwy i fanteisio ar y cerdyn rheilffordd person anabl. Mae'r cerdyn yn darparu ac yn hyrwyddo buddion sy'n gysylltiedig ag anabledd i gwsmeriaid. Bydd deiliaid y cardiau hefyd yn arbed ar eu costau teithio, felly roedd yn bryderus clywed tystiolaeth yn awgrymu nad oedd llawer o deithwyr anabl yn ymwybodol o'i fodolaeth. Mae hyn yn cyfateb i'n seithfed argymhelliad, sy'n tynnu sylw at ddiffyg gwybodaeth am faterion hygyrchedd. Er nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb uniongyrchol dros yr agwedd hon, mae ganddi rôl i'w chwarae o ran trafod â gweithredwyr i symud hyn ymlaen. Yn amlwg, mae angen gwelliannau mawr yng Nghymru, ond rwyf yn croesawu rhethreg y Dirprwy Brif Weinidog a'r ffaith y cafwyd rhai gwelliannau yn ddiweddar, a gobeithio y byddwn yn parhau yn y cyfeiriad hwn i helpu cymunedau anabl yng Nghymru gael yr un mynediad â phobl abl.

Jeff Cuthbert: Rwyf yn falch o gyfrannu i'r ddadl bwysig hon. Rwyf yn datgan nad wyf

member of the Committee on Equality of Opportunity, thus I had no hand in producing this report. Nonetheless, I wish to pay tribute to Ann Jones, as committee Chair, to the other committee members and to the clerks for producing this important piece of work, which will ensure that disabled access of railway stations remains a high priority on the policy agenda in Wales.

During my time as an Assembly Member, I have been contacted on a number of occasions by constituents concerning disabled access at stations along the Rhymney valley line in my constituency. It is on those matters that I want to concentrate this afternoon. Many constituents have contacted me regarding problems with disabled access at Ystrad Mynach railway station, which I have raised before in the Chamber. For example, if you are wheelchair bound, it is nigh on impossible to access the Cardiff-bound platform unless you are assisted across a relatively high and narrow footbridge, which would require a minimum of two people to be with you. You can avoid that by taking a huge detour to the nearby Cedar Way housing estate, which will take about 20 minutes after leaving the main station park-and-ride facility that lies adjacent to the Rhymney-bound platform and just off the main A472 road through the town. Clearly, that is not acceptable and, surely, some sort of arrangement can be made whereby disabled people are more easily able to reach the southbound platform. I urge the Welsh Assembly Government to work closely with Network Rail and the local authority in this regard.

There have also been long-standing issues with regard to disabled access at Caerphilly rail station, further down the valley, where, to access the northbound platform, rail users who are wheelchair bound need to take another long detour from the town's bus station across the busy A469 mountain road and down a slope. While I am pleased that Network Rail has committed to lengthening the platforms at Caerphilly rail station, in anticipation of Arriva providing more rolling stock on the line, I again urge that the Welsh Assembly Government works with Network Rail to ensure that future platform lengthening takes account of the poor

yn aelod o'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, felly nid oeddwn yn rhan o lunio'r adroddiad hwn. Er hynny, hoffwn dalu teyrnged i Ann Jones, fel Cadeirydd y pwyllgor, i aelodau eraill y pwyllgor ac i'r clerod am gynhyrchu'r darn pwysig hwn o waith, a fydd yn sicrhau bod mynediad i'r anabl i orsafoedd rheilffordd yn parhau yn flaenoriaeth uchel ar yr agenda bolisi yng Nghymru.

Yn ystod fy nghyfnod fel Aelod Cynulliad, cysylltwyd â mi sawl gwaith gan etholwyr ynghylch mynediad i bobl anabl mewn gorsafodd ar hyd llinell cwm Rhymni yn fy etholaeth i. Ar y materion hynny rwyf am ganolbwyntio'r prynhawn yma. Cysylltodd nifer o etholwyr â mi ynglŷn â phroblemau gyda mynediad i'r anabl yng ngorsaf reilffordd Ystrad Mynach, sy'n fater rwyf wedi'i godi o'r blaen yn y Siambr. Er enghraifft, os ydych yn gaeth i gadair olwyn, mae bron yn amhosibl cael mynediad at y plattform am y trê'n i Gaerdydd oni bai eich bod yn cael cymorth i groesi pont droed cymharol uchel a chul, a fyddai angen o leiaf dau o bobl i fod gyda chi. Gallwch osgoi hynny drwy ddargyfeirio i ystâd dai gyfagos Cedar Way, a fydd yn cymryd tua 20 munud ar ôl gadael y brif orsaf parcio a theithio wrth ymyl y plattform i gyfeiriad Rhymni ac ychydig oddi ar y brif ffordd A472 drwy'r dref. Yn amlwg, nid yw hynny'n dderbyniol ac, yn sicr, gellir gwneud rhyw fath o drefniant lle mae pobl anabl yn gallu cyrraedd y plattform tua'r de yn haws. Rwyf yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio'n agos â Network Rail a'r awdurdod lleol yn hyn o beth.

Bu hefyd broblemau ers tro yn ymwneud â mynediad i bobl anabl yng ngorsaf reilffordd Caerffili, ymhellach i lawr y cwm, lle mae'n rhaid i ddefnyddwyr rheilffyrdd sy'n gaeth i gadair olwyn sydd am gael mynediad at y plattform tua'r gogledd gael eu dargyfeirio ar hyd ffordd hir o orsaf fysiau'r dref, dros ffordd fynydd brysur yr A469 ac i lawr llethr. Er fy mod yn falch bod Network Rail wedi ymrwmo i ymestyn y plattformau yng ngorsaf reilffordd Caerffili, gan ragweld y bydd Arriva yn darparu mwy o gerbydau ar y llinell, rwyf eto yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda Network Rail i sicrhau bod ymestyn y plattform yn y

disabled access that currently exists at the station and that better facilities are provided.

Finally, I urge that, when the proposed new station is built at Energlyn, the needs of disabled passengers are fully accounted for when the platforms are designed. It is incumbent not only on Network Rail, but also on Arriva to procure its carriages in accordance with the needs of disabled passengers, so that rail users who are not able-bodied can board and alight from their train safely and with dignity. As a Member who represents a constituency that is home to many rail commuters, I will keep a close eye on future developments and hold both the Welsh Assembly Government and Network Rail to account on progress made.

Veronica German: Thank you for the opportunity to speak about this important matter. Although I was not a member of this committee when the inquiry was carried out, I have read with care the report and the experiences of many disabled people. There is no doubt that we should thank all the witnesses who came to the inquiry who, with their quotes and stories, have brought the realities of the situation to life. As everyone else has said before me, it is clearly unacceptable that about half of our train stations are not fully accessible. We cannot imagine, as able-bodied people, having those choices taken away from you before you even start on what may be a difficult journey. It is not easy to travel on any mode of public transport with a disability, as we are learning with our present inquiry. To find an impossible situation and be turned away must be incredibly disheartening.

I am pleased that you have accepted the recommendations of this report, Deputy First Minister. However, I would be interested to hear a little more about the timescale for certain recommendations. You have already mentioned the next round and said that it will be 2014 before you can make it a fundamental part of the next franchise. However, some aspects of this report could be implemented quite easily and relatively quickly. I would be interested to hear which

dyfodol yn ystyried y mynediad gwael i'r anabl sydd eisoes yn bodoli yn yr orsaf, a bod cyfleusterau gwell yn cael eu darparu.

Yn olaf, pan fydd yr orsaf newydd arfaethedig yn cael ei hadeiladu yn Energlyn, rwyf yn annog bod anghenion teithwyr anabl yn cael eu hystyried yn llawn pan gaiff y platfformau eu cynllunio. Mae'n ddyletswydd nid yn unig ar Network Rail, ond hefyd ar Arriva i gaffael ei gerbydau yn unol ag anghenion teithwyr anabl, fel bod defnyddwyr rheilffyrdd nad ydynt yn abl yn gallu esgyn a disgyn o'r trêrn yn ddiogel a chydag urddas. Fel Aelod sy'n cynrychioli etholaeth sy'n gartref i lawer o gymudwyr rheilffordd, byddaf yn cadw golwg fanwl ar ddatblygiadau yn y dyfodol ac yn dal Llywodraeth Cynulliad Cymru a Network Rail i gyfrif am y cynnydd a wneir.

Veronica German: Diolch am y cyfle i siarad am y mater pwysig hwn. Er nad oeddwn yn aelod o'r pwyllgor hwn pan gynhaliwyd yr ymchwiliad, rwyf wedi darllen yr adroddiad a phrofiadau llawer o bobl anabl yn ofalus. Nid oes amheuaeth y dylem ddiolch i'r holl dystion a ddaeth i'r ymchwiliad ac a lwyddodd, gyda'u dyfyniadau a straeon, i ddod â realiti'r sefyllfa yn fyw. Fel y dywedodd pawb arall o'm blaen, mae'n amlwg yn annerbyniol nad yw tua hanner o'n gorsafodded trêrn yn gwbl hygyrch. Ni allwn ddychmygu, fel pobl abl, fod y dewisiadau hynny wedi eu cymryd oddi arnoch cyn i chi hyd yn oed ddechrau ar yr hyn a allai fod yn daith anodd. Nid yw'n hawdd teithio ar unrhyw ddull o drafnidiaeth gyhoeddus gydag anabledd, fel y daethom i wybod o'n hymchwiliad presennol. Mae'n rhaid bod eich cael eich hun mewn sefyllfa amhosibl a chael eich troi i ffwrdd yn brofiad hynod ddigalon.

Rwyf yn falch eich bod wedi derbyn argymhellion yr adroddiad hwn, Ddirprwy Brif Weinidog. Fodd bynnag, byddai gennyf ddiddordeb glywed ychydig mwy am yr amserlen ar gyfer gweithredu rhai argymhellion. Rydych eisoes wedi crybwyll y rownd nesaf ac wedi dweud y bydd yn 2014 cyn y gallwch ei wneud yn rhan sylfaenol o'r fasnachfaint nesaf. Fodd bynnag, gallai rhai agweddau ar yr adroddiad hwn gael eu gweithredu yn gymharol hawdd a chyflym.

of these recommendations you think could be carried out in the near future. I would have thought that the recommendation regarding publicising the railcard would be relatively easy to implement, but I would be interested to hear how you would take that recommendation forward.

4.10 p.m.

As other people have mentioned, the integration between the rail network and other modes of transport is not just a matter for people with disabilities, but for everybody. It is a common point of frustration. I have had many e-mails from and conversations with people in my region describing how the bus arrives as they see the train disappearing from the platform, and vice versa. It seems that a small adjustment to timetables could make journeys so much easier. It should be a minimum standard that helps disabled people and everybody else.

Another recommendation concerned the perceived lack of information and posters. It is important to think about how that information is displayed or made available. One of the instances that I read about was not particularly about information so much as the use of touch screens to access tickets. These are obviously a problem for people with impaired vision. We often think of all-singing, all-dancing points of information, with screens to tell us what is going on, but we have to realise that there are lots of different disabilities, and not all of them are to do with wheelchairs. People with sensory disabilities must be catered for. I was not a member of the committee at the time, so this is just a thought of my own, which is that as well as just displaying posters and information in the station, the whole station could be developed as a hub for that particular area, providing information not just about travel, but about everything else that goes on in the area. That would be a very good step forward, too.

Byddai'n ddiddorol clywed pa un o'r argymhellion hyn y gellid ei weithredu yn y dyfodol agos. Tybiaf y byddai argymhelliad ynghylch rhoi cyhoeddusrwydd i'r cerdyn rheilffordd yn gymharol hawdd i'w weithredu, ond byddai gennyf ddiddordeb clywed sut y byddech yn datblygu'r argymhelliad hwnnw.

Fel y mae eraill wedi sôn, nid yw'r integreiddio rhwng y rhydwraith rheilffyrdd a dulliau eraill o gludiant yn fater pwysig i bobl ag anableddau yn unig, ond i bawb. Mae'n rhywbeth sy'n creu rhwystredigaeth gyffredinol. Rwyf wedi cael llawer o sgysiau gyda phobl yn fy rhanbarth, a negeseuon e-bost oddi wrthynt, yn disgrifio sut mae'r bws yn cyrraedd wrth i'r trên ddiflannu o'r plattform, ac i'r gwrthwyneb. Ymddengys y gallai addasiad bychan i amserlenni wneud teithiau yn llawer haws. Dylai fod yn lleiafswm o ran y gofynion i helpu pobl anabl a phawb arall.

Roedd argymhelliad arall yn ymwneud â'r dybiaeth bod diffyg gwybodaeth a phosteri. Mae'n bwysig meddwl am sut mae'r wybodaeth honno'n cael ei harddangos neu'n cael ei lledaenu. Roedd un o'r achosion y darllenais amdanynt yn ymwneud â'r defnydd o sgriniau cyffwrdd i gael tocynnau yn fwy na gwybodaeth yn unig. Mae'r rhain yn amlwg yn broblem i bobl â nam ar eu golwg. Rydym yn aml yn meddwl am ddarparu pwyntiau gwybodaeth sy'n gwneud popeth i bawb, gyda sgriniau i ddweud wrthym beth sy'n digwydd, ond mae'n rhaid inni sylweddoli bod llawer o wahanol anableddau, ac nid yw pob un ohonynt yn ymwneud â chadeiriau olwyn. Rhaid darparu ar gyfer pobl â nam ar y synhwyrau. Nid oeddwn yn aelod o'r pwyllgor ar y pryd, felly mae hwn yn rhywbeth yr wyf wedi meddwl amdano fy hun, sef yn ogystal ag arddangos poster i gwybodaeth yn yr orsaf, gallai'r orsaf gyfan gael ei datblygu yn ganolfan gwybodaeth i'r ardal benodol honno, gan ddarparu gwybodaeth nid yn unig am deithio, ond am bopeth arall sy'n digwydd yn yr ardal. Byddai hynny'n gam ymlaen da iawn, hefyd.

I think that everybody would feel ashamed that after so many years of people being aware of disability issues, and with those issues being so much higher on the agenda, we are still in the situation where so much of the rail network is inaccessible. I am pleased that the Deputy First Minister is taking the report so seriously, but I would be grateful to hear from him regarding when he expects a number of the recommendations to be implemented, and how he expects that to happen.

Janet Ryder: I am pleased that we, as the Committee on Equality of Opportunity, have been able to put this report on the table. However, I share Veronica German's concern. Many people in the Chamber have looked at disability legislation and disability access legislation coming through for what seems to be decades, yet we seem to be hardly any further on. We are in a position where so many of our platforms in Wales are not accessible, and people with a disability still cannot use our public transport system: that is a real source of disappointment. I was not the only one on the committee who was surprised to learn that once a station passes a certain age, nobody is responsible for making it accessible. Given the age of many of our stations, you could ask whether they are ever going to be made accessible. It is not a devolved responsibility; therefore we are reliant on the Westminster Government to prioritise this. We have old stations, and we know that they are not going to be a priority for the Westminster Government. Therefore, recommendation 1 could be the crucial recommendation in this report, in that we ask the Deputy First Minister to ensure that the next franchise round incorporates looking at the quality of services, to ensure that whichever company takes on the next franchise round, it has that responsibility and is measured against it, and that somewhere, there is a check and balance before the end of contract—as the contract is developing—to ensure that those improvements are being put in. Yes, the hump that has been mentioned is helpful at some stations, but many people still do not use the rail service because they do not know whether they will be able to get off at the end of the line. They do not know whether there will be someone there to help them use the lift or whether there will be a lift

Rwyf yn meddwl y byddai pawb yn teimlo cywilydd ar ôl cymaint o flynyddoedd o bobl yn ymwybodol o faterion anabledd, a chyda'r materion hynny yn gymaint uwch ar yr agenda, rydym yn dal yn y sefyllfa lle mae cymaint o'r rhwydwaith rheilffyrdd yn anhygyrch. Rwyf yn falch bod y Dirprwy Brif Weinidog yn cymryd yr adroddiad o ddifrif, ond byddwn yn ddiolchgar clywed ganddo pryd y mae'n disgwyl i nifer o'r argymhellion gael eu gweithredu, a sut mae'n disgwyl i hynny ddigwydd.

Janet Ryder: Rwyf yn falch ein bod ni, y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, wedi gallu cyflwyno'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, rwyf yn rhannu pryder Veronica German. Mae llawer o bobl yn y Siambr wedi bod yn edrych ar ddeddfwriaeth anabledd a deddfwriaeth ynghylch mynediad i bobl anabl am gyfnod sy'n teimlo fel degawdau, ac eto mae'n ymddangos nad ydym fawr nes ati. Rydym mewn sefyllfa lle nad yw cymaint o'n platfformau yng Nghymru yn hygyrch, a lle mae pobl ag anabledd yn dal i fethu â defnyddio ein system drafndiaeth gyhoeddus: mae hynny'n destun siom go iawn. Nid fi oedd yr unig un ar y pwyllgor a oedd yn synnu clywed pan fo gorsaf yn cyrraedd oedran penodol, nad oes neb yn gyfrifol am ei gwneud yn hygyrch. O ystyried oedran llawer o'n gorsafedd, gallech ofyn a ydynt byth yn mynd i gael eu gwneud yn hygyrch. Nid yw'n gyfrifoldeb sydd wedi'i ddatganoli, ac felly rydym yn dibynnu ar Lywodraeth San Steffan i roi blaenoriaeth i hyn. Hen orsafoedd sydd gennym, a gwyddom na fyddant yn flaenoriaeth i Lywodraeth San Steffan. Felly, efallai mai argymhelliad 1 yw'r un allweddol yn yr adroddiad hwn, sef ein bod yn gofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog sicrhau bod y rownd masnachfrait nesaf yn ymgorffori edrych ar ansawdd y gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod pa bynnag gwmni sy'n ennill y rownd masnachfrait nesaf yn cymryd cyfrifoldeb amdano a bod adolygiad cyn diwedd y contract—wrth i'r contract ddatblygu—i sicrhau bod y gwelliannau yn cael eu gweithredu. Ydy, mae'r twmpath y soniwyd amdano yn ddefnyddiol mewn rhai gorsafedd, ond mae llawer o bobl yn dal i beidio â defnyddio'r gwasanaeth rheilffordd am nad ydynt yn gwybod a fyddant yn gallu dod oddi ar y trê'n ar ddiwedd y llinell. Nid

that they can use. It is concerning that the assisted passenger reservation service has not received the publicity that it needs; it should be promoted to make more people aware of it.

The other aspect that struck me was the comment from Andrea Gordon, from the Guide Dogs for the Blind Association. She talked about an intimidating and threatening feeling when entering a railway station. When we talk about making railway stations accessible to the users of other forms of transport, you are talking about levelling out the surfaces outside the station, taking away the pavements and barriers so that there is freedom of access to stations. All of that can be good, but to someone with a visual impairment, it could make that station impossible to use. If you go into a large concourse like that at Cardiff Central, it has a wide entrance, it is a wide building and the surfaces are all the same colour, with little differentiation in surface quality; even a guide dog has difficulty finding its way around. We must give a lot of consideration to how we develop public transport so that it is accessible to everyone. I think that we have come up with some good recommendations. For me, writing this in to the next round of franchising will be crucial, and I look forward to what the Deputy First Minister has to say on that.

Nick Bourne: It is a great pleasure to contribute to this debate and I welcome the opportunity to speak. Although I am not a member of the committee, I thank Ann and the members for the report and the work that they have done in this area. It is the mark of a civilised society that we are able to create one nation for all the people, but the report highlights the fact that nearly half of all railway stations in Wales are not accessible to people with a disability. That is totally unacceptable, as far as I am concerned, more than 15 years after the passing of the Disability Discrimination Act 1995.

People with disabilities find many of our railway stations in Wales intimidating and a disincentive to travel. Of course, it is not just an issue for people with a disability: older

dynt yn gwybod a fydd rhywun yno i'w helpu i ddefnyddio'r lifft neu a fydd lifft yno y gallant ei ddefnyddio. Mae'n destun pryder nad yw'r gwasanaeth archebu cymorth i deithwyr wedi derbyn y cyhoedduswydd sydd ei angen arno; dylid ei hyrwyddo i wneud pobl yn fwy ymwybodol ohono.

Yr agwedd arall a wnaeth argraff arnaf oedd sylwadau Andrea Gordon o Sefydliad Cŵn Tywys y Deillion. Soniodd am deimlo o dan fygythiad wrth fynd mewn i orsaf reilffordd. Pan sonnir am sicrhau bod gorsafoedd rheilffordd yn hygyrch i ddefnyddwyr mathau eraill o gludiant, rydych yn sôn am lefelu'r arwynebau tu allan i'r orsaf, a chael gwared ar y palmentydd a'r rhwystrau fel ei bod yn haws cael mynediad at orsafoedd. Gall hynny i gyd fod yn werth chweil, ond i rywun â nam ar eu golwg, gallai hynny wneud yr orsaf honno yn amhosibl i'w defnyddio. Os ewch i mewn i gyntedd mawr fel yr un yng Nghaerdydd Canolog, mae ganddo fynedfa llydan, mae'n adeilad llydan ac mae'r arwynebau i gyd yr un lliw, heb fawr o wahaniaeth o ran ansawdd wyneb; mae hyd yn oed ci tywys yn cael trafferth dod o hyd i'w ffordd o gwmpas. Rhaid i ni roi llawer o ystyriaeth i sut rydym yn datblygu trafniadaeth gyhoeddus fel ei bod yn hygyrch i bawb. Credaf ein bod wedi llunio rhai argymhellion da. I mi, bydd ymgorffori hyn yn rownd nesaf y fasnachfaint yn hanfodol, ac edrychaf ymlaen at glywed sylwadau'r y Dirprwy Brif Weinidog am hynny.

Nick Bourne: Mae'n bleser mawr i gyfrannu at y ddadl hon ac rwy'n croesawu'r cyfle i siarad. Er nad wyf yn aelod o'r pwyllgor, diolch i Ann a'r aelodau am yr adroddiad a'r gwaith a wnaethant yn y maes hwn. Mae'n arwydd o gymdeithas wâr ein bod yn gallu creu un genedl i bawb, ond mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith nad yw bron i hanner gorsafoedd rheilffordd Cymru yn hygyrch i bobl ag anabledd. Mae hynny'n gwbl annerbyniol, cyn belled ag rwyf i yn y cwestiwn, a hynny fwy na 15 mlynedd ar ôl pasio'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Mae pobl ag anabledau yn teimlo eu bod o dan fygythiad mewn nifer o'n gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru, a'u bod yn rhwystr i deithio. Wrth gwrs, nid yw hon yn broblem

people, passengers with young children, and people with heavy luggage face massive problems at certain stations. Of course, the level of concern is quite different if someone has a massive disability, and I can only imagine how they must find that intimidating, upsetting and frustrating. Part of the problem is that we have a network of Victorian railway stations, because we were the first in, and the stations are ill-equipped to meet the needs of twenty-first century passengers in many cases. As is highlighted in the report, one major problem is the accessibility of platforms, with the only means of reaching the desired platform often being a footbridge. One example is Machynlleth station, which I use from time to time; the footbridge is the only way of getting across to one platform, and if people are changing trains, as they sometimes do at Machynlleth, there is a massive problem there.

Thirty four per cent of stations in Wales have no wheelchair access to platforms at all, and 16 per cent have qualified access—that means that half of them do not have full access. That is a massive issue. Some stations with wheelchair access to the platform then have a problem in terms of accessing the trains because the platforms are too low; that is another massive issue. It is important that we pay tribute to the people who work on the railways, both at the stations and on the trains—I have seen it from both sides—because they are willing to help, and always cheery, and that is a plus. However, we should not have to rely on the goodwill of people who work for Network Rail, Arriva Trains Wales, or other companies. Nevertheless, it must make a huge difference to those who need assistance to find that it is always there, cheerfully and willingly given.

Many stations—the majority—are unstaffed and that presents another problem. On the access to facilities at stations, 89 per cent of stations in Wales do not have wheelchair-accessible toilets, which is a massive number. Providing access to wheelchair-accessible toilets should be routine.

i bobl ag anabledd yn unig: mae pobl hŷn, teithwyr â phlant ifanc, a phobl â bagiau trwm yn wynebu problemau enfawr mewn rhai gorsafoedd. Wrth gwrs, mae'r pryder yn eithaf gwahanol os oes gan rywun anabledd enfawr, ac ni allaf ond dychmygu bod hynny yn gwneud iddynt deimlo o dan fgythiad, yn ofidus a rhwystredig. Rhan o'r broblem yw bod gennym rwydwaith o orsafoedd rheilffordd Fictoraidd, gan mai ni oedd y cyntaf, ac nid oes gan y gorsafoedd gyfleusterau digon da i ddiwallu anghenion teithwyr yr unfed ganrif ar hugain mewn sawl achos. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, mae hygyrchedd platfformau yn broblem fawr, ac yn aml pont droed yw'r unig ffordd o gyrraedd y platfform a ddymunir. Un enghraifft yw gorsaf Machynlleth, yr wyf fi yn ei defnyddio o dro i dro; y bont droed yw'r unig ffordd o gyrraedd un platfform, ac os yw pobl yn newid trenau, fel maent yn ei wneud weithiau ym Machynlleth, mae hynny'n creu problem anferth.

Nid oes gan 34 y cant o orsafoedd yng Nghymru unrhyw fynediad cadair olwyn at blatfformau, ac mae gan 16 y cant rywfaint o fynediad—sy'n golygu nad oes gan hanner ohonynt fynediad llawn. Mae honno'n broblem enfawr. Mae gan rai gorsafoedd sydd â mynediad cadair olwyn i'r platfform broblem wedyn o ran cael mynediad at y trenau gan bod y platfformau'n rhy isel; sy'n broblem enfawr arall. Mae'n bwysig ein bod yn talu teyrnged i'r bobl sy'n gweithio ar y rheilffyrdd, ar y gorsafoedd ac ar y trenau—rwyf wedi ei weld o'r ddwy ochr—gan eu bod yn barod i helpu a phob amser yn siriol, ac mae hynny'n fantais. Fodd bynnag, ni ddylem orfod dibynnu ar ewyllys da pobl sy'n gweithio i Network Rail, Trenau Arriva Cymru, neu gwmnïau eraill. Serch hynny, mae'n rhaid ei fod yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r rhai sydd angen cymorth ganfod ei fod bob amser yno, ac yn cael ei roi yn siriol a pharod.

Nid oes gan lawer o orsafoedd—y rhan fwyaf ohonynt—staff ac mae hynny'n broblem arall. O ran mynediad at gyfleusterau mewn gorsafoedd, nid oes gan 89 y cant o orsafoedd yng Nghymru doiledau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, sydd yn nifer enfawr. Dylai fod yn arferol darparu toiledau sydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

4.20 p.m.

We must also recognise the progress made at many stations. There have been recent improvements at Aberdyfi station, which the Llywydd will be familiar with, and which has already been mentioned in this debate. The station there has benefited from an easy-access ramp, a new shelter and a new travel information poster, which are all welcome. However, we still have a long way to go.

I welcome the Deputy First Minister's comments and I am glad that he is able to accept virtually all of the recommendations. I agree with Janet Ryder about the key recommendation of getting it into the next round of the franchise, which will make a massive difference, because most of these issues are not devolved. Therefore, I unreservedly support, as does our group, the report's recommendations and welcome the Deputy First Minister's response. There is much to do, but we should not lose sight of this issue. It is an excellent report and it shows the Assembly at its best in coming up with such a report on a subject that could so easily be neglected. I am pleased that this report has seen the light of day, that it has been the subject of a good debate today and that there is cross-party agreement on the way forward.

Brian Gibbons: I would like to pick up where the leader of the opposition ended. This is a very good report and we need to thank the committee for its excellent work. Equally, I would like to thank the Deputy First Minister for his positive response and I pay tribute to all the people who have contributed to this report.

One of the reasons why this has been such a successful report is that many of the issues that it raises are very real to the lives of many people. That is particularly reflected in the responses from my own constituency and local authority area. There is no doubt that the railway station in Port Talbot is not fit for purpose, which I am sure is what motivated an important number of contributions from people who use that station. The Neath Port Talbot Disability Network and individuals

Rhaid inni hefyd gydnabod y cynnydd a wnaed mewn llawer o orsafoedd. Gwnaed gwelliannau yn ddiweddar yng ngorsaf Aberdyfi, y bydd y Llywydd yn gyfarwydd â nhw, ac sydd eisoes wedi eu crybwyll yn y ddadl hon. Mae'r orsaf wedi elwa ar ramp mynediad hawdd, lloches newydd a phoster gwybodaeth teithio newydd, sydd i'w croesawu. Fodd bynnag, mae gennym ffordd bell i fynd.

Rwyf yn croesawu sylwadau'r Dirprwy Brif Weinidog, ac rwyf yn falch ei fod yn gallu derbyn bron y cyfan o'r argymhellion. Rwyf yn cytuno â Janet Ryder am yr argymhelliad allweddol o'i gynnwys yn rownd fasnachfrait nesaf, a fydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr, gan nad yw'r rhan fwyaf o'r materion hyn wedi eu datganoli. Felly, rwyf yn llwyr gefnogi, fel y mae ein grŵp, argymhellion yr adroddiad ac yn croesawu ymateb y Dirprwy Brif Weinidog. Mae llawer i'w wneud, ond ni ddylem golli golwg ar y mater hwn. Mae'n adroddiad ardderchog ac mae'n dangos y Cynulliad ar ei orau yn llunio adroddiad o'r fath ar bwnc y gellid yn hawdd ei esgeuluso. Rwyf yn falch bod yr adroddiad hwn wedi gweld golau dydd, ei fod wedi bod yn destun dadl da heddiw a bod cytundeb trawsbleidiol ar y ffordd ymlaen.

Brian Gibbons: Hoffwn ddechrau lle gorffennodd arweinydd yr wrthblaid. Mae hwn yn adroddiad da iawn ac mae angen diolch i'r pwyllgor am ei waith rhagorol. Yn yr un modd, hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Brif Weinidog am ei ymateb cadarnhaol a hoffwn dalu teyrnged i'r holl bobl a gyfrannodd i'r adroddiad hwn.

Un o'r rhesymau pam y bu'r adroddiad hwn mor llwyddiannus yw bod llawer o'r materion a godir ganddo yn real iawn i fywydau llawer o bobl. Adlewyrchir hynny yn arbennig yn yr ymatebion yn fy etholaeth a fy ardal awdurdod lleol i. Nid oes amheuaeth bod yr orsaf reilffordd ym Mhort Talbot yn anaddas at y diben, ac rwyf yn siŵr mai dyma sydd wedi cymhell nifer pwysig o gyfraniadau gan bobl sy'n defnyddio'r orsaf honno. Mae Rhwydwaith Anabledd Castell-

such as Cliff Croft and Elizabeth Dumayne also submitted contributions to the deliberations. I pay tribute to those individuals who are doing excellent work in our community in trying to address access issues for people with disabilities.

The report contains semi-anecdotal instances of what is going wrong and, sadly, virtually all of them could apply to the situation at Port Talbot. Unlike at Machynlleth, it is totally an island platform and it is impossible to get on any train without having to negotiate a dark, overhead gantry that is in need of modernisation, which many people do not feel secure in using, particularly at night. If disabled people are not given prior warning of the situation at Port Talbot station before they disembark, they may find themselves totally stranded.

As the leader of the opposition said, we cannot thank the staff who work at these stations enough for their commitment to the travelling public and to public service. However, there are instances when these stations, including Port Talbot, are not staffed and people alight from a train, to find themselves completely stranded, with no way of exiting the station. Heaven help wheelchair users who arrive at those stations. Even before we begin to address the problems at these stations, forewarning should be given to people, on the stations and on the trains, that it is not as possible to disembark at those station if they have a disability. That would at least avoid the terrible situation of people finding themselves totally trapped or imprisoned in one of our stations in the twenty-first century. I have had reports from constituents who have found themselves in that position, and have had to get back on a train and go to another station before having to then struggle to find their way home from there. I know that the train operating companies say that they will arrange taxis for people who find themselves in that situation. However, not everyone is aware of that and they may become aware of it only when they have had a dreadful travelling experience, which is an experience that I have been told about all too often.

nedd Port Talbot ac unigolion fel Cliff Croft ac Elizabeth Dumayne hefyd wedi anfon cyfraniadau at y trafodaethau. Talaf deyrnged i'r unigolion hynny sy'n gwneud gwaith rhagorol yn ein cymuned i geisio mynd i'r afael â phroblemau mynediad i bobl ag anableddau.

Mae'r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau lled-anecdotaidd o beth sy'n mynd o'i le ac, yn anffodus, bron y gallai pob un ohonynt fod yn berthnasol i'r sefyllfa ym Mhort Talbot. Yn wahanol i Fachynlleth, mae'n blatfform ynys ac mae'n amhosibl mynd ar unrhyw drên heb orfod mynd drwy nenbont dywyll sydd angen ei moderneiddio, nad yw llawer o bobl yn teimlo'n ddiogel yn ei defnyddio, yn enwedig yn y nos. Os nad yw pobl anabl yn rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r sefyllfa yng ngorsaf Port Talbot cyn iddynt adael y trên, gallant gael eu gadael ar eu pen eu hunain yn llwyr.

Fel y dywedodd arweinydd yr wrthblaid, ni allwn ddiolch digon i'r staff sy'n gweithio yn y gorsafod hyn am eu hymrwymiad i'r cyhoedd sy'n teithio ac i wasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, mae achosion pan fydd y gorsafod hyn heb staff, gan gynnwys Port Talbot, a bydd pobl yn dod oddi ar y trên a chael eu hunain heb neb i'w help ac heb unrhyw ffordd o adael yr orsaf. Duw â helpo defnyddwyr cadair olwyn sy'n cyrraedd y gorsafod hynny. Hyd yn oed cyn inni ddechrau mynd i'r afael â'r problemau yn y gorsafod hyn, dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i bobl, ar y gorsafod a'r trenau, nad yw'n bosibl dod oddi ar y trên yn y gorsafod hynny os oes ganddynt anabledd. Byddai hynny o leiaf yn osgoi'r sefyllfa ofnadwy o bobl yn eu cael eu hunain yn methu'n llwyr â dianc o un o'n gorsafod yn yr unfed ganrif ar hugain. Cefais adroddiadau gan etholwyr sydd wedi cael eu hunain yn y sefyllfa honno, ac wedi gorfod mynd yn ôl ar drên a mynd i orsaf arall cyn ceisio dod o hyd i'w ffordd adref o'r fan honno. Gwn fod y cwmnïau trenau yn dweud y byddant yn trefnu tacsis i bobl sy'n cael eu hunain yn y sefyllfa honno. Fodd bynnag, nid yw pawb yn ymwybodol o hynny ac efallai y byddant ond yn dod yn ymwybodol o hynny pan fyddant wedi cael profiad teithio ofnadwy, sydd yn brofiad y cefais wybod amdano yn rhy aml.

However, there is light at the end of the tunnel—no pun intended. The Deputy First Minister's positive response is very welcome, and particularly his proposals to link improvement to the future Wales and borders franchise. That is very welcome. I am also pleased with the written answer that I received from the Deputy First Minister only today, indicating the progress that is being made in relation to Port Talbot station under the national stations improvement programme, and on how the Assembly Government is giving a lead in upgrading the station using that fund. That is being done in partnership with Network Rail and Arriva Trains Wales, although, sadly, they have not had a leadership role, and it is only through the good work of the Assembly Government and Neath Port Talbot County Borough Council that we can face the future with some sort of optimism.

Jonathan Morgan: As a former member of the Committee on Equality of Opportunity, I thank the Chair and the committee for undertaking this extremely important review. The debate has moved on quite significantly in recent years. I remember that we had a debate in the Assembly Chamber in June 2009, which I think was tabled by the Liberal Democrats, which called for a plan that the Assembly Government could stick to when deciding which railway stations should be prioritised for reform and expenditure. I am pleased that, having had that debate, at which Assembly Members were not convinced that an action plan was required, we now have a set of recommendations that are very far-reaching—particularly recommendation 1, which says that the Assembly Government

‘should incorporate station accessibility issues into the specifications for the next round of the Wales and Border franchise’.

That sends a powerful message to organisations about the way in which we see disability issues being tackled and the importance that we place on prioritising the issue of how railway stations can be improved to ensure accessibility.

Fodd bynnag, mae golau ar ddiwedd y twnel—heb geisio chwarae ar eiriau. Mae ymateb cadarnhaol y Dirprwy Brif Weinidog yn galonogol iawn, yn enwedig ei gynigion i gysylltu gwelliannau â masnachfrait Cymru a'r gororau yn y dyfodol. Mae hynny'n galonogol iawn. Rwyf yn falch hefyd â'r ateb ysgrifenedig a gefais gan y Dirprwy Brif Weinidog dim ond heddiw, sy'n dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud yng ngorsaf Port Talbot o dan y rhaglen genedlaethol i wella gorsafydd, ac ar sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arweiniad ynghylch uwchraddio'r orsaf gan ddefnyddio'r gronfa honno. Gwneir hynny mewn partneriaeth â Network Rail a Threnau Arriva Cymru, er, yn anffodus, nid ydynt wedi cael rôl arweiniol, a dim ond drwy waith da Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot y gallwn wynebu'r dyfodol gyda pheth optimistaeth.

Jonathan Morgan: Fel cyn aelod o'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd a'r pwyllgor am ymgymryd â'r adolygiad pwysig dros ben hwn. Mae'r ddadl wedi symud ymlaen yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Rwyf yn cofio inni gael dadl yn Siambr y Cynulliad ym mis Mehefin 2009, a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol rwy'n meddwl, a oedd yn galw am gynllun y gallai Llywodraeth y Cynulliad lynu ato wrth benderfynu pa orsafoedd rheilffordd ddylai gael eu blaenoriaethu ar gyfer eu diwygio ac ar gyfer gwariant arnynt. Rwyf yn falch, ar ôl y ddadl honno, lle nad oedd Aelodau'r Cynulliad yn argyhoeddedig bod angen cynllun gweithredu, fod gennym bellach gyfres o argymhellion pellgyrhaeddol iawn—yn enwedig argymhelliad 1, sy'n dweud y dylai Llywodraeth y Cynulliad

‘ymgorffori materion yn ymwneud â hygyrchedd gorsafydd yn y manylebau ar gyfer masnachfrait Cymru a'r Gororau’.

Mae hynny'n cyfleu neges bwerus i sefydliadau am y ffordd rydym am weld materion anabledd yn cael eu datrys a'r pwysigrwydd a roddwn ar flaenoriaethu'r gwaith o wella gorsafydd rheilffordd er mwyn sicrhau hygyrchedd.

Under its Railways for All strategy in 2006, the UK Government committed to spending some £370 million over 10 years on improving access to railway stations, £7 million of which was allocated to smaller stations. However, in the three years to 2009, only £403,000 had been spent in Wales. I do not know why that is the case. I do not know whether we were not ambitious enough in putting bids forward or whether bids that were put forward simply did not succeed, but, sadly, during that period, we did not see much in the way of progress. The committee has, therefore, shone a light on something that is extremely serious to find a way through some of the more complex arrangements in relation to what the Assembly Government can do and what is the responsibility of the UK Government, to come up with recommendations that I believe will achieve a great deal.

I am delighted that the Deputy First Minister has agreed with me that there is a need to prioritise the reform that is required at the railway station in Llandaff North in my constituency. It is a popular and busy railway station; some 400,000 people use it every year, and it is the most used railway station outside those stations in the centre of Cardiff. I am delighted with the speed at which he and his officials have examined the range of issues and the way in which they are now proceeding with a bid to see whether we can get the resources needed to make the station disability-friendly. It is astonishing that, if you were living in the Cathays area of Cardiff and were disabled, you could get onto the platform and get onto a train to come up to the station at Llandaff North to visit your friends or family, but you could not get home again, because the Cardiff side of the platform is completely inaccessible to anyone in a wheelchair. Furthermore, if you were elderly and had mobility issues, you would find that accessing the station is extremely difficult, and if you were a young mum with a pram and a couple of children, you would find it extremely challenging.

4.30 p.m.

Therefore, making these big changes to our railway stations does not just help those who have the most obvious and acute needs, such

O dan ei strategaeth Rheilffyrdd i Bawb yn 2006, ymrwymodd Llywodraeth y DU i wario tua £370 miliwn dros 10 mlynedd ar wella mynediad at orsafoedd rheilffordd, a bydd £7 miliwn ohono'n cael ei ddyrannu i orsafoedd llai. Fodd bynnag, yn ystod y tair blynedd hyd at 2009, dim ond £403,000 a wariwyd yng Nghymru. Ni wn beth yw'r rheswm am hynny. Ni wn a oeddem yn ddigon uchelgeisiol o ran cyflwyno ceisiadau neu a oedd y ceisiadau a gyflwynwyd yn aflwyddiannus, ond, yn anffodus, yn ystod y cyfnod hwnnw, ni welsom lawer o gynnydd. Mae'r pwyllgor, felly, wedi taflu goleuni ar rywbeth sy'n hynod ddifrifol i ddod o hyd i ffordd drwy rai o'r trefniadau mwy cymhleth o ran yr hyn y gall Llywodraeth y Cynulliad ei wneud a'r hyn sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU, a llunio argymhellion y credaf fydd yn cyflawni llawer iawn.

Rwy'n hynod falch bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi cytuno â mi fod angen blaenoriaethu'r gwelliannau sydd eu hangen yng ngorsaf reilffordd Ystum Taf yn fy etholaeth i. Mae'n orsaf reilffordd boblogaidd a phrysur; mae 400,000 o bobl yn ei defnyddio bob blwyddyn, a hi yw'r orsaf reilffordd a ddefnyddir fwyaf y tu allan i'r gorsafoedd yng nghanol Caerdydd. Rwyf wrth fy modd gyda pha mor gyflym y mae ef a'i swyddogion wedi archwilio ystod o faterion a'r ffordd maent yn awr yn symud ymlaen gyda chais i weld a allwn gael yr adnoddau sydd eu hangen i wneud yr orsaf yn haws ei defnyddio i bobl ag anabledd. Mae'n syndod, os ydych yn byw yn ardal Cathays Caerdydd ac yn anabl, y gallech fynd ar y plattform ar drên i'r orsaf yn Ystum Taf i ymweld â'ch ffrindiau neu deulu, ond ni allech gyrraedd adref eto, oherwydd mae ochr Caerdydd y plattform yn hollol anhygyrch i unrhyw un mewn cadair olwyn. Ar ben hynny, os ydych yn oedrannus a bod gennych broblemau symudedd, byddech yn ei chael yn anodd iawn cyrraedd yr orsaf, ac os ydych yn fam ifanc â phram a chwpl o blant, byddech yn ei chael yn hynod o heriol.

Felly, mae gwneud y newidiadau mawr hyn i'n gorsafoedd rheilffordd yn helpu nid yn unig y rhai sydd â'r anghenion mwyaf amlwg

as those who are in wheelchairs; it also helps a much wider variety of people who have a degree of mobility problems. That is where this becomes even more exciting, because you get to help a much larger range of people who would like to benefit from using our public transport system.

The Deputy First Minister may know that the transport expert, Professor Stuart Cole, lives just up the road from this railway station, so I am surprised that he has not been complaining about it as much as I have. I am in no doubt that he will be as pleased as anyone to see these improvements coming to this much-used railway station in my constituency. This report has considerable potential and I am delighted that the committee has been able to bring these recommendations before us this afternoon.

The Presiding Officer: Thank you. I am sure that Professor Stuart Cole will be alerted to your remarks.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf yn siŵr y bydd yr Athro Cole yn gwrando'n astud ar y drafodaeth heddiw.

I thank all Assembly Members for the part that they have played in responding to this debate and for accepting that the current position is entirely unacceptable and that we need to improve it. I also thank them for their recognition of the positive way in which the Government has responded to the committee's recommendations. The acceptance of the recommendation regarding improved station accessibility has been broadly welcomed and we would want to see this being included when franchises are renewed. The debate regarding what should be included in the next franchise and who should run the railways will be a matter for the next Assembly to take forward.

I will deal with some of the points that have been raised. Oscar made clear the importance of having good integration between rail and buses, and this is something that we are now looking at as part of the proposed investment for certain railway stations. There is a plan to

a difrifol, fel y rhai sydd mewn cadeiriau olwyn, mae hefyd yn helpu amrywiaeth llawer ehangach o bobl sydd â rhywfaint o broblemau symudedd. Dyna le mae hyn yn dod hyd yn oed yn fwy cyffrous, oherwydd eich bod yn cael cyfle i helpu amrywiaeth llawer mwy o bobl a hoffai fanteisio ar ddefnyddio ein system drafndiaeth gyhoeddus.

Efallai y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn gwybod bod yr arbenigwr cludiant yr Athro Stuart Cole, yn byw ychydig i fyny'r ffordd o'r orsaf reilffordd, felly rwyf yn synnu nad yw wedi bod yn cwyno yn ei gylch cymaint â minnau. Nid oes gennyf amheuaeth y bydd mor falch ag unrhyw un i weld y gwelliannau hyn yn dod i'r orsaf reilffordd a ddefnyddir mor aml yn fy etholaeth. Mae gan yr adroddiad hwn gryn botensial ac rwy'n hynod falch bod y pwyllgor wedi llwyddo i ddod â'r argymhellion ger ein bron y prynhawn yma.

Y Llywydd: Diolch yn fawr. Rwyf yn siŵr y bydd yr Athro Stuart Cole cael gwybod am eich sylwadau.

The Deputy First Minister: I am sure that Professor Cole will be listening intently to today's discussion.

Diolch i'r holl Aelodau Cynulliad am y rhan y maent wedi ei chwarae wrth ymateb i'r ddatl hon ac am dderbyn bod y sefyllfa bresennol yn gwbl annerbyniol a bod angen ei gwella. Rwyf hefyd yn diolch iddynt am gydnabod y ffordd gadarnhaol y mae'r Llywodraeth wedi ymateb i argymhellion y pwyllgor. Mae derbyn yr argymhelliad yn ymwneud â gwella hygrychedd gorsafoedd wedi cael ei groesawu'n gyffredinol a byddem am weld hyn yn cael ei gynnwys pan gaiff y masnachfreintiau eu hadnewyddu. Bydd y drafodaeth ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys yn y fasnachfaint nesaf a phwy ddylai redeg y rheilffyrdd yn fater i'r Cynulliad nesaf ei ystyried.

Byddaf yn ymdrin â rhai o'r pwyntiau a godwyd. Soniodd Oscar am bwysigrwydd integreiddio da rhwng rheilffyrdd a bysiau, ac mae hyn yn rhywbeth rydym yn awr yn edrych arno fel rhan o'r buddsoddiad arfaethedig ar gyfer gorsafoedd rheilffordd

do that in Newport and Swansea, and there will also be investment in Cardiff. I am pleased to say, in the presence of the Member for Aberconwy, that there is a plan to have an integrated system there and improvements will also be made to Llandudno station. Therefore, quite a lot of work is happening on that.

I appreciate the point that you made about the fact that there have been some minor issues with the building of the new station in Newport, but, by and large, the proposal has been substantially welcomed, because it means that there is now a modern station in Newport, where, previously, there was an old-fashioned, Victorian station, which was very difficult for people to access. That has been a major improvement.

I can tell Jeff Cuthbert that there are plans to improve access to Ystrad Mynach station, which is a priority for the Government, and plans are currently being developed in that regard. With regard to Energlyn station, any new station will have to comply with the Disability Discrimination Act 1995. Therefore, that will be built into the plans.

Veronica referred to a number of issues and talked about the rail franchise. We have to remember that there are a number of different timelines. There will be discussion on the franchise in the next Assembly. The Network Rail control period lasts between 2014 and 2018, and there will be infrastructure investment. We are already talking to Network Rail and the Office of Rail Regulation about the priorities for Wales during that particular period. However, you are right to say that there are other things that we can do earlier, such as publicising the availability of the railcard. That is not a matter for us directly, but we would certainly want to encourage local authorities and others to take that forward. Like other Members, you also referred to the importance of integrating public transport.

Janet Ryder referred to the importance of including accessibility in the next franchise. We accept the need to make improvements in

penodol. Mae bwriad i wneud hynny yng Nghasnewydd ac Abertawe, a bydd buddsoddi hefyd yng Nghaerdydd. Rwyf yn falch o ddweud, a hynny ym mhresenoldeb yr Aelod dros Aberconwy, bod bwriad cael system integredig yno ac y bydd gwelliannau hefyd yn cael eu gwneud i orsaf Llandudno. Felly, mae cryn dipyn o waith yn digwydd ar hynny.

Rwyf yn deall y pwynt a wnaethoch am y ffaith y cafwyd rhai mân broblemau gydag adeilad yr orsaf newydd yng Nghasnewydd, ond, ar y cyfan, cafodd y cynnig groeso mawr, gan ei fod yn golygu bellach bod gorsaf fodern yng Nghasnewydd, lle, ynghynt, roedd gorsaf hen ffasiwn Fictoriaidd, a oedd yn anodd iawn i bobl gael mynediad ati. Bu hynny'n welliant mawr.

Gallaf ddweud wrth Jeff Cuthbert fod cynlluniau i wella mynediad at orsaf Ystrad Mynach, sy'n flaenoriaeth i'r Llywodraeth, ac maent wrthi'n cael eu datblygu o ran hynny. O ran gorsaf Energlyn, bydd yn rhaid i unrhyw orsaf newydd gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Felly, bydd hynny'n cael ei ymgorffori yn y cynlluniau.

Cyfeiriodd Veronica at nifer o faterion a siaradodd am y fasnachfrait rheilffyrdd. Mae'n rhaid inni gofio bod sawl llinell amser y dylem fod yn ymwybodol ohonynt. Bydd trafodaeth ar y fasnachfrait yn ystod y Cynulliad nesaf. Mae cyfnod rheolaeth Network Rail yn para rhwng 2014 a 2018, a bydd buddsoddi mewn seilwaith. Rydym eisoes yn siarad â Network Rail a'r Swyddfa Rheoleiddio Rheilffyrdd am y blaenoriaethau i Gymru yn ystod y cyfnod penodol hwnnw. Fodd bynnag, rydych yn iawn i ddweud bod pethau eraill y gallwn eu gwneud yn gynharach, megis dweud wrth bobl fod y cerdyn rheilffordd ar gael. Nid yw hynny'n fater uniongyrchol i ni, ond byddem yn sicr am annog awdurdodau lleol ac eraill i fwrw ymlaen â hynny. Fel Aelodau eraill, gwnaethoch hefyd gyfeirio at bwysigrwydd integreiddio trafniadaeth gyhoeddus.

Cyfeiriodd Janet Ryder at bwysigrwydd cynnwys hygyrchedd yn y fasnachfrait nesaf. Rydym yn derbyn yr angen i wella

relation to visual impairments and are very committed to doing that. Andrea Gordon from the Guide Dogs for the Blind Association is working with us to improve the area around Swansea station, and we are currently putting those changes in place.

Nick Bourne referred to the fact that the current position is unacceptable. We had an interesting debate during a committee meeting about what I believe we should now call 'grandparent rights'. It was quite difficult for us. Basically, in relation to Network Rail, if a station has grandparent rights, it does not have to comply with some of the statutory changes that are necessary to deliver disability improvements. That will sometimes be a barrier to us in terms of developing the plans. Nevertheless, the Welsh Assembly Government has made it clear that it wants to see these improvements come about. That is why we have invested heavily—£40 million—in the NSIP-plus programme, also using European funding, to deliver some of these changes. We will not be putting up with those kinds of arguments by others. We want to see real improvements.

Brian Gibbons referred to the unacceptable situation at Port Talbot Parkway station, and he now knows that there are plans under the NSIP-plus programme for improvements to be made there. Jonathan kindly referred to the discussions on improvements at Llandaff North station. I am not in a position to respond to the question of exactly why we were not able to provide significant Access For All funding, but the Welsh Assembly Government is determined, through its NSIP-plus programme, to carry out significant improvements. We will be working hard with Network Rail to ensure that accessibility improves all along the line.

We all accept that, unfortunately, many of our railway stations were built in the Victorian period and that they are massively difficult in terms of investment. It takes a lot of money to improve them. However, where we can, we will be making significant improvements in the next few years. I thank everyone for making such valuable contributions here. I am sure that people with

cyfleusterau i bobl â nam ar eu golwg ac yn ymrwymedig iawn i wneud hynny. Mae Andrea Gordon o Gŵn Tywys y Deillion yn gweithio gyda ni i wella'r ardal o amgylch gorsaf Abertawe, ac rydym wrthi'n rhoi'r newidiadau hynny yn eu lle.

Cyfeiriodd Nick Bourne at y ffaith bod y sefyllfa bresennol yn annerbyniol. Cawsom drafodaeth ddiddorol yn ystod cyfarfod y pwyllgor am yr hyn yr wyf yn credu y dylem nawr eu galw yn 'hawliau taid neu nain'. Roedd yn eithaf anodd inni. Yn y bôn, mewn perthynas â Network Rail, os bydd gan orsaf hawliau taid neu nain, nid oes rhaid iddi gydymffurfio â rhai o'r newidiadau statudol sydd eu hangen i wella cyfleusterau anabledd. Bydd hynny weithiau yn rhwystr i ni o ran datblygu cynlluniau. Er hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dweud yn glir ei bod am weld y gwelliannau hyn yn cael eu gwneud. Dyna pam rydym wedi buddsoddi'n drwm—£40 miliwn—yn y rhaglen Rhaglen Genedlaethol Estynedig ar gyfer Gwella Gorsafoedd sydd hefyd yn defnyddio arian Ewropeaidd, i wneud rhai o'r newidiadau hyn. Ni fyddwn yn derbyn y mathau hynny o ddadleuon gan eraill. Rydym am weld gwelliannau go iawn.

Cyfeiriodd Brian Gibbons at y sefyllfa annerbyniol yng ngorsaf Port Talbot Parkway, ac mae'n gwybod fod cynlluniau o dan y rhaglen NSIP estynedig i wneud gwelliannau yno. Cyfeiriodd Jonathan yn garedig at y trafodaethau ar welliannau yng ngorsaf Ystum Taf. Nid wyf mewn sefyllfa i ymateb i'r cwestiwn ynghylch pam yn union nad ydym yn gallu darparu arian sylweddol Mynediad i Bawb, ond mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn benderfynol, drwy ei rhaglen NSIP estynedig, i wneud gwelliannau sylweddol. Byddwn yn gweithio'n galed gyda Network Rail i sicrhau bod hygrychedd yn gwella ar hyd y llinell.

Rydym i gyd yn derbyn, yn anffodus, bod llawer o'n gorsafoedd rheilffordd wedi eu hadeiladu yn y cyfnod Fictoraidd a'u bod yn aruthrol o anodd o ran buddsoddiad. Mae'n cymryd llawer o arian i'w gwella. Fodd bynnag, lle gallwn, byddwn yn gwneud gwelliannau sylweddol yn y blynyddoedd nesaf. Diolch i bawb am wneud cyfraniadau mor werthfawr yma. Rwyf yn siŵr y bydd

disabilities across Wales, who want to see improvements, will know that they have the support of Assembly Members as they strive to lobby for those improvements.

Ann Jones: I thank the Deputy First Minister for responding to all Members who took part in the debate. It was interesting to see Members who were not part of the committee take part in the debate, and I thank them for their interest. The issues raised in Members' areas were the issues that drove us to compile this report.

It is wrong that over 50 per cent of our stations are still not accessible to all. It is not acceptable. I share Janet's frustration at the fact that we have had legislation but we do not seem to have anything going on. People tend to say, 'Well, only a few people travel by train, and, if they do not complain, as far as we know the railway is working well'. That is not acceptable. The major issue for us was to put something in the franchise so that we can stop this business of not being able to address disability rights. As Jonathan said, this is not just about disabled people. We are also trying to make rail travel easier for mothers with young children and buggies and people with heavy luggage.

I wish that the Deputy First Minister had not mentioned grandparent rights. The committee had a long debate about that, and the least said, soonest mended. We could all get quite cross about what we discovered in relation to that.

Janet Ryder: For those who did not sit through that discussion, could you just inform everyone that that term does not refer to grandparents as people?

Ann Jones: You are right; it does not. In fact, we had to correct Network Rail. We came across the term 'grandfather rights' and had to tell Network Rail that we were the Committee on Equality of Opportunity and that it should be 'grandparent rights'. As the Deputy First Minister said, this refers to cases where, after a certain period of time, Network

pobl ag anableddau ar draws Cymru, sydd am weld gwelliannau, yn gwybod bod ganddynt gefnogaeth Aelodau'r Cynulliad wrth iddynt fynd ati i lobio am y gwelliannau hynny.

Ann Jones: Diolch yn fawr i'r Dirprwy Brif Weinidog am ymateb i'r holl Aelodau a gymerodd ran yn y ddadl. Roedd yn ddiddorol gweld Aelodau nad oeddynt yn rhan o'r pwyllgor yn cymryd rhan yn y ddadl, a diolchaf iddynt am eu diddordeb. Y materion a godwyd yn ardaloedd yr Aelodau oedd y materion a'n hysgogodd i lunio'r adroddiad hwn.

Nid yw'n iawn bod dros 50 y cant o'n gorsafoddd yn parhau i beidio â bod yn hygyrch i bawb. Nid yw'n dderbyniol. Rhannaf rwystredigaeth Janet am y ffaith fod gennym ddeddfwriaeth ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw beth yn digwydd. Mae pobl yn tueddu i ddweud, 'Wel, dim ond ychydig o bobl sy'n teithio ar y trên, ac, os nad ydynt yn cwyno, cyn belled ag y gwyddom mae'r rheilffordd yn gweithio'n dda'. Nid yw hynny'n dderbyniol. Y prif fater i ni oedd rhoi rhywbeth yn y fasnachfaint fel y gallwn atal y broblem o fethu â mynd i'r afael â hawliau anabledd. Fel y dywedodd Jonathan, nid yw hyn am bobl anabl yn unig. Rydym hefyd yn ceisio gwneud teithio ar y rheilffyrdd yn haws i famau â phlant ifanc a bygis a phobl â bagiau trwm.

Hoffwn pe na bai'r Dirprwy Brif Weinidog wedi crybwyll hawliau taid neu nain. Cafodd y pwyllgor ddadl hir am hynny, a gorau po leiaf a ddywedwn am hynny. Gallem i gyd fynd yn eithaf blin am yr hyn y gwnaethom ei ddarganfod mewn perthynas â hynny.

Janet Ryder: I'r rhai na eisteddodd drwy'r drafodaeth honno, a wnewch chi ddweud wrth bawb nad yw'r term yn cyfeirio at deidiau a neiniau go iawn?

Ann Jones: Rydych yn gywir; nid yw'n gwneud hynny. Yn wir, roedd yn rhaid i ni gywiro Network Rail. Daethom ar draws y term 'hawliau taid' a bu'n rhaid i ni ddweud wrth Network Rail mai ni oedd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ac mai 'hawliau taid neu nain' yw'r term cywir. Fel y dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog, mae hyn yn cyfeirio at

Rail does not have to ensure disability access at a station. We were trying to fight that battle quickly.

We accept that we have a lot of Victorian buildings, but we should not accept that as a reason not to do anything. This is not a case of 'no can do'. It is always possible to find a way to make places accessible.

I thank everyone for taking part today. I would like to let everyone know that the committee is just finishing off its inquiry into the accessibility of public transport for disabled people. We are now looking at the hubs and the interchanges. The issues that Janet raised relating to shared surfaces are very important. I want to see more and more people on our rail network using our public transport. If we can get this right now, we can use the franchise in the next Assembly to take forward issues that disabled people and other rail users will thank us for in years to come.

Y Llywydd: Y cynnig yw y dylid nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Gwela nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, mae'r cynnig wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.40 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.40 p.m.*

Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Leihau Allyriadau Carbon yng Nghymru The Sustainability Committee's Report into Carbon Reduction in Wales

Cynnig NDM4640 Kirsty Williams

Motion NDM4640 Kirsty Williams

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar leihau allyriadau carbon yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2010.

Notes the report of the Sustainability Committee on Carbon Reduction in Wales which was laid in the Table Office on 1 November 2010.

Kirsty Williams: I move the motion.

Kirsty Williams: Cynigiaf y cynnig.

achosion, ar ôl cyfnod penodol o amser, lle nad oes rhaid i Network Rail sicrhau mynediad i bobl anabl mewn gorsaf. Rydym yn ceisio ymladd y frwydr honno'n gyflym.

Rydym yn derbyn bod gennym lawer o adeiladau Fictoraidd, ond ni ddylem dderbyn hynny fel rheswm i beidio â gwneud dim. Nid yw hyn yn achos o 'allwn ni ddim'. Mae bob amser yn bosibl dod o hyd i ffordd o wneud lleoedd yn hygyrch.

Diolch i bawb am gymryd rhan heddiw. Hoffwn ddweud wrth bawb bod y pwyllgor wrthi'n cwblhau ei ymchwiliad i hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus i bobl anabl. Rydym yn awr yn edrych ar y manau ffocws a'r cyfnewidfeydd. Mae'r materion a godwyd gan Janet am arwynebau a rennir yn bwysig iawn. Rwyf am weld mwy a mwy o bobl ar ein rhwydwaith rheilffyrdd yn defnyddio ein trafndiaeth gyhoeddus. Os gallwn wneud hyn yn iawn yn awr, gallwn ddefnyddio'r fasnachfaint yn y Cynulliad nesaf i ddatrys problemau y bydd pobl anabl a defnyddwyr rheilffyrdd eraill yn diolch i ni amdanynt mewn blynyddoedd i ddod.

The Presiding Officer: The proposal is to note the Committee on Equality of Opportunity's report. I see that there are no objections. Therefore, under Standing Order No. 7.35, the motion is agreed.

I wish to begin this afternoon by thanking all of those who have been involved in the work that has led to the publication of this report. It has been one of the most comprehensive inquiries ever undertaken by a committee of this National Assembly. As I took over as Chair just prior to the publication of the report, I am indebted to the previous Chairs, including Mick Bates, who, along with fellow committee members, recognised very early on the importance of these issues and saw it as a priority to examine how Wales was contributing to carbon reduction targets and to make recommendations to the Government to ensure that Wales becomes a leader and an exemplar of a truly low carbon, prosperous country.

The committee is also very thankful to all those who took time to participate in the production of the report by giving written and oral evidence. We are also thankful for the ongoing professional support that we received from the committee secretariat and the Members' research service and individuals and bodies outside the Assembly who were able to offer some very expert advice, notably Cardiff University.

The report is the culmination of three years' work and five previous inquiries examining different aspects of carbon reduction in devolved areas. It focuses on the progress that the Government has made against recommendations contained in those five component reports and makes further cross-cutting recommendations. It is important to try to set this report in some sort of context. It is important to acknowledge that, since this report was published, the Minister has published her own climate change strategy, which we welcome. It should also be acknowledged that the Government has made progress against some of the recommendations and actions from the individual topic reports that were published previously, such as with regard to the retrofitting of hard-to-heat buildings and the latest version of Planning Policy Wales, which makes more explicit the role and importance of planning in the carbon reduction agenda.

Hoffwn ddechrau'r prynhawn yma drwy ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r gwaith a arweiniodd at gyhoeddi'r adroddiad hwn. Dyma un o'r ymholiadau mwyaf cynhwysfawr a gynhaliwyd erioed gan un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol. Gan i mi gymryd yr awenau fel Cadeirydd ychydig cyn cyhoeddi'r adroddiad, rwyf yn ddyledus i'r Cadeiryddion blaenorol, gan gynnwys Mick Bates, a wnaeth, ynghyd ag aelodau'r pwyllgor, sylweddoli pwysigrwydd y materion hyn yn gynnar iawn a rhoi blaenoriaeth i edrych ar sut mae Cymru yn cyfrannu at dargedau lleihau carbon a gwneud argymhellion i'r Llywodraeth i sicrhau bod Cymru yn dod yn arweinydd ac yn esiampl o wlad wirioneddol garbon isel ffyniannus.

Mae'r pwyllgor hefyd yn ddiolchgar iawn i bawb a gymerodd amser i gymryd rhan yn y broses o lunio'r adroddiad drwy roi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar. Rydym hefyd yn ddiolchgar am y cymorth proffesiynol parhaus a gawsom gan ysgrifenyddiaeth y pwyllgor a gwasanaeth ymchwil yr Aelodau ac unigolion a chyrrff y tu allan i'r Cynulliad a oedd yn gallu cynnig cyngor arbenigol iawn, yn arbennig Prifysgol Caerdydd.

Mae'r adroddiad yn ffrwyth gwaith tair blynedd a phump ymholiad blaenorol yn edrych ar agweddau gwahanol ar leihau allyriadau carbon mewn meysydd a ddatganolwyd. Mae'n canolbwyntio ar y cynnydd a wnaeth y Llywodraeth yn erbyn argymhellion yn y pump adroddiad cydran hynny ac mae'n gwneud rhagor o argymhellion trawsbynciol. Mae'n bwysig ceisio gosod yr adroddiad hwn mewn rhyw fath o gyd-destun. Mae'n bwysig cydnabod, ers cyhoeddi'r adroddiad hwn, fod y Gweinidog wedi cyhoeddi strategaeth newid yn yr hinsawdd ei hun, yr ydym yn ei chroesawu. Dylid hefyd cydnabod bod y Llywodraeth wedi gwneud cynnydd yn erbyn rhai o'r argymhellion a'r camau gweithredu o'r adroddiadau pwnc unigol a gyhoeddwyd yn flaenorol, megis mewn perthynas ag ôl-ffitio adeiladau anodd eu cynhesu a'r fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru, sy'n gwneud rôl a phwysigrwydd cynllunio yn yr agenda lleihau carbon yn fwy eglur.

It is also important to set the report in the context of the Government's own stated goals in this particular policy area. 'One Wales' states that

'climate change is a major global threat. We are resolved that this government and the people of Wales will play the fullest possible part in reducing its CO2 emissions. This cannot be a short-term project—there must be radical changes in people's behaviour and their expectations which will require concerted action over the full four year term of the Assembly government.'

Without doubt, and we saw this very much on display yesterday, the Minister has been extremely busy promoting this agenda, not just here in Wales, but on the international stage. If success was to be measured by the number of documents that came out of a department, the performance of this particular department in providing a plethora of new approaches is certainly one that needs to be acknowledged. However, the committee is concerned about the extent to which other Welsh Government Ministers are taking responsibility for carbon reduction within their portfolio areas. I will talk about this a little more when I come to talk about the report's main recommendations.

As a committee, we believe that it is vital for everybody, from Government and organisations to individuals, to play their part in reducing the amount of carbon dioxide that we emit in Wales. However, in doing so, it is essential that we have an accurate picture of the current situation in Wales and of the impact of actions taken to reduce carbon emissions. A lack of available and consistent data was a continuous barrier that committee members faced in carrying out their work.

In this final report, the committee wanted to give a total figure for the amount of carbon that could be saved through implementing all of the headline recommendations from all five individual reports. However, it concerns me greatly that, even with the help of academics from Cardiff University, we were only able to identify potential savings from

Mae hefyd yn bwysig gosod yr adroddiad yng nghyd-destun amcanion y Llywodraeth ei hun yn y maes polisi penodol hwn. Mae 'Cymru'n Un' yn datgan

'mae'r newid yn yr hinsawdd yn fygythiad mawr byd-eang. Rydym yn benderfynol y bydd y lywodraeth hon a phobl Cymru'n gwneud eu gorau glas i leihau ein hallyriadau CO2. Ni all hyn fod yn brosiect byrdymor—rheid cael newidiadau sylfaenol yn ymddygiad pobl ac yn eu disgwyliadau, a bydd gofyn am weithredu ar y cyd yn ystod cyfnod pedair blynedd llawn llywodraeth y Cynulliad.'

Heb amheuaeth, a gwelsom hyn yn amlwg iawn ddoe, bu'r Gweinidog yn hynod brysur yn hyrwyddo'r agenda hon, nid yn unig yma yng Nghymru, ond ar y llwyfan rhyngwladol. Pe bai llwyddiant yn cael ei fesur gan nifer y dogfennau a ddaw allan o adran, mae perfformiad yr adran arbennig hon o ran ddarparu llu o ddulliau newydd yn sicr yn un sydd angen ei gydnabod. Fodd bynnag, mae'r pwyllgor yn bryderus ynghylch y graddau y mae Gweinidogion eraill Llywodraeth Cymru yn cymryd cyfrifoldeb am leihau carbon o fewn eu meysydd portffolio. Byddaf yn ymhelaethu ar hyn pan fyddaf yn siarad am brif argymhellion yr adroddiad.

Fel pwyllgor, credwn ei bod yn hanfodol i bawb, o'r Llywodraeth a sefydliadau i unigolion, chwarae eu rhan i leihau faint o garbon deuocsid rydym yn ei ryddhau yng Nghymru. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, mae'n hanfodol bod gennym ddarlun cywir o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru ac o effaith y camau a gymerwyd i leihau allyriadau carbon. Roedd diffyg data a diffyg cysondeb y data yn rhwystr parhaus a wynebodd aelodau'r pwyllgor wrth gyflawni eu gwaith.

Yn yr adroddiad terfynol hwn, roedd y pwyllgor yn awyddus i wybod beth oedd cyfanswm y carbon y gellid ei arbed trwy weithredu pob un o brif argymhellion y pum adroddiad unigol. Fodd bynnag, mae'n destun pryder mawr imi, hyd yn oed gyda chymorth academyddion o Brifysgol Caerdydd, nad oeddem yn gallu nodi

some headline recommendations based on the previous year's figures. With no data to provide a robust baseline, it is difficult to see how the Welsh Assembly Government will be able to accurately measure progress on implementing its climate change strategy. Recently, the Minister came to the committee to talk about that climate change strategy. I am afraid to say that committee members were concerned, following that session, that they were no more confident in the robustness and consistency of mechanisms for monitoring progress, or in the accessibility of that information if you are not an expert in the field. It was felt important that, if people are to own and to be able to take responsibility for playing their part in reducing carbon emissions, there has to be a greater understanding of the measures that the Minister outlined in that committee session. It certainly posed a challenge as to how we can make that happen in a meaningful way.

This report focuses on the common themes that run across the five sector-specific reports. While the four main cross-cutting areas identified cannot achieve large-scale carbon reductions on their own, we believe that large-scale carbon reduction cannot be achieved without them being addressed.

The first of these themes is planning. We believe that planning, in all its forms, is at the heart of meaningful carbon reduction. The land use planning system was identified repeatedly by its users as a barrier to achieving carbon reduction. We are pleased that the latest version of 'Planning Policy Wales' explicitly states the role of planning in carbon reduction, but there is greater potential for the planning system to be a flagship for carbon reduction in Wales, and that requires strong leadership by the Welsh Assembly Government to ensure that planning officers and the politicians making planning decisions are clear about the priority that should be given to carbon reduction measures. There will be more from the committee on planning in the weeks to come, as we publish our report on planning tomorrow.

Another common theme throughout the evidence that we received was the importance

arbedion posibl o rai o'r prif argymhellion yn seiliedig ar ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Heb unrhyw ddata i roi llinell sylfaen gadarn, mae'n anodd gweld sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu mesur cynnydd yn gywir o ran gweithredu ei strategaeth ar newid yn yr hinsawdd. Yn ddiweddar, daeth y Gweinidog at y pwyllgor i siarad am y strategaeth newid yn yr hinsawdd. Mae gennyf ofn dweud bod aelodau'r pwyllgor yn bryderus, yn dilyn y sesiwn, nad oeddynt fawr fwy hyderus yng nghadernid a chysondeb y mecanweithiau ar gyfer monitro cynnydd, nag yn hygyrchedd y wybodaeth honno os nad ydych yn arbenigwr yn y maes. Teimlwyd ei bod yn bwysig, os yw pobl am berchenogi a chymryd cyfrifoldeb am chwarae eu rhan i leihau allyriadau carbon, bod yn rhaid cael gwell dealltwriaeth o'r mesurau a amlinellodd y Gweinidog yn y sesiwn bwyllgor. Roedd yn sicr yn creu her o ran sut y gallwn wneud i hynny ddigwydd mewn ffordd ystyrlon.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y themâu cyffredin sy'n rhedeg drwy'r pum adroddiad sector-benodol. Er na all y pedwar prif faes trawsbynciol a nodwyd ostwng carbon ar raddfa fawr ar eu pen eu hunain, credwn na ellir lleihau carbon ar raddfa fawr heb roi sylw iddynt.

Y cyntaf o'r themâu hyn yw cynllunio. Credwn fod cynllunio, yn ei holl ffurfiau, yn ganolog i leihau carbon yn ystyrlon. Nodwyd y system cynllunio defnydd tir gan ei defnyddwyr fel rhwystr i leihau allyriadau carbon dro ar ôl tro. Rydym yn falch bod y fersiwn ddiweddaraf o 'Bolisi Cynllunio Cymru' yn dweud yn glir beth yw rôl cynllunio o ran lleihau carbon, ond mae mwy o botensial i'r system gynllunio chwarae rhan flaenllaw i leihau carbon yng Nghymru, a bod angen arweiniad cryf ar hynny gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod swyddogion cynllunio a'r gwleidyddion sy'n gwneud penderfyniadau cynllunio yn glir ynghylch y flaenoriaeth y dylid ei rhoi i fesurau lleihau allyriadau carbon. Bydd mwy o sôn am gynllunio gan y pwyllgor yn ystod yr wythnosau i ddod, gan ein bod yn cyhoeddi ein hadroddiad ar gynllunio yfory.

Thema arall gyffredin yn y dystiolaeth a gawsom oedd pwysigrwydd newid

of behavioural change in achieving carbon reductions in Wales. We were encouraged to hear from most witnesses that they did not consider large-scale changes in our lifestyle or standard of living as necessary. Indeed, it is the small changes made by everyone, and sustained throughout all of our activities, that can make a big impact.

We believe that the Welsh Government needs a strategic, co-ordinated and sustained approach to influencing behaviour, using a variety of methods appropriate to the audience that it is targeting. Several witnesses cited confusion as to who and where to go to for advice on carbon reduction measures as a major barrier to achieving carbon reduction. They also considered that a more proactive approach to providing information and advice is needed, rather than the current situation of waiting for individual approaches.

Members were very impressed with the model that they saw during a visit to Austria, where an agency had been set up in the north Austria region to deal with every inquiry regarding carbon reduction, from the initial inquiry through to assessing any work carried out. It also proactively contacted householders, businesses and public bodies to advise them on its services. Austria is now one of the leading regions for carbon reduction in Europe, and the committee believes that a similar approach should be taken in Wales and has recommended that in all of our reports. That recommendation, unfortunately, has been rejected repeatedly by the Welsh Assembly Government, and we are disappointed that it is willing to overlook the large body of evidence that was collected to suggest that this is needed in favour of maintaining the status quo.

The fourth theme to emerge was that of the importance of integrating policies and plans that impact on carbon reduction, or which have specific goals relating to it. A lack of joined-up thinking and working was considered an unnecessary hurdle in achieving carbon reduction. We were sufficiently concerned about the evidence that emerged to hold a short inquiry into the mainstreaming of sustainability across all

ymddygiad er mwyn gostwng allyriadau carbon yng Nghymru. Cawsom ein calonogi o glywed gan y rhan fwyaf o dystion nad oeddent yn ystyried bod angen newidiadau ar raddfa fawr yn ein ffordd o fyw na safon byw. Yn wir, y newidiadau bach a wneir gan bawb, a'u cynnal drwy gydol ein holl weithgareddau, sy'n gallu cael effaith fawr.

Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull strategol, gydlynus a pharhaus i ddylanwadu ar ymddygiad, gan ddefnyddio amryw o ddulliau sy'n briodol i'r gynulleidfa sy'n cael ei thargedu. Dywedodd sawl tyst fod dryswch ynghylch at bwy i fynd a lle i gael cyngor ar fesurau lleihau allyriadau carbon yn rhwystr mawr i leihau allyriadau carbon. Roeddent hefyd o'r farn bod angen bod yn fwy rhagweithiol wrth ddarparu gwybodaeth a chyngor, yn hytrach na'r sefyllfa bresennol o aros i unigolion ofyn amdano.

Gwnaethpwyd argraff fawr ar yr Aelodau gan y model a welsant yn ystod ymweliad ag Awstria, lle sefydlwyd asiantaeth yn rhanbarth gogledd Awstria i ddelio â phob ymholiad ynghylch lleihau carbon, o'r ymholiad cychwynnol hyd at asesu unrhyw waith a wnaed. Mae hefyd yn mynd ati'n rhagweithiol i gysylltu â pherchnogion tai, busnesau a chyrff cyhoeddus i'w cynghori ar ei wasanaethau. Mae Awstria bellach yn un o'r rhanbarthau mwyaf blaenllaw yn Ewrop ar gyfer lleihau carbon, ac mae'r pwyllgor yn credu y dylai dull tebyg gael ei fabwysiadu yng Nghymru ac mae wedi argymhell hynny ym mhob un o'n hadroddiadau. Yn anffodus, cafodd yr argymhelliad hwnnw ei wrthod dro ar ôl tro gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac rydym yn siomedig ei bod yn barod i anwybyddu'r swmp mawr o dystiolaeth a gasglwyd i awgrymu bod angen hyn yn hytrach na chadw pethau fel ag y maent.

Y bedwaredd thema a ddaeth i'r amlwg oedd pwysigrwydd integreiddio polisiau a chynlluniau sy'n effeithio ar leihau carbon neu sydd â nodau penodol yn ymwneud ag ef. Ystyriwyd bod diffyg meddwl a gweithio yn gydlynus yn rhwystr diangen i leihau allyriadau carbon. Roeddem yn pryderu cymaint am y dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg i gynnal ymchwiliad byr i brif ffrydio cynaliadwyedd ar draws yr holl bortffolios

ministerial portfolios. Our conclusion showed a confused picture, with some Ministers committed to the need to reduce carbon while others claimed little or, frankly, no responsibility for it at all. We look forward to repeating that exercise in the remaining weeks of this Assembly term, and we hope to see evidence that that commitment across the Government has improved since the last time that we took evidence on this.

However, this issue is not just one for the Welsh Assembly Government. We heard examples of a lack of engagement with the carbon reduction agenda on the part of many local authority departments, as well as other public and private sector organisations. We were particularly disappointed that the 'One Wales' carbon reduction commitment will not be achieved—less than 1 per cent of the 3 per cent target will be achieved by the Welsh Assembly Government. Carbon reduction targets will not be achieved until carbon reduction is mainstreamed into every area of policy and implementation, and until full responsibility is taken for this agenda across all levels of the public and private sectors.

4.50 p.m.

I thank the Minister for her formal written response to the report. We are pleased that the majority of our recommendations have been accepted, at least in principle. However, I want to reiterate the committee's disappointment at the rejection once again of the recommendation to establish a one-stop shop for all information and advice relating to carbon emissions. In the light of the evidence that we collected, providing a one-stop shop must be the right approach to take, and it would potentially address concerns around the plethora of different streams for advice at the moment and the use of the money going into those different streams.

In these difficult economic times, I have heard people outside of this Chamber say that we cannot afford to address climate change. I would say to those people that we cannot afford not to. While the implementation of these recommendations may result in increases in expenditure initially, we believe

gweinidogol. Mae ein casgliad yn dangos darlun dryslyd, gyda rhai Gweinidogion wedi ymrwymo i'r angen i leihau carbon tra bod eraill yn cymryd ychydig neu, a dweud y gwir, dim cyfrifoldeb amdano. Edrychwn ymlaen at gynnal yr ymarfer hwnnw eto yn yr wythnosau sy'n weddill o dymor presennol y Cynulliad, ac rydym yn gobeithio gweld tystiolaeth bod yr ymrwymiad hwnnw wedi gwella ar draws y Llywodraeth ers y tro diwethaf i ni gymryd tystiolaeth ar y mater.

Fodd bynnag, nid mater i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn unig yw hwn. Clywsom enghreifftiau o ddiffyg ymgysylltu â'r agenda lleihau carbon ar ran llawer o adrannau awdurdodau lleol, yn ogystal â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Roeddem yn arbennig o siomedig na fydd yr ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i leihau carbon yn cael ei gyflawni-llai nag 1 y cant o'r targed 3 y cant fydd yn cael ei gyflawni gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ni fydd y targedau lleihau carbon yn cael eu cyflawni nes bod lleihau allyriadau carbon yn cael ei brif ffrydio i bob maes polisi a gweithredu, a nes bod cyfrifoldeb llawn yn cael ei gymryd am yr agenda hon ar draws pob lefel o'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

Diolchaf i'r Gweinidog am ei hymateb ysgrifenedig ffurfiol i'r adroddiad. Rydym yn falch bod y rhan fwyaf o'n hargymhellion wedi cael eu derbyn, o leiaf mewn egwyddor. Fodd bynnag, rwyf am ailddatgan siom y pwyllgor am wrthod unwaith eto yr argymhelliad i sefydlu siop un stop ar gyfer yr holl wybodaeth a chyngor am allyriadau carbon. Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gasglwyd gennym ni, sefydlu siop un stop yw'r ffordd iawn i fynd o'i chwmpas hi, a byddai o bosibl yn mynd i'r afael â phryderon am y llu o wahanol ffrydiau am gyngor ar hyn o bryd ac o ran y defnydd o'r arian sy'n mynd i'r gwahanol ffrydiau hynny.

Yn y cyfnod economaidd anodd hwn, clywais bobl y tu allan i'r Siambr hon yn dweud na allwn fforddio mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Byddwn yn dweud wrth y bobl hynny na allwn fforddio peidio. Er y gallai gweithredu'r argymhellion hyn arwain at gynnydd mewn gwariant i ddechrau, credwn

that the benefits will justify any outlay and that the additional benefits, such as the creation of jobs, could contribute to economic recovery in the difficult circumstances that we currently face.

In conclusion, I thank all committee members, who have worked diligently over such a long time on this report, National Assembly staff members for the professional nature of the support that the committee received from them, and all those across Wales who took an interest in the committee's work.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I am pleased to respond to the Sustainability Committee's inquiry into carbon reduction in Wales. I wish to pay tribute to the Sustainability Committee for holding a number of inquiries over the last three years, resulting in topic-based reports on issues such as residential transport, energy production, industry, land use and the public sector, because they have all played an important part in the evidence base that we have used to inform our final climate change strategy and the associated emission reduction delivery plan.

Our strategy outlines how we intend to meet our 'One Wales' target, and how we will enable effective adaptation to the impacts of climate change in the years ahead. As I said to the committee in relation to issues around data, when we made the original commitment as politicians, we had a responsibility as a Government to go away and look at how to deliver that commitment according to the data that already existed, and the data that we would need to have in the future. I share the committee's concern that, for many areas, we still have an inadequate data base because data are not disaggregated at the Welsh level, or because data have not been collected.

However, given the major concern across the UK and Europe about climate change and the fact that we have a piece of climate change legislation at a UK Government level that will lead to data production, we can be confident that data will improve in the future.

y bydd y manteision yn cyfiawnhau unrhyw gost ac y gallai'r manteision ychwanegol, megis creu swyddi, gyfrannu at adfer yr economi yn yr amgylchiadau anodd a wynebwn ar hyn o bryd.

I gloi, hoffwn ddiolch i holl aelodau'r pwyllgor, sydd wedi gweithio'n ddiwyd dros gymaint o amser ar yr adroddiad hwn, aelodau staff y Cynulliad Cenedlaethol am y gefnogaeth broffesiynol a gafodd y pwyllgor ganddynt, ac i bawb ledled Cymru a gymerodd ddiddordeb yng ngwaith y pwyllgor.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Rwyf yn falch o ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i leihau allyriadau carbon yng Nghymru. Hoffwn dalu teyrnged i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd ar gynnal nifer o ymchwiliadau dros y tair blynedd diwethaf, gan arwain at adroddiadau pynciol ar faterion megis defnydd trafndiaeth pobl, cynhyrchu ynni, diwydiant, defnydd tir a'r sector cyhoeddus, gan eu bod i gyd wedi chwarae rhan bwysig fel sail i'r dystiolaeth yr ydym wedi'i defnyddio i lywio ein strategaeth derfynol ar newid yn yr hinsawdd a'r cynllun gwireddu lleihau allyriadau cysylltiedig.

Mae ein strategaeth yn amlinellu sut rydym yn bwriadu cyrraedd ein targed 'Cymru'n Un', a sut y byddwn yn galluogi addasu'n effeithiol i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y blynyddoedd i ddod. Fel y dywedais wrth y pwyllgor mewn perthynas â materion am ddata, pan wnaethom yr ymrwymiad gwreiddiol fel gwleidyddion, roedd gennym gyfrifoldeb fel Llywodraeth i edrych ar sut i gyflawni'r ymrwymiad hwnnw yn ôl y data a oedd yn bodoli eisoes, a'r data y byddai angen arnom yn y dyfodol. Rwy'n rhannu pryder y pwyllgor nad oes gennym gronfa ddata ddigonol ar gyfer llawer o feysydd oherwydd nad yw data yn cael eu dadgyfuno ar lefel Cymru, neu oherwydd nad yw data wedi cael eu casglu.

Fodd bynnag, o ystyried y pryder mawr ar draws y DU ac Ewrop am newid yn yr hinsawdd a'r ffaith bod gennym ddarn o ddeddfwriaeth newid yn yr hinsawdd ar lefel Llywodraeth y DU a fydd yn arwain at gynhyrchu data, gallwn fod yn ffyddiog y

Through work with the Climate Change Commission for Wales and its members, we are determined to use the disaggregated greenhouse inventory, which reports Wales-specific emissions and is an annual data source, to set the baseline to measure progress, and to supplement that with other data sources as required. That was supported strongly by the Climate Change Commission for Wales, and it was reported to the Assembly for its agreement in 2008.

The strategy reflects the culmination of three years of hard work across the Assembly Government, steered by the Climate Change Commission for Wales, and has benefited from key contributions from the commission's various subgroups and wider stakeholders and experts. The approach and measures outlined in the strategy have also been informed by the expert advice of the UK Committee on Climate Change, and other bodies such as the Tyndall Centre for Climate Change Research and the UK climate impacts programme.

The committee's most recent report draws together recommendations from previous reports, and makes a number of further recommendations, the majority of which I have accepted. I have asked my department to take those forward as part of our delivery of the climate change strategy. Therefore, I can say to Members with confidence that the work of the committee has contributed in a major way to how we are taking this policy forward.

We rejected the two recommendations in the committee's report relating to the suggested funding of a one-stop shop as the most efficient means of providing emission reduction and energy efficiency advice to all sectors in Wales. On the basis of current evidence, we do not believe that a one-stop-shop approach is the most effective means of providing advice on these issues. We have seen that businesses, communities and households require more tailored approaches, both in terms of the type of advice and the means by which it is communicated. We are looking to ensure that advice in the future is provided in the most efficient and effective way, and I have commissioned the Energy

bydd data yn gwella yn y dyfodol. Trwy weithio gyda Chomisiwn Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd a'i aelodau, rydym yn benderfynol o ddefnyddio'r rhestr tŷ gwyrdd dadelfenedig, sy'n adrodd am allyriadau penodol i Gymru ac sy'n ffynhonnell ddata flynyddol, i osod y sylfaen i fesur cynnydd, ac i ategu hynny â ffynonellau data eraill yn ôl yr angen. Roedd cefnogaeth gref i hynny gan Gomisiwn Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd, ac fe'i cyflwynwyd i'r Cynulliad gytuno arno yn 2008.

Mae'r strategaeth yn adlewyrchu penllanw tair blynedd o waith caled ar draws Llywodraeth y Cynulliad, wedi ei lywio gan Gomisiwn Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd, ac mae wedi elwa o gyfraniadau allweddol o is-grwpiau amrywiol y comisiwn a rhanddeiliaid ehangach ac arbenigwyr. Mae'r dull a'r mesurau a amlinellir yn y strategaeth hefyd wedi cael eu llywio gan gyngor arbenigol Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd, a chyrrff eraill megis Canolfan Tyndall er Ymchwil i Newid yn yr Hinsawdd a rhaglen effeithiau hinsawdd y DU.

Mae adroddiad mwyaf diweddar y pwyllgor yn dwyn ynghyd argymhellion o adroddiadau blaenorol, ac mae'n gwneud nifer o argymhellion pellach, ac rwyf wedi derbyn y mwyafrif ohonynt. Rwyf wedi gofyn i'm hadran ddatblygu'r rheini fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r strategaeth newid yn yr hinsawdd. Felly, gallaf ddweud yn hyderus wrth yr Aelodau bod gwaith y pwyllgor wedi cyfrannu mewn ffordd fawr i'r modd rydym yn symud y polisi hwn yn ei flaen.

Rydym yn gwrthod y ddau argymhelliad yn adroddiad y pwyllgor yn ymwneud â'r awgrym i gyllido siop un-stop fel y ffordd fwyaf effeithlon o roi cyngor ar leihau allyriadau ac ar effeithlonrwydd ynni i bob sector yng Nghymru. Ar sail y dystiolaeth ar hyn o bryd, nid ydym yn credu mai siop un-stop yw'r ffordd fwyaf effeithiol o roi cyngor ar y materion hyn. Rydym wedi gweld bod busnesau, cymunedau ac aelwydydd angen dulliau sydd wedi'u teilwra'n well, o ran y math o gyngor a sut mae'n cael ei gyfleu. Ein bwriad yw sicrhau bod cyngor yn y dyfodol yn cael ei roi yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol, ac rwyf wedi comisiynu'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a'r

Saving Trust and the Carbon Trust to look at better integration of advice provisions as part of their business planning processes in 2011-12.

Looking more widely at our approach to reducing greenhouse gas emissions, we are fully committed to delivering the package of actions set out in the climate change strategy, so that we meet our commitments. However, there is still a great deal more to do. In each annual report on progress that we and future Governments will submit to the Assembly, I would expect to see new actions being identified, enabling us to update our delivery plans, and I would expect the Sustainability Committee of the future to retain a clear and close interest in this issue.

However, it is worth reflecting for a moment on how far we have come over the period in which the strategy has been developed, particularly in light of confirming sustainable development as our central organising principle. Our area-based approach to domestic energy efficiency through Arbed is delivering real benefits in terms of emission reduction, tackling fuel poverty, improving the quality of the housing stock and creating jobs and business opportunities. The new all-Wales fuel poverty programme, announced last week, will enable us, for the first time, to offer support to hard-to-treat and off-gas grid households to make their homes more energy efficient and reduce energy costs. Although the primary driver is tackling fuel poverty, the scheme has been designed to ensure that it makes a contribution to reducing greenhouse gas emissions.

The committee is rightly interested in land-use planning, and we have taken a range of steps to actively encourage low carbon development, including planning policy specifically in favour of low carbon development and removing barriers to microgeneration. We have secured the devolution of building regulations and are currently developing proposals to put our ambitious zero carbon aspirations into practice and have raised energy performance standards for new buildings. With the support

Ymddiriedolaeth Garbon i edrych ar integreiddio darpariaethau cyngor yn well fel rhan o'u prosesau cynllunio busnes yn 2011 - 12.

Wrth edrych yn fwy eang ar ein dull o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gyflawni'r pecyn o gamau gweithredu a nodir yn y strategaeth newid yn yr hinsawdd, fel ein bod yn cyflawni ein hymrwymiaadau. Fodd bynnag, mae llawer mwy i'w wneud. Ym mhob adroddiad blynyddol ar gynnydd y byddwn ni a Llywodraethau yn y dyfodol yn eu cyflwyno i'r Cynulliad, byddwn yn disgwyl gweld camau gweithredu newydd yn cael eu nodi, gan ein galluogi i ddiweddarau ein cynlluniau cyflwyno, a byddwn yn disgwyl i Bwyllgor Cynaliadwyedd y dyfodol gadw diddordeb clir ac agos yn y mater hwn.

Fodd bynnag, mae'n werth ystyried am eiliad pa mor bell rydym wedi dod dros y cyfnod y datblygwyd y strategaeth, yn enwedig yng ngoleuni cadarnhau datblygu cynaliadwy fel ein hegwyddor drefnu ganolog. Mae ein dull sy'n seiliedig ar ardaloedd o ran effeithlonrwydd ynni yn y cartref yng nghynllun Arbed yn cyflwyno manteision gwirioneddol o ran lleihau allyriadau, mynd i'r afael â thlodi tanwydd, gwella ansawdd y stoc tai a chreu swyddi a chyfleoedd busnes. Bydd y rhaglen tlodi tanwydd Cymru gyfan newydd, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, yn ein galluogi, am y tro cyntaf, i gynnig cefnogaeth i gartrefi anodd eu trin ac oddi ar y grid nwy i wneud eu cartrefi'n fwy ynni effeithlon a lleihau costau ynni. Er mai'r prif fwrriad yw mynd i'r afael â thlodi tanwydd, bwriad y cynllun hefyd yw sicrhau ei fod yn cyfrannu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae gan y pwyllgor ddiddordeb priodol mewn cynllunio defnydd tir, ac rydym wedi cymryd amryw o gamau i annog datblygiad carbon isel, gan gynnwys polisi cynllunio yn benodol o blaid datblygu carbon isel a dileu rhwystrau i feicrogynhyrchu. Rydym wedi sicrhau bod rheoliadau adeiladu yn cael eu datganoli, ac rydym ar hyn o bryd yn datblygu cynigion i roi ein dyheadau digarbon ar waith ac wedi codi safonau perfformiad ynni ar gyfer adeiladau newydd. Gyda chefnogaeth y cronfeydd strwythurol

of the European structural funds, we have enabled access to advice and support for community-scale renewable energy projects. I am delighted that the committee has rightly concentrated on the need for a comprehensive approach to stimulate behavioural change, informed by evidence of which interventions are effective, and one which actively supports and stimulates local solutions and community responses. Our time-banking project and the Pathfinder programme will enable us to test a range of models, and a number of organisations are now tasked with that responsibility over the next year.

I hope that those few examples, and the response that I have provided to the committee's final report and the update on the headline recommendations of the previous reports, make it clear that real progress is being made, not least thanks to the committee. The National Assembly for Wales will have an important role to play in the future in encouraging delivery of this agenda and in considering the annual report on progress that the Assembly Government will submit, as required by the Climate Change Act 2008. I absolutely concur with the Chair of the committee that all levels of the public and private sectors must be involved in this agenda and that we cannot afford not to take this challenge seriously.

Angela Burns: I am delighted to be able to speak today in support of the committee's report, which, as has already been said, is a headline report, drawing together five reports on the importance of carbon reduction in various sectors in Wales. None of us needs to rehearse the arguments about why climate change is so important and why we need to start taking measures now. I could talk in great depth about each of those reports, the recommendations that were rejected, those that were accepted, why action on some of those that were accepted has not worked well as yet and why it was a bad and sad idea to reject some of those that were rejected.

5.00 p.m.

Ewropeaidd, rydym wedi galluogi mynediad at gyngor a chefnogaeth i brosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol. Rwyf wrth fy modd fod y pwyllgor wedi canolbwyntio'n briodol ar yr angen am ymagwedd gynhwysfawr i ysgogi newid ymddygiad, a hynny'n seiliedig ar dystiolaeth o ba ymyriadau sy'n effeithiol, ac yn un sy'n rhoi cefnogaeth weithredol ac sy'n ysgogi atebion lleol ac ymatebion cymunedol. Bydd ein prosiect bancio amser a'r rhaglen Pathfinder yn ein galluogi i brofi amryw o fodelau, ac mae nifer o sefydliadau bellach wedi cael y cyfrifoldeb hwnnw dros y flwyddyn nesaf.

Rwyf yn gobeithio bod yr ychydig enghreifftiau hynny, a'r ymateb a roddais i adroddiad terfynol y pwyllgor a'r wybodaeth ddiweddaraf am brif argymhellion yr adroddiadau blaenorol, yn ei gwneud yn glir fod cynnydd go iawn yn cael ei wneud, gyda diolch yn enwedig i'r pwyllgor am hynny. Bydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru rôl bwysig i'w chwarae yn y dyfodol o ran annog yr agenda hon i gael ei gwredu ac wrth ystyried yr adroddiad blynyddol ar gynnydd y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei gyflwyno, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Cytunaf yn llwyr â Chadeirydd y pwyllgor bod yn rhaid i bob lefel yn y sectorau cyhoeddus a phreifat gymryd rhan yn yr agenda hon ac na allwn fforddio peidio â chymryd yr her hon o ddifrif.

Angela Burns: Rwyf yn falch iawn o siarad heddiw i gefnogi adroddiad y pwyllgor, sydd, fel y dywedwyd eisoes, yn adroddiad pennawd, gan gyfuno pum adroddiad ar bwysigrwydd lleihau carbon mewn gwahanol sectorau yng Nghymru. Nid oes angen i'r un ohonom ailadrodd y dadleuon ynghylch pam fod newid yn yr hinsawdd mor bwysig a pham y mae angen i ni ddechrau cymryd camau yn awr. Gallwn siarad yn fanwl iawn am bob un o'r adroddiadau hynny, yr argymhellion a gafodd eu gwrthod, y rhai a gafodd eu derbyn, pam nad yw gweithredu ar rai o'r rheini a gafodd eu derbyn wedi gweithio'n dda hyd yma a pham ei fod yn syniad gwael a thrist i wrthod rhai a gafodd eu gwrthod.

However, I am not going to do that. I simply want to talk about the fact that we are on a hiding to nothing until we understand clearly how we will measure our performance. We have talked about this in all sorts of committees in the past, and in all sorts of debates. Whether our indicators are to do with sustainable development, biodiversity, or, in this case, carbon reduction, until we have a defined and consistent methodology that is fluid enough to expand with changing times, then we can have all the targets in the world, and can tell ourselves how wonderfully we are doing, launching initiative after initiative, but we will be kidding ourselves. Unless it is measurable, we cannot put our hands on our hearts and say that we have reached the 3 per cent carbon reduction target.

I am extremely concerned that, as a committee, we were unable to truly quantify the positive effects that our suggestions for carbon reduction might have, because the data is not there. We tried to involve academics in this, but they were not able to help us, despite being the best brains in Wales in this field. If they do not know and the Government does not know, then no matter how positively the Minister talks about some of these things, we will continue to have these shifting sands. The measurability of our effectiveness and performance in relation to this agenda has been recognised as an issue time and again. So, my No. 1 plea, after these five amazing reports, all the hard work of the committee, and the exceptionally hard work of the clerks and researchers, is this: that the Government settles upon clear, sustainable, measurable, consistent indicators, so that we can stand here in a few years' time and say, 'Yes, Wales did it—we achieved this against our baseline'. Without that, I think that all of this sounds fantastic, but convinces no-one. I will be honest—it convinces me least of all.

Brian Gibbons: I will start by congratulating the Sustainability Committee on this document, which is substantial by anyone's standards. It is an important record and critique of the work that has been undertaken

Fodd bynnag, nid wyf yn mynd i wneud hynny. Y cyfan rwyf am ei ddweud yw nad oes gennym obaith nes ein bod yn deall yn glir sut y byddwn yn mesur ein perfformiad. Rydym wedi sôn am hyn mewn pob math o bwyllgorau yn y gorffennol, ac ym mhob math o ddadleuon. Pa un a yw ein dangosyddion yn ymwneud â datblygu cynaliadwy, bioamrywiaeth, neu, yn yr achos hwn, lleihau carbon, nes inni gael methodoleg diffiniedig a chyson sy'n ddigon hyblyg i ehangu gyda threigl amser, yna gallwn feddu ar yr holl dargedau yn y byd, a dweud wrth ein hunain pa mor rhyfeddol rydym yn ei wneud, gan lansio menter ar ôl menter, ond byddwn yn ein twyllo ein hunain. Oni bai ei fod yn fesuradwy, ni allwn dyngu llw a dweud ein bod wedi cyrraedd y targed o leihau carbon 3 y cant.

Rwyf yn bryderus dros ben nad oeddem, fel pwyllgor, yn gallu gwir fesur yr effeithiau cadarnhaol y gallai ein hawgrymiadau ar gyfer lleihau carbon eu cael, gan nad yw'r data yno. Gwnaethom geisio cynnwys academyddion yn hyn, ond nid oeddent yn gallu ein helpu, er mai hwy sydd gan yr ymennyddiau gorau yng Nghymru yn y maes hwn. Os nad ydynt hwy yn gwybod ac os nad yw'r Llywodraeth yn gwybod, yna waeth pa mor gadarnhaol mae'r Gweinidog yn sôn am rai o'r pethau hyn, byddwn yn parhau i fod ar dir simsan. Mae mesur ein heffeithiolrwydd a'n perfformiad mewn perthynas â'r agenda hon wedi cael ei gydnabod fel problem dro ar ôl tro. Felly, fy mhrif ble, ar ôl y pum adroddiad anhygoel hyn, ar ôl holl waith caled y pwyllgor, a gwaith called eithriadol y clerod a'r ymchwilyr, yw hyn: bod y Llywodraeth yn penderfynu ar ddangosyddion clir, cynaliadwy, mesuradwy a chyson, fel y gallwn sefyll yma ymhen ychydig flynyddoedd a dweud, 'Do, cyflawnodd Cymru hyn yn erbyn y llinell sylfaen'. Heb hynny, rwyf yn meddwl bod hyn i gyd yn swnio'n wych, ond yn argyhoeddi neb. Byddaf yn onest—mae'n fy argyhoeddi i leiaf oll.

Brian Gibbons: Rwyf am ddechrau drwy longyfarch y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar y ddogfen hon, sy'n sylweddol yn ôl safonau unrhyw un. Mae'n gofnod a sylwebaeth bwysig o'r gwaith sydd wedi'i wneud yng

in Wales to address the challenge of climate change and global warming. For all of that, I must admit that I am not convinced. Despite the recommendations and the clear desirability of the overall objectives, it is highly unlikely that we will ever be able to reach the annual 3 per cent emissions reduction target. The report mentions a number of other important data that are required, and methodological challenges, just to monitor what goes on. Indeed, the Minister agreed with that point.

There is a further problem that I did not see referred to in the report, in that the baseline for evaluating success will take data from the years between 2006 and 2010, which will include the recession. That is likely to further depress the baseline on which the calculation is made. The years 2006-08 show a fairly static picture of between 47 and 50 megatonnes of total greenhouse gas emissions in Wales. We do not have the figures for 2009-10, but if they were to mirror what is going on at a UK level, there will be a substantial decline in 2009 at least, and probably an equal decline in 2010. This will severely depress the baseline and make achieving the targets all the more challenging. At the same time, virtually all commentators predict that, short of there being a double-dip recession, a gradual recovery will drive up emissions over the years from 2011 in a somewhat artificial way. We will have a significantly changed baseline and an unpredictable response to that, which in purely methodological terms will greatly augment the challenge of meeting the 3 per cent target. That is not mentioned in the report.

In November 2009, the Assembly Government set a target of reducing carbon dioxide emissions by 40 per cent by 2020, starting from the base of 43 megatonnes in 1990. However, the latest figures that we have, which I think were published in December 2010, show that, in the 18 years following 1990, the total carbon dioxide reduction was 2.5 per cent. We are proposing a 3 per cent annual reduction in total greenhouse gas emissions. If you look at the

Nghymru i fynd i'r afael â her newid yn yr hinsawdd a chynhesu byd-eang. Er hynny, rhaid i mi gyfaddef nad wyf wedi fy argyhoeddi. Er gwaethaf yr argymhellion a pha mor ddymunol fyddai gwireddu'r amcanion cyffredinol, mae'n annhebygol iawn y byddwn byth yn gallu cyrraedd y targed lleihau allyriadau o 3 y cant bob blwyddyn. Mae'r adroddiad yn sôn am nifer o ddata pwysig eraill sydd eu hangen, ynghyd â heriau methodolegol, dim ond i fonitro'r hyn sy'n digwydd. Yn wir, cytunodd y Gweinidog â'r pwynt hwnnw.

Mae problem arall na welais gyfeiriad ati yn yr adroddiad, sef y bydd y llinell sylfaen i werthuso llwyddiant yn cymryd data o'r blynyddoedd rhwng 2006 a 2010, a fydd yn cynnwys y dirwasgiad. Mae hynny'n debygol o ostwng y llinell sylfaen y seiliwyd y cyfrifiad arno ymhellach. Mae'r blynyddoedd rhwng 2006-08 yn dangos darlun gweddol sefydlog o rhwng 47 a 50 megatunnell o allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Nid oes gennym ffigurau ar gyfer 2009-10, ond pe baent yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd ar lefel y DU, bydd gostyngiad sylweddol yn 2009 o leiaf, a dirywiad cyfartal yn ôl pob tebyg yn 2010. Bydd hyn yn gostwng y llinell sylfaen yn ddifrifol ac yn gwneud y gwaith o gyflawni'r targedau yn fwy heriol. Ar yr un pryd, mae'r rhan fwyaf o sylwebyddion yn rhagweld, a chymryd na fydd dirwasgiad dwbl, y bydd adferiad graddol yn cynyddu allyriadau yn y blynyddoedd o 2011 a hynny mewn ffordd braidd yn artiffisial. Bydd gennym linell sylfaen sydd wedi newid yn sylweddol ac ymateb anrhagweladwy i hynny, sydd mewn termau methodolegol yn unig yn ychwanegu'n sylweddol at yr her o gwrdd â'r targed 3 y cant. Nid yw hynny'n cael ei grybwyll yn yr adroddiad.

Ym mis Tachwedd 2009, gosododd Llywodraeth y Cynulliad darged o leihau allyriadau carbon deuocsid 40 y cant erbyn 2020, gan ddechrau o sylfaen o 43 megatunnell yn 1990. Fodd bynnag, dengys y ffigurau diweddaraf sydd gennym, a thybiaf y cawsant eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2010, yn y 18 mlynedd ar ôl 1990, mai cyfanswm y lleihad carbon deuocsid oedd 2.5 y cant. Rydym yn cynnig gostyngiad o 3 y cant y flwyddyn o ran y cyfanswm o allyriadau

greenhouse gas basket over those 18 years, you will see that the average reduction was 0.55 per cent against a total target that we are setting ourselves of 3 per cent. Therefore, quite apart from the changes in the baseline and the consequent changes in economic activity, we face an absolutely formidable challenge and I do not think that the report, notwithstanding all the hard work that has gone into it, even begins to scratch the surface.

Wales is a high-carbon economy, without any doubt. Indeed, it is in the top half dozen carbon-intensive economies in the world. Our levels of carbon emission are 150 per cent higher than in England and Scotland, and 75 per cent of the per capita emission rate of the USA. Therefore, if we are going to set about delivering a 3 per cent reduction, there will be significant challenges in addressing that target. Equally, given that our high carbon intensity is due to Wales's economic base, there will then be substantial social and economic consequences of delivering that target. I did not see anything in the committee's report that began to even vaguely address that fundamental challenge. There were many references to planning, a one-stop shop for advice and information, behavioural change, joined-up Government and the importance of the private and public sectors taking responsibility and demonstrating greater accountability, however, I did not see any recognition of the scale of the challenge, in terms of the feasibility or the realism of the delivery of that challenge or in addressing the socioeconomic consequences for people here in Wales.

Rhodri Morgan: In agreeing with the Member that there are very few stockbrokers and an awful lot of steelworkers in Wales, and given that the contrast between the two ends of the M4 could not be starker, has he also sought to see whether the committee has addressed the issue of carbon leakage? You could reduce Wales's carbon emissions by shutting down steelworks, which would then reopen in countries with far more lax regulations, and which would mean that the world would be worse off, even though we would achieve our figures. However, to what

nwyon tŷ gwydr. Os edrychwch ar y fasedd nwyon tŷ gwydr dros y 18 mlynedd hynny, gwelwch mai'r gostyngiad ar gyfartaledd oedd 0.55 y cant yn erbyn cyfanswm targed rydym wedi ei osod i ni'n hunain o 3 y cant. Felly, ar wahân i'r newidiadau yn y llinell sylfaen a'r newidiadau dilynol mewn gweithgarwch economaidd, rydym yn wynebu her aruthrol ac nid wyf yn credu bod yr adroddiad, er gwaethaf yr holl waith caled a aeth iddo, hyd yn oed dechrau crafu'r wyneb.

Mae Cymru yn economi carbon uchel, heb unrhyw amheuaeth. Yn wir, mae yn yr hanner dwsin uchaf o economïau carbon-ddwys yn y byd. Mae ein lefelau allyriadau carbon 150 y cant yn uwch na Lloegr a'r Alban, a 75 y cant o gyfradd allyriadau y pen yr UDA. Felly, os ydym am fynd ati i wireddu gostyngiad o 3 y cant, bydd heriau sylweddol yn ein hwynebu wrth fynd i'r afael â'r targed hwnnw. Yn yr un modd, o ystyried bod ein dwysedd carbon uchel yn ganlyniad i sylfaen economaidd Cymru, bydd goblygiadau cymdeithasol ac economaidd sylweddol o ran cyrraedd y nod hwnnw. Ni welais unrhyw beth yn adroddiad y pwyllgor a ddechreuodd hyd yn oed i fynd i'r afael yn fras â'r her sylfaenol honno. Roedd llawer o gyfeiriadau at gynllunio, siop un-stop ar gyfer cyngor a gwybodaeth, newid ymddygiad, Llywodraeth sy'n gweithredu'n gydlynus a phwysigrwydd y sector preifat a'r sector cyhoeddus o ran cymryd cyfrifoldeb a dangos mwy o atebolrwydd, fodd bynnag, ni welais unrhyw gydnabyddiaeth o raddfa yr her, o ran pa mor ymarferol neu ba mor realistig yw cyflwyno'r her honno neu o ran mynd i'r afael â'r canlyniadau economaidd-gymdeithasol i bobl yma yng Nghymru.

Rhodri Morgan: Wrth gytuno â'r Aelod nad oes fawr o froceriaid stoc a llawer iawn o weithwyr dur yng Nghymru, ac o ystyried na allai'r cyferbyniad rhwng dau ben yr M4 fod yn fwy, a yw hefyd wedi ceisio gweld a wnaeth y pwyllgor fynd i'r afael â'r broblem o ddadleoli carbon? Gallech leihau allyriadau carbon Cymru drwy gau gweithfeydd dur, a fyddai wedyn yn ailagor mewn gwledydd gyda rheoliadau llawer mwy llac, a fyddai'n golygu y byddai'r byd yn waeth lle, er y byddem ni yn cyflawni ein ffigurau. Fodd bynnag, i ba ddiben? Byddai hwnnw'n

end? That would be to no end whatsoever.

Brian Gibbons: That, in part, is one of the reasons why Wales has such high carbon intensity compared with England, because, to a certain extent, we are bearing the carbon burden for the rest of the United Kingdom and, in many instances, because we are involved in export industries, we are avoiding the export of carbon as a consequence. That is an important point.

As this Assembly is coming to an end, we will not be able to address these particular challenges. However, greater realism is needed as the next Welsh Assembly Government and the next National Assembly for Wales take on the challenge of what is a very difficult issue.

Nick Ramsay: I am probably at risk of sounding more optimistic about this issue than some of the Minister's own party members. I welcome the large amount of work that has gone into this report and the work of Kirsty Williams, Angela Burns and other members of the committee. As Kirsty Williams acknowledged, and as Brian Gibbons restated, this is a hugely challenging agenda, whichever way you look at it, particularly in these economic times. It is vital for everyone, from the Government to organisations and individuals, to play their part in reducing the amount of carbon dioxide that we emit in Wales and to help us move towards a lower carbon economy. That will help to secure the environment for us and for future generations.

I have a few comments to make on some of the report's headline recommendations and the Government's response. I am pleased that the Government has accepted recommendation 2 in principle and accepted recommendation 5. Recommendation 1 calls on the Assembly Government to

'review its responses to the Committee's reports in the light of a full cost benefit analysis of our headline recommendations.'

There cannot be any doubt that the use of a cost-benefit analysis of the headline recommendations has to play a part in the Government's response and in the Assembly

cyflawni dim.

Brian Gibbons: Dyna, yn rhannol, un o'r rhesymau pam mae gan Gymru ddwysedd carbon uchel o gymharu â Lloegr, oherwydd, i ryw raddau, rydym yn cymryd arnom faich carbon gweddill y Deyrnas Unedig ac, mewn sawl achos, gan ein bod yn cymryd rhan mewn diwydiannau allforio, rydym yn osgoi allforio carbon o ganlyniad. Mae hwnnw'n bwynt pwysig.

Gan fod y Cynulliad hwn ar fin dod i ben, ni fyddwn yn gallu mynd i'r afael â'r heriau penodol hyn. Fodd bynnag, mae angen mwy o realaeth wrth i Lywodraeth nesaf Cynulliad Cymru a'r Cynulliad nesaf ymgymryd â'r her o'r hyn sydd yn fater anodd iawn.

Nick Ramsay: Mae'n debyg fy mod mewn perygl o swnio'n fwy optimistaidd am y mater hwn na rhai o aelodau plaid y Gweinidog ei hun. Croesawaf y gwaith mawr sydd wedi'i wneud ar yr adroddiad hwn a gwaith Kirsty Williams, Angela Burns ac aelodau eraill y pwyllgor. Fel y cydnabu Kirsty Williams, ac fel y gwnaeth Brian Gibbons ailddatgan, mae hon yn agenda hynod heriol, pa bynnag ffordd yr edrychwch arni, yn enwedig yn y cyfnod economaidd hwn. Mae'n hanfodol i bawb, o'r Llywodraeth i sefydliadau ac unigolion, chwarae eu rhan i leihau faint o garbon deuocsid rydym yn ei ryddhau yng Nghymru ac i'n helpu i symud at economi carbon is. Bydd hynny'n helpu i ddiogelu'r amgylchedd i ni ac i genedlaethau'r dyfodol.

Mae gen i ychydig o sylwadau i'w gwneud ar rai o brif argymhellion yr adroddiad ac ymateb y Llywodraeth. Rwyf yn falch bod y Llywodraeth wedi derbyn argymhelliad 2 mewn egwyddor ac yn derbyn argymhelliad 5. Mae argymhelliad 1 yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i

'adolygu ei hymatebion i adroddiadau'r Pwyllgor yn sgil dadansoddiad llawn o gost a budd ein prif argymhellion.'

Nid oes amheuaeth y dylai'r defnydd o'r dadansoddiad cost a budd o'r prif argymhellion chwarae rhan yn ymateb y Llywodraeth ac yng nghamau gweithredu

Government's actions. That ties in with Brian Gibbons's comments about how we need realism in the debate.

5.10 p.m.

I am pleased that the Minister has accepted recommendation 2 in principle, which calls for a full costing to be produced in relation to the carbon saved and the financial implications of the measures that are intended to be implemented through the carbon reduction strategy. I also note the Minister's comments that, if it is proving difficult for the Assembly Government to meet its emissions targets, we need to look at ways of incentivising a change in behaviour if voluntary and other methods of implementation are not shown to be effective.

I was a little concerned by the Minister's reluctance to accept, in any part, the recommendation regarding one-stop shops—indeed, she totally rejected it. I appreciate that the important issue of advice can be complex, but it is disappointing that the Minister has not committed to having a one-stop shop solution or indeed to investigating that type of solution. We have seen it in other areas; a one-stop shop brings together different types of advice and guidance, and it is recognised as a way for people to access information in all areas of life. Therefore, I was disappointed with that. I see that the Minister says in her response that

'a "one stop shop" is not the most effective mechanism to deliver that objective and, given the current split of responsibilities for funding key bodies in Wales, it would lead to significant duplication with services that are core-funded by the UK Government'.

I do think that, given the work that the committee has done, that is something of a smokescreen. We do not want duplication, but I think that that could be avoided while pursuing the one-stop shop option. For example, in upper Austria, which has an established regional Government, they have a scheme that will, in the long term, lead to a significant reduction in duplication, even

Llywodraeth y Cynulliad. Mae hynny'n cydfynd â sylwadau Brian Gibbons bod angen realaeth yn y ddadl.

Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn argymhelliad 2 mewn egwyddor, sy'n galw am gynhyrchu costau llawn mewn perthynas â'r carbon a arbedwyd a goblygiadau ariannol y mesurau y bwriedir eu gweithredu drwy'r strategaeth lleihau carbon. Nodaf hefyd sylwadau'r Gweinidog, sef os bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei chael yn anodd i gyrraedd ei thargedau allyriadau, mae angen i ni edrych ar ffyrdd o annog newid mewn ymddygiad os nad yw ffyrdd gwirfoddol a ffyrdd eraill o weithredu yn profi'n aneffeithiol.

Roeddwn hefyd yn pryderu ychydig am amharodrwydd y Gweinidog i dderbyn, hyd yn oed yn rhannol, yr argymhelliad ynghylch siopau un-stop—yn wir, fe'i gwrthododd yn llwyr. Rwyf yn sylweddoli y gall y mater pwysig o roi cyngor fod yn gymhleth, ond mae'n siomedig nad yw'r Gweinidog wedi ymrwymo i gael ateb siop un-stop nag yn wir i ymchwilio i'r math hwnnw o ateb. Rydym wedi ei weld mewn meysydd eraill; mae siopau un-stop yn dod â gwahanol fathau o gyngor a chanllawiau at ei gilydd, ac mae'n cael eu cydnabod fel ffordd i bobl gael gafael ar wybodaeth ym mhob agwedd ar fywyd. Felly, roeddwn yn siomedig â hynny. Gwelaf fod y Gweinidog yn dweud yn ei hymateb nad

siop un-stop yw'r ffordd fwyaf effeithiol i gyflawni'r amcan hwnnw ac, o ystyried rhaniad presennol y cyfrifoldebau i ariannu cyrff allweddol yng Nghymru, byddai'n arwain at ddyblygu sylweddol gyda gwasanaethau sy'n cael arian craidd gan Lywodraeth y DU.

O ystyried y gwaith a wnaeth y pwyllgor, credaf fod hynny'n cuddio dipyn ar y gwirionedd. Nid ydym am ddyblygu, ond credaf y gellid osgoi hynny tra'n mynd ar drywydd yr opsiwn siop un-stop. Er enghraifft, yn Awstria Uwch, sydd â Llywodraeth ranbarthol sefydledig, mae ganddynt gynllun a fydd, yn y tymor hir, yn arwain at ostwng dyblygu yn sylweddol, er y

though it was argued that that would stand in the way of having a one-stop shop system in that part of Austria and not in the rest of Austria. Therefore, if it can be done there, and if they can satisfactorily give guidance to their citizens as to what is acceptable, I do not see why we cannot do that here.

There are a number of immense challenges ahead if we want to tackle this agenda effectively. While there has been much good practice across Wales—and I know that the Minister is passionate about this issue—I hope that we can build on what has been done for the future. I am pleased that some of the committee's headline recommendations have been accepted, but, as I say, I regret the fact that that has not happened in other areas.

My colleague, Angela Burns, raised the issue of the availability of data and it is strange that we do keep coming back to this issue in different debates. We all accept that data are vital if we are to have the appropriate evidence base to get to grips with the problems with which we are dealing. I was concerned that, on page 26 of the report, it was stated that the availability of data in Wales is patchy to say the least. We are a pretty small country, and so I would expect us as Assembly Members, and committees of the Assembly, to have appropriate data available at our fingertips if we want to tackle these issues.

I appreciate what Kirsty Williams said about the planning issue, and it was touched on slightly by the Minister. I look forward to the further work that will be done on the planning issue. It is a challenging area, but I am pleased to see the progress that has been made, as outlined in the report.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): It is fair to say that the Climate Change Commission has wrestled with the issue of data for a couple of years. It was not possible to talk in detail about the disaggregated greenhouse gas inventory in the short time available in the discussions in committee, as it is highly technical. The Climate Change Commission agreed—and I

dadleuwyd y byddai hynny'n sefyll yn ffordd cael system siop un-stop yn y rhan honno o Awstria ac nid yng ngweddill Awstria. Felly, os gellir ei wneud yno, ac os ydynt yn gallu rhoi arweiniad boddhaol i'w dinasyddion o ran yr hyn sy'n dderbyniol, ni welaf pam na allwn wneud hynny yma.

Mae nifer aruthrol o heriau o'n blaenau os ydym am fynd i'r afael â'r agenda hon yn effeithiol. Er y bu llawer o arfer da ledled Cymru—a gwn fod y Gweinidog yn angerddol am y mater hwn—rwyf yn gobeithio y gallwn adeiladu ar yr hyn a wnaed ar gyfer y dyfodol. Rwyf yn falch bod rhai o brif argymhellion y pwyllgor wedi cael eu derbyn, ond, fel y dywedais, rwyf yn gresynu at y ffaith nad yw hynny wedi digwydd mewn meysydd eraill.

Mae fy nghyd-Aelod, Angela Burns, wedi codi mater y data sydd ar gael ac mae'n rhyfedd ein bod yn dal i ddod yn ôl at y mater hwn mewn gwahanol ddadleuon. Rydym i gyd yn derbyn bod data yn hanfodol os ydym i gael y sylfaen dystiolaeth briodol i fynd i'r afael â'r problemau yr ydym yn delio â hwy. Roeddwn yn bryderus, ar dudalen 26 o'r adroddiad, y dywedwyd bod y data sydd ar gael yng Nghymru yn fratiog a dweud y lleiaf. Rydym yn wlad fach iawn, ac felly byddwn yn disgwyl i ni fel Aelodau'r Cynulliad, a phwyllgorau'r Cynulliad, gael y data priodol ar flaen ein bysedd os ydym am fynd i'r afael â'r materion hyn.

Rwyf yn gwerthfawrogi'r hyn a ddywedodd Kirsty Williams am y mater cynllunio, a soniodd y Gweinidog ychydig amdano. Edrychaf ymlaen at y gwaith pellach a fydd yn cael ei wneud ar y mater cynllunio. Mae'n faes heriol, ond rwyf yn falch o weld y cynnydd a wnaed, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Mae'n deg dweud bod y Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd wedi bod yn ymaflyd â'r mater o ddata ers ychydig o flynyddoedd. Nid oedd modd siarad yn fanwl am y rhestr o nwyon tŷ gwydr dadelfenedig yn yr amser byr oedd ar gael yn nhrefodaethau'r pwyllgor, gan ei fod yn dechnegol iawn. Cytunodd y Comisiwn ar y Newid yn yr

reported on this to the Assembly at the time—that we would look at having a baseline that was an average of the relevant emissions between 2006 and 2010, not least because, as Brian has said, if there is a major economic change in any one year, and if you used a single year as a baseline, you could end up with a very skewed relationship in terms of the reduction in emissions. Therefore, the committee agreed that the data from 2006 to 2010—and therefore using the most up-to-date data from 2010 as part of that—provided an appropriate baseline. All Members need to have an understanding of these data. There is strength in the greenhouse gas inventory data, because they have been published yearly for some time. The data had to be disaggregated to the Welsh level, but they are solid data that are measurable across the whole of the United Kingdom and elsewhere.

The point that Rhodri Morgan quite rightly made about carbon leakage is a matter that has concerned us greatly, and we have worked with the Committee on Climate Change on this. The big emitters caught by the EU emissions trading scheme are outside our target. That is very important, because the UK committee's report states clearly that we would not want to see any carbon leakage that meant that what is probably the most environmentally friendly steel plant in Europe would be sent somewhere else in the world where it would not be as environmentally friendly.

Therefore, I will undertake to write a letter to all Assembly Members to explain the data sources in order to help Members as they go into the next Assembly.

Kirsty Williams: In the short time that is left, I thank everyone for their contributions this afternoon. I thank the Minister for promising to write to all Assembly Members, because, Brian, you seem to be labouring under the misapprehension that the 3 per cent target is the committee's target; it is a One Wales Government target. All of the work that the Minister has been doing over the last four years has been done in response to that 3 per cent target. I am glad that the Minister has committed to writing to outline why she has chosen the baseline data.

Hinsawdd—ac adroddais ar hyn i'r Cynulliad ar y pryd—y byddem yn edrych ar gael llinell sylfaen a oedd yn gyfartaledd o'r allyriadau perthnasol rhwng 2006 a 2010, yn bennaf oherwydd, fel y dywedodd Brian, os bydd newid economaidd mawr mewn unrhyw flwyddyn benodol, ac os ydych yn defnyddio un flwyddyn benodol fel llinell sylfaen, gallech fod â pherthynas gamarweiniol iawn yn y diwedd o ran y gostyngiad mewn allyriadau. Felly, cytunodd y pwyllgor fod y data rhwng 2006-2010—ac felly ddefnyddio'r data mwyaf diweddaraf o 2010 fel rhan o hynny—yn darparu llinell sylfaen briodol. Mae angen i'r holl Aelodau ddeall y data. Mae cryfder yn y data rhestr nwyon tŷ gwydr, gan eu bod wedi cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ers peth amser. Mae'r data wedi cael ei ddadgyfuno i lefel Cymru, ond maent yn ddata cadarn sy'n fesuradwy ledled y Deyrnas Unedig a manau eraill.

Gwnaeth Rhodri Morgan bwynt digon cywir am y ffaith bod dadleoli carbon yn fater sydd wedi peri pryder mawr i ni, ac rydym wedi gweithio gyda'r Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd ar hyn. Mae'r allyrwyr mawr sy'n rhan o gynllun masnachu allyriadau'r UE y tu allan i'n targed. Mae hynny'n bwysig iawn, oherwydd bod adroddiad pwyllgor y DU yn dweud yn glir na fyddem am weld unrhyw ddadleoli carbon a oedd yn golygu bod yr hyn mae'n debyg yw'r gwaith dur mwyaf ecogyfeillgar yn Ewrop yn cael ei anfon i rywle arall yn y byd lle na fyddai mor ecogyfeillgar.

Felly, byddaf yn ymgymryd i ysgrifennu llythyr at holl Aelodau'r Cynulliad i esbonio'r ffynonellau data er mwyn helpu Aelodau ar ddechrau'r Cynulliad nesaf.

Kirsty Williams: Yn yr amser byr sydd ar ôl, diolch i bawb am eu cyfraniadau'r prynhawn yma. Diolch i'r Gweinidog am addo i ysgrifennu at holl Aelodau'r Cynulliad, oherwydd, Brian, ymddengys eich bod o dan yr argraff anghywir mai 3 y cant yw targed y pwyllgor; targed Llywodraeth Cymru'n Un ydyw. Mae'r holl waith y mae'r Gweinidog wedi ei wneud dros y pedair blynedd diwethaf wedi cael ei wneud i ymateb i'r targed 3 y cant. Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi ymrwymo i ysgrifennu i amlinellu pam ei bod wedi dewis y data

sylfaenol.

Brian Gibbons: I do not think that you can get away with it that easily, Kirsty. The whole Assembly voted unanimously to get the 40 per cent target, so we are all in this together—to coin a phrase. Do not just blame the Minister.

Kirsty Williams: We are indeed, Brian, and that is what was so disappointing about your contribution this afternoon. You seemed to be starting from the point of view that it is impossible to do it. The Minister pointed out that it is for her to choose the baseline data; you are quite right to say that it will be harder because of the years that have been chosen, but the Minister is right to choose those years. I am also glad that the Minister has explained to the Assembly that large gas emitters in Wales are outside the 3 per cent targets and are covered by the EU ETS. Therefore, I think that some of your comments this afternoon slightly missed the mark.

Angela, you are absolutely right to say that it has taken four years for the Minister to get to a point where she feels confident with the baseline data that she has been able to establish and where we have a mechanism by which we can judge future Assemblies on that success. That will be the proof as to whether the last four years have been worth while. It has taken a long time to get to a point where the Minister feels able to commit to the baseline and work on that basis, and to have a robust mechanism for challenging the effects of policies that are being pursued. The report will have a lasting legacy if we can illustrate, in future years, that carbon emission levels are falling.

In conclusion, I thank everyone once again for their contributions this afternoon. It is a challenge, Brian, you are absolutely right, and we should bear in mind that what we have committed ourselves to, as the Minister has said, is a political target. Those involved in scientific research in this area might urge us to go even further if we really want to

Brian Gibbons: Nid wyf yn meddwl y gallwch ddianc mor hawdd, Kirsty. Pleidleisiodd y Cynulliad cyfan yn unfrydol i gael y targed 40 y cant, felly rydym i gyd yn yr un cwch—os goddefir yr ymadrodd. Peidiwch â rhoi'r bai ar y Gweinidog.

Kirsty Williams: Yn wir, Brian, a dyna beth oedd mor siomedig am eich cyfraniad y prynhawn yma. Ymddangosai eich bod yn dechrau o safbwynt ei bod yn amhosibl i'w gyflawni. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith mai ei gwaith hi yw dewis y data sylfaenol; rydych yn llygad eich lle i ddweud y bydd yn anoddach oherwydd y blynyddoedd sydd wedi cael eu dewis, ond mae'r Gweinidog yn iawn i ddewis y blynyddoedd hynny. Rwyf hefyd yn falch fod y Gweinidog wedi egluro wrth y Cynulliad bod yr allyrwyr nwy mawr yng Nghymru y tu allan i'r targedau 3 y cant ac yn cael eu cwmpasu gan gynllun masnachu allyriadau'r EU. Felly, credaf fod rhai o'ch sylwadau'r prynhawn yma wedi methu eu targed rhywfaint.

Angela, rydych yn llygad eich lle i ddweud ei fod wedi cymryd pedair blynedd i'r Gweinidog gyrraedd pwynt lle mae'n teimlo'n hyderus gyda'r data gwaelodlin mae wedi gallu ei sefydlu a lle mae gennym fecanwaith y gallwn farnu Cynulliadau'r dyfodol yn ei erbyn ar y llwyddiant hwnnw. Dyna fydd y prawf o ran a yw'r pedair blynedd diwethaf wedi bod yn werth chweil. Mae wedi cymryd amser hir i gyrraedd pwynt lle mae'r Gweinidog yn teimlo y gall ymrwymo i'r llinell sylfaen a gweithio ar y sail honno, ac i gael mecanwaith cadarn ar gyfer herio effeithiau'r polisiau sy'n cael eu dilyn. Bydd gan yr adroddiad etifeddiaeth bellgyrhaeddol os gallwn ddangos, yn y dyfodol, bod lefelau allyriadau carbon yn gostwng.

I gloi, hoffwn ddiolch unwaith eto i bawb am eu cyfraniadau y prynhawn yma. Mae'n her, Brian, rydych yn llygad eich lle, a dylem gofio bod yr hyn yr ydym wedi ein hymrwymo ein hunain iddo, fel y dywedodd y Gweinidog, yn darged gwleidyddol. Gall y rhai sy'n ymwneud ag ymchwil gwyddonol yn y maes hwn ein hannog i fynd hyd yn oed

effect change and stop the damage caused by carbon emissions.

ymhellach os ydym eisiau creu newid ac atal y difrod a achosir gan allyriadau carbon.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to note the Sustainability Committee's report. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw i nodi adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

System Parth Glas Blue Belt System

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendments 2 and 3 in the name of Peter Black. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected.

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt a gwelliannau 2 a 3 yn enw Peter Black. Os bydd gwelliant 1 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol.

Cynnig NDM4641 Nick Ramsay

Motion NDM4641 Nick Ramsay

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno system parth glas yn ardaloedd Cymru sydd mewn perygl uchel o ddioddef llifogydd ac sydd angen cael eu diogelu rhag cael eu datblygu'n ormodol.

Calls upon the Welsh Assembly Government to introduce a Blue Belt System in areas of Wales which have a high risk of flooding and require protection from over development.

Angela Burns: I move the motion.

Angela Burns: Cynigiau y cynnig.

5.20 p.m.

This is a very clear and precise motion, because it has a very clear and precise objective: to ensure that we, in Wales, do not continue to build in areas of high flood-risk. There are many different kinds of policies that Governments can enact. There are policies put upon a nation for the ideological reasons of the governing party or parties. There are policies that serve a wholly pragmatic end or are put in place to combat problems or issues that are not of a Government's making. Then, there are policies that are driven from the people up. These policies result from people wanting something fundamental to change. Our

Mae hwn yn gynnig clir a manwl iawn, oherwydd mae ganddo amcan clir a manwl iawn: sicrhau nad ydym ni, yng Nghymru, yn parhau i adeiladu mewn ardaloedd sydd â risg uchel o lifogydd. Gall Llywodraethau weithredu llawer o wahanol fathau o bolisïau. Mae rhai polisïau'n cael eu gosod ar genedl am resymau ideolegol y blaid neu'r pleidiau sy'n llywodraethu. Mae rhai polisïau sydd ddiben gwbl ymarferol neu sy'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â phroblemau neu faterion nad ydynt yn ganlyniad i'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud. Yna, mae rhai polisïau'n cael eu sbarduno gan y bobl. Mae'r polisïau hyn yn deillio o bobl sydd am

motion today, asking the Welsh Assembly Government to introduce a blue belt system, is a result of just that: people wanting something fundamental to change.

This Chamber has held many debates devoted to the topic of flooding. I know that most Assembly Members will have heard tales from constituents of the consequences of being flooded. These consequences range from the event being a hassle to the event causing major trauma and disruption, and even long-term illness. This could refer to a business that sustains flood and consequential damage that affects its operations and loses it money, or to an individual who can do nothing more than be a bystander to the invasion and destruction of their home, belongings and sense of security.

Of course, the public purse also sustains major damage as the consequence of a flood event. The public purse must deploy the first responders, the councils, the agencies and sometimes the emergency services. The public purse picks up the aftermath, having to rehouse, rebuild and restore. It is clear that this situation will get worse. Current estimates predict that the cost of damage from flooding will at least double and could see a twentyfold increase over the coming years. With rising sea levels and new patterns of rainfall, it has become clear that it is no longer sustainable to simply rely on building more and more flood defences. We need to recognise that seven of the 10 warmest years on record have occurred in this past decade. Scientists are predicting that rainfall could increase by as much as 40 per cent in the next 50 years. Those predictions are based only on winter rainfall; they do not include the almost monsoon events that we have begun having in the summer, when the land is, conversely, so dry that the rain has nowhere to go.

With this worsening situation, surely we need to recognise that we must focus our efforts on preventative measures, by avoiding development on areas that are at high risk of

i rywbeth sylfaenol newid. Mae ein cynnig ni heddiw, sef gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno system llain las, yn deillio o hynny: mae pobl eisiau rhywbeth sylfaenol i newid.

Mae'r Siambr hon wedi cynnal nifer o ddadleuon yn benodol ar lifogydd. Gwn y bydd y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad wedi clywed hanesion gan etholwyr am ganlyniadau llifogydd. Mae'r canlyniadau hyn yn amrywio o fod yn beth trafferth i fod y digwyddiad sy'n achosi trawma ac aflonyddwch mawr, a hyd yn oed salwch tymor hir. Gallai hyn gyfeirio at fusnes sy'n cael llifogydd a difrod canlyniadol sy'n effeithio ar ei weithrediadau a cholli arian iddo, neu unigolyn sy'n gallu gwneud dim mwy na gwyllo wrth i'w cartref, eiddo a'u hymdeimlad o ddiogelwch gael eu hymosod arnynt a'u dinistrio.

Wrth gwrs, mae difrod mawr i'r pwrs cyhoeddus hefyd o ganlyniad i lifogydd. Mae'n rhaid i'r pwrs cyhoeddus ddefnyddio'r ymatebwyr cyntaf, y cynghorau, yr asiantaethau ac weithiau y gwasanaethau brys. Y pwrs cyhoeddus sy'n gorfod mynd i'r afael â'r canlyniadau, oherwydd mae'n rhaid ailgartrefu, ailadeiladu ac adfer. Mae'n amlwg y bydd y sefyllfa hon yn gwaethygu. Mae amcangyfrifon presennol yn rhagweld y bydd cost difrod gan lifogydd yn dyblu o leiaf ac y gallai gynyddu ugain gwaith yn fwy dros y blynyddoedd nesaf. Gyda lefelau'r môr yn codi a phatrymau glaw newydd, daeth yn amlwg nad yw bellach yn gynaliadwy i wneud dim ond dibynnu ar adeiladu mwy a mwy o amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae angen i ni gydnabod bod saith o'r 10 mlynedd gynhesaf a gofnodwyd wedi digwydd yn y degawd diwethaf. Mae gwyddonwyr yn darogan y gallai glaw gynyddu cymaint â 40 y cant yn y 50 mlynedd nesaf. Mae'r amcangyfrifon hynny yn seiliedig ar law y gaeaf yn unig; nid ydynt yn cynnwys y digwyddiadau monswn bron rydym wedi dechrau eu cael yn yr haf, pan fydd y tir, mewn cyferbyniad, mor sych fel nad oes gan y glaw unman i fynd.

Gyda'r sefyllfa hon yn gwaethygu, rydym yn sicr angen cydnabod bod yn rhaid inni ganolbwyntio ein hymdrechion ar fesurau ataliol, gan osgoi datblygu mewn ardaloedd

flooding. It has been estimated that almost one-fifth of the population of Wales live and work on floodplains. We know that one in six properties, or 357,000 properties, are at risk of flooding in Wales. We also know that one in 33 developments in Wales is built on land at risk of flooding. I believe that we must recognise that development in Wales is driven almost entirely by market forces, rather than by any of the strategic plans that have been put in place. We must also recognise that the joint unitary development plans and their successors, the local development plans, are not able to withstand those market forces. For planners in county halls across Wales, the task of prioritising, managing conflicts of strategy and meeting local need is difficult, thankless and hindered by the addition of Welsh Assembly Government plans and non-devolved infrastructure planning. It is time for reform.

I will also make specific mention of the dangers that this country faces from coastal flooding. There are approximately £8 billion-worth of assets at risk from flooding in Wales, protected by flood defences worth around £750 million. However, to talk about assets is perhaps a little too clinical. There are some £8 billion-worth of businesses, homes, roads, railways, schools, doctors' surgeries and hospitals all at risk of flooding from the sea and tidal rivers. I have not identified this £8 billion, and neither have the Welsh Conservatives; it is the view of the Wales Audit Office, and I believe it. This could be a conservative estimate. In the 2008 update to the Foresight Annual Review on flood and coastal defence project outputs, scientists argued that sea levels could rise by well over 1m in the near future, and by almost 2m in the next six decades. The Environment Agency has warned that public spending on flood defences would have to triple, from £44 million a year to £135 million a year, in the next 25 years.

It is the contention of the Welsh Conservatives that the Welsh Assembly Government has been complacent in its

sydd â risg uchel o lifogydd. Amcangyfrifwyd bod bron i un o bob pump o boblogaeth Cymru yn byw a gweithio ar orlifdiroedd. Gwyddom fod un o bob chwe eiddo, neu 357,000 eiddo, mewn perygl o lifogydd yng Nghymru. Gwyddom hefyd bod un o bob 33 datblygiad yng Nghymru yn cael ei hadeiladu ar dir sydd mewn perygl o lifogydd. Credaf fod yn rhaid inni gydnabod bod datblygiadau yng Nghymru yn cael eu hysgogi bron yn gyfan gwbl gan rymoedd y farchnad, yn hytrach nag unrhyw un o'r cynlluniau strategol a roddwyd ar waith. Rhaid inni hefyd gydnabod nad yw'r cynlluniau datblygu unedol ar y cyd a'u holynwyr, y cynlluniau datblygu lleol, yn gallu gwrthsefyll grymoedd y farchnad hynny. I gynllunwyr mewn neuaddau sir ar draws Cymru, mae'r dasg o flaenoriaethu, rheoli gwrthdaro strategaeth a diwallu angen lleol yn dasg anodd a diddiolch sy'n cael ei rhwystro gan gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru a chynllunio seilwaith sydd heb eu datganoli. Mae'n bryd diwygio.

Rwyf hefyd am sôn yn benodol am y peryglon o lifogydd arfordirol sy'n wynebu'r wlad. Mae gwerth tua £8 biliwn o asedau mewn perygl o lifogydd yng Nghymru, a ddiogelir gan amddiffynfeydd rhag llifogydd gwerth tua £750 miliwn. Fodd bynnag, efallai bod siarad am asedau ychydig yn rhy glinigol. Mae gwerth tua £8 biliwn o fusnesau, cartrefi, ffyrdd, rheilffyrdd, ysgolion, meddygfeydd ac ysbytai i gyd mewn perygl o lifogydd o'r môr ac afonydd llanw. Nid fi na Cheidwadwyr Cymru sydd wedi dod o hyd i'r ffigwr hwn o £8 biliwn: barn Swyddfa Archwilio Cymru ydyw, ac rwyf yn ei gredu. Gallai hwn fod yn amcangyfrif ceidwadol. Yn y diweddariad i'r *Foresight Annual Review* yn 2008 ar allbynnau prosiectau llifogydd ac amddiffyn yr arfordir, dadleuodd gwyddonwyr y gallai lefel y môr godi ymhell dros un fetr yn y dyfodol agos, a bron i ddwy fetr yn y chwe degawd nesaf. Rhybuddiodd Asiantaeth yr Amgylchedd y byddai'n rhaid i wariant cyhoeddus ar amddiffynfeydd rhag llifogydd dreblu o £44 miliwn y flwyddyn i £135 miliwn y flwyddyn, yn y 25 mlynedd nesaf.

Dadl Ceidwadwyr Cymru yw bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn llaesu dwylo yn ei hymagwedd at gynnal a

approach to maintaining flood defences and slow to reform the planning system to prevent development on land at risk of flooding. This is not just our view. It is the view of the Wales Audit Office, the Sustainability Committee and even members of the Welsh Assembly Government; for instance, Assembly Member Joyce Watson has said that there should be more solid guidance that must be rigidly applied, and the Auditor General for Wales has said that there has been a lack of clear national policy and guidance with regard to flood-risk management.

Therefore, I must ask the Chamber to return again to the subject of technical advice note 15. I have lost count of how many times Members and committees have raised the subject of the inadequacy of TAN 15, the document that is supposed to give developers supporting guidance on building in locations where there is a risk of flooding. It does not do that terribly well. There are too many conflicts, the guidance is interpreted differently by different authorities, and there is often conflict with the Wales spatial plan and national strategies for jobs and houses. In 2009, a report by the auditor general concluded that local authorities need better guidance to control inappropriate development.

The 'Coastal Erosion and Tidal Flooding Risks in Wales' report concluded that there had been a lack of urgency from WAG and that clear policy and guidance were needed with regard to planning. Similar concerns about the planning system were highlighted by the Sustainability Committee, which identified serious problems with the guidance issued in TAN 15. That guidance states that

'the general approach of PPW, supported by the TAN, is to advise caution in respect of new development in areas at high risk of flooding by setting out a precautionary framework to guide planning decisions'.

TAN 15 gives a checklist of things, which, if accounted for, make it acceptable to build on a floodplain. Those are: that the flood

chadw amddiffynfeydd rhag llifogydd ac wedi bod yn araf i ddiwygio'r system gynllunio i atal datblygu ar dir sydd mewn perygl o lifogydd. Nid ein barn ni yw hon yn unig. Dyma farn Swyddfa Archwilio Cymru, y Pwyllgor Cynaliadwyedd ac hyd yn oed aelodau o Lywodraeth Cynulliad Cymru; er enghraifft, dywedodd yr Aelod Cynulliad Joyce Watson y dylid cael mwy o ganllawiau cadarn y dylid eu gweithredu'n llym, ac mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi dweud y bu diffyg polisi a chanllawiau cenedlaethol clir o ran rheoli risg llifogydd.

Felly, rhaid i mi ofyn i'r Siambr ddychwelyd eto at nodyn cyngor technegol 15. Rwyf wedi colli cyfrif sawl gwaith mae Aelodau a phwyllgorau wedi dweud bod TAN 15 yn annigonol, sef y ddogfen sydd i fod i roi canllawiau ategol i ddatblygwyr ar adeiladu mewn lleoliadau lle mae perygl o lifogydd. Nid yw'n gwneud hynny yn arbennig o dda. Mae gormod o wrthdaro, mae'r cyfarwyddyd yn cael ei ddehongli'n wahanol gan wahanol awdurdodau, ac mae gwrthdaro yn aml â chynllun gofodol Cymru a strategaethau cenedlaethol ar gyfer swyddi a thai. Yn 2009, daeth adroddiad gan yr archwilydd cyffredinol i'r casgliad bod awdurdodau lleol angen arweiniad gwell arnynt i reoli datblygu amhriodol.

Daeth adroddiad 'Erydu Arfordirol a Risgiau Llifogydd Llanw yng Nghymru' i'r casgliad y bu diffyg brys ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru a bod angen polisi a chanllawiau clir o ran cynllunio. Amlygwyd pryderon tebyg am y system gynllunio gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd, a nododd broblemau difrifol o ran y canllawiau a gyhoeddwyd yn TAN 15. Mae'r canllawiau yn dweud mai

'yr agwedd gyffredinol a gymerir ym Mholisi Cynllunio Cymru ac a gefnogir yn y Nodyn hwn yw rhoi cyngor i fod yn ofalus o safbwynt datblygiadau newydd mewn ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd trwy sefydlu fframwaith o ragofalon fydd yn gosod canllaw i benderfyniadau cynllunio.'

Mae TAN 15 yn rhoi rhestr wirio o bethau y dylid eu dilyn er mwyn ei gwneud yn dderbyniol i adeiladu ar orlifdiroedd. Y rheini

defences must be structurally adequate; that the cost of future maintenance measures are accepted by the developer; that future occupiers are aware of the risk of flooding; that effective flood warnings must be provided on site; that escape and evacuation routes must be identified by the developer; and that flood and emergency plans and procedures must be in place. However, critics of TAN 15 argue that this precautionary framework does not go far enough and that TAN 15 is too open to the interpretation of the local authority and developers.

I have been to developments on floodplains—as I am sure have other Members—and not seen any of the above six criteria, and nor have residents been aware of them. In its inquiry into flooding in Wales, the Sustainability Committee repeatedly heard how flooding had started or increased following the building of new developments and how planning permission was granted on sites that were known to be prone to flooding or that had inadequate drainage facilities. We believe that TAN 15 is not explicit enough with regard to not building on areas at risk of flooding. The Environment Agency has said that, too often, developers make inadequate assessments of the risks to people from flooding. The planning system must be reformed. Planners say that; the Environment Agency says that; the Sustainability Committee says that; the Wales Audit Office says that; even the Minister agrees that the status quo is not acceptable. I refer to her comments in the *Daily Post* on 11 March 2010, when she said:

‘We must reconsider our approach to flooding and coastal erosion in Wales. Simply building more and bigger defences will not be enough, and we need to consider other ways of managing the risk.’

Well, Minister, I would say that a way to manage the risk would be to have a presumption against building on areas that are at high risk of flooding, hence our motion

yw: bod yn rhaid i'r amddiffynfeydd rhag llifogydd fod yn ddigonol o ran eu strwythur; bod datblygwr yn derbyn y costau o gynnal a chadw yn y dyfodol; bod y sawl fydd yn defnyddio'r adeiladau yn y dyfodol yn ymwybodol o'r risg o lifogydd; bod rhaid darparu rhybuddion llifogydd effeithiol ar y safle; bod llwybrau dianc a'r llwybrau ar gyfer symud pobl allan yn weithredol; a bod cynlluniau a gweithdrefnau llifogydd ac argyfwng wedi eu sefydlu. Fodd bynnag, mae beirniaid TAN 15 yn dadlau nad yw'r fframwaith rhagofalus hon yn mynd yn ddigon pell a bod TAN 15 yn rhy agored i ddehongliad yr awdurdod lleol a datblygwyr.

Rwyf wedi ymweld â datblygiadau ar orlifdiroedd-fel Aelodau eraill rwy'n siŵr-ac nid wyf wedi gweld yr un o'r chwe maen prawf uchod, ac nid yw trigolion wedi bod yn ymwybodol ohonynt chwaith. Yn ei ymchwiliad i lifogydd yng Nghymru, clywodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd dro ar ôl tro sut roedd llifogydd wedi dechrau neu gynyddu yn dilyn adeiladu datblygiadau newydd a sut y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar safleoedd a oedd yn adnabyddus am gael llifogydd neu le nad oedd â chyfleusterau draenio digonol. Rydym yn credu nad yw TAN 15 yn ddigon eglur o ran adeiladu ar ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi dweud bod datblygwyr, yn rhy aml, yn gwneud asesiadau annigonol o'r risgiau o lifogydd i bobl. Mae'n rhaid diwygio'r system gynllunio. Mae cynllunwyr yn dweud hynny; mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn dweud hynny; mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd yn dweud hynny; mae Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud hynny; mae hyd yn oed y Gweinidog yn cytuno nad yw'r sefyllfa bresennol yn dderbyniol. Cyfeiriaf at ei sylwadau yn y *Daily Post* ar 11 Mawrth 2010, pan ddywedodd:

Mae'n rhaid inni ailystyried ein hagwedd at lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Ni fydd adeiladu rhagor o amddiffynfeydd mwy yn ddigon, ac mae angen inni ystyried ffyrdd eraill o reoli'r risg.

Wel, Weinidog, byddwn i'n dweud mai ffordd o reoli'r risg fyddai cael rhagdybiaeth yn erbyn adeiladu ar ardaloedd sydd mewn perygl mawr o lifogydd, felly dyna pam ein

to introduce a blue belt system in Wales, as few individuals or organisations appear to think that TAN 15 is sufficiently strong. Welsh Conservatives would designate blue belt land to prevent development close to rivers, lakes and coastlines—areas that are at high risk of flooding. This unequivocal policy would put an end to irresponsible development in areas of risk, which can and have ruined lives.

Let me assure the Assembly that the Welsh Conservatives see this initiative as being implemented in consultation with the Environment Agency and local and national planners, which is why we support amendment 3, tabled by Peter Black on behalf of the Liberal Democrats, that any new system must be based on up-to-date and accurate mapping of flood-risk areas.

We have considered whether declaring an area in the blue belt would blight people already living in these areas. We do not believe so. If anything, flooding blights people's lives, and we should do everything in our power to prevent it. Implementation could be similar to the new green belt system. We are not saying that we will not invest in flood defences. This remains a priority for us. However, the Wales Audit Office has said that, in many situations, simply investing in ever-bigger engineering solutions to combat climate change would be an enormously expensive solution of relatively short duration and poor value for money.

We cannot correct the past, where we have built on land at risk of flooding. However, we can ensure that future developments are not subjected to the same misery. Although the Association of British Insurers has not referred to blue belts directly, it has expressed concerns about, as it put it, 'frankly daft planning decisions', where new homes are being built on floodplains. It has warned that it may not insure new developments on floodplains, if the properties are granted approval against the Environment

bod yn cynnig cyflwyno system llain las yng Nghymru, gan nad ymddengys fod llawer o unigolion na sefydliadau o'r farn fod TAN 15 yn ddigon cryf. Byddai Ceidwadwyr Cymru yn dynodi tir llain las i atal datblygu yn agos at afonydd, llynnoedd ac arfordiroedd-ardaloedd sydd mewn perygl mawr o lifogydd. Byddai'r polisi diamwys hwn yn rhoi diwedd ar ddatblygu anghyfrifol mewn ardaloedd o risg, sy'n gallu ac sydd wedi difetha bywydau.

Gadewch i mi sicrhau'r Cynulliad bod Ceidwadwyr Cymru yn gweld y fenter hon fel un a gaiff ei gweithredu mewn ymgynghoriad ag Asiantaeth yr Amgylchedd a chynllunwyr lleol a chenedlaethol, a dyna pam rydym yn cefnogi gwelliant 3, a gyflwynwyd gan Peter Black ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol, sef bod yn rhaid i unrhyw system newydd fod yn seiliedig ar y mapio diweddaraf a chywir o'r ardaloedd sydd â risg o lifogydd.

Rydym wedi ystyried a fyddai datgan bod ardal yn y llain las yn effeithio ar y bobl sydd eisoes yn byw yn yr ardaloedd hyn. Nid ydym yn credu hynny. Os rhywbeth, mae llifogydd yn difetha bywydau pobl, a dylem wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal. Gallai ei gweithredu fod yn debyg i weithredu'r system llain gwyrdd newydd. Nid ydym yn dweud na fyddwn yn buddsoddi mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni. Fodd bynnag, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi dweud, mewn llawer o sefyllfaoedd, y byddai dim ond buddsoddi mewn atebion peirianeg mwy a mwy o faint i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd yn ateb hynod o ddrud o fyddai'n para am gyfnod cymharol fyr ac yn cynnig gwerth gwael am arian.

Ni allwn gywiro'r gorffennol, lle rydym wedi adeiladu ar dir sydd mewn perygl o lifogydd. Fodd bynnag, gallwn sicrhau nad yw datblygiadau yn y dyfodol yn arwain at yr un gofid. Er nad yw Cymdeithas Yswirwyr Prydain wedi cyfeirio at leiniau glas yn uniongyrchol, mae wedi mynegi pryderon am, yr hyn a alwodd yn benderfyniadau cynllunio hurt lle mae cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu ar orlifdiroedd. Rhybuddiodd na fydd yn yswirio datblygiadau newydd ar orlifdiroedd, os yw'r

Agency's advice. The Association of British Insurers has called for the Government to deliver a long-term flood management strategy, backed by the right level of investment, and stated that this must include robust planning decisions so that new homes are not built in those areas at high risk of flooding. It stated that avoiding building on new developments in high-risk flood areas is the most sustainable solution to managing flood risk in the long term.

5.30 p.m.

Our policy on blue belts will go some way to easing the concerns of the insurance industry, ensuring that householders receive continuing protection against the risk of flooding. Again, this was a recommendation for a Sustainability Committee report on flooding.

To be crystal clear, on the subject of economic development, we will not rule out any form of development on blue belt land, but we do want far stronger controls and for development to be by far the exception rather than the norm. The Wales Audit Office has stated that local authorities need better guidance, and the Sustainability Committee has stated that there should be a presumption against building on a floodplain. Environment Agency Wales has stated that, too often, developers make inadequate assessments of the risk of building on floodplains, and its advice is too often ignored. This policy is simply designed to strengthen guidance to local authorities, but planning decisions will ultimately be made at a local level.

We believe that this is a groundbreaking opportunity for Wales to lead by example—something I know that the Minister is very keen to do, as borne out by her statement on Cancun, and by the many targets that she aspires to have Wales achieve. Blue belts have not been implemented anywhere in the UK, although the Environment Agency has called for the floodplain along the River Derwent in Derby to be widened to create a

eiddo yn cael caniatâd yn groes i gyngor Asiantaeth yr Amgylchedd. Galwodd Cymdeithas Yswirwyr Prydain ar y Llywodraeth i gyflwyno strategaeth rheoli llifogydd hirdymor, a'i chefnogi gan y lefel gywir o fuddsoddiad, a dywedodd y dylai hyn gynnwys penderfyniadau cynllunio cadarn i sicrhau nad yw cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu yn yr ardaloedd hynny sydd mewn perygl mawr o lifogydd. Dywedodd mai osgoi adeiladu ar ddatblygiadau newydd mewn ardaloedd perygl uchel o lifogydd yw'r ateb mwyaf cynaliadwy i reoli perygl llifogydd yn yr hirdymor.

Bydd ein polisi ar leiniau glas yn mynd rywfaint o'r ffordd i leddfu pryderon y diwydiant yswiriant, gan sicrhau bod deiliaid tai yn cael eu diogelu'n barhaus rhag y perygl o lifogydd. Unwaith eto, roedd hwn yn argymhelliad ar gyfer adroddiad gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar lifogydd.

I fod yn hollol glir, o ran datblygu economaidd, ni fyddem yn diystyru pob math o ddatblygu ar dir llain las, ond rydym am weld rheolaethau llawer cryfach ac am weld datblygu yn eithriad yn hytrach na'r arfer o ddigon. Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru bod angen canllawiau gwell ar awdurdodau lleol, ac mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd wedi dweud y dylai fod rhagdybiaeth yn erbyn adeiladu ar orlifdiroedd. Dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru bod datblygwyr, yn rhy aml, yn gwneud asesiadau annigonol o'r perygl o adeiladu ar orlifdiroedd, a bod ei gyngor yn rhy aml yn cael ei anwybyddu. Bwriad y polisi hwn yw cryfhau'r canllawiau i awdurdodau lleol, ond bydd penderfyniadau cynllunio yn cael eu gwneud yn lleol yn y pen draw.

Rydym yn credu bod hwn yn gyfle arloesol i Gymru arwain drwy esiampl—rhywbeth y gwn fod y Gweinidog yn awyddus iawn i'w wneud, fel y gwelwyd o'i datganiad ar Cancun, ac o'r targedau lawer y mae am weld Cymru yn eu cyflawni. Nid yw lleiniau glas wedi cael eu gweithredu yn unrhyw le yn y DU, er bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi galw am ehangu gorlifdir ar hyd afon Derwent yn Derby i greu coridor glas 120m o

blue corridor of at least 120m wide, which would protect thousands of homes from flooding.

The Chartered Institute of Water and Environmental Management has highlighted Canada as an example of best practice, where the Government has paid compensation from the public purse to encourage relocation to settlements outside of flood risk areas. The floodplain is then protected from future development by planning law. Again, this is a mature debate that this Assembly must one day have.

We will not be supporting the Government's amendment. The amendment spits out the same mantra that TAN 15 is doing a good job in restricting development in areas at risk of flooding. While we welcome any positive steps forward, it is too little and often too late. Regretfully, amendment 2 does not receive our support either, because we think that it narrows down the consequences. I say to the Liberal Democrats, a number of whose members have successfully—and with distinction—steered the cross-party Sustainability Committee, that we have all tried to hold this Government to account over its inaction on flooding, and by putting forward a clear and concise motion, we hope that today is the day the Government faces the reality that 47 per cent of the Welsh population have no idea that they live in a home that is at risk of flooding; the reality that one in 33 developments continues to be built in areas at risk of flooding; and the reality that the lack of coherent leadership and the desire to meet targets in the Wales spatial plan subsumes common sense and TAN 15. I ask all Members to support this motion.

Gwelliant 1 Jane Hutt

Dileu'r cyfan ac yn ei le rhoi:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r mesurau sydd eisoes yn eu lle gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyfyngu

led o leiaf, a fyddai'n diogelu miloedd o gartrefi rhag llifogydd.

Mae'r Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd wedi tynnu sylw at Ganada fel enghraifft o arfer gorau, lle mae'r Llywodraeth wedi talu iawndal o'r pwrs cyhoeddus i annog adleoli i aneddiadau y tu allan i ardaloedd lle mae perygl o lifogydd. Mae'r gorlifdir wedyn yn cael ei warchod rhag cael ei ddatblygu yn y dyfodol gan gyfraith cynllunio. Unwaith eto, mae hon yn ddatl aeddfed y mae'n rhaid i'r Cynulliad ei chael rhyw ddiwrnod.

Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant y Llywodraeth. Mae'r gwelliant yn ailadrodd yr un mantra fod TAN 15 yn gwneud gwaith da yn cyfyngu ar ddatblygu mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Er ein bod yn croesawu unrhyw gamau cadarnhaol ymlaen, mae'n rhy ychydig ac yn aml yn rhy hwyr. Yn anffodus, nid yw gwelliant 2 yn cael ein cefnogaeth chwaith, oherwydd ein bod yn credu ei fod yn cyfyngu ar y canlyniadau. Dywedaf wrth y Democratiaid Rhyddfrydol, y mae nifer o'i aelodau wedi llwyddo-a gyda chlod-i lywio'r Pwyllgor Cynaliadwyedd trawsbleidiol, ein bod i gyd wedi ceisio dal y Llywodraeth hon i gyfrif am ei diffyg gweithredu ar lifogydd, a thrwy gyflwyno cynnig clir a chryno, rydym yn gobeithio mai heddiw yw'r diwrnod y bydd y Llywodraeth yn wynebu'r realiti nad oes gan 47 y cant o boblogaeth Cymru unrhyw syniad eu bod yn byw mewn cartref sydd mewn perygl o lifogydd; y realiti bod un o bob 33 o ddatblygiadau yn parhau i gael eu hadeiladu mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd; a'r realiti bod diffyg arweinyddiaeth gydlynol a'r awydd i gyflawni targedau yng nghynllun gofodol Cymru yn ymgorffori synnwyr cyffredin a TAN 15. Gofynnaf i bob Aelod gefnogi'r cynnig hwn.

Amendment 1 Jane Hutt

Delete all and replace with:

The National Assembly for Wales:

1. Notes the measures the Welsh Assembly Government already has in place to restrict

ar ddatblygiad mewn ardaloedd sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd;

2. Yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid allweddol i reoli'r peryglon o ddioddef llifogydd sy'n wynebu cymunedau ledled Cymru.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I move amendment 1.

Gwelliant 2 Peter Black

Ar ôl 'ormodol' rhoi, 'a allai leihau cost ariannol a phersonol enfawr llifogydd i bobl yng Nghymru'.

Gwelliant 3 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod yn rhaid i unrhyw system o'r fath fod yn seiliedig ar system o fapio ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd sy'n gywir ac yn gyfredol.

Kirsty Williams: I move amendments 2 and 3.

I thank Angela and the Welsh Conservatives for proposing this debate. As you say, it is one of many that we have had over the years. I think that that reflects the seriousness of the problem that flooding poses, not just to individuals but to communities. It also poses a problem for the Government in trying to find a coherent response to protect individuals and communities. I am sure that all of us, in the course of our careers here in the National Assembly, will have experienced flooding in our constituencies and will have seen, face to face, constituents whose lives and properties have been wrecked by flooding. It is a truly terrifying experience. The speed with which a flood can take place gives you little time to do anything about it. The strength of the water is literally terrifying. Stone bridges in my constituency have been washed away by the strength of what, on a usual day, would be nothing more than a pleasant stream beside which people

development in areas at risk of flooding;

2. Welcomes the work being done by the Welsh Assembly Government and key partners to manage the risks of flooding facing communities across Wales.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Cynigiau welliant 1.

Amendment 2 Peter Black

After 'development' insert, 'which could have the potential to lessen the enormous personal and financial cost of flooding on people in Wales'.

Amendment 3 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Believes that any such system must be based on up-to-date and accurate mapping of flood risk areas.

Kirsty Williams: Cynigiau welliannau 2 a 3.

Diolch i Angela a Cheidwadwyr Cymru am gynnig y ddadl hon. Fel y dywedwch, mae'n un o nifer a gawsom dros y blynyddoedd. Credaf fod hynny'n adlewyrchu difrifoldeb y broblem o lifogydd, nid yn unig i unigolion, ond hefyd i gymunedau. Mae hefyd yn creu problem i'r Llywodraeth o ran ceisio dod o hyd i ymateb cydlynol i ddiogelu unigolion a chymunedau. Rwyf yn siŵr bod pob un ohonom, yn ystod ein gyrfaoedd yma yn y Cynulliad Cenedlaethol, wedi cael profiad o lifogydd yn ein hetholaethau, ac wedi dod wyneb yn wyneb ag etholwyr y mae eu bywydau ac eiddo wedi cael eu dryllio gan lifogydd. Mae'n brofiad gwirioneddol frawychus. Mae llifogydd yn gallu digwydd mor gyflym fel nad oes gennych fawr o amser i wneud unrhyw beth yn eu cylch. Mae cryfder y dŵr yn llythrennol frawychus. Mae pontydd carreg yn fy etholaeth wedi cael eu golchi i ffwrdd gan gryfder yr hyn sydd, ar ddiwrnod arferol, yn nant ddymunol lle mae

have picnics. The damage that flooding creates for people means that many homeowners are out of their homes for months, if not years. Long after the television cameras have gone away, and long after the waters have receded, people are dealing with the consequences in their homes for months and years in some cases. In some communities, it is not just a one-off event. The village of Felinfach in my constituency has suffered flood after flood, so much so that many of its homes have been adapted ready for the next time a flood comes. People have not bothered to replace their carpets—they simply have tiles because they are easier to wash down. Plug points have been taken away from the floor and moved higher up the walls so that electricians do not get damaged again, because people in the village are waiting for the next time the waters will invade their home.

TAN 15 is a curious document, and approaches to it can differ, not just from authority to authority, but within an individual local authority. I have come across cases of proposals to develop agricultural buildings that will hold livestock in a floodplain. It seems hugely irresponsible that anyone would want to keep livestock in an area that is prone to flooding. I have seen developers put forward ideas for massive housing estates where the only access road in and out falls within a floodplain. It sometimes seems that the ability to get these applications through the planning process has less to do with TAN 15, and more to do with the ability of a developer to afford a private hydrologist's specialist report that casts doubt on the maps put forward. In the face of such a report by an independent hydrologist, planning authorities can sometimes feel intimidated.

On the other hand, I have seen strict adherence to TAN 15 in my constituency blight particular communities. People have suddenly found themselves in a situation where their insurance has risen dramatically because their property had been mapped in an area covered by TAN 15, and private and public development has been stopped because of that designation. Local people will say that a certain area has never had a

pobl yn cael picnic ar ei glannau. Mae'r difrod y mae llifogydd yn ei achosi i bobl yn golygu bod llawer o berchnogion tai yn gorfod gadael eu cartrefi am fisoedd, os nad blynyddoedd. Ymhell ar ôl i'r camerâu teledu fynd, ac ymhell ar ôl i'r dyfroedd gilio, mae pobl yn delio â'r canlyniadau yn eu cartrefi am fisoedd a blynyddoedd mewn rhai achosion. Mewn rhai cymunedau, nid unwaith yn unig y mae'n digwydd. Mae pentref Felinfach yn fy etholaeth i wedi dioddef llifogydd ar ôl llifogydd, gymaint felly fel bod llawer o'r cartrefi yno wedi cael eu haddasu yn barod ar gyfer y tro nesaf y daw llifogydd. Nid yw pobl wedi trafferthu i newid eu carpedi—maent yn gosod teils am eu bod yn haws i'w golchi. Mae pwyntiau plwg wedi eu cael eu symud yn uwch i fyny'r waliau fel nad yw'r gwaith trydan yn cael ei ddifrodi eto, gan fod pobl yn y pentref yn aros am y tro nesaf y bydd y dyfroedd yn ymosod ar eu cartref.

Mae TAN 15 yn ddogfen ryfedd, a gall agweddau pobl ati fod yn wahanol, nid yn unig o un awdurdod i'r llall, ond o fewn awdurdod lleol unigol. Rwyf wedi dod ar draws achosion o gynigion i ddatblygu adeiladau amaethyddol a fyddai'n dal da byw ar orlifdir. Mae'n ymddangos yn hynod anghyfrifol y byddai unrhyw un am gadw da byw mewn ardal sy'n debyg o gael llifogydd. Gwelais ddatblygwyr yn cyflwyno syniadau am stadau tai mawr lle byddai'r unig ffordd i mewn ac allan ar orlifdir. Weithiau mae'n ymddangos bod y gallu i gael y ceisiadau hyn drwy'r broses gynllunio a wnelo llai â TAN 15, a mwy â gallu datblygwr i fforddio adroddiad arbenigol gan hydrolegydd preifat sy'n bwrw amheuaeth ar y mapiau a gyflwynwyd. Yn wyneb adroddiad o'r fath gan hydrolegydd annibynnol, gall awdurdodau cynllunio weithiau deimlo dan fygythiad.

Ar y llaw arall, rwyf wedi gweld ymlyniad caeth at TAN 15 yn fy etholaeth yn difetha rhai cymunedau. Mae pobl wedi canfod eu hunain yn sydyn mewn sefyllfa lle mae eu yswiriant wedi codi'n sylweddol oherwydd bod eu heiddo wedi cael ei fapio mewn ardal sy'n dod o fewn cwrmpas TAN 15, ac mae datblygu preifat a chyhoeddus wedi ei atal oherwydd y dynodiad hwnnw. Bydd pobl leol yn dweud nad yw ardal benodol erioed wedi

problem, and only after masses of campaigning and much more detailed and accurate mapping has been done have TAN 15 maps been redrawn—this has subsequently allowed the new development at Ystradgynlais hospital to go ahead, along with the plans for a new school in Ystradgynlais.

That demonstrates the importance of amendment 3. If we are going to go down this route, we must have accurate and consistent information, because if we get it wrong and the map is not right and we include land that should not be included because it is outside the plain, or if we do not include land that should be included, that can have a devastating effect on those communities and individuals. I am currently dealing with a case in which there has been to-ing and fro-ing over where the line is drawn. Planning permission for a site was given after the line was redrawn, but it has been put back again and the new properties will now potentially be developed in an area that will flood.

I have a great deal of sympathy with what Angela has put forward. We recognise on this side of the Chamber the devastation that flooding causes, but if we are to go down this route, we must have accurate mapping information on which to base these zones. Otherwise, we could be causing even more difficulties for those communities than they already face.

William Graham: One of the striking effects that one finds when researching flooding is the near unanimity among experts who express the view that the risk from and incidence of flooding and coastal erosion will substantially increase over the next 20 years. This being the consensus view, it is yet more alarming that the Chartered Institution of Water and Environmental Management warns that many people falsely believe that flooding and coastal erosion can be prevented. It is a challenge worth pursuing for the Assembly Government and for local authorities to broaden knowledge of the ever-increasing flood risk that we face in Wales. All should be fully aware of the increasing risk and the flood risk areas.

cael problem, a dim ond ar ôl cryn ymgyrchu a mapio llawer manylach a chywir y mae mapiau TAN 15 wedi cael eu hail-lunio—o ganlyniad, mae hyn wedi galluogi'r datblygiad newydd yn ysbyty Ystradgynlais i fynd yn ei flaen, ynghyd â'r cynlluniau am ysgol newydd yn Ystradgynlais.

Mae hynny'n dangos pa mor bwysig yw gwelliant 3. Os ydym am fynd ar y trywydd hwnnw, rhaid i ni gael gwybodaeth gywir a chyson, oherwydd os ydym yn ei gael yn anghywir ac nid yw'r map yn iawn ac ein bod yn cynnwys tir na ddylid ei gynnwys oherwydd ei fod y tu allan i'r gorlifdir, neu os nad ydym yn cynnwys tir y dylid ei gynnwys, gallai hynny gael effaith ddinistriol ar y cymunedau ac unigolion hynny. Rwyf yn delio ar hyn o bryd ag achos lle bu llawer o benbleth dros ble i dynnu'r llinell. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i safle ar ôl i'r llinell gael ei hail-thynnu, ond fe'i rhoddwyd yn ôl eto a gallai'r tai newydd bellach gael eu datblygu mewn ardal a fydd yn cael llifogydd.

Mae gen i gryn gydymdeimlad â'r hyn y mae Angela wedi'i gyflwyno. Rydym yn cydnabod ar yr ochr hon i'r Siambr y difrod a achosir gan lifogydd, ond os ydym am ddilyn y trywydd hwn, rhaid i ni gael gwybodaeth fapio gywir fel sail i'r parthau hyn. Fel arall, gallem fod yn achosi hyd yn oed mwy o anawsterau i'r cymunedau hynny nag y maent eisoes yn eu hwynebu.

William Graham: Un o'r effeithiau trawiadol y mae rhywun yn ei ganfod wrth ymchwilio i lifogydd yw'r unfrydedd bron ymhlith arbenigwyr sydd o'r farn y bydd y perygl o lifogydd a'r achosion o lifogydd ac erydu arfordirol yn cynyddu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf. Gan mai hon yw'r farn gyffredinol, mae'n fwy brawychus byth bod y Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd yn rhybuddio bod llawer o bobl yn credu ar gam y gellir atal llifogydd ac erydiad arfordirol. Mae'n her i Lywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol ehangu gwybodaeth am y perygl cynyddol o lifogydd sy'n ein hwynebu yng Nghymru. Dylent i gyd fod yn gwbl ymwybodol o'r perygl cynyddol ac o'r ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.

Although the high water levels seen in South Wales East in the rivers Usk, Monnow and Rhymney, among others, following the heavy rain that we experienced during the week before last, seemed little to worry about in the context of the devastating floods in Queensland, which attracted worldwide coverage, the fact remains that something similar could happen one day on the Gwent levels.

It is important to stress that we as a party do not seek to introduce the blue belt system simply for the sake of change. The Sustainability Committee and the Wales Audit Office have urged caution in the guidance on development and the associated flood risk. Industry experts such as the Caldicot and Wentlooge Levels Internal Drainage Board argue that TAN 15, published in July 2004, needs to be updated as it does not recognise significant new legislation that gives internal drainage boards a greatly enhanced role in drainage, water level management and flood and coastal erosion risk management. Failure to update the document could potentially undermine and weaken the effectiveness of the more recent legislation and related strategies. Introducing designated blue belt areas could be an opportunity to give solid planning guidance that must be adhered to uniformly by local authorities.

5.40 p.m.

The Chartered Institution of Water and Environmental Management's suggestion that there should be a presumption against development in areas at significant risk of flooding could potentially release time and resources to tackle the existing problems posed by flooding. The problems that flooding presents in south-east Wales are well documented and the issue remains a great source of concern to many of the region's communities and businesses.

The Gwent Levels Flood Defence Alliance continues to warn that work to raise and repair the sea wall started by the Environment Agency some nine years ago remains incomplete on certain stretches of the levels. For example, the sea defence upstream

Er bod y lefelau dŵr uchel a welwyd yn Nwyrain De Cymru yn afonydd Wysg, Mynwy a Rhymni, ymhlith eraill, yn dilyn y glaw trwm a gawsom yr wythnos cyn diwethaf, ymddengys nad yw hyn yn fawr i boeni amdano yng nghyd-destun y llifogydd dinistriol yn Queensland, a ddenodd sylw ledled y byd, ond erys y ffaith y gallai rhywbeth tebyg ddigwydd un diwrnod ar wastadeddau Gwent.

Mae'n bwysig pwysleisio nad ydym ni fel plaid yn ceisio cyflwyno'r system llain glas yn syml er mwyn newid pethau. Mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd a Swyddfa Archwilio Cymru wedi annog gofal yn y canllawiau ar ddatblygu a'r perygl cysylltiedig o lifogydd. Mae arbenigwyr yn y diwydiant megis Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Caldicot a Gwynllŵg yn dadlau fod angen diweddarau TAN 15, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2004, gan nad yw'n cydnabod deddfwriaeth bwysig newydd sy'n rhoi llawer mwy o rôl i fyrdau draenio mewnol o ran draenio, rheoli lefel y dŵr a rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol. Gallai methu â diweddarau'r ddogfen danseilio a gwanhau effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth fwy diweddar a strategaethau cysylltiedig. Gallai cyflwyno ardaloedd llain las dynodedig fod yn gyfle i roi canllawiau cynllunio cadarn y mae'n rhaid awdurdodau lleol lynu atynt yn unffurf.

Gallai awgrym y Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd y dylai fod rhagdybiaeth yn erbyn datblygu mewn ardaloedd sydd mewn perygl sylweddol o lifogydd ryddhau amser ac adnoddau i fynd i'r afael â'r problemau presennol a achosir gan lifogydd. Mae'r problemau y mae llifogydd yn ne-ddwyrain Cymru yn eu creu yn dra hysbys, ac mae'r mater yn parhau i fod yn gryn bryder i lawer o gymunedau a busnesau yn y rhanbarth.

Mae Cynghair Amddiffyn Llifogydd Gwastatiroedd Gwent yn dal i rybuddio bod y gwaith i godi ac atgyweirio'r morglawdd a ddechreuwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd rhyw naw mlynedd yn ôl yn parhau i fod yn anghyflawn ar rannau penodol o'r

from Magor Pill has no reinforcement and the Environment Agency warns that, with the changing weather pattern, storms will be worse and tides higher, and that the surges that have occurred in the past could generate breaches with consequential damage. We should remember that a 50 ft rise of tide is the norm in this part of the Severn estuary. Exceptionally high tides in the Severn estuary could mean a breach in the wall upstream of Magor Pill that would leave parts of Newport under several feet of water within minutes.

Experts, councillors and constituents who have corresponded with me on the issue of flooding frequently comment on the need for better-connected working between the relevant bodies, such as Welsh Water, Environment Agency Wales, local authorities and the drainage board. Introducing clear guidelines, such as designating blue belt land, would be a step in the right direction towards tackling the duplication of work and unclear legislation that currently often delay addressing planning issues. One planning application that I am aware of in Caldicot has been beset by confusion between Welsh Water, Environment Agency Wales and the local authority over who is responsible for draining and maintaining the land in question. The Environment Agency's consultation document 'Managing flood risk on the Severn Estuary' makes clear that Newport faces a similar flood threat to Cardiff, but notes that on sections near the transporter bridge, the risk of tidal flooding is one in 20 in any given year. Clearly, there is a need for greater partnership between the council, local businesses, developers and the Environment Agency to make improvements in the area in question over the next 10 years.

Introducing a blue belt scheme would end the scenario in which a local authority can grant developers permission to build on areas known to be at risk of flooding in a bid to meet targets set in the Wales spatial plan. More leadership is required from the Minister and the Welsh Assembly Government and a preparedness to listen to expert advice to introduce blue belts and put an end to the

gwastatiroedd. Er enghraifft, nid oes gan yr amddiffyniad môr i fyny'r afon o Bil Magwyr unrhyw atgyfnerthiad ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhybuddio, gyda'r patrwm tywydd newidiol, y bydd stormydd yn waeth a'r llanw'n uwch, ac y gallai'r ymchwydd sydd wedi digwydd yn y gorffennol dorri'r amddiffynfeydd gan achosi difrod. Dylem gofio bod cynnydd o 50 troedfedd o lanw yn arferol yn y rhan hon o aber afon Hafren. Gallai llanw eithriadol o uchel yn aber afon Hafren olygu torri'r wal i fyny'r afon o Bil Magwyr a fyddai'n gadael rhannau o Gasnewydd o dan sawl troedfedd o ddŵr o fewn munudau.

Mae arbenigwyr, cynghorwyr ac etholwyr sydd wedi gohebu â mi ar lifogydd yn aml yn gwneud sylwadau ar yr angen am well cysylltiad rhwng y cyrff perthnasol, megis Dŵr Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, awdurdodau lleol a'r bwrdd draenio. Byddai cyflwyno canllawiau clir, fel dynodi llain las, yn gam i'r cyfeiriad iawn o ran mynd i'r afael â dyblygu gwaith a deddfwriaeth aneglur sydd ar hyn o bryd yn arwain yn aml at oedi o ran delio â materion cynllunio. Gwn am un cais cynllunio yn Caldicot sydd wedi creu llawer o ddrysych rhwng Dŵr Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r awdurdod lleol ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddraenio a chynnal y tir dan sylw. Mae dogfen ymgynghori Asiantaeth yr Amgylchedd ar reoli risg llifogydd ar aber afon Hafren yn ei gwneud yn glir fod Casnewydd yn wynebu bygythiad llifogydd tebyg i Gaerdydd, ond yn nodi bod y perygl o lifogydd llanw mewn rhai mannau ger y bont gludo yn un mewn 20 mewn unrhyw flwyddyn benodol. Yn amlwg, mae angen gwell partneriaeth rhwng y cyngor, busnesau lleol, datblygwyr ac Asiantaeth yr Amgylchedd i wneud gwelliannau yn yr ardal dan sylw yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

Byddai cyflwyno cynllun llain las yn rhoi diwedd ar y senario lle mae awdurdod lleol yn rhoi caniatâd i ddatblygwyr adeiladu mewn ardaloedd y gwyddys eu bod mewn perygl o lifogydd, mewn ymgais i gyrraedd targedau a osodwyd yn nghynllun gofodol Cymru. Mae angen mwy o arweiniad gan y Gweinidog a Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd â pharodrwydd i wrando ar gyngor

confusion and unnecessary risk that the present TAN 15 creates.

Gareth Jones: Diolch am y cyfle i gyfrannu mewn dadl bwysig a diolch i'r Ceidwadwyr am ddod â'r mater ger ein bron. Ni allaf ddweud fy mod yn anghytuno â llawer o'r hyn y mae Angela Burns wedi ei gyflwyno i ni, ond mae'n gamgymeriad diystyru'r gwaith da sydd yn digwydd ar hyn o bryd ar amddiffyn rhag llifogydd. Mae'n fater difrifol. Mae llifogydd yn fygythiad yng Nghymru gyda 57 y cant o bobl yn byw ac un o bob chwe adeilad mewn ardaloedd dan fygythiad. Mae dros 200,000 o adeiladau dan fygythiad o afon a 64,000 arall dan fygythiad llifogydd o'r môr. Yn ogystal, mae dros 130,000 o gartrefi eraill yn cael eu bygwth gan lifogydd dŵr wyneb. Felly, yr ydym yn trin a thrafod mater difrifol a phwysig ac, fel y dywedais, yr wyf yn cydnabod yr hyn y mae'r Ceidwadwyr wedi ei ddwyn ger ein bron y prynhawn yma.

Fodd bynnag, rhaid imi longyfarch Llywodraeth Cymru'n Un ar ei hymdrechion i wella amddiffynfeydd llifogydd Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, yn fy etholaeth, yn Llanrwst a Threfriw, mae Llywodraeth Cymru'n Un wedi buddsoddi £7 miliwn mewn amddiffynfeydd. Yn ystod glaw trwm mis Tachwedd a rhyw bythefnos yn ôl ar y penwythnos, profwyd yr amddiffynfeydd hynny ac fe'u cafwyd yn llwyddiant ysgubol. Mae'n rhaid cydnabod hynny a diolch bod y cynllun hwn wedi mynd rhagddo ac arbed difrod. Mae trigolion yn ardal Llanrwst a Threfriw a fyddai yn sicr yn datgan eu diolch am y gwaith hwnnw. Y pwynt i'w gofio yw er i'r amddiffynfeydd gostio £7 miliwn o arian y Llywodraeth, maent yn debygol o fod wedi arbed miloedd yn barod mewn ceisiadau yswiriant ac yn y blaen.

Fel y gwyddoch, nid eiddo yn unig sydd o dan fygythiad yn Nyffryn Conwy, ond y tir amaethyddol hefyd. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymgymryd â chynllun blaengar iawn, sy'n caniatáu i lifogydd lifo dros y tiroedd, ond, oherwydd natur y cynllun, mae'r dŵr wedyn yn llifo oddi arno ynghynt hefyd. Felly, mae'r ffermwr yn medru ymgymryd â'i waith yn llawer iawn cynt nag yr oedd yn

arbenigol i gyflwyno lleiniau glas a rhoi diwedd ar y dryswch a'r risg diangen y mae'r TAN 15 presennol yn ei greu.

Gareth Jones: Thank you for the opportunity to contribute to an important debate and I thank the Conservatives for bringing this issue before us. I cannot say that I disagree with much of what Angela Burns has presented to us, but it is a mistake to disregard the good work that is ongoing at present on flood defence. It is a serious issue. Floods are a threat in Wales, with 57 per cent of people living and one in six buildings in areas that are under threat of flooding. Over 200,000 buildings are under threat from fluvial flooding and another 64,000 are at risk of sea flooding. In addition, over 130,000 other homes are threatened by surface water flooding. Therefore, we are discussing a serious and important issue and, as I said, I recognise what the Conservatives have brought before us this afternoon.

However, I must congratulate the One Wales Government on its attempts to improve flood defences in Wales over the past few years. For example, in my constituency, in Llanrwst and Trefriw, the One Wales Government has invested £7 million in flood defences. During the heavy rains of November and about a fortnight ago over the weekend, those defences were put to the test and they proved to be a great success. We must recognise that and give thanks for the fact that this scheme has gone ahead and averted devastation. There are residents in the Llanrwst and Trefriw area who would certainly express their gratitude for that work. The point that should be borne in mind is that although the defences cost £7 million of Government money, they are likely to have already saved thousands in insurance claims and so on.

As you know, in the Conwy Valley not just property is under threat, but agricultural land. This Government has put in place a very innovative scheme, which allows flood waters to flow over the land, but, given the nature of the scheme, the water then dissipates much more quickly. Therefore, farmers can carry on with their work much sooner than they could in the past when the

medru o dan yr hen drefn pan oedd yr afon yn gorlifo. Felly, mae gwaith da yn digwydd, a chredaf mai camgymeriad ar ran y Ceidwadwyr yw dweud nad yw hynny'n gymaint o bwys, ac mai'r hyn sy'n bwysig yw'r dyfodol. Mae'r presennol hefyd yn hollbwysig.

Mae elfennau amgylcheddol cryf yn nodyn cyngor technegol 15. Efallai fod ynddo wendidau, ond mae ynddo elfennau cryf hefyd. Yn y cyd-destun amgylcheddol hwnnw, yr ydym yn gwybod bod Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, wedi lansio cynllun gweithredu Coetiroedd i Gymru, sy'n nodi'r cyfraniad sylweddol y gall coetiroedd a choed ei wneud i sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, a hefyd i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae'r cynllun yn dangos sut y gellid defnyddio coed a choetiroedd er mwyn helpu i reoli llifogydd, sy'n bwynt pwysig tu hwnt. Er mwyn dod i'r afael â phroblemau amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd, mae angen cefnogi polisiau uchelgeisiol sy'n croesi mwy nag un portffolio.

I gloi, hoffwn nodi fy ansicrwydd ynghylch cyllideb gysgod y Ceidwadwyr a'r ffaith eu bod yn bwriadu torri ar gyllid ar gyfer cynaliadwyedd o ryw 24 y cant. Dyna fy nealltwriaeth i. Byddai hynny'n cael effaith ddifrifol ar yr arian sydd ar gael i wella ac adeiladu amddiffynfeydd llifogydd, fel y mae pethau ar hyn o bryd. Derbyniaf fod yn rhaid inni edrych i'r dyfodol, ond byddai hynny'n wendid.

Angela Burns: Thank you for taking an intervention. How can taking action such as implementing a blue belt system, which we would do in conjunction with the Environment Agency, based on the maps that it has already started to draw up, cost too much money when you compare it against the cost of flooding to the public purse and to individuals and businesses? You will find that it would be more than cost neutral.

Gareth Jones: That is a good point, but the point that I am making is that I assume that 24 per cent would be an immediate cut. I am telling you and your fellow Conservatives that action is needed today. It is all very well

river overflowed. Therefore, good work is ongoing, and I think that it is a mistake for the Conservatives to say that is not as important, and that it is the future that is important. The present is also very important indeed.

There are strong environmental elements in technical advice note 15. There may be some weaknesses in it, but it also has some strengths. In that environmental context, we know that Elin Jones, the Minister for Rural Affairs, has launched the Woodlands for Wales action plan, which notes the significant contribution that woodlands and trees can make in ensuring social, economic and environmental benefits, and also in getting to grips with the effects of climate change. The scheme demonstrates how trees and woodlands can be used to help manage floods, which is a crucial point. To get to grips with these environmental problems and climate change, we need to support ambitious policies that cut across portfolios.

To close, I would like to note my uncertainty about the Conservatives' shadow budget and the fact that they intend to cut the money for sustainability by some 24 per cent, as I understand it. That would have a detrimental impact on the money available to improve and build flood defences, as things stand. I accept that we need to look to the future, but that would be a problem.

Angela Burns: Diolch i chi am dderbyn ymyriad. Sut y gall gymryd camau megis cyflwyno system llain las, y byddem yn ei wneud ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd, yn seiliedig ar y mapiau sydd eisoes wedi dechrau cael eu llunio, gostio gormod o arian o gymharu â chost llifogydd i'r pwrw cyhoeddus ac i unigolion a busnesau? Byddai'n well na niwtral o ran cost.

Gareth Jones: Mae hwnnw'n bwynt da, ond y pwynt rwyf i yn ei wneud yw fy mod yn cymryd yn ganiataol y byddai 24 y cant yn doriad ar unwaith. Rwyf yn dweud wrthoch chi a'ch cyd-Geidwadwyr bod angen

talking about the future and thinking about future objectives. [*Interruption.*] Yes, it has to be done; I am not disputing that. However, as far as today is concerned—and you may well smile—there are people living in fear of these floods, as we have heard from Kirsty Williams. I have met them in my own constituency, as I am sure that you have as well. Something needs to happen today—[*Interruption.*] It is happening, Angela; that is the point that I am trying to make.

Darren Millar: This is an extremely important debate for the whole of Wales and for my own local community in Towyn and Kinmel Bay, which is the largest single community in Wales at risk of flooding. I remember well the events of 21 years ago in Towyn when we experienced devastating floods. Five thousand people had to be evacuated from that community and the floods had a devastating impact—Kirsty Williams talked about that impact—for many months after the flood waters had receded. In fact, there were still people out of their homes a number of years later, and there were problems, as there always are following large-scale floods, such as those with cowboy builders, to be dealt with in the aftermath.

5.50 p.m.

Therefore, because of that personal experience, I want to ensure that none of my constituents, or anyone else in Wales, has to face unnecessary flooding in the future. That is what our motion today is all about. It is about ensuring, once and for all, that no more homes are built in areas where the risk of flooding is far too high. It is clear that the existing planning system is inadequate. It is not working, and TAN 15 is still allowing one in 33 developments to go ahead on floodplains and in areas at risk of flooding. That is simply not good enough. It relies on sometimes inaccurate data, as some speakers have pointed out, whereby some areas that are clearly not at risk of flooding have a blight against them, and other areas, which are at risk, appear to be given the green light for developments that should not be taking place.

gweithredu heddiw. Mae'n hawdd siarad am y dyfodol a meddwl am amcanion y dyfodol. [*Torri ar draws.*] Oes, mae'n rhaid ei wneud; nid wyf yn dadlau hynny. Fodd bynnag, cyn belled ag y mae heddiw yn y cwestiwn—mae'n hawdd ichi wenu—mae pobl yn byw mewn ofn o'r llifogydd hyn, fel y clywsom gan Kirsty Williams. Rwyf wedi cwrdd â nhw yn fy etholaeth i, fel yr wyf yn siŵr eich bod chithau hefyd. Mae angen i rywbeth ddigwydd heddiw—[*Torri ar draws.*] Mae'n digwydd, Angela; dyna yw'r pwynt rwyf yn ceisio ei wneud.

Darren Millar: Mae hon yn ddadl eithriadol o bwysig i Gymru gyfan ac i fy nghymuned leol i yn Nhowyn a Bae Cinnel, sef y gymuned fwyaf yng Nghymru sydd mewn perygl o lifogydd. Cofiaf yn dda am ddigwyddiadau 21 mlynedd yn ôl yn Nhowyn pan gawsom lifogydd dinistriol. Bu'n rhaid symud pum mil o bobl o'r gymuned honno a chafodd y llifogydd effaith ddinistriol—soniodd Kirsty Williams am yr effaith honno—am fisoedd lawer ar ôl i ddŵr y llifogydd gilio. Yn wir, roedd pobl yn dal heb ddychwelyd i'w cartrefi nifer o flynyddoedd yn ddiweddarach, ac roedd problemau, fel sydd bob amser yn dilyn llifogydd ar raddfa fawr, megis y rhai a ddaw yn sgîl adeiladwyr cowboi, i ymdrin â hwy yn dilyn hynny.

Felly, oherwydd y profiad personol hwnnw, rwyf am sicrhau nad oes unrhyw un o'm hetholwyr, nag unrhyw un arall yng Nghymru, yn gorfod wynebu llifogydd diangen yn y dyfodol. Dyna beth yw byrdwn ein cynnig heddiw. Mae'n golygu sicrhau, unwaith ac am byth, nad oes mwy o gartrefi yn cael eu hadeiladu mewn ardaloedd lle mae'r perygl o lifogydd yn llawer rhy uchel. Mae'n amlwg nad yw'r system gynllunio bresennol yn ddigonol. Nid yw'n gweithio, ac mae TAN 15 yn dal i ganiatáu i un o bob 33 datblygiad fynd yn ei flaen ar orlifdiroedd ac mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Nid yw hynny'n ddigon da. Mae'n dibynnu ar ddata sydd weithiau'n anghywir, fel y mae rhai siaradwyr wedi dweud, sy'n golygu y penderfynir yn erbyn rhai ardaloedd sy'n amlwg nad ydynt mewn perygl o lifogydd, ond ymddengys fod ardaloedd

eraill, sydd mewn perygl, yn cael y golau gwyrdd ar gyfer datblygiadau na ddylai ddigwydd.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 5.51 p.m.
The Presiding Officer took the Chair at 5.51 p.m.*

There are all sorts of other tensions within the planning system. In Conwy, for example, the spatial plan for the area identifies that a lot of development is needed for the future, including an additional 5,000 homes across the local authority area. However, when you take into account some of the good restrictions that TAN 15 puts in place, unfortunately that means that there is pressure on the council to find places for development in areas of flood risk. Therefore, there are tensions within the planning system even where there are some decent safeguards in place. That is why we need a full overhaul of the planning system in respect of flooding. We need to ensure that TAN 15 is fit for purpose, and that is why we want to see blue belt areas designated across Wales as areas where residential or important infrastructure developments should not take place.

Janet Ryder: You have referred to the pressure to build houses in the Conwy area. Would you agree that the pressure is building between Conwy and Denbighshire, forcing councils to look at areas such as that just outside Bodolwyddan, where no-one should be building, because it is a floodplain?

Darren Millar: You are absolutely right. We have a hospital, for example, that was built on a floodplain many years ago and should never have been built there because of the flood risk. That is where it is, and we have to safeguard it, along with the homes of people in Bodolwyddan. However, we certainly should not be increasing the risks to people's homes by building more homes on that floodplain. That is an example of an area that would benefit from a blue belt designation.

We are not touching on this directly in our motion, but matters such as the conveyancing process need to be looked at, to ensure that people are aware when they move into a home in a flood-risk area. They should be told about it—there should be a legal duty to

Mae pob math o densiynau eraill o fewn y system gynllunio. Yng Nghonwy, er enghraifft, mae'r cynllun gofodol ar gyfer yr ardal yn nodi bod angen llawer o waith datblygu ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys 5,000 o gartrefi ychwanegol ar draws ardal yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, pan ystyriwch rhai o'r cyfyngiadau da y mae TAN 15 yn eu gorfodi, yn anffodus mae hynny'n golygu bod pwysau ar y cyngor i ddod o hyd i leoedd ar gyfer datblygu mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd. Felly, mae tensiynau o fewn y system gynllunio, hyd yn pan fo rhai mesurau diogelu digonol yn eu lle. Dyna pam mae angen gweddnewid y system gynllunio yn llwyr mewn perthynas â llifogydd. Mae angen i ni sicrhau bod TAN 15 yn addas at y diben, a dyna pam rydym am weld ardaloedd llain las dynodedig ledled Cymru ac yn ardaloedd lle na ddylai datblygiadau preswyl na seilwaith pwysig ddigwydd.

Janet Ryder: Rydych wedi cyfeirio at y pwysau sydd i adeiladu tai yn ardal Conwy. A fydddech yn cytuno bod y pwysau yn cynyddu rhwng Conwy a Sir Ddinbych, gan orfodi cynghorau i edrych ar ardaloedd fel yr un y tu allan i Fodelwyddan, lle na ddylai fod neb yn adeiladu, gan ei fod yn orlifdir?

Darren Millar: Rydych yn llygad eich lle. Mae gennym yr ysbyty, er enghraifft, a adeiladwyd ar orlifdir flynyddoedd lawer yn ôl ac ni ddylai byth fod wedi cael ei hadeiladu yno oherwydd y perygl o lifogydd. Dyna le y mae, ac mae'n rhaid i ni ei diogelu, ynghyd â chartrefi pobl ym Modelwyddan. Fodd bynnag, yn sicr ni ddylem gynyddu'r risgiau i gartrefi pobl drwy adeiladu mwy o dai ar y gorlifdir hwnnw. Dyna enghraifft o ardal a fyddai'n elwa o'i dynodi'n llain las.

Nid ydym yn sôn am hyn yn uniongyrchol yn ein cynnig, ond mae angen edrych ar faterion megis y broses drawsgludo, er mwyn sicrhau bod pobl yn ymwybodol pan fyddant yn symud i gartref mewn ardal lle mae perygl o lifogydd. Dylent gael gwybod amdano—

tell individuals buying a property that it may be at risk from flooding. It is a disgrace that 43 per cent of people living in flood-risk areas are not aware that the area is at risk. The Environment Agency Wales has been doing a good job of trying to promote flood awareness across Wales, including in my constituency, but we are still failing in that regard, and I think that the conveyancing process could play a part in helping to address that problem.

Finally, I will touch on evacuation procedures. I have raised them in this Chamber in the past, and I will do so again, because it is an issue that is still not being dealt with. There are many vulnerable people and schools in my own local community of Towyn and Kinnel Bay that are without proper evacuation procedures. People who take children to those schools, or who care for vulnerable people, need to be aware and to know what to do should there be a flood. It is regrettable, Minister, that that has not been ironed out, and is not being addressed adequately to ensure that there is sufficient awareness of evacuation procedures.

Time has beaten me, or I would have said a lot more—particularly about infrastructure and the need to ensure that it is kept away from flood-risk areas.

Mohammad Asghar: Flooding can cause horrific damage to people's lives. I would like to start my contribution by expressing my deepest sympathy to all households and communities that have suffered as a consequence. As we all know, we face many issues in Wales with flooding, including in my area of Newport, which is a red-alert area. When flood comes, Minister, it is without warning. As Kirsty said earlier, it has a devastating effect on families and the local community. Recent figures have shown that only 57 per cent of people who live in flood-risk areas are aware that they are at risk—that is alarming—while less than a third have taken any action. Flooding has been earmarked by many experts as the single biggest climate-change-related threat faced by the United Kingdom. Estimates suggest

dylai fod yn ddyletswydd gyfreithiol i ddweud wrth unigolion sy'n prynu eiddo y gall fod mewn perygl o lifogydd. Mae'n warthus nad yw 43 y cant o bobl sy'n byw mewn ardaloedd lle mae risg o lifogydd yn ymwybodol bod yr ardal mewn perygl. Bu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gwneud gwaith da o ran ceisio hybu ymwybyddiaeth o lifogydd ar draws Cymru, gan gynnwys yn fy etholaeth i, ond rydym yn dal i fethu yn hynny o beth, a thylbiaf y gallai'r broses drawsgludo chwarae rhan mewn helpu i fynd i'r afael â'r broblem.

Yn olaf, byddaf yn cyffwrdd ar weithdrefnau gwacau. Rwyf wedi sôn amdanynt yn y Siambr hon yn y gorffennol, a byddaf yn gwneud hynny eto, am ei fod yn fater sydd yn dal heb ei drin. Nid oes gan lawer o bobl agored i niwed ac ysgolion yn fy nghymuned leol, sef Tywyn a Bae Cinmel, weithdrefnau gwagio priodol. Mae pobl sy'n mynd â phlant i'r ysgolion hynny, neu sy'n gofalu am bobl sy'n agored i niwed, angen bod yn ymwybodol a gwybod beth i'w wneud pe bai llifogydd. Mae'n anffodus, Weinidog, nad yw hynny wedi cael ei ddatrys, ac nad yw'n cael sylw digonol i sicrhau bod ymwybyddiaeth ddigonol o weithdrefnau dianc.

Mae amser wedi fy nhrechu, neu byddwn wedi dweud llawer mwy—yn enwedig am seilwaith a'r angen i sicrhau ei fod yn cael ei gadw draw o ardaloedd lle mae perygl o lifogydd.

Mohammad Asghar: Gall llifogydd achosi niwed erchyll i fywydau pobl. Hoffwn ddechrau fy nghyfraniad drwy fynegi fy nghydymdeimlad dwysaf i bob cartref a chymuned sydd wedi dioddef o ganlyniad i lifogydd. Fel y gwyddom i gyd, rydym yn wynebu nifer o broblemau yng Nghymru gyda llifogydd, gan gynnwys yn fy ardal i yng Nghasnewydd, sy'n ardal mewn cryn berygl. Pan ddaw llifogydd, Weinidog, maent yn dod yn ddirybudd. Fel y dywedodd Kirsty yn gynharach, mae'n cael effaith ddinistriol ar deuluoedd a'r gymuned leol. Dangosodd ffigurau diweddar mai dim ond 57 y cant o bobl sy'n byw mewn ardaloedd mewn perygl o lifogydd sy'n ymwybodol eu bod mewn perygl—mae hynny'n frawychus—ac mai llai na thraean sydd wedi cymryd unrhyw gamau. Mae llifogydd wedi cael eu hamlygu gan

that, as sea levels rise and rainfall increases, there will be a significant increase in the cost of damage from flooding in the years to come. To address that, preventative measures are essential. It is worrying that around 3 per cent of new developments in Wales are being built on land that is at risk of flooding, contrary to advice given in technical advice note 15 and the advice of the Environment Agency.

Given that increased flooding is likely in years to come, that is unacceptable. TAN 15 must be very clear with regard to not building on areas at risk of flooding. A complete end must be put to irresponsible development, and we feel that our proposal will ensure that. Designating land as blue belt land will prevent developments from being built close to rivers, lakes and the coastline in Wales. By identifying areas that are at significant risk of flooding, and preventing development in those areas, irresponsible building would stop. The Sustainability Committee found that the public often assumes that planning permission would not be granted in flood-risk areas. That is a fair assumption, but, sadly, evidence suggests that such developments are happening. The implementation of designated blue belt areas would ensure that that assumption was correct by preventing development in areas at high risk of flooding.

The need to reform TAN 15 urgently has been highlighted by many. The Sustainability Committee concluded that planning permission has been granted on sites that are prone to flooding or on land with inadequate drainage facilities. The Wales Audit Office has said that, to control such inappropriate development, local authorities require better guidance. I also understand that the Flood Risk Management Wales Committee has highlighted the importance of revisiting and reviewing TAN 15, noting that too much inappropriate development is taking place. Clearly, TAN 15 is not explicit enough. By

lauer o arbenigwyr fel y bygythiad unigol mwyaf sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd a wynebir yn y Deyrnas Unedig. Mae amcangyfrifon yn awgrymu, wrth i lefel y môr godi a'r glaw gynyddu, y bydd cynnydd sylweddol yng nghost difrod llifogydd yn y blynyddoedd i ddod. Er mwyn mynd i'r afael â hynny, mae mesurau ataliol yn hanfodol. Mae'n peri pryder bod tua 3 y cant o ddatblygiadau newydd yng Nghymru yn cael eu hadeiladu ar dir sydd mewn perygl o lifogydd, yn groes i'r cyngor a roddir yn nodyn cyngor technegol 15 a chyngor Asiantaeth yr Amgylchedd.

Gan fod mwy o lifogydd yn debygol yn y blynyddoedd i ddod, mae hynny'n annerbyniol. Mae'n rhaid i TAN 15 fod yn glir iawn o ran peidio ag adeiladu ar ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Mae'n rhaid rhoi terfyn am byth ar ddatblygu anghyfrifol, a theimlwn y bydd ein cynnig ni'n sicrhau hynny. Bydd dynodi tir fel tir llain las yn atal datblygiadau rhag cael eu hadeiladu yn agos at afonydd, llynnoedd a'r arfordir yng Nghymru. Drwy nodi ardaloedd sydd mewn perygl sylweddol o lifogydd, ac atal datblygu yn yr ardaloedd hynny, bydd adeiladu anghyfrifol yn dod i ben. Canfu'r Pwyllgor Cynaliadwyedd fod y cyhoedd yn aml yn cymryd yn ganiataol na fyddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi mewn ardal lle mae perygl o lifogydd. Mae honno'n rhagdybiaeth deg, ond, yn anffodus, mae tystiolaeth yn awgrymu bod datblygiadau o'r fath yn digwydd. Byddai cyflwyno ardaloedd llain las dynodedig yn sicrhau bod y rhagdybiaeth yn gywir drwy atal datblygu mewn ardaloedd sydd mewn perygl mawr o lifogydd.

Mae'r angen brys i ddiwygio TAN 15 wedi cael ei amlygu gan lawer. Daeth y Pwyllgor Cynaliadwyedd i'r casgliad bod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar safleoedd sy'n dueddol o ddiodeff llifogydd neu ar dir gyda chyfleusterau draenio annigonol. Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru fod angen canllawiau gwell ar awdurdodau lleol er mwyn rheoli datblygiad amhriodol o'r fath. Rwyf hefyd yn deall bod Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru wedi tynnu sylw at bwysigrwydd ailedrych ar TAN 15 a'i adolygu, gan nodi bod gormod o ddatblygu amhriodol yn digwydd. Yn amlwg, nid yw

designating land as blue belt land, developments in areas at high risk of flooding would be prevented. For that reason, I urge Members to support the motion.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I welcome the opportunity to discuss the tools that we use to manage flood risk in Wales. One in six properties in Wales is at risk of flooding, or 357,000 homes and businesses, of which 123,000 are at risk of flooding from rivers and/or the sea, 137,000 are at risk of flooding from surface water, and 97,000 are at risk of flooding from rivers and/or the sea and surface water. Therefore, this is a serious issue, and I acknowledge fully that all Members take the issue very seriously indeed. That is why the Welsh Government, in the budget, is continuing to support measures to tackle flooding. We have seen the amount of money for those measures rise fourfold over the time of this Assembly; we now have some £44 million in our normal funding, and £43.7 million in European funding. The Welsh Conservatives might wish to suggest that the Government in England make a similar commitment to continuing to support measures to tackle flooding, rather than making the cuts to DEFRA that it has made.

The Conservatives call on us to introduce a blue belt system. ‘Blue belt’ was a new term to me, as I think it will have been to most Assembly Members. Therefore, I Googled it, and after the first 25 pages, relating to Tae Kwon Do and martial arts, I gave up—I then thought that it might be some kind of Tory protection against the invasion from other parties that will come at the Assembly election. However, I then found out that, in fact, it is in the Chartered Institution of Water and Environmental Management’s policy position statement that it made in September 2008. It is not on its website, but I hope that whoever responds on behalf of the Conservative Party will credit the institution with regard to the phraseology that you have used.

TAN 15 yn ddigon eglur. Drwy ddynodi tir yn dir llain las, byddai datblygiadau mewn ardaloedd sydd mewn perygl mawr o lifogydd yn cael eu hatal. Am y rheswm hwnnw, rwyf yn annog Aelodau i gefnogi'r cynnig.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Rwyf yn croesawu'r cyfle i drafod y dulliau a ddefnyddiwn i reoli perygl llifogydd yng Nghymru. Mae un o bob chwe eiddo yng Nghymru mewn perygl o lifogydd, neu 357,000 o gartrefi a busnesau, mae 123,000 o'r rheini mewn perygl o lifogydd o afonydd ac/neu'r môr, mae 137,000 mewn perygl o lifogydd o ddŵr wyneb, a 97,000 mewn perygl o lifogydd o afonydd ac/neu'r môr a dŵr wyneb. Felly, mae hwn yn fater difrifol, ac rwyf yn cydnabod yn llawn bod yr holl Aelodau'n ei gymryd o ddifrif. Dyna pam y mae Llywodraeth Cymru, yn y gyllideb, yn parhau i gefnogi mesurau i fynd i'r afael â llifogydd. Rydym wedi gweld y swm o arian ar gyfer y mesurau hynny yn codi bedair gwaith yn ystod cyfnod y Cynulliad hwn; mae gennym yn awr tua £44 miliwn yn ein cyllid arferol, a £43.7 miliwn o gyllid Ewropeaidd. Efallai y bydd Ceidwadwyr Cymru yn dymuno awgrymu bod y Llywodraeth yn Lloegr yn gwneud ymrwymiad tebyg i barhau i gefnogi mesurau i fynd i'r afael â llifogydd, yn hytrach na gwneud y toriadau i DEFRA y mae wedi'i gwneud.

Mae'r Ceidwadwyr yn galw arnom i gyflwyno system llain las. Roedd 'llain las' yn derm newydd i mi, fel y tybiaf yr oedd i'r rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad. Felly, chwiliais am y term yn Google, ac ar ôl y 25 tudalen gyntaf, a oedd yn ymwneud â Tae Kwon Do a chreffft ymladd, rhoddais y gorau iddi—meddyliais wedyn y gallai fod yn rhyw fath o amddiffyniad gan y Toriaid yn erbyn ymosodiad gan bleidiau eraill yn ystod etholiad y Cynulliad. Fodd bynnag, gwelais wedyn ei fod yn y datganiad safbwynt polisi a wnaeth y Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd ym mis Medi 2008. Nid yw ar ei wefan, ond gobeithio y bydd pwyl bynnag sy'n ymateb ar ran y Blaid Geidwadol yn cydnabod y sefydliad o ran y geiriad a ddefnyddiwyd gennych.

6.00 p.m.

This debate regarding the proposed designation of areas at high risk of flooding is important. The chartered institution calls for maps delineating these areas to be developed and made public. However, maps showing flood risk areas already exist and are publicly available in the form of technical advice note 15's development advice maps and the Environment Agency's flood maps.

Rather than being a new concept in floodplain management, the blue belt is more of a simplification of policy where development is either allowed or disallowed depending on its location. It does not differentiate between types of development and their vulnerability as current policy and TAN 15 do. In 'Planning Policy Wales' and TAN 15, we have a recognised system that not only addresses the concept of a blue belt, but goes further in stipulating where vulnerable development will not be allowed and where acceptable development can be allowed if justified and mitigated to be as safe as possible.

Darren Millar *rose*—

The Presiding Officer: Order. The Minister is not giving way.

Jane Davidson: The policy says that highly vulnerable development, including all residential premises, is not considered to be acceptable in zone C2. Plan allocation should not be made for such development and planning applications should not be proposed. It is the development advice maps accompanying TAN 15 that provide a visual representation of flood zones A, B and C. Zone C is the extreme floodplain and is split into those areas that are defended and undefended. Zone C of the DAMs equates to the 1 in 1,000 risk outline for an extreme flood event and goes beyond the 1 in 100-year outline currently used for a similar purpose in England. Those parts of the zone C floodplain that are not protected by significant flood defence are termed C2 floodplain and are already, in effect, our

Mae'r ddadl ynghylch y syniad o ddynodi ardaloedd sydd mewn perygl mawr o lifogydd yn bwysig. Mae'r sefydliad siartredig yn galw am ddatblygu a chyoeiddi mapiau sy'n amlygu'r ardaloedd hyn. Fodd bynnag, mae mapiau sy'n dangos ardaloedd perygl llifogydd eisoes yn bodoli ac ar gael i'r cyhoedd ar ffurf y mapiau cyngor datblygu sy'n cyd-fynd â nodyn cyngor technegol 15 a mapiau llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd.

Yn hytrach na bod yn gysyniad newydd mewn rheoli gorlifdiroedd, mae llain las a wnelo fwy â symleiddio polisi lle rhoddir caniatâd neu beidio i ddatblygiad yn dibynnu ar ei leoliad. Nid yw'n gwahaniaethu rhwng mathau o ddatblygiad na lefel y risg o lifogydd fel y gwna'r polisi cyfredol a TAN 15. Yn 'Polisi Cynllunio Cymru' a TAN 15, mae gennym system gydnabyddedig sydd nid yn unig yn mynd i'r afael â'r cysyniad o lain las, mae hefyd yn mynd yn bellach drwy bennu lle na fydd datblygiad sydd â lefel uchel o risg yn cael ei ganiatáu a phennu lle y gellir caniatáu datblygiad derbyniol os gellir ei gyfiawnhau a'i liniaru i fod mor ddiogel â phosibl.

Darren Millar *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. Nid yw'r Gweinidog yn iddio.

Jane Davidson: Mae'r polisi'n dweud nad yw datblygiad sydd â lefel uchel iawn o risg, gan gynnwys pob adeilad preswyl, yn cael ei ystyried yn dderbyniol ym mharth C2. Ni ddylid dyrannu cynllun ar gyfer datblygiad o'r fath ac ni ddylid cynnig ceisiadau cynllunio. Mae'r mapiau cyngor datblygu sy'n cyd-fynd â TAN 15 yn nodi parthau llifogydd A, B ac C. Parth C yw'r gorlifdir eithaf ac fe'i rhennir yn ardaloedd sy'n cael eu hamddiffyn ac sy'n ddiameddiffyn. Mae Parth C y mapiau cyngor datblygu yn cyfateb i risg amlinellol o 1 mewn 1,000 ar gyfer digwyddiad o lifogydd eithafol ac yn mynd y tu hwnt i'r 1 mewn 100 mlynedd amlinellol a ddefnyddir ar hyn o bryd at ddiben tebyg yn Lloegr. Caiff y rhannau hynny o orlifdir parth C sydd heb eu gwarchod gan amddiffynfa sylweddol rhag llifogydd eu galw'n

'blue belt'.

The first of the Liberal Democrat amendments calls on us to ensure that any tools to restrict development are based on the latest information and maps. This is already the case and we are therefore happy to support this amendment. The latest advice maps were issued in September 2009. They are reviewed annually and are updated when we are advised of a need to do so by the Environment Agency. No such advice has been received since September 2009, which means that the current system is indeed based on the most up-to-date and accurate mapping of flood-risk areas. Furthermore, there is already a presumption built into 'Planning Policy Wales' and TAN 15 to ensure that new development, and in particular highly vulnerable development, is directed away from areas at risk of flooding wherever possible. We are therefore happy to support the second Liberal Democrat amendment.

The Environment Agency's high-level target 13 examines the extent to which local planning authorities have taken into account expert advice from the Environment Agency Wales on flood risk when making decisions on planning applications. The latest figures for 2008-09 reflect those in 2007-08, showing a drop in the number of applications that the EA objected to on flood-risk grounds, despite a rise in the number of applications being refused.

If we are talking about listening to expert advice, no evidence was given during the committee's inquiry by the Environment Agency, the Welsh Local Government Association, or the Association of British Insurers calling for an urgent review of TAN 15. In fact, Chris Mills specifically said that there was no need to rewrite TAN 15. This Government likes to develop its policy based on evidence.

Darren Millar: Minister, will you take an intervention?

orlifdiroedd C2 ac maent eisoes, mewn gwirionedd, yn cynrychioli ein 'llain las'.

Mae'r cyntaf o welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn galw arnom i sicrhau bod unrhyw ddulliau i gyfyngu ar ddatblygu yn seiliedig ar y wybodaeth a'r mapiau diweddaraf. Mae hyn eisoes yn wir ac felly rydym yn hapus i gefnogi'r gwelliant hwn. Cyhoeddwyd y mapiau cyngor diweddaraf ym mis Medi 2009. Maent yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac yn cael eu diweddarau pan fydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn dweud wrthym fod angen gwneud hynny. Ni chafwyd cyngor o'r fath ers mis Medi 2009, sy'n golygu bod y system bresennol yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf fwyaf cywir o ardaloedd sydd â risg o lifogydd. Ar ben hynny, mae rhagdybiaeth eisoes yn 'Polisi Cynllunio Cymru' a TAN 15 i sicrhau bod datblygiad newydd, ac yn benodol, datblygiad sydd â lefel uchel o risg, yn cael ei ddargyfeirio o ardaloedd mewn perygl o lifogydd lle bo hynny'n bosibl. Rydym felly yn falch o gefnogi ail welliant y Democratiaid Rhyddfrydol.

Mae targed lefel uchel 13 Asiantaeth yr Amgylchedd yn archwilio i ba raddau y mae awdurdodau cynllunio lleol wedi ystyried cyngor arbenigol gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar berygl llifogydd wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2008-09 yn adlewyrchu ffigurau 2007-08, sy'n dangos gostyngiad yn nifer y ceisiadau a wrthwynebodd yr asiantaeth ar sail perygl o lifogydd, er gwaethaf cynnydd yn nifer y ceisiadau a wrthodwyd.

Os ydym yn sôn am wrando ar gyngor arbenigol, ni roddwyd unrhyw dystiolaeth yn ystod ymchwiliad y pwyllgor gan Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru na Chymdeithas Yswirwyr Prydain yn galw am adolygiad brys o TAN 15. Yn wir, dywedodd Chris Mills yn benodol nad oedd angen ailysgrifennu TAN 15. Mae'r Llywodraeth hon yn hoffi datblygu ei pholisi yn seiliedig ar dystiolaeth.

Darren Millar: Weinidog, a wnewch chi gymryd ymyriad?

The Presiding Officer: Order. What is the problem with certain members of the Conservative front bench? If the Minister is not giving way, then the Minister is not giving way. [*Interruption.*] Order. It has nothing to do with what you want her to do, or not; it is for the Minister to decide whether she gives way or not. There is no point in trying to pester me, I am unbrowbeatable.

Jane Davidson: Many of us remember the video of testimonies from flood victims that was played to us during last year's debate on the Sustainability Committee's inquiry into flooding in Wales, and, like other Members, I have heard similar stories from people across Wales. When floods happen, people focus on the short-term impacts, such as the water level in houses and the number of people who are rescued. However, the effects of flooding can be seen and felt long afterwards, with investigations and repair work taking months, and, in some cases, years. Insurance may become more expensive and long-term health impacts are common. That is why the consultation on the development of a national strategy for flood risk management in Wales highlighted these issues and sought views on four objectives to manage the risks that we face: reducing the impacts of flooding; raising people's awareness and engaging them in the response to flooding; providing an effective and sustained response across all sectors; and, prioritising investment.

Adopting a risk management approach is not just about building more and higher defences, as I have said on many occasions. In fact, in her introduction, Angela Burns quoted me as saying that. It is about taking a more holistic approach and managing the consequences of flooding. We need to develop more sustainable solutions that work in harmony with the natural environment and we need to see greater consideration of the role that can be played by our beaches, wetland habitats and land management. The Environment Agency will be issued with the shoreline management plans for consultation a little later this year.

Y Llywydd: Trefn. Beth yw problem rhai o aelodau o fainc flaen y Ceidwadwyr? Os nad yw'r Gweinidog yn ildio, yna nid yw'n ildio. [*Torri ar draws.*] Trefn. Nid oes ganddo ddim i'w wneud â'r hyn rydych am iddi ei wneud, neu beidio; mater i'r Gweinidog yw penderfynu a fydd yn ildio ai peidio. Nid oes diben ceisio fy mhlagio, nid oes modd fy ngormesu i.

Jane Davidson: Mae llawer ohonom yn cofio tystiolaeth fideo dioddefwyr llifogydd a chwaraewyd i ni yn ystod dadl y llynedd ar ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i lifogydd yng Nghymru, ac, fel Aelodau eraill, rwyf wedi clywed straeon tebyg gan bobl ledled Cymru. Pan fydd llifogydd yn digwydd, mae pobl yn canolbwyntio ar yr effeithiau tymor byr, megis lefel y dŵr mewn tai a nifer y bobl sy'n cael eu hachub. Fodd bynnag, gellir gweld a theimlo effeithiau llifogydd am gyfnod hir wedyn, a gall ymchwiliadau a gwaith atgyweirio gymryd misoedd, ac, mewn rhai achosion, flynyddoedd. Gall yswiriant fod yn ddrutach ac mae effeithiau hirdymor ar iechyd yn gyffredin. Dyna pam bod yr ymgynghoriad ar y gwaith o ddatblygu strategaeth genedlaethol i reoli perygl llifogydd yng Nghymru wedi tynnu sylw at y materion hyn ac wedi gofyn barn pobl ar bedwar o amcanion i reoli'r peryglon a wynebwn: lleihau effeithiau llifogydd; codi ymwybyddiaeth pobl ac ymgysylltu â hwy yn yr ymateb i lifogydd; darparu ymateb effeithiol a chyson ar draws pob sector; a blaenoriaethu buddsoddiad.

Nid yw mabwysiadu dull o reoli risg yn ymwneud yn unig ag adeiladu amddiffynfeydd mwy ac uwch, fel y dywedais droeon. Yn wir, yn ei chyflwyniad, fe'm dyfynnwyd gan Angela Burns yn dweud hynny. Mae'n ymwneud â defnyddio dull mwy cyfannol a rheoli canlyniadau llifogydd. Mae angen i ni ddatblygu atebion mwy cynaliadwy sy'n gweithio mewn cytgorod â'r amgylchedd naturiol ac mae angen i ni roi mwy o ystyriaeth o'r rôl y gall traethau, cynefinoedd tir gwlyb a rheoli tir eu chwarae. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyhoeddi cynlluniau rheoli traethlinau ar gyfer ymgynghori arnynt ychydig yn ddiweddarach eleni.

I think that Members need to look at making sure that we have national policy and local authority policy in place before we look at whether we should review the guidance that definitely prevents building on the floodplain in Wales.

Angela Burns: Minister, you said that C2 was already your blue belt. Two words, Minister: Stradey Park. The relevant county council has put forward planning applications for building homes on a C2 floodplain, with recommendations to approve. Gareth did a fantastic job trying to defend the indefensible. However, at the end of the day, the flood consequence assessment for the Stradey development points out that, according to TAN 15, a highly vulnerable development is forbidden in the C2 floodplain. Nevertheless, it is allowed to go ahead because of the conflict that arises from the area being part of a regeneration scheme. Therefore, those houses will be built on that floodplain. You do not have blue belt policy, Minister. If you had listened to my speech instead of regurgitating what your speechwriter had written, you would have heard very clearly that I paid absolute respect to where the blue belt concept comes from: I talked about Canada and the chartered institution. Dissing an idea just because it did not come from you is not good enough. This affects the people of Wales. A blue belt is important. TAN 15 is not protecting C2 floodplains. Shame on you, Minister. Shame.

Darren Millar: The Minister referred to the need for evidence on these matters. TAN 15 has been in place since 2004. There are hundreds of properties that have been built in Towyn and Kinnel Bay—a big area of flood risk—on floodplains, in Wales, under TAN 15. Do you agree, Angela, that that demonstrates the inadequacy of the current planning system?

Angela Burns: It is totally inadequate. I rest my case. The evidence is out there. I would happily go to the constituency of any Member who can show me an example of something that has been built on a floodplain, and where all six protections that are designed to safeguard people's lives,

Credaf fod angen i Aelodau ystyried sicrhau bod gennym bolisi cenedlaethol a pholisi awdurdod lleol yn weithredol cyn i ni edrych ar y posibilrwydd o adolygu'r canllawiau sy'n atal unrhyw adeiladu ar y gorlifdir yng Nghymru.

Angela Burns: Weinidog, dywedasoeh mai C2 oedd eich llain las eisoes. Tri gair, Weinidog: Parc y Strade. Mae'r cyngor sir perthnasol wedi cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer adeiladu cartrefi ar orlifdir C2, gydag argymhellion i'w cymeradwyo. Gwnaeth Gareth waith gwych yn ceisio amddiffyn yr anamddiffynadwy. Fodd bynnag, ar ddiwedd y dydd, mae'r asesiad o ganlyniadau llifogydd ar gyfer datblygiad y Strade yn nodi, yn ôl TAN 15, bod datblygiad sydd â lefel uchel iawn o risg yn cael ei wahardd ar orlifdir C2. Er hynny, caniateir iddo fynd yn ei flaen oherwydd y gwrthdaro sy'n deillio o'r ffaith fod yr ardal yn rhan o gynllun adfywio. Felly, bydd y tai hynny yn cael eu hadeiladu ar y gorlifdir. Nid oes gennych bolisi llain las, Weinidog. Pe baech wedi gwranddo ar fy araith yn hytrach nag ailldweud yr hyn a ysgrifennodd awdur eich haraith, byddech wedi clywed yn glir iawn fy mod wedi rhoi clod dyledus i ble y daeth y cysyniad o lain las: soniais am Ganada a'r sefydliad siartredig. Nid yw wfftio syniad dim ond oherwydd na ddaeth gennych chi yn ddigon da. Mae hyn yn effeithio ar bobl Cymru. Mae llain las yn bwysig. Nid yw TAN 15 yn gwarchod gorlifdiroedd C2. Rhag eich cywilydd, Weinidog. Rhag eich cywilydd.

Darren Millar: Cyfeiriodd y Gweinidog at yr angen am dystiolaeth ar y materion hyn. Bu TAN 15 ar waith ers 2004. Adeiladwyd cannoedd o eiddo yn Nhowyn a Bae Cinmel—ardal fawr sydd mewn perygl o lifogydd—ar orlifdiroedd, yng Nghymru, o dan TAN 15. A ydych yn cytuno, Angela, fod hynny'n dangos pa mor annigonol yw'r system gynllunio bresennol?

Angela Burns: Mae'n gwbl annigonol. Rwyf yn cloi fy nadl gyda hynny. Mae'r dystiolaeth ar gael. Byddwn yn fodlon mynd i etholaeth unrhyw Aelod a allai ddangos enghraifft i mi o rywbeth sydd wedi cael ei adeiladu ar orlifdir, a lle mae pob un o'r chwe mesur a gynlluniwyd i ddiogelu bywydau pobl, gan

including evacuation procedures, are known to every householder and are on display. I would cheerfully go.

gynnwys gweithdrefnau dianc, yn wybyddus i bob aelwyd ac yn cael eu harddangos. Byddwn yn mynd yn llawen.

Y Llywydd: Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, symudwn ymlaen yn syth at y cyfnod pleidleisio.

The Presiding Officer: The proposal is to agree the motion without amendment. Are there any objections? I see that there are and therefore we will proceed immediately to voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Cynnig NDM4641: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 32.
Motion NDM4641: For 14, Abstain 0, Against 32.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.
Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4641: O blaid 32, Ymatal 0, Yn erbyn 14.
Amendment 1 to NDM4641: For 32, Abstain 0, Against 14.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.
Amendments 2 and 3 deselected.*

Cynnig NDM4641 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r mesurau sydd eisoes yn eu lle gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyfyngu ar ddatblygiad mewn ardaloedd sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd;

2. Yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid allweddol i reoli'r peryglon o ddioddef llifogydd sy'n wynebu cymunedau ledled Cymru.

*Cynnig NDM4641 fel y'i diwygiwyd: O blaid 31, Ymatal 0, Yn erbyn 14.
Motion NDM4641 as amended: For 31, Abstain 0, Against 14.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Paul
German, Veronica
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Motion NDM4641 as amended:

The National Assembly for Wales:

1. Notes the measures the Welsh Assembly Government already has in place to restrict development in areas at risk of flooding;

2. Welcomes the work being done by the Welsh Assembly Government and key partners to manage the risks of flooding facing communities across Wales.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, Lesley
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ryder, Janet
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wood, Leanne

Asghar, Mohammad
 Black, Peter
 Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Davies, Paul
 German, Veronica
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd cynnig NDM4641 fel y'i diwygiwyd.
 Motion NDM4641 as amended agreed.*

6.10 p.m.

Dadl Fer Short Debate

Sir Benfro: Y Prif Gyrcfan ar gyfer Twristiaeth Bwyd a'r Lleoliad ar gyfer Cynnyrch Lleol

Pembrokeshire: The Food Tourism Capital and the Place for Local Produce

Paul Davies: I have agreed that Kirsty Williams may have one minute of my time at the end of my short debate. Once again, I am delighted to have been chosen for a short debate. Today, I will be looking at celebrating food tourism and local produce in Pembrokeshire. I hope very much that Kirsty and the Minister will join me in celebrating the wonderful local produce and the food sector in Pembrokeshire in general. As the Minister is aware, agriculture and tourism are the two main industries in my constituency, so investment in the sector is of huge importance to the local area. This afternoon, I

Paul Davies: Rwyf wedi cytuno y caiff Kirsty Williams funud o fy amser ar ddiwedd fy nadl fer. Unwaith eto, rwyf yn falch iawn o fod wedi cael fy newis ar gyfer dadl fer. Heddiw, byddaf yn edrych ar ddathlu twristiaeth bwyd a chynnyrch lleol yn Sir Benfro. Rwyf yn gobeithio'n fawr y bydd Kirsty a'r Gweinidog yn ymuno â mi i ddathlu'r cynnyrch lleol gwych a'r sector bwyd yn Sir Benfro yn gyffredinol. Fel y gŵyr y Gweinidog, amaethyddiaeth a thwristiaeth yw'r ddau brif ddiwydiant yn fy etholaeth i, felly mae buddsoddi yn y sector o bwys aruthrol i'r ardal leol. Y prynhawn

want to celebrate the achievements of Pembrokeshire's food tourism sector and its local produce and to discuss building on those successes and talk about further developing the opportunities available.

Some of you may disagree that Pembrokeshire is the food tourism capital and a place for local produce. Well, let us look at the evidence. Pembrokeshire is a great place; it has great people; it produces great food; it produces great drink; and it attracts thousands and thousands of tourists every year. I am fortunate to represent an area that has some of the country's greatest food and drink businesses. Over the past few years, we have seen farms in Pembrokeshire diversify into some of the best micro-businesses in the country. We have seen farm shops, breweries, restaurants and even vineyards being established in Pembrokeshire in the past few years. In many cases, these businesses have been forced to diversify because they found their existing businesses becoming less and less viable. However, many of these small businesses are now developing and growing into some of the best businesses in Wales, and indeed the United Kingdom.

In Pembrokeshire, we have great pubs, great restaurants, great farm shops, great farmers' markets, great tea rooms and great guest houses. We have great businesses, such as the Pembrokeshire Cheese Company, which is now famous worldwide, and its produce is in much demand. We have great micro-businesses, such as the Gwaun Valley Brewery, which is a great example of diversification. It is a successful business that was set up in the summer of 2009 on a farm in the Gwaun valley, and the Minister is of course very familiar with this company as she had the privilege of opening it at the time. It has been set up in an old granary in an idyllic setting in the farmyard at Kilkiffeth, overlooking the Preseli hills. The farm has natural spring water, which is used to make the beer, giving it its unique flavour. There are other brilliant new businesses that are growing very quickly, such as Martyn and Danielle's Free Range Chickens near Fishguard, and there are other businesses

yma, rwyf am ddathlu llwyddiant sector twristiaeth bwyd Sir Benfro a'i gynnyrch lleol ac i drafod adeiladu ar y llwyddiannau a siarad am ddatblygu'r cyfleoedd sydd ar gael ymhellach.

Efallai y bydd rhai ohonoch yn anghytuno mai Sir Benfro yw prifddinas twristiaeth bwyd ac yn lle i gynnyrch lleol. Wel, gadewch inni edrych ar y dystiolaeth. Mae Sir Benfro yn lle gwych; mae ganddo bobl wych; mae'n cynhyrchu bwyd gwych; mae'n cynhyrchu diod gwych; ac mae'n denu miloedd ar filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn. Rwyf yn ffodus i gynrychioli ardal sydd â rhai o fusnesau bwyd a diod gorau'r wlad. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld ffermydd yn Sir Benfro yn arallgyfeirio i fod yn rhai o'r microfusnesau gorau yn y wlad. Rydym wedi gweld siopau fferm, bragdai, tai bwyta a hyd yn oed winllannoedd yn cael eu sefydlu yn Sir Benfro yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mewn llawer o achosion, mae'r busnesau hyn wedi cael eu gorfodi i arallgyfeirio oherwydd eu bod wedi canfod fod eu busnesau presennol yn dod yn llai ac yn llai hyfyw. Fodd bynnag, mae llawer o'r busnesau bach hyn yn awr yn datblygu ac yn tyfu i fod yn rhai o'r busnesau gorau yng Nghymru, ac, yn wir, y Deyrnas Unedig.

Yn Sir Benfro, mae gennym dafarndai gwych, bwytai gwych, siopau fferm gwych, marchnadoedd ffermwyr gwych, ystafelloedd te gwych a gwestai bach gwych. Mae gennym fusnesau mawr, megis Cwmni Caws Sir Benfro, sydd bellach yn enwog ledled y byd, ac mae galw mawr am ei gynnyrch. Mae gennym microfusnesau gwych, megis Bragdy Cwm Gwaun, sy'n enghraifft wych o arallgyfeirio. Mae'n fusnes llwyddiannus a sefydlwyd yn ystod haf 2009 ar fferm yng Nghwm Gwaun, ac mae'r Gweinidog, wrth gwrs, yn gyfarwydd iawn â'r cwmni hwn gan iddi gael y fraint o'i agor ar y pryd. Cafodd ei sefydlu mewn hen ysgubor mewn lleoliad delfrydol ar fuarth Cilciffeth, yn edrych dros fryniau Preseli. Mae gan y fferm ddŵr ffynnon naturiol, sy'n cael ei ddefnyddio i wneud y cwrw, gan roi iddo ei flas unigryw. Mae busnesau newydd eraill gwych sy'n tyfu'n gyflym iawn, fel Martyn a Danielle's Free Range Chickens ger Abergwaun, ac mae busnesau eraill sy'n cynhyrchu cynnyrch

producing fantastic produce, such as Carn Edward Lamb and Longhorn Beef, as seen on the *Land of Dreams* television programme.

The combination of the world's greatest landscapes and some of the greatest food businesses are tremendous ingredients to attract tourists from around the world to Pembrokeshire. There is no doubt that Pembrokeshire has some of the best food-producing businesses. However, it is essential that we maximise the potential and build upon those successes. A recent survey by Wales the True Taste shows a rise of 11 per cent over the past 12 months in awareness of Welsh produce, with the purchase of Welsh food and drink by Welsh consumers rising to 85 per cent, the highest level yet. Of course, this is good news. However, although the survey is encouraging, more information needs to be made available to visitors and tourists in West Wales about Pembrokeshire's food outlets, so that visitors are aware of what is available to them while they are visiting the area.

I fully appreciate that food tourism is a part of the Welsh Assembly Government's overarching food strategy 'Food for Wales, Food from Wales 2010:2020'. With first-class food and drink sourced in Pembrokeshire, it is essential that these products are marketed effectively and that the right support is provided by the Welsh Assembly Government given their importance to the Welsh tourism sector and, therefore, the Welsh economy.

I am sure that we would all agree that locally sourced produce only serves to strengthen the local tourism sector. However, more needs to be done to encourage local food and food-related businesses in order to strengthen local tourism.

I am pleased that the 'Food for Wales, Food from Wales 2010:2020' plan aims to promote the uniqueness of Wales in terms of its food production, and I look forward to hearing about the delivery plan from the Minister at some point in the near future. I will be particularly interested to hear how the Welsh Assembly Government intends to support new local businesses and producers on how

gwyb, megis Carn Edward Lamb and Longhorn Beef, fel y gwelwyd ar y rhaglen deledu *Land of Dreams*.

Mae'r cyfuniad o dirweddau gorau'r byd a rhai o'r busnesau bwyd gorau yn gynhwysion rhagorol i ddenu twristiaid o bob cwr o'r byd i Sir Benfro. Nid oes amheuaeth fod gan Sir Benfro rai o'r busnesau cynhyrchu bwyd sydd ymhlith y gorau. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud y gorau o'r potensial ac yn adeiladu ar y llwyddiannau hynny. Mae arolwg diweddar gan Cymru y Gwir Flas wedi dangos cynnydd o 11 y cant dros y 12 mis diwethaf mewn ymwybyddiaeth o gynnyrch o Gymru, gyda phryniant bwyd a diod o Gymru gan ddefnyddwyr Gymru wedi codi i 85 y cant, sef y lefel uchaf eto. Wrth gwrs, mae hyn yn newyddion da. Fodd bynnag, er bod yr arolwg yn galonogol, mae angen rhoi mwy o wybodaeth ar gael i ymwelwyr a thwristiaid yn y Gorllewin am siopau bwyd Sir Benfro, fel bod ymwelwyr yn gwybod am yr hyn sydd ar gael iddynt pan fyddant yn ymweld â'r ardal.

Rwyf yn llwyr werthfawrogi bod twristiaeth bwyd yn rhan o strategaeth fwyd gyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010:2020'. Gyda bwyd a diod o'r radd flaenaf o ffynonellau yn Sir Benfro, mae'n hanfodol bod y cynhyrchion hyn yn cael eu marchnata'n effeithiol a bod y cymorth cywir yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o ystyried eu pwysigrwydd i sector twristiaeth Cymru ac, felly, economi Cymru.

Rwyf yn siŵr y byddem i gyd yn cytuno bod cynnyrch lleol ond yn cryfhau'r sector twristiaeth lleol. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i annog bwyd lleol a busnesau sy'n gysylltiedig â bwyd er mwyn cryfhau twristiaeth lleol.

Rwyf yn falch bod y cynllun 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010:2020' yn anelu at hyrwyddo natur unigryw Cymru o ran ei gynhyrchu bwyd, ac edrychaf ymlaen at glywed am y cynllun cyflenwi gan y Gweinidog yn y dyfodol agos. Bydd gennyf ddiddordeb arbennig mewn clywed sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cefnogi busnesau lleol a chynhyrchwyr

to sell their products, how it will support existing businesses to explore new markets, and what help will be available to those businesses.

A great way to endorse local produce is by developing food events and festivals. The food tourism action plan 2009 clearly states that

‘there is room for a more limited number of high profile food festivals’.

We are fortunate in Pembrokeshire to host the annual Pembrokeshire Fish Week, which is a great example of such a food festival. Pembrokeshire Fish Week hosts more than 250 events over a week-long period, ranging from showcasing our wonderful seafood to fishing activities and cooking workshops. It is an example of a food event that the whole family can enjoy. The festival won the gold award in the food tourism destination category in the True Taste food and drink awards for 2009-10, and Pembrokeshire Tourism’s premier event award for 2009-10. I know that the Minister is familiar with this event, as she has been in attendance in recent years.

Another fantastic event, which is held in St David’s on an annual basis to promote food and local produce, is the Really Wild Food and Countryside Festival. This is the only event in the UK that is a platform for food and crafts that originate from the wild. The festival weekend’s intention is to develop to such an extent that it becomes a destination event attracting visitors to the area to the benefit of the local community and the local economy. Usually, around 70 exhibitors attend this event in order to showcase what Pembrokeshire and Wales have to offer. I believe that such events are vital, and such festivals need to take place on a much more frequent basis across Wales, particularly in tourist destinations like Pembrokeshire.

I am pleased that raising awareness of Wales’s food and drink through high-profile events and attractions is one of the objectives of the 2009 food tourism action plan. However, in the case of Pembrokeshire, I believe that more needs to be done, given that the launch of that report was some 18 months

newydd ar sut i werthu eu cynnyrch, sut y bydd yn cefnogi busnesau sy’n bodoli eisoes i chwilota am farchnadoedd newydd, a pha gymorth fydd ar gael i’r busnesau hynny.

Ffordd wych o gefnogi cynnyrch lleol yw trwy ddatblygu digwyddiadau a gwyliau bwyd. Mae’r cynllun gweithredu twristiaeth bwyd 2009 yn dweud yn glir

‘mae lle am nifer fwy cyfyngedig o wyliau bwyd proffil uchel.’

Rydym yn ffodus yn Sir Benfro i gynnal wythnos bysgod flynyddol Sir Benfro, sy’n enghraifft wych o ŵyl fwyd o’r fath. Mae wythnos bysgod Sir Benfro yn cynnal mwy na 250 digwyddiad dros gyfnod o wythnos, yn amrywio o arddangos ein bwyd môr ardderchog i weithgareddau pysgota a gweithdai coginio. Mae’n enghraifft o ddigwyddiad bwyd y gall y teulu cyfan ei fwynhau. Enillodd yr ŵyl wobwr aur yn y categori cyrchfan twristiaeth bwyd yng ngwobrau bwyd a diod Gwir Flas yn 2009-10, a phrif ddigwyddiad Twristiaeth Sir Benfro yn 2009-10. Gwn fod y Gweinidog yn gyfarwydd â’r digwyddiad hwn, gan y bu’n bresennol yn y blynyddoedd diwethaf.

Digwyddiad arall gwych, a gynhelir yn Nhyddewi bob blwyddyn i hyrwyddo bwyd a chynnyrch lleol, yw’r Really Wild Food and Countryside Festival. Dyma’r unig ddigwyddiad yn y DU sy’n llwyfan i fwyd a chrefftau sy’n deillio o’r gwyllt. Bwriad yr ŵyl yw datblygu i’r fath raddau fel ei bod yn dod yn ddigwyddiad cyrchfan sy’n denu ymwelwyr i’r ardal er budd y gymuned leol a’r economi leol. Fel arfer, mae tua 70 o arddangoswyr yn bresennol yn y digwyddiad er mwyn dangos yr hyn sydd gan Gymru a Sir Benfro i’w gynnig. Credaf fod digwyddiadau o’r fath yn hanfodol, ac mae angen i wyliau o’r fath ddigwydd yn llawer amlach ledled Cymru, yn enwedig mewn cyrchfannau ymwelwyr fel Sir Benfro.

Rwyf yn falch y bydd codi ymwybyddiaeth o fwyd a diod Cymru drwy ddigwyddiadau ac atyniadau uchel eu proffil yn un o amcanion cynllun gweithredu twristiaeth bwyd 2009. Fodd bynnag, yn achos Sir Benfro, tybiaf bod angen gwneud mwy, o gofio y cafodd yr adroddiad hwnnw ei lansio 18 mis yn ôl. Nid

ago. Food tourism is not just important to the local tourist industry in Pembrokeshire and west Wales, it is also very important to the prominent agriculture industry. We know that agricultural activity in Pembrokeshire accounts for almost a quarter of Wales's total crop and horticultural production, including over half of its output of potatoes and a third of its barley production. In addition, the county also supports nearly a quarter of Wales's total dairy cattle. Therefore, Pembrokeshire is a special place when it comes to food production and food tourism. It is a natural embodiment of tourism and agriculture—the area's two most prominent industries.

This leads me on to the second part of today's debate: the local produce scene in Pembrokeshire and promoting the benefits of locally sourced food internally to the residents of Pembrokeshire. Promoting local produce is a win-win situation. It can attract visitors, as we have discussed, it promotes healthy living to local people, and it helps reduce food miles. It is essential that the Welsh Assembly Government ensures that there is a strong joined-up approach in promoting locally sourced food. Policies such as 'One Wales: One Planet' and 'Our Healthy Future' are cross-portfolio policies that address issues for the food sector. While it is good to have this integration, the Welsh Assembly Government must make sure that the message of promoting locally sourced produce is understood and not lost among the pile of Welsh Assembly Government policy messages.

I would also urge the Welsh Assembly Government to strengthen its links with Pembrokeshire County Council to provide a collaborative partnership that promotes benefits of local sourcing and further educates the people of Pembrokeshire about growing, cooking, and eating local food. The local sourcing action plan 2009 states that

'within each region studies will be carried out on the seasonal availability of local products and this should be disseminated to restaurants and other hospitality providers'.

6.20 p.m.

yw twristiaeth bwyd yn bwysig i'r diwydiant twristiaeth lleol yn Sir Benfro a gorllewin Cymru yn unig, mae'n bwysig hefyd i'r diwydiant amaeth. Gwyddom fod gweithgarwch amaethyddol yn Sir Benfro yn gyfrifol am bron i chwarter cyfanswm cynhyrchiant cnydau garddwriaethol Cymru, gan gynnwys dros hanner ei gynnyrch o datws a thraean o'i haidd. Yn ogystal, mae'r sir hefyd yn gartref i bron i chwarter cyfanswm gwartheg godro Cymru. Felly, mae Sir Benfro yn lle arbennig pan ddaw i gynhyrchu bwyd a thwristiaeth bwyd. Mae'n ymgorfforiad naturiol o dwristiaeth ac amaethyddiaeth—dau ddiwydiant mwyaf blaenllaw yr ardal.

Mae hyn yn fy arwain at ail ran dadl heddiw: y sin cynnyrch lleol yn Sir Benfro a hybu manteision bwyd lleol yn fewnol i drigolion Sir Benfro. Mae pawb ar eu hennill o hyrwyddo cynnyrch lleol. Gall ddenu ymwelwyr, fel rydym wedi ei drafod, gall hyrwyddo byw'n iach i bobl leol, ac mae'n helpu i leihau milltiroedd bwyd. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau dull cydgyssylltiedig cryf o ran hyrwyddo bwyd o ffynonellau lleol. Mae polisiau megis 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' ac 'Ein Dyfodol Iach' yn bolisiau traws-bortffolio sy'n ymdrin â materion i'r sector bwyd. Er ei bod yn dda cael yr integreiddio hwn, rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod y neges am hyrwyddo cynnyrch lleol yn cael ei deall ac nid ei cholli ymysg y pentwr o negeseuon polisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Byddwn hefyd yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i gryfhau ei chysylltiadau â Chyngor Sir Penfro i ddarparu partneriaeth gydweithredol sy'n hyrwyddo manteision sicrhau ffynonellau lleol ac sy'n addysgu pobl Sir Benfro ymhellach am dyfu, coginio a bwyta bwyd lleol. Mae cynllun gweithredu cyrchu lleol 2009 yn datgan

'bydd astudiaethau'n cael eu gweithredu yn y ddau ranbarth ar argaeledd tymhorol cynnyrch lleol a dylai hynny gael ei rannu gyda bwytaï a darparwyr lletygarwch eraill.'

In the case of Pembrokeshire, I would be grateful for the Minister's comments on the progress of these studies, and I call on the Minister to publish the findings so that local authorities, community groups and other organisations may work together to analyse these data and to market and promote local sourcing more effectively.

Pembrokeshire County Council has been successful in educating children and young people about the benefits of sourcing locally through events such as the 'Grow it! Cook it! Eat it!' project. This is an annual five-day event for children aged between nine and 11. Its aim is to make them aware of the farm-to-fork process and the importance of healthy eating. At the workshops, children have the opportunity to learn how to grow plants and use local food for cooking, and about the importance of agriculture and looking after the environment. This is another great event in Pembrokeshire, and I know that the Welsh Assembly Government has taken an interest in this project, as the Minister for Health and Social Services visited some years ago. Given this interest, I hope that the Welsh Assembly Government will look at developing strategies all year round in relation to educating children about locally sourced food. I hope that the 'Grow it! Cook it! Eat it!' project is something that could be rolled out across Wales.

We live in a country where the demand for locally sourced produce is increasing, so it is important that our Government caters for the demand and educates people from a young age about the origins of food and the farming industry. The increase in demand for locally sourced food is illustrated in a south-west Wales business trade survey, published in November 2010. It showed that 96 per cent of the businesses that use food sourced local produce. It is essential that the Welsh Assembly Government supports farmers through the development of farmers' markets and farm shops. In Pembrokeshire, Haverfordwest farmers' market was the National Farmers' Retail and Markets Association farmers' market for 2005-06, the True Taste retail gold winner for 2005-06, and the National Farmers' Retail and Markets

Yn achos Sir Benfro, byddwn yn ddiolchgar am sylwadau'r Gweinidog ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran yr astudiaethau hyn, ac yr wyf yn galw ar y Gweinidog i gyhoeddi'r canfyddiadau fel y gall awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill weithio gyda'i gilydd i ddadansoddi'r data hyn ac marchnata a hyrwyddo mwy o ffynonellau lleol yn effeithiol.

Bu Cyngor Sir Penfro yn llwyddiannus o ran addysgu plant a phobl ifanc am y manteision o ddod o hyd i fwyd yn lleol drwy ddigwyddiadau fel y prosiect 'O'r Ardd, I'r Gegin, I'r Bola!' Dyma ddigwyddiad pum diwrnod blynyddol i blant rhwng naw ac 11. Ei nod yw rhoi gwybod iddynt am y broses o'r fferm i'r fforc a phwysigrwydd bwyta'n iach. Yn y gweithdai, mae plant yn cael y cyfle i ddysgu sut i dyfu planhigion a defnyddio bwyd lleol ar gyfer coginio, ac am bwysigrwydd amaeth a gofalu am yr amgylchedd. Mae hwn yn ddigwyddiad rhagorol arall yn Sir Benfro, a gwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd diddordeb yn y prosiect hwn, gan i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymweld rai blynyddoedd yn ôl. O ystyried y diddordeb hwn, gobeithio y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych ar ddatblygu strategaethau drwy gydol y flwyddyn o ran addysgu plant am fwyd o ffynonellau lleol. Gobeithio y bydd y prosiect 'O'r Ardd, I'r Gegin, I'r Bola!' yn rhywbeth y gellid ei gyflwyno ledled Cymru.

Rydym yn byw mewn gwlad lle mae'r galw am gynnyrch lleol yn cynyddu, felly mae'n bwysig bod ein Llywodraeth yn darparu ar gyfer y galw ac yn addysgu pobl o oedran cynnar am darddiad bwyd a'r diwydiant ffermio. Mae'r cynnydd yn y galw am fwyd o ffynonellau lleol yn cael ei ddangos mewn arolwg masnach busnes de-orllewin Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2010. Mae'n dangos bod 96 y cant o'r busnesau yn defnyddio bwyd o ffynonellau lleol. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi ffermwyr drwy ddatblygu marchnadoedd ffermwyr a siopau fferm. Yn Sir Benfro, marchnad Hwlfordd oedd marchnad ffermwyr y flwyddyn FARMA ar gyfer 2005-06, enillydd Gwir Flas am fanwerthu ar gyfer 2005-06, ac enillydd rhanbarthol FARMA ar gyfer 2006-07. Mae

Association regional winner for 2006-07. Farmers' markets provide a platform for some people to set up their own businesses, and they are also a great way of promoting existing businesses in the area and advertising locally sourced products.

Although the new food strategy is ambitious and proactive in many ways, there is a lack of attention paid to farmers' businesses and markets, and I would have liked to see more support for farming businesses in that document. Today's farmers' markets could play a vital role in the future food tourism sector, and it is important that new farming businesses are encouraged to participate in these events.

The final issue that I wish to raise in the debate is that of allotments. As there is an increase in the number of people in Pembrokeshire looking to grow their own food, allotments can play an important role in helping people to understand more about local food, as well as having obvious social benefits, such as community cohesion. In addition to individual allotment sites, there has been a growing demand for communal allotments, with many communities keen to set up an allotment that the local community can be a part of. These allotments also bind the local community together and are a great way of teaching children the benefits of working with nature as well as giving them the opportunity to learn about healthy eating and local wildlife. I have been working closely with some communities in Pembrokeshire that are looking to develop allotment sites, and, in my opinion, this is crucial if we are going to see a continued increase in the demand for local produce.

I urge the Minister for Rural Affairs and the Minister for Heritage to look at the importance of Pembrokeshire to the agriculture and tourism industries. I hope that they will give the issues that I have mentioned today full consideration when developing strategies for Welsh food tourism and local produce in future. Clearly, Pembrokeshire is the food tourism capital and the place for local produce. I urge everyone who is watching and listening to this debate today to come to Pembrokeshire and taste the

marchnadoedd ffermwyr yn rhoi llwyfan i rai pobl sefydlu eu busnesau eu hunain, ac maent hefyd yn ffordd wych o hyrwyddo busnesau presennol yn yr ardal a hysbysebu cynnyrch o ffynonellau lleol.

Er bod y strategaeth bwyd newydd yn uchelgeisiol ac yn rhagweithiol mewn sawl ffordd, ni roddir digon o sylw i fusnesau a marchnadoedd ffermwyr, a byddwn wedi hoffi gweld mwy o gefnogaeth i fusnesau ffermio yn y ddogfen honno. Gallai marchnadoedd ffermwyr heddiw chwarae rhan hanfodol yn y sector twristiaeth bwyd yn y dyfodol, ac mae'n bwysig bod busnesau ffermio newydd yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y digwyddiadau hyn.

Y mater olaf rwyf am ei godi yn y ddadl yw rhandiroedd. Gan fod cynnydd yn nifer y bobl yn Sir Benfro sy'n awyddus i dyfu eu bwyd eu hunain, gall rhandiroedd chwarae rhan bwysig wrth helpu pobl i ddeall mwy am fwyd lleol, yn ogystal â chreu manteision cymdeithasol amlwg, megis cydlyniant cymunedol. Yn ogystal â safleoedd rhandiroedd unigol, bu galw cynyddol am randiroedd cymunedol, gyda llawer o gymunedau yn awyddus i sefydlu rhandir y gall y gymuned leol fod yn rhan ohono. Mae rhandiroedd hefyd yn dod â'r gymuned leol at ei gilydd ac yn ffordd wych o ddysgu plant am y manteision o weithio â natur yn ogystal â rhoi cyfle iddynt ddysgu am fwyta'n iach a bywyd gwyllt lleol. Bûm yn gweithio'n agos gyda rhai cymunedau yn Sir Benfro sy'n awyddus i ddatblygu safleoedd rhandiroedd, ac, yn fy marn i, mae hyn yn hanfodol os ydym am weld cynnydd parhaus yn y galw am gynnyrch lleol.

Anogaf y Gweinidog dros Faterion Gwledig a'r Gweinidog dros Dreftadaeth i edrych ar bwysigrwydd Sir Benfro i amaethyddiaeth a thwristiaeth. Rwy'n gobeithio y byddant yn rhoi ystyriaeth lawn i'r materion yr wyf wedi sôn amdanynt heddiw wrth ddatblygu strategaethau ar gyfer twristiaeth bwyd o Gymru a chynnyrch lleol yn y dyfodol. Yn amlwg, Sir Benfro yw prifddinas twristiaeth bwyd a'r lle ar gyfer cynnyrch lleol. Rwy'n annog pawb sy'n gwyllo ac yn gwrando ar y ddadl heddiw i ddod i Sir Benfro a blasu'r

food and drink that we have to offer. It is truly an amazing experience.

Kirsty Williams: I congratulate Paul on the most excellent advertising job that he has done in the Chamber this afternoon on behalf of his constituents. I would agree, Paul, that Pembrokeshire probably does push Powys closely, but as a loyal representative of Brecon and Radnorshire, I could never quite allow you to claim the title of food capital for Pembrokeshire. However, having enjoyed the delights of Fishguard farmers' market, I can attest to the wonderful work that is going on in your constituency and the local authority area to develop new products, bring them to market and provide a sustainable source of income for many of those businesses.

As you alluded to, many people—and the most recent surveys suggest that this is true of more and more people—want to buy local produce. There is sometimes controversy over whether something that is labeled as local is truly local. I am sure that you will agree, Paul, and maybe the Minister can look into it, that there is a scheme in Ireland that kitemarks restaurants that genuinely serve locally produced food and the Irish Government has a role in promoting those restaurants and that scheme. It encourages people going out to eat to choose a restaurant that has been properly accredited and certified as serving local food. We could usefully look to do that, to encourage more people, including tourists in Pembrokeshire and across Wales, to choose restaurants and outlets that serve genuinely local, Welsh-produced food. Maybe we can look to introduce that in the next Assembly term.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Diolch i Paul am gyflwyno'r ddadl fer hon yn pwysleisio pwysigrwydd cynnyrch lleol i'r diwydiant twristiaeth yn sir Benfro a Chymru. Fel y nododd Kirsty, byddwn yn meddwl bod sawl sir arall yng Nghymru a fyddai hefyd am gael ei galw'n brif gyrchfan neu'n brifddinas twristiaeth bwyd. Yn ogystal â sir Benfro, yr wyf yn siŵr y byddai'r sir drws nesaf—Ceredigion—hefyd eisiau cystadlu am y teitl hwnnw.

bwyd a diod sydd gennym i'w gynnig. Mae'n wir yn brofiad anhygoel.

Kirsty Williams: Rwyf yn llongyfarch Paul ar y gwaith hysbysebu rhagorol y mae wedi'i wneud yn y Siambr y prynhawn yma ar ran ei etholwyr. Byddwn yn cytuno, Paul, ei bod yn bur debyg fod Sir Benfro ail agos iawn i Bowys, ond fel cynrychiolydd ffyddlon Brycheiniog a Sir Faesyfed, ni allwn byth eich caniatáu i hawlio teitl prifddinas bwyd i Sir Benfro. Fodd bynnag, ar ôl mwynhau pleserau marchnad ffermwyr Abergwaun, gallaf dystio i'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yn eich etholaeth a'r ardal awdurdod lleol i ddatblygu cynnyrch newydd, dod â hwy i'r farchnad a rhoi ffynhonnell gynaliadwy o incwm i lawer o'r busnesau hynny.

Fel y gwnaethoch ddweud, mae llawer o bobl—ac mae llawer o'r arolygon diweddaraf yn awgrymu bod hyn yn wir am nifer gynyddol o bobl—eisiau prynu cynnyrch lleol. Weithiau, ceir dadlau ynghylch a yw rhywbeth sy'n cael ei labelu'n lleol wir yn lleol. Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno, Paul, ac efallai y gall y Gweinidog edrych i mewn i hyn, sef fod cynllun yn Iwerddon sy'n rhoi nodyn barcod i fwytai sydd wir yn gweini bwyd a gynhyrchir yn lleol ac mae gan Lywodraeth Iwerddon rôl o ran hybu'r bwytai hynny a'r cynllun hwnnw. Mae'n annog pobl sy'n mynd allan i fwyta i ddewis bwyty sydd wedi'i achredu'n briodol ac yr ardystiwyd ei fod yn gweini bwyd lleol. Gallem edrych ar wneud hynny, er mwyn annog mwy o bobl, gan gynnwys twristiaid yn Sir Benfro ac ar draws Cymru, i ddewis bwytai a siopau sy'n gwasanaethu bwyd gwirioneddol leol a gynhyrchwyd yng Nghymru. Efallai y gallwn edrych i gyflwyno hynny yn nhymor nesaf y Cynulliad.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): Thank you, Paul, for bringing forward this short debate highlighting the importance of local produce to the tourism industry in Pembrokeshire and Wales. As Kirsty notes, I would have thought that a number of other counties would also wish to be known as the food tourism capital. As well as Pembrokeshire, I am sure that the neighbouring county—Ceredigion—would want to compete for that title.

Bellach, ceir cydnabyddiaeth gyffredinol bod bwyd yn rhan bwysig o dwristiaeth yng Nghymru, ac mae'r gydnabyddiaeth hon wedi tyfu'n sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae mwy a mwy o bobl yn ystyried bwyd a lleoedd bwyta wrth benderfynu lle i fynd ar wyliau ac mae'r profiad o leoedd bwyd da yn ffactor allweddol wrth ddylanwadu ar bobl i ddychwelyd i ardal. Mae twristiaeth yn enghraifft ragorol o faes y mae gan y Llywodraeth ddylanwad arno lle gall bwyd chwarae rôl allweddol. Gall bwyd a gwasanaeth bwyd o ansawdd da hybu enw da Cymru fel cyrchfan flaenllaw ar gyfer twristiaeth gynaliadwy. Gall darparu bwyd o Gymru mewn lleoliadau twristiaeth hyrwyddo datblygiad economaidd a hybu twristiaeth amgylcheddol a diwylliannol. Drwy weithio fel hyn bydd twristiaid yn gwerthfawrogi eu profiadau ac yn cael eu hannog i ddychwelyd i sir Benfro a rhannau eraill o Gymru.

Ym mis Mai 2009, lansiais i a'r Gweinidog dros Dreftadaeth y cynllun gweithredu twristiaeth bwyd, fel y nododd Paul yn ei gyfraniad, ar gyfer y diwydiant twristiaeth. Yr oedd yn gosod cynigion i feithrin cysylltiadau rhwng bwyd a thwristiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu i'r eithaf i economi Cymru. Yn y cynllun nodwyd blaenoriaethau i'r dyfodol ar gyfer datblygu bwyd o Gymru i ymwelwyr, ac amlinellwyd sut gall Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn y sectorau preifat a chyhoeddus gydweithio i hyrwyddo Cymru i ymwelwyr sy'n chwilio am fwyd a diod o safon uchel.

Mae'r cynllun gweithredu'n canolbwyntio ar sut gall caffael bwyd lleol a datblygu marchnadoedd a siopau ffermwyr gyfrannu at dwf twristiaeth bwyd yng Nghymru. Mae'r cynllun hefyd yn amlinellu'r angen i leihau effaith amgylcheddol twristiaeth ac yn annog defnyddio bwyd fel ffordd o wneud ardaloedd gwledig Cymru yn fwy deniadol ac unigryw, fel sydd wedi ei weld gan lwyddiant sir Fynwy a sir Benfro, a gydnabuwyd yng ngwobrau'r Gwir Flas.

Mae sir Benfro yn denu dros 4 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn ac mae bwyd a diod lleol yn chwarae rôl allweddol yn natblygiad

It is now widely accepted that food is an important part of the tourism offer in Wales, and we have seen this recognition grow considerably over the last 10 years. More and more people are now considering food and restaurants when deciding where to take their holidays, and the experience of good restaurants is also a crucial factor in encouraging people to return to any particular area. Tourism is an excellent example of a field in which the Government has influence where food can play a crucial role. Food and good-quality service can promote Wales's reputation as a prominent destination for sustainable tourism. Providing Welsh food in tourist locations can promote economic development and boost environmental and cultural tourism. This approach means that tourists will highly value their experiences and be encouraged to return to Pembrokeshire and other parts of Wales.

In May 2009, along with the Minister for Heritage, I launched the food tourism action plan, as Paul noted in his speech, for the tourism industry. It put in place schemes to foster links between food and tourism to ensure that they make the biggest contribution possible to the Welsh economy. In the scheme, priorities were noted for the future development of Welsh foods for visitors, and it was outlined how the Welsh Government and its partners in the public and private sectors can work together to promote Wales as a destination of choice for visitors seeking high-quality food and drink.

The action plan concentrates on how procuring local food and developing farmers' markets and farm shops can increase food tourism in Wales. The scheme also outlines the need to mitigate the environmental impact of tourism and encourages using food as a means of making rural parts of Wales more attractive and unique, as demonstrated by the experience of Monmouthshire and Pembrokeshire, recognised in the True Taste awards.

Pembrokeshire attracts over 4 million visitors each year and local food and drink play a key role in the economic development of the

economaidd y sir, yn ogystal â gwella'r profiad i ymwelwyr, sy'n gwario tua £500 miliwn yn y rhanbarth—gyda bwyd a diod yn gyfrifol am tua £87 miliwn ohono. Felly, mae'n gyfraniad sylweddol iawn.

county, as well as in enhancing the visitor experience. Visitors spend around £500 million in that region—with food and drink accounting for some £87 million of that. Therefore, it makes a very significant contribution.

Mae digonedd o ddewis ar gael i ymwelwyr sy'n chwilio am weithgareddau bwyd yn sir Benfro, gydag amrywiaeth eang o farchnadoedd gwledig a marchnadoedd ffermwyr ar draws y sir. Gall ymwelwyr weld, blasu a phrynu cynnyrch lleol, ac efallai'n bwysicach na hynny, gallant gwrdd â rhai o'r ffermwyr a'r cynhyrchwyr sy'n gyfrifol am y cynnyrch. Wrth i'r diwydiant twristiaeth fynd yn fwyfwy cystadleuol, mae cynnig diwylliant unigryw yn hanfodol i unrhyw gyrchfan. Mae diwylliant a ffordd pobl leol o fyw yn hollbwysig i unrhyw gyrchfan er mwyn bod yn unigryw felly, ac mae'r bwyd yn rhan annatod o hynny.

There is plenty of choice available for people looking for food-related activities in Pembrokeshire, with a wide variety of rural markets and farmers' markets across the county. Visitors can view, taste and buy local produce and, more importantly perhaps, meet some of the farmers and producers responsible for that produce. As the food tourism industry becomes more and more competitive, offering a unique culture is crucial for any destination. The local culture and way of life is vital for any destination in order for it to be unique, and food plays an integral part of that.

6.30 p.m.

Mae digwyddiadau fel Gŵyl Fwyd Arberth, gŵyl fwyd Wyllt i Wala y soniodd Paul amdani, a Phencampwriaeth Coginio Cawl y Byd a Mannau Eraill, a gynhelir ar Ddydd Gŵyl Dewi yn Saundersfoot, i gyd yn chwarae rhan fawr o ran denu ymwelwyr i'r sir. Mae'r digwyddiadau hyn yn elwa ar gymorth drwy gynllun datblygu gwledig y Llywodraeth fel bod modd arloesi i danio'r dychymyg a rhoi blas go iawn ar yr ardal i ymwelwyr.

Events such as the Narberth Food Festival, the Really Wild food festival that Paul mentioned, and the Cawl Cooking Championship of the World and Elsewhere, held on St David's Day in Saundersfoot, all play a large part in attracting visitors to the county. These events benefit from assistance through the Government's rural development scheme to allow innovations that can fire the imagination and give visitors a real taste of the area.

Nid oedolion yn unig sy'n elwa ar ddigwyddiadau i hyrwyddo cynnyrch lleol. Mae'r fenter Ei Dyfu, Ei Goginio, Ei Fwyta, a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Penfro ac a ariennir yn rhannol gan fy adran i, yn addysgu plant ysgol yn sir Benfro am fanteision tyfu, prynu a choginio cynnyrch lleol. Mae mentrau fel hon yn hanfodol ar gyfer addysgu cwsmeriaid y dyfodol am gynaliadwyedd a phwysigrwydd deiet iach.

It is not only adults who benefit from events to promote local produce. The Grow it, Cook it, Eat it initiative, developed by Pembrokeshire County Council and partly funded by my department, teaches schoolchildren in Pembrokeshire about the benefits of growing, buying and cooking local produce. Initiatives such as this are vital for educating the customers of the future about sustainability and the importance of a healthy diet.

Mae'n deg dweud bod sir Benfro wedi bod yn llwyddiannus ar hyd y blynyddoedd, ac mae digwyddiadau nodedig fel Wythnos Bysgod Sir Benfro wedi ennill y teitl am gyrchfan twristiaeth bwyd 2009 yng ngwobrau'r Gwir Flas. O edrych dros y 10

It is fair to say that Pembrokeshire has been successful over the years, with such notable events as Pembrokeshire Fish Week winning the title of food tourism destination 2009 at the True Taste awards. Looking back over the 10 years since the True Taste awards were

mlynedd ers sefydlu gwobrau'r Gwir Flas, mae gan sir Benfro record heb ei hail am gynnyrch sydd wedi ennill rhai o'r gwobrau. Felly, ni fydd yn syndod i nifer o bobl mai sir Benfro oedd y dewis amlwg wrth benderfynu ar leoliad seremoni wobrwyo y Gwir Flas y llynedd. Ar noson y gwobrwyo ym mis Tachwedd, yr oedd mwy o'r enillwyr yn dod o sir Benfro nag o unrhyw sir arall, gyda Cheredigion yn ail agos, gyda llaw.

Mae'r llwyddiannau hyn yn dyst i'r gwaith partneriaeth sydd wedi bod yn digwydd yn y sir ers tro. Mae PLANED, sef grŵp LEADER sir Benfro, a'r ffaith bod gan Gyngor Sir Penfro swyddog bwyd, yn arwydd o ymrwymiad y cyngor ac eraill yn y sir wledig hon i hyrwyddo bwyd lleol i bobl leol ac ymwelwyr. Mae'r swyddog bwyd yn gosod esiampl y dylai awdurdodau lleol eraill ei dilyn os ydynt am ehangu eu darpariaeth o fwyd a thwristiaeth bwyd. O'r hyn yr wyf fi fel Gweinidog wedi ei weld—a soniodd Paul am rai o'r busnesau a digwyddiadau yn sir Benfro yr ydym wedi ymweld â hwy dros y pedair blynedd diwethaf—mae'r ffaith bod y cyngor sir wedi penodi swyddog bwyd i arwain, gyda brwdfrydedd, llawer o'r gwaith hwn yn dda. Mae wedi gweithio gyda'r sector preifat ac wedi datblygu mentrau a busnesau llwyddiannus iawn yn y sir. Mae hynny'n fodel i nifer o siroedd eraill. Heb ymrwymiad, arbenigedd a buddsoddiad o'r fath, mae'n annhebygol y byddai'r sir wedi datblygu mentrau fel marchnad ffermwyr Hwlfordd, sydd wedi ennill nifer o wobrau a thystysgrifau, a lle gall pobl leol ac ymwelwyr brynu'r cynnyrch lleol gorau bob pythefnos.

Sir Benfro yw un o'r siroedd prin sydd â nod cynnyrch sy'n cael ei arddangos gan westai ac ati fel bod ymwelwyr yn gwybod eu bod yn bwyta mewn lleoedd sy'n rhoi cynnyrch lleol sir Benfro ar eu bwydlenni. Er ei fod yn fenter wirfoddol ar hyn o bryd, fel y dywedodd Kirsty Williams, mae busnesau yn sir Benfro yn gweld gwerth mewn hysbysebu'r ffaith eu bod yn defnyddio cynnyrch lleol, ac efallai y bydd y Cynulliad nesaf yn edrych arno ymhellach, gan ystyried cael model fel hwnnw yn Iwerddon, y cyfeiriodd Kirsty ato.

established, Pembrokeshire has a track record second to none for some of its prize-winning produce. Therefore, it will come as no surprise to many people that Pembrokeshire was the obvious choice when deciding on the location of the True Taste awards ceremony last year. On the night of the awards in November, more of the winners came from Pembrokeshire than from any other county, with Ceredigion coming a close second, by the way.

These successes are testament to the partnership work that has been happening in the county for some time. PLANED, the LEADER group for Pembrokeshire, and the fact that Pembrokeshire County Council has a food officer are a sign of the commitment of the council and others in this rural county to promote local food for local people and visitors. The food officer sets an example that other local authorities should follow if they want to expand their provision of food and food tourism. From what I have seen as Minister—Paul talked about some of the businesses and events in Pembrokeshire that we have visited over the last four years—the fact that the county council has appointed a food officer to lead, with enthusiasm, much of this work is good. She has worked with the private sector and has helped highly successful initiatives and businesses to develop in the county. That is a model for many other counties. Without commitment, expertise and investment of this kind, it is unlikely that the county would have developed initiatives such as Haverfordwest farmers' market, which has won numerous awards and certificates, and where locals and visitors can buy the best local produce once a fortnight.

Pembrokeshire is one of the counties with a kitemark that is displayed by hotels and so on, so that visitors know that they are eating at places that put local Pembrokeshire produce on their menus. Although it is a voluntary initiative at the moment, as Kirsty Williams said, businesses in Pembrokeshire see value in advertising the fact that they use local produce, and perhaps the next Assembly will look at this issue further, to consider a model similar to that operated in Ireland, to which Kirsty referred.

Mae'r sector preifat wedi gweld buddsoddiad sylweddol mewn cynhyrchu bwyd a diod o safon i'w alluogi i fodloni disgwyliadau'r cwsmeriaid. Mae'r cynllun datblygu gwledig wedi chwarae rhan fawr o ran cynorthwyo'r sector bwyd-amaeth yn sir Benfro i ychwanegu gwerth at ei gynnyrch. Mae wedi galluogi ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd i wella'u perfformiad a bod yn fwy cystadleuol. Mae'n golygu y gallant fod yn arloesol er mwyn gwasanaethu a manteisio ar farchnadoedd newydd a phresennol, a rhai sydd yn datblygu ar hyn o bryd. Hyd yn hyn, mae cynllun grant prosesu a marchnata Llywodraeth Cymru wedi rhoi grantiau o fwy na £800,000 i fusnesau bwyd a diod yn sir Benfro, ac mae cyfanswm y buddsoddiad ers 2007 yn fwy na £1.6 miliwn. Mae cynllun effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi, o dan y cynllun datblygu gwledig, yn cynorthwyo cydweithredu a throsglwyddo gwybodaeth yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer ffermwyr a choedwigwyr. Mae hynny wedi bod yn bwysig o ran ariannu rhai prosiectau yn sir Benfro hefyd, gyda chymorth grant o bron i £0.5 miliwn wedi'i ddyfarnu hyd yma.

Un o'r prosiectau mwyaf o dan y cynllun hwn yw'r arloesol Pembrokeshire Produce Direct, sy'n enghraifft dda o gynhyrchwyr bwyd yn dod ynghyd i ddefnyddio technoleg gwybodaeth i roi gwasanaeth penodol i gwsmeriaid. Datblygwyd y cynllun gan gynhyrchwyr a oedd yn gweithredu ym marchnad ffermwyr Hwlfordd i ddechrau, sydd wedi symud ymlaen i fanteisio ar greu platform ar-lein, lle gall cwsmeriaid ddewis amrywiaeth o gynnyrch lleol i'w ddsbarthu yn syth i'w cartrefi bob wythnos.

Ym mis Rhagfyr, fel y soniodd Paul yn ei gyflwyniad, lansiâs strategaeth fwyd Cymru, sef 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010:2020—Strategaeth Fwyd i Gymru', sy'n amlinellu gweledigaeth bellgyrhaeddol ar gyfer bwyd yng Nghymru, ac yn cynnig ffordd o fynd i'r afael a nifer o'r materion sy'n gysylltiedig â bwyd. Mae'n strategaeth nid yn unig i Lywodraeth, gan ei bod wedi'i datblygu ar y cyd â'r sectorau busnes ac academaidd. Mae'n bwysig ei bod yn cael ei gweithredu gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i sicrhau bod y

The private sector has seen significant investment in the production of quality food and drink to enable it to meet customer expectations. The rural development plan has played a major part in assisting the agri-food sector in Pembrokeshire to add value to their products. This has enabled farmers and food producers to improve their performance and to be more competitive. It means that they can be innovative in order to serve and capitalise on new and existing markets, and those that are currently developing. So far, the Welsh Government's processing and marketing grant scheme has awarded grants of more than £800,000 to food and drink businesses in Pembrokeshire, and the total investment since 2007 is more than £1.6 million. The supply chain efficiencies scheme, under the rural development plan, assists collaboration and knowledge transfer in the supply chain for farmers and foresters. That has been important in funding some projects in Pembrokeshire as well, with grant aid of nearly £0.5 million having been awarded to date.

One of the largest projects under this scheme is the innovative Pembrokeshire Produce Direct, which is a good example of food producers coming together to use information technology to provide a specific service to customers. The scheme was developed by producers who were operating in Haverfordwest farmers' market to begin with, and they then moved on to take advantage of the creation of an online platform, where customers can choose a variety of local products to be delivered weekly direct to their homes.

In December, as Paul mentioned in his introduction, I launched a food strategy for Wales, namely 'Food for Wales, Food from Wales 2010:2020—Food Strategy for Wales', which outlines a far-reaching vision for food in Wales, and offers a way of addressing a number of food-related issues. It is not only a strategy for Government, as it has been developed in conjunction with the business and academic sectors. It is important that it is implemented by the public, private and third sectors to ensure that the potential to see real economic value in the food sector

potensial i weld gwerth economaidd gwirioneddol o'r sector bwyd a thwristiaeth yn cael ei wireddu ar hyd a lled Cymru, ac yn benodol, o gofio'r ddadl y prynhawn yma, yn sir Benfro.

and tourism is realised throughout Wales, and specifically, given the topic of this afternoon's debate, in Pembrokeshire.

Y Llywydd: Diolch yn fawr, Weinidog. Mae wastad yn werth diweddu sesiwn o'r Cynulliad yn trafod bwyd. Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

The Presiding Officer: Thank you, Minister. It is always worth ending an Assembly session discussing food. That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.37 p.m.
The meeting ended at 6.37 p.m.*

Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Veronica (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)